# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

# Asesiad o Les Lleol 2017

*Adroddiad Adborth yr Ymgynghoriad*

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad Asesiad o Les o 23 Ionawr i 28 Chwefror 2017. Fe'i hysbysebwyd trwy:

- Wefan Cyngor Abertawe
- Mewnrwyd Cyngor Abertawe
- Tudalen Facebook Cyngor Abertawe
- Llyfrgelloedd yn Abertawe
- Meddygfeydd teulu yn Abertawe
- Partneriaid y BGC
- Grwpiau cydraddoldeb
- Pob ymgynghorai statudol

1.2 Roedd yr ymgynghoriad wedi'i rannu'n ddau: gallai'r ymatebwyr naill ai fod wedi gwneud sylw ar y ddogfen gyfan neu fod wedi cwblhau'r arolwg. Derbyniwyd 159 o arolygon a 10 ymateb sefydliad i'r ddogfen.

1.3 Yn ogystal, cynhaliwyd asesiad annibynnol o les pobl Dinas a Sir Abertawe. Comisiynwyd Miller Research gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, ar ran CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CBS Castell-nedd Port Talbot, Dinas a Sir Abertawe a Bwrdd Iechyd PABM i wneud y gwaith hwn. Casglwyd data trwy gyfres o weithdai/grwpiau ffocws, cyfweliadau un i un gyda rhanddeiliaid, ac arolwg mawr. Cwblhawyd 239 o arolygon gan breswylwyr Abertawe.

1.4 Gallwch ddod o hyd i'r holl ymatebion ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn yr atodiadau.

Rhestr lawn o atodiadau:

Atodiad 1 - Adroddiad Canlyniadau'r Arolwg
Atodiad 2 - Ymateb Llywodraeth Cymru
Atodiad 3 - Ymateb Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Atodiad 4 - Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru
Atodiad 5 - Ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru
Atodiad 6 - Ymateb y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Atodiad 7 - Ymateb Comisiynydd Pobl Hŷn
Atodiad 8 - Ymateb Tai Dinas a Sir Abertawe
Atodiad 9 - Ymateb Argyfyngau
Atodiad 10 - Ymateb Bwrdd Iechyd PABM
Atodiad 11 - Ymateb Panel Craffu Perfformiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Atodiad 12 - Adroddiad Miller Research

## 2. Tabl o Argymhellion

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe'n ymrwymedig i'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. Mae hwn yn argymell 'Y dwedir wrth bobl am effaith eu cyfraniad'.

Mae'r tabl isod felly'n dangos sut mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wedi ymateb i'r holl gynigion a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad ar Asesiad Llesiant drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe. Trafodwyd pob cynnig mewn dau gyfarfod (14-15 Mawrth, 2017) yr aeth arweinwyr canlyniadau unigol iddynt ynghyd â chynrychiolwyr aelodau statudol y BGC. Categoreiddiwyd ymatebion mewn pedair ffordd:

- **A**: Mae'r **a**sesiad wedi cael ei ddiwygio
- **N**: Ar ôl ystyriaeth, **n**i wnaed unrhyw newid
- **R**: Bydd y Grŵp Ymchwil yn ystyried y mater hwn fel rhan o ddatblygu'r asesiad hwn yn 2017/2018
- **P:** Mae hyn yn fater y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei ystyried yn un o'i gyfarfodydd dros y 12 mis nesaf.

| **Cynigion** | **O ble daeth hyn?** | **Ymateb ar ôl ystyriaeth** |
|---|---|---|
| 1) Mae babanod yn cael eu geni'n iach<br><br>Newid sgôr o 5 i 6 | Ymgynghori â'r Cyhoedd | **A**<br><br>Cytunwyd y dylai'r sgôr bresennol ar gyfer y sbardun hwn fod yn 6 |
| 2) Mae plant yn ddiogel rhag niwed<br><br>Newid sgôr o 7 i 6 | Ymgynghori â'r Cyhoedd | **N**<br><br>Dylai'r sgôr bresennol ar gyfer y sbardun hwn fod yn 7. |
| 3) Mae plant, pobl ifanc ac oedolion yn mynychu eu hysgolion a'u cyrsiau hyfforddi.<br><br>Newid sgôr o 7 i 6 | Ymgynghori â'r Cyhoedd | **N**<br><br>Dylai'r sgôr bresennol ar gyfer y sbardun hwn fod yn 7. |

| | | |
|---|---|---|
| 4) Mae pobl yn datblygu'r sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt ac yn gallu dysgu ar hyd eu hoes<br><br>Newid sgôr o 7 i 6 | Ymgynghori â'r Cyhoedd | **A**<br><br>Cytunwyd y dylai'r sgôr bresennol ar gyfer y sbardun hwn fod yn 6 |
| 5) Rhwystrau i gyflogaeth a hyfforddiant yn cael eu dileu<br><br>Newid sgôr o 5 i 4 | Ymgynghori â'r Cyhoedd | **A**<br><br>Cytunwyd y dylai'r sgôr bresennol ar gyfer y sbardun hwn fod yn 4. |
| 6) Mae cyfleoedd da am swyddi'n cael eu creu<br><br>Newid sgôr o 5 i 4 | Ymgynghori â'r Cyhoedd | **A**<br><br>Cytunwyd y dylai'r sgôr bresennol ar gyfer y sbardun hwn fod yn 4. |
| 7) Mae iechyd meddwl a llesiant da gan blant, pobl ifanc ac oedolion<br><br>Newid sgôr o 5 i 4 | Ymgynghori â'r Cyhoedd | **A**<br><br>Cytunwyd y dylai'r sgôr bresennol ar gyfer y sbardun hwn fod yn 4. |
| 8) Mae pobl hŷn yn heneiddio'n dda ac yn cael eu cefnogi i barhau'n annibynnol<br><br>Newid sgôr o 5 i 4 | Ymgynghori â'r Cyhoedd | **N**<br><br>Dylai'r sgôr bresennol ar gyfer y sbardun hwn fod yn 5. |
| 9) Mae pobl yn byw mewn cymunedau cryf ac amgylcheddol gynaliadwy<br><br>Newid sgôr o 5 i 4 | Ymgynghori â'r Cyhoedd | **A**<br><br>Cytunwyd y dylai'r sgôr bresennol ar gyfer y sbardun hwn fod yn 4. |
| 10) Mae pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chymunedol yn ôl | Ymgynghori â'r Cyhoedd | **N** |

| | | |
|---|---|---|
| eu hanghenion<br><br>Newid sgôr o 6 i 5 | | Dylai'r sgôr bresennol ar gyfer y sbardun hwn fod yn 6. |
| 11) F: Mae gan bobl fannau da i fyw a gweithio ynddynt, ac ymweld â nhw<br><br>Serch hynny, ymddengys fod bwlch yn y dystiolaeth sy'n ymwneud â'r amgylchiadau lle ni chafodd digartrefedd ei atal. Pen pellaf y sbectrwm i bobl yn y sefyllfa hon yw cysgu ar y stryd, a bydd y dystiolaeth ddiweddaraf yn cadarnhau bod hyn ar gynnydd yn Abertawe, yn enwedig o ran y bobl hynny ag anghenion cymhleth. | Crisis Skylight De Cymru | **R**<br><br>I'w ystyried fel bwlch tystiolaeth ac yn rhywbeth i fynd i'r afael ag ef wrth ddatblygu'r asesiad yn y dyfodol. |
| 12) F: Mae gan bobl fannau da i fyw a gweithio ynddynt, ac ymweld â nhw<br><br>Elfen benodol yr ymddengys ei bod wedi'i hepgor o'r adran ar Ganlyniad Poblogaeth F yw unrhyw gyfeiriad at y newidiadau sydd ar ddod i Lwfans Tai Lleol ar gyfer pobl dan 35 oed a'r angen diamod am gynnydd mewn darpariaeth ar gyfer opsiynau tai fforddiadwy a rennir. | Crisis Skylight De Cymru | **A**<br><br>Ychwanegwyd pwynt bwled at adran F2 ('Rhagolygon i'r Dyfodol') |
| 13)F2.1 Sicrhau bod gan bobl dai fforddiadwy o safon, sy'n ynni-effeithlon ac yn hyblyg<br>Sut olwg fyddai ar welliant?<br><br>• Digon o dai i ateb y galw, gan gynnwys tai fforddiadwy a chymdeithasol.<br><br>Mae'n golygu mwy na 'thai digonol i ateb y galw' mae'n ymwneud â pha mor briodol yw'r tai sydd | Crisis Skylight De Cymru | **A**<br><br>Diwygiwyd pwynt bwled yn adran F2 i adlewyrchu hyn.<br><br>Hefyd **R:** mae hyn yn codi materion ehangach y mae'n rhaid i'r Grŵp Ymchwil eu hystyried ymhellach. |

| | | |
|---|---|---|
| ar gael. Mae hyn yn mynd i fod yn her sylweddol i'r ALl ac LCC eraill dros y blynyddoedd nesaf ac ymddengys fod hyn wedi'i hepgor o'ch ffynonellau tystiolaeth. Nid yw'r geiriad rydych yn ei argymell ar hyn o bryd yn adlewyrchu'n llawn ddifrifoldeb ac agosrwydd y mater hwn. Drwy beidio â chyfeirio at hyn mae'r newid yn wrthgynhyrchiol i'r ffaith fod y naratif ar gyfer yr agwedd hon o'r Canlyniad Poblogaeth yn cyfeirio at atal digartrefedd. | | |
| 14) A2: Mae plant yn ddiogel rhag niwed<br><br>Mae angen ychwanegu hyn:<br>Yr Adran Tai yn cyfrannu at y canlyniad hwn gyda'n polisi ailgartrefu sy'n seiliedig ar anghenion, rôl UCT/PYT etc. ynghyd â'r STR ar stadau lle mae swyddogion yn gweithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd e.e darparu celfi/pecynnau ar gyfer babanod | Tai, Dinas a Sir Abertawe | **A**<br><br>Ychwanegwyd pwynt bwled at adran F2 ('Cryfderau Abertawe'). |
| 15) E3: Mae pobl hŷn yn heneiddio'n dda ac yn cael eu cefnogi i barhau'n annibynnol<br><br>A ddylai fod cyfeiriad at drawstoriad da o lety i bobl hŷn, gyda chyfeiriad penodol at ein stoc (er gwaetha'r ffaith fod ein stoc yn ganran fach o gyfanswm stoc y ddinas a'r sir). Gallai hefyd gynnwys cyfeiriad at y ffaith fod llety ar gael gyda chefnogaeth lefel isel sy'n helpu i liniaru peth o'r pwysau ar wasanaethau megis y rhai a ddarperir gan gartrefi preswyl a nyrsio, iechyd etc. | Tai, Dinas a Sir Abertawe | **A**<br><br>Ychwanegwyd cyfeiriad at y materion hyn yn adran 'Ynghylch y Dystiolaeth' sbardun E3. |

| | | |
|---|---|---|
| 16) E4: Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel<br><br>Mae angen cyfeirio dan YG at effaith troseddu sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Efallai fod eisiau cyfeirio hefyd at ein UCC, ynghyd â'r gwaith rhagweithiol rydym yn ei wneud gyda phartneriaid ar ein stadau e.e. system gofalwr o bell mewn nifer o flociau uchel.<br>Ni cheir cyfeiriad at yr henoed yn teimlo'n ddiogel gan y gall hyn gael manteision iechyd e.e. cysgu'n well, cymryd mwy o ran yn eu cymuned felly'n lleihau... | Tai, Dinas a Sir Abertawe | **A**<br><br>Ychwanegwyd pwynt bwled at adran F2 ('Canfyddiadau a safbwyntiau'). |
| 17) F2: Mae gan bobl amgylchedd adeiledig o ansawdd da ac isadeiledd cefnogol<br><br>Dylid newid y sgôr o 4 i 5 | Tai, Dinas a Sir Abertawe | **N**<br><br>Ystyriwyd yr argymhelliad ond ni newidiwyd y sgôr ar yr adeg hon (sylwer: mae sgôr yr asesiad drafft yn cyd-fynd â'r farn yn yr arolwg cyhoeddus) |
| 18) Cyffredinol<br><br>Ymddengys fod rhai ardaloedd yn 'brin o dai' ac nid ydynt yn cydnabod effaith tai ar iechyd a llesiant person. Nid yw'n cael ei grybwyll mewn gwirionedd tan F2 ac F3. Gellid rhoi mwy o bwyslais ar yr effaith ar iechyd meddwl er enghraifft yr amgylchedd cartref. | Tai, Dinas a Sir Abertawe | **R**<br><br>Y Grŵp Ymchwil i'w ystyried fel rhan o ddatblygu'r asesiad ymhellach. |
| 19) Cyffredinol<br><br>Mae'r celfyddydau'n hanfodol i bob agwedd ar | Cyngor Celfyddydau Cymru | **P**<br><br>I'w ystyried mewn cyfarfod o'r Bwrdd |

| | | |
|---|---|---|
| yr agenda llesiant. Hoffem awgrymu bod y celfyddydau o bosib wedi'u tangynrychioli yn yr Asesiad Llesiant. | | Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| 20) Cyffredinol<br><br>Mae angen cysylltiad rhwng y sbardunau gwahanol - mae llawer o'r rhain yn gysylltiedig a gallant gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar ei gilydd. Er enghraifft, gellir gweld dylanwadau amgylcheddol fel llinyn yswllt rhwng llawer o'r canlyniadau. Mae angen i ni ddangos y rhyngweithio hanfodol rhwng y sbardunau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd | Cyfoeth Naturiol Cymru | **P**<br><br>Argymhellir bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnal gweithdy arbennig i fynd i'r afael â mater integreiddio. |
| 21) Cyffredinol<br><br>Mae angen cyswllt cliriach rhwng y data, y modd y caiff ei ddehongli a'n dealltwriaeth o lesiant yn ein cymunedau - mapio sut mae ein sbardunau'n gysylltiedig â'r nodau llesiant. | Cyfoeth Naturiol Cymru | **P**<br><br>Argymhellir bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnal gweithdy arbennig i fynd i'r afael â mater integreiddio. |
| 22) Cyffredinol<br><br>Mae'r sgorau llesiant awgrymedig yn ffordd effeithiol o gyfleu statws canfyddedig y sbardunau. Fodd bynnag, mae angen cefnogi'r rhain â rhesymau dros y ffigur sy'n cael eu cyfleu'n glir, ac efallai bydd angen i sbardunau gael eu rhannu'n nifer o ffigurau e.e. Mae sbardun F1 (mae'r amgylchedd naturiol yn iach ac yn wydn) yn crynhoi swm enfawr o ddata a gwybodaeth mewn un ffigur ac felly gellid | Cyfoeth Naturiol Cymru | **R**<br><br>I'w ystyried gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o werthuso'r asesiad. |

| | | |
|---|---|---|
| cynnwys amryfal ffigurau. | | |
| 23) Cyffredinol<br><br>Mae cynnwys data gofodol yn ffordd effeithiol a diddorol o gyfleu'r gwahaniaethau yn Abertawe rhwng ardaloedd cymunedol - gall hyn roi mwy o ffocws i ni ar le. Mae data gofodol hefyd yn ddull greddfol o asesu statws sbardun (e.e. ansawdd dŵr, data tlodi) a sut mae hyn yn ymwneud â llesiant. | Cyfoeth Naturiol Cymru | **R**<br><br>Bydd y Grŵp Ymchwil yn ystyried sut gellid cryfhau'r agwedd hon ar yr asesiad yn y flwyddyn i ddod. |
| 24) Cyffredinol<br><br>Mae'r Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd 2017 yn darparu crynodeb o risgiau rhyng-gysylltiedig o newid yn yr hinsawdd, a dylid ei gynnwys i helpu asesu'r 'rhagolygon i'r dyfodol' - mae hefyd yn ein helpu i fynd i'r afael â'r risgiau hyn a'n galluogi i feddwl fel Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. | Cyfoeth Naturiol Cymru | **R**<br><br>Adnodd newydd yw hwn a allai gynorthwyo agweddau 'tueddiadau'r dyfodol' ar yr asesiad wrth iddo ddatblygu. |
| 25) Cyffredinol<br><br>Mae angen cyfranogaeth ystod ehangach o randdeiliaid er mwyn cyflawni'r cynllun llesiant fel y gellir ystyried pob grŵp. | Cyfoeth Naturiol Cymru | **P**<br><br>I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod mewn cyfarfod dan bennawd gweithio mewn partneriaeth a 'chynnwys rhanddeiliaid'. |
| 26) Cyffredinol<br><br>Mae rhai materion yn rhai trawsffiniol ac mae angen eu deall a mynd i'r afael â hwy ar y raddfa hon. *E.g. Mae afon Tawe'n tarddu ym* | Cyfoeth Naturiol Cymru | **P**<br><br>I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod mewn cyfarfod dan y pennawd 'gweithio trawsffiniol'. |

| | | |
|---|---|---|
| *Mhowys, yn llifo drwy Gastell-nedd Port Talbot, yna'n draenio i Abertawe ac felly mae angen edrych ar holl faterion ansawdd dŵr. mae rhwydweithiau beicio'n darparu llwybrau teithio actif rhwng ffiniau awdurdodau unedig ac yn fwyaf effeithiol pan gânt eu cynllunio o gwmpas anghenion poblogaethau.* | | |
| 27) Cyffredinol<br><br>Bydd proses mapio effeithiol rhwng sbardunau'n ein helpu i ddeall y risgiau a dod o hyd i'r blaenoriaethau i'w datblygu. | Cyfoeth Naturiol Cymru | **P**<br><br>Argymhellir bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnal gweithdy arbennig i fynd i'r afael â mater integreiddio. |
| 28) Cyffredinol<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn pryderu nad yw'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cael cyfle eto i edrych ar y materion sy'n wynebu poblogaeth Abertawe mewn ffordd fwy blaengar a gwahanol yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Bwrdd Iechyd PABM | **P**<br><br>I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod mewn cyfarfod dan bennawd gweithio mewn partneriaeth a 'chynnwys rhanddeiliaid'. |
| 29) Cyffredinol<br><br>Mae angen ymagweddau gwahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn flaenorol os yw'r BGC yn mynd i fod yn llwyddiannus. | Bwrdd Iechyd PABM | **P**<br><br>I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod mewn cyfarfod dan bennawd gweithio mewn partneriaeth a 'chynnwys rhanddeiliaid'. |
| 30) Cyffredinol<br><br>Hoffai'r Bwrdd Iechyd hefyd weithio gyda'r awdurdod lleol a phartneriaid statudol eraill i benderfynu a chytuno ar y prosesau o ystyried safbwyntiau a fynegwyd fel rhan o'r gwaith | Bwrdd Iechyd PABM | **P**<br><br>I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod mewn cyfarfod dan bennawd gweithio mewn partneriaeth a 'chynnwys rhanddeiliaid'. |

| | | |
|---|---|---|
| ymgysylltu ar yr Asesiad Llesiant a defnyddio hyn i ddatblygu'r Cynllun Lles gofynnol. | | |
| 31) Cyffredinol<br><br>Er bod gwahaniaethau rhwng y tri asesiad llesiant ar draws ardal PABM, mae hefyd lawer o bethau cyffredin a blaenoriaethau tebyg sy'n dod i'r amlwg, felly mae'r Bwrdd Iechyd yn gweld manteision hyrwyddo rhai o'r materion hyn yn rhanbarthol yn hytrach na mewn awdurdodau lleol unigol er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd gorau posib ar gyfer y boblogaeth gyfan. | Bwrdd Iechyd PABM | **P**<br><br>I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod mewn cyfarfod dan y pennawd 'gweithio trawsffiniol'. |
| 32) Cyffredinol<br><br>Un o'r gwersi a ddysgwyd o lunio'r Asesiad Llesiant yw, er mwyn iddo fod y mwyaf effeithiol, mae angen cynnwys y pedwar partner statudol yn llawn ar bob cam o ddatblygu'r prosesau a'r dogfennau i gefnogi gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn hytrach na'r rhain yn cael eu datblygu gyda chyn lleied o gyfranogaeth â phosib gan y partneriaid. | Bwrdd Iechyd PABM | **P**<br><br>I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod mewn cyfarfod dan bennawd gweithio mewn partneriaeth a 'chynnwys rhanddeiliaid'. |
| 33) Cyffredinol<br><br>Rydym yn credu bod y gyfranogaeth hon hyd yma wedi bod yn gyfyngedig oherwydd ei bod wedi'i seilio ar ffordd o weithio'r hen Fwrdd Gwasanaethau Lleol. Credwn fod angen newid yr ymagwedd hon yn sylweddol os yw effeithiolrwydd y BGC yn mynd i gael ei gynyddu i'r eithaf. | Bwrdd Iechyd PABM | **P**<br><br>I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod mewn cyfarfod dan bennawd gweithio mewn partneriaeth a 'chynnwys rhanddeiliaid'. |

| | | |
|---|---|---|
| 34) Cyffredinol<br><br>Ychydig iawn o ddadansoddiad ac ystyriaeth a geir o dueddiadau yn y dyfodol drwy'r holl asesiad. Felly, teimlwn ei fod yn canolbwyntio'n ormodol ar gyflwr presennol llesiant yn yr ardal ac y byddai'n elwa o ystyried goblygiadau'r darlun presennol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. (Categori B) | Llywodraeth Cymru | **R**<br><br>Mae angen datblygu agwedd tueddiadau'r dyfodol ar yr asesiad ymhellach, a bydd y Grŵp Ymchwil yn ystyried hyn yn y flwyddyn i ddod. |
| 35) Cyffredinol<br><br>Mae ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn fwlch a gydnabyddir yn yr asesiad drafft, y bwriedir mynd i'r afael ag ef yn y fersiwn derfynol. Er y crybwyllir y gwaith ymgysylltu rhanbarthol sy'n cael ei oruchwylio gan Miller Research (ac ehangir arno ychydig yn y ddogfen drosolwg gefnogi) ar hyn o bryd, ni cheir manylion y dulliau a gaiff eu defnyddio, cwmpas yr ymgysylltu a pha fath o gyfraniad y bydd yn ei wneud i'r asesiad. Nid yw'n glir ychwaith beth fydd yr amserlen ar gyfer mynd ati i ddadansoddi'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwaith ymgysylltu. Dylai'r asesiad cyhoeddedig o leiaf gynnwys trosolwg o ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu. (Categori B). | Llywodraeth Cymru | **A**<br><br>Cyfeirir at adroddiad Ymchwil Miller yn nogfen y prif asesiad, a bydd ar gael yn llawn fel atodiad (gan gynnwys drwy dudalennau'r BGC). |
| 36) Cyffredinol<br><br>Roedd y sbardunau amgylcheddol ychydig yn wanach o ran cwmpas na'r rhai cymdeithasol ac economaidd, ac mae llai o dystiolaeth yn ymwneud â llesiant diwylliannol. Gallai'r | Llywodraeth Cymru | **R**<br><br>I'w ystyried gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o werthuso'r asesiad. |

| | | |
|---|---|---|
| dadansoddiad o'r amgylchedd naturiol yn arbennig wneud mwy i archwilio'r berthynas â llesiant pobl yn yr ardal. (Categori B) | | |
| 37) Cyffredinol<br><br>Byddai'r asesiad yn elwa o fwy o ddatblygiad o ran llesiant pobl yn y gymuned. Nid yw'r dystiolaeth yn adlewyrchu'n llawn safbwyntiau'r grwpiau â diddordeb a nodwyd yn y canllawiau statudol, ac mae'n bosib y gallai rhai o'r safbwyntiau hyn newid y darlun cyffredinol o les yn yr ardal yn sylweddol, neu awgrymu ymagwedd sy'n ystyried gwahaniaethau bach ond pwysig yn fwy. Awgrymwn y dylai'r asesiad gynnwys mwy o drafodaeth am y posibiliadau am dystiolaeth a'i hargaeledd yn hyn o beth. (Categori B) | Llywodraeth Cymru | **R**<br><br>I'w ystyried gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o werthuso'r asesiad. |
| 38) Cyffredinol<br><br>Gallai'r asesiad elwa o ddadansoddiad pellach o ardaloedd cymunedol. Er ei fod yn cynnwys peth dadansoddiad o amrywiad yn Abertawe, mae llawer o'r dadansoddiad hwn yn ansoddol a byddai mwy na thebyg yn annigonol i roi dealltwriaeth fanwl i'r BGC o batrymau ar draws y sir. Nid yw'n glir ychwaith pa ardaloedd cymunedol y cyfeirir atynt mewn rhai adrannau, er enghraifft, dan y canlyniad "Mae babanod yn cael eu geni'n iach", mae'r crynodeb yn awgrymu bod pryderon am anghydraddoldebau iechyd rhwng gwahanol ardaloedd yn Abertawe - fodd bynnag, nid yw'r testun yn trafod pa rai. | Llywodraeth Cymru | **R**<br><br>Cytunwyd y dylid datblygu'r dadansoddiad o ardaloedd cymunedol a chanolbwyntio mwy ar agweddau gofodol/ar le pan gaiff yr asesiad hwn ei ailadrodd yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| (Categori B) | | |
| 39) Cyffredinol<br><br>Gallai'r asesiad elwa o ddysgu sy'n dod i'r amlwg o'r asesiad poblogaeth sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y gellid ei gynnwys yn fwy diamwys yn yr asesiad. (Categori B) | Llywodraeth Cymru | **A**<br><br>Mae pwyntiau allweddol o'r asesiad poblogaeth sy'n dod i'r amlwg wedi'u cynnwys ym mhennod canlyniadau E asesiad diwygiedig 2017. |
| 40) Canlyniad E<br><br>Gellid cryfhau tystiolaeth o'r rhwystrau rhag cael mynediad i wasanaethau iechyd yn yr ardal, yn enwedig mewn cymunedau mwy gwledig ac ardaloedd difreintiedig. (Categori B) | Llywodraeth Cymru | **R**<br><br>I'w ystyried gan y Grŵp Ymchwil fel bwlch tystiolaeth, yn bennaf mewn perthynas â chanlyniad E. |
| 41) Cyffredinol<br><br>Gallai'r asesiad gynnwys tystiolaeth o gynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol neu arolwg a oedd yn addas i blant a phobl ifanc. (Categori B) | Llywodraeth Cymru | **A**<br><br>Mae pwyntiau allweddol o Sgwrs Fawr/Prif Arolwg y cyngor wedi'u cynnwys ym mhenodau canlyniadau B ac E asesiad 2017. |
| 42) Cyffredinol<br><br>Ychydig mwy o dystiolaeth o drafod â phartneriaid o'r gwasanaeth Prawf, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a Thimau Troseddau Ieuenctid, sy'n gyfranogwyr gwahoddedig statudol, a gallai ddarparu cefndir am anghenion troseddwyr sydd yn y ddalfa ac yn gymuned (Categori B). | Llywodraeth Cymru | **R**<br><br>I'w ystyried gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o ddatblygu'r asesiad ymhellach. |
| 43) Cyffredinol<br><br>Er bod dadansoddiad byr o'r Gymraeg gyda'r adroddiad demograffig, byddai'r asesiad yn | Llywodraeth Cymru | **A**<br><br>Mae rhywfaint o ddadansoddiad o dystiolaeth o ran y Gymraeg bellach wedi'i chynnwys yn |

| | | |
|---|---|---|
| elwa o drafod y defnydd o'r iaith yn adran ddiwylliannol y brif ddogfen. (Categori B) | | sbardun F4.<br><br>Hefyd **R:** i'w ystyried ymhellach gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o ddatblygu'r asesiad. |
| 44) Cyffredinol<br><br>Ceir rhai bylchau canfyddedig o ran tai; gwybodaeth am y sector rhentu preifat, cartrefi parciau yn yr ardal neu addasiadau i gartrefi (byw'n annibynnol â chymorth). (Categori B) | Llywodraeth Cymru | **R**<br><br>Bylchau posib mewn tystiolaeth, yn bennaf o ran canlyniadau E ac F, i'w hystyried fel rhan o ddatblygu'r asesiad. |
| 45) Cyffredinol<br><br>Yn gyffredinol, mae'r asesiad yn hynod fyfyriol a beirniadol o ran ei ymagwedd; Mae hyn yn gadarnhaol iawn, ond gellid gwella'r ymagwedd fyfyriol drwy: 1) fod yn gliriach ynghylch goblygiadau cyfyngiadau tystiolaeth a'r bylchau ynddi, o ran sut maent yn effeithio ar ansawdd yr asesiad yn gyffredinol; a 2) bod yn gliriach ynghylch yr hyn, os unrhyw beth, a gaiff (neu y gellid) ei wneud i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. (Categori B) | Llywodraeth Cymru | **R**<br><br>Caiff yr agweddau hyn eu hystyried gan y Grŵp Ymchwil wrth ddatblygu'r asesiad. |
| 46) Cyffredinol<br><br>Ceir rhai datganiadau na chyfeirir atynt yn yr adrannau 'ynglŷn â'r canlyniad hwn' a allai elwa o gyfeirio clir. (Categori C) | Llywodraeth Cymru | **A**<br><br>Adolygodd arweinwyr canlyniadau eu penodau gan wneud gwelliannau yn ôl yn yr angen. |
| 47) Cyffredinol<br><br>Mae ansawdd y dadansoddiad yn yr asesiad hwn yn gyffredinol dda. Mae'n llwyddo i gyfuno ymchwil a data sydd eisoes ar gael i greu darlun | Llywodraeth Cymru | **R**<br><br>Caiff yr agweddau hyn eu datblygu gan y Grŵp Ymchwil ar gyfer yr adegau pan ailadroddir yr asesiad yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| cyffredinol o lesiant yn Abertawe. Cyflwynir y data mewn ffordd ddadansoddol, sy'n caniatáu i brif feysydd pryder gael eu nodi. Fodd bynnag, gellid cryfhau hyn trwy ddadansoddi ardaloedd cymunedol ymhellach; defnyddio tystiolaeth ansoddol a gasglwyd drwy'r gwaith ymgysylltu; a dulliau cyflwyno data mwy amrywiol. (Categori B) | | |
| 48) Cyffredinol<br><br>Mae peth tystiolaeth fod Abertawe'n symud tuag at ymagwedd sy'n seiliedig ar asedau. Fodd bynnag, rydym yn teimlo bod lle i wella hefyd o ran hyn. Mae cyfeiriadau at asedau'r ardal yn eithaf arwynebol, ac nid ydynt bob amser yn trafod y cyfraniad maent yn ei wneud i les a sut y gellid adeiladu ar hyn yn y dyfodol. Ar ben hynny, mae cyfle i ailfframio peth o'r dadansoddiad sylfaenol i bwysleisio cryfderau (e.e. archwilio'r cyfleoedd a roddir gan boblogaeth sy'n heneiddio yn ogystal â'r heriau), sy'n debygol o fod yn her ar draws llawer o'r asesiadau. (Categori B) | Llywodraeth Cymru | **A**<br><br>Adolygodd arweinwyr canlyniadau eu penodau gan wneud unrhyw newidiadau tymor byr a oedd yn bosib (e.e. i'r adrannau 'Cryfderau Abertawe').<br><br>Hefyd **R:** i'w ystyried fel rhan o ddatblygiad tymor hwy'r asesiad. |
| 49) Cyffredinol<br><br>Byddai'r asesiad yn elwa o fwy o amrywiaeth o ran y ffordd y cyflwynir data (megis siartiau a mapiau) i gyfoethogi'r negeseuon a gynhwysir yn y testun. Ar ei ffurf bresennol, mae llawer iawn o destun yn yr Asesiad. (Categori C) | Llywodraeth Cymru | **R**<br><br>Cytunwyd - caiff hyn ei ddatblygu ar gyfer yr adegau pan gaiff yr asesiad hwn ei ailadrodd yn y dyfodol. |
| 50) Cyffredinol | Llywodraeth Cymru | **G** |

| | | |
|---|---|---|
| Mae strwythuro'r asesiad yn ôl canlyniadau'n cyfyngu ar y gallu i wneud cysylltiadau rhwng themâu, a allai fod yn ystyriaeth bwysig i'r BGC wrth bennu ei flaenoriaethau. Byddem yn eich cynghori i gynnwys adran drosolwg fer sy'n edrych ar y rhyng-ddibyniaethau ar draws canlyniadau. (Categori C) | | Argymhellir bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnal gweithdy arbennig i fynd i'r afael â mater integreiddio. |
| 51) Cyffredinol<br><br>Byddai'r asesiad hefyd yn elwa o ryw ffordd o grynhoi'r dystiolaeth, naill ai ar lefel sbardun neu ganlyniad. Mae'r tabl crynhoi ar ddechrau'r asesiad yn gam ymlaen i ddechrau mynd i'r afael â hyn, ond nid yw'n adlewyrchu ehangder y dystiolaeth a gyflwynir yn y prif adrannau. | Llywodraeth Cymru | **R**<br><br>I'w ystyried gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o werthuso'r asesiad. |
| 52) Cyffredinol<br><br>Byddem yn cynghori gofal arbennig wrth asesu symudiadau i fyny neu i lawr y raddfa, y bydd angen iddynt gael eu cyfeirio nid yn unig gan y dystiolaeth sydd ar gael ond hefyd trwy ddealltwriaeth glir o achosiaeth. | Llywodraeth Cymru | **R**<br><br>I'w ystyried gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o werthuso'r asesiad. |
| 53) Cyffredinol<br><br>Yn olaf, mae'r ymdrechion i fynd i'r afael â gwelliant yn y dyfodol yn ychwanegiad defnyddiol at yr asesiad; mewn llawer o achosion fodd bynnag, ânt ymhell y tu hwnt i'r hyn y gellid ei gasglu'n rhesymol o'r dystiolaeth a dechrau cynnig atebion ac ymyriadau i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Byddai'n well canolbwyntio'r adrannau hyn ar ba newid mewn canlyniadau y | Llywodraeth Cymru | **A**<br><br>Adolygodd arweinwyr canlyniadau eu penodau gan wneud unrhyw newidiadau yr ystyriwyd eu bod yn angenrheidiol. |

| | | |
|---|---|---|
| gellid eu disgwyl pe bai gwelliant, yn hytrach na hyrwyddo ymagweddau penodol. | | |
| 54) Cyffredinol<br><br>Mae angen crynodeb Cymraeg syml i wneud yr Asesiad Llesiant yn fwy hygyrch. | Panel Craffu Perfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | **A**<br><br>Caiff crynodeb hygyrch ei pharatoi. Paratowyd dogfen grynhoi'n flaenorol ar gyfer yr ymgynghoriad. |
| 55) Cyffredinol<br><br>Ymddengys fod y data cymharol a ddefnyddiwyd i gyfeirio'r sgorau ar gyfer y sbardunau'n seiliedig ar gymhariaeth yn unig ag awdurdodau eraill yng Nghymru;<br>fodd bynnag, teimlai'r Panel y dylid ehangu'r data cymharol i gynnwys awdurdodau sy'n perfformio orau o bob ran o'r DU er mwyn cael darlun cywir o ba mor dda y mae Abertawe'n perfformio, o ystyried nad yw Cymru'n perfformio ar ei gorau. Yn yr un modd, dylid gosod strategaethau/amcanion yn erbyn y gorau yn y dosbarth, yn enwedig pan fyddwn ni wedi sgorio ein hunain yn uchel. | Panel Craffu Perfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | **R**<br><br>I'w ystyried gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o werthuso'r asesiad. |
| 56) E2: Mae iechyd meddwl a llesiant da gan blant, pobl ifanc ac oedolion<br><br>Roedd y sgôr a roddwyd ar gyfer E2 yn rhy uchel, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwiliad craffu ar y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), a oedd wedi canfod diffyg darpariaeth gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl, mater a oedd yn peri pryder. | Panel Craffu Perfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | **A**<br><br>Cytunwyd y dylai'r sgôr bresennol ar gyfer y sbardun hwn fod yn 4. Mae'r arolwg cyhoeddus hefyd yn awgrymu sgôr is (o 5 i 4) - gweler pwynt 7. |

| | | |
|---|---|---|
| 57) Cyffredinol<br><br>Dylai canfyddiadau o waith/ymholiadau craffu eraill gyfeirio'r Asesiad Llesiant. | Panel Craffu Perfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | **A**<br><br>Mae pwyntiau allweddol o ymholiadau craffu perthnasol wedi'u cynnwys ym mhenodau canlyniadau B, D, E ac F asesiad terfynol 2017.<br><br>Hefyd **R:** i'w ystyried yn barhaus ac ymhellach gan y Grŵp Ymchwil. |
| 58) Cyffredinol<br><br>Dylai datganiadau yn yr Asesiad Llesiant fod yn glir o ran a ydynt yn seiliedig ar ffeithiau neu farn ac os ydynt yn seiliedig ar ddata, eu bod wedi'u cyfeirnodi'n glir, er enghraifft, mae canlyniad D yn nodi nad yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yn Abertawe yn profi tlodi incwm. | Panel Craffu Perfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | **A**<br><br>Adolygodd arweinwyr canlyniadau eu penodau gan wneud unrhyw newidiadau yr ystyriwyd eu bod yn angenrheidiol. |
| 59) Cyffredinol<br><br>Mae rhai hefyd yn cyfeirio at fy Arweiniad a Heneiddio'n Dda yng Nghymru (http://www.ageingwellinwales.com/wl/home), a chroesawaf y cydnabyddiaethau hyn a'r angen i weithio gyda'n gilydd i helpu i gynnal iechyd, annibyniaeth a llesiant pobl hŷn, a sefydlu cymunedau sy'n ystyriol o oed sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ataliol i bobl hŷn. | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | **N**<br><br>Nodwyd sylwadau cyffredinol.  Nid oes angen gweithredu ar unwaith. |
| 60) Cyffredinol<br><br>Mae'n bwysig y deëllir anghenion y boblogaeth droseddwyr yn y carchar a'r gymuned er mwyn galluogi partneriaid i weithio gyda'i gilydd i | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | **R**<br><br>Y Grŵp Ymchwil i'w ystyried fel rhan o ddatblygu'r asesiad yn barhaus.  Mae hyn yn cysylltu â phwynt cynharach (42) a wnaed gan Lywodraeth |

| | | |
|---|---|---|
| leihau aildroseddu, cynllunio ar gyfer y dyfodol a chydbwyso gofynion gwasanaethau tymor byr a thymor hir. Gobeithiwn fod y data atodedig yn ddefnyddiol wrth gyfeirio'ch asesiad llesiant lleol. | | Cymru. |
| 61) Cyffredinol<br><br>*Cyd-destun strategol* - disgrifiad ehangach o heriau llesiant i Abertawe dros y tymor byr, canolig a hir i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer y chwe thema a'r 19 sbardun. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>I'w ystyried gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o werthuso'r asesiad. |
| 62) Cyffredinol<br><br>*Ardal a lle* - i ategu'r 19 sbardun, adlewyrchu llesiant mewn ardaloedd penodol yn Abertawe, tynnu sylw'n well at faterion allweddol ar gyfer llesiant mewn ardaloedd gwahanol a'r asedau a'r anghydraddoldebau ar draws yr ardal. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>Cydnabyddir bod y dimensiwn gofodol (ardaloedd cymunedol) yn wendid yn yr asesiad presennol. Hefyd, mae angen nodi bylchau mewn tystiolaeth a'u cyfleu i'r BGC. |
| 63) Cyffredinol<br><br>*Arwyddocâd y data* - mwy o eglurhad ar arwyddocâd y data a'r heriau allweddol i lesiant ar draws pob un o'r 19 sbardun. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>I'w ystyried gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o werthuso'r asesiad. |
| 64) Cyffredinol<br><br>*Heriau* - darparu dadansoddiad cliriach o heriau (a chyfleoedd) tymor byr, canolig a hir i lesiant. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>I'w ystyried gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o werthuso'r asesiad. |
| 65) Cyffredinol<br><br>*Cyd-destun rhanbarthol* - gwell dealltwriaeth o ryng-berthnasoedd Abertawe ag awdurdodau (a BGC) cyfagos a phrosiect Dinas-ranbarth Bae | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **P**<br><br>I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod mewn cyfarfod dan y pennawd 'gweithio trawsffiniol' |

| | | |
|---|---|---|
| Abertawe. | | Hefyd **A**: mae cyfeiriadau at brosiect y Dinas-ranbarth a'r Fargen Ddinesig wedi'u hychwanegu at C2. |
| 66) Cyffredinol<br><br>*Tueddiadau'r Dyfodol* - mwy o sylw'n cael ei roi i effaith bosib tueddiadau tymor hir ar lesiant yn Abertawe gyfan a'i chymunedau. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>Mae angen datblygu agwedd tueddiadau'r dyfodol ar yr asesiad ymhellach, a bydd y Grŵp Ymchwil yn ystyried hyn yn y flwyddyn i ddod. |
| 67) Cyffredinol<br><br>*Symud ymlaen* - darparu disgrifiad cliriach o sut y bwriedir defnyddio'r data asesu, sut caiff bylchau mewn data eu rheoli a pha mor dda y bydd y cynllunio'n datblygu. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Mae'r adran Cyflwyniad wedi'i diwygio i adlewyrchu'r pwyntiau a wnaed.<br><br>Hefyd **R:** caiff hyn ei ystyried hefyd gan y Grŵp Ymchwil drwy adroddiad gwerthuso asesiad arfaethedig. |
| 68) Cyffredinol<br><br>Mae gennych y cyfle i archwilio ymhellach yr integreiddio rhwng y themâu, y sbardunau a'r saith nod llesiant cenedlaethol. Er mwyn i'r BGC ddeall sut gall gynyddu ei gyfraniad i'r eithaf, bydd angen deall a chyfleu'r berthynas rhwng amcanion strategol dan y chwe thema hyn a'r nodau cenedlaethol. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **P**<br><br>Argymhellir bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnal gweithdy arbennig i fynd i'r afael â mater integreiddio.<br><br>Cysylltiadau â'r nodau llesiant i'w hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig. |
| 69) Cyffredinol<br><br>I sicrhau eich bod yn parhau i ddarparu cyfleoedd fel y gall ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion fod yn rhan o ddylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a bod yn gallu | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **P**<br><br>I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod mewn cyfarfod dan bennawd gweithio mewn partneriaeth a 'chynnwys rhanddeiliaid'. |

| | | |
|---|---|---|
| dangos bod eu mewnbwn wedi cael effaith ar yr hyn rydych yn ei wneud. | | |
| 70) Cyffredinol<br><br>Rhoi mwy o sylw i effaith bosib tueddiadau tymor hir ar Abertawe dan eich holl themâu a sbardunau. Dylai hyn gynnwys mwy o fewnwelediad i brif faterion ar gyfer llesiant tymor hir Abertawe, yn arbennig drwy ystyried pa heriau maent yn eu cyflwyno, a pha leoliadau, cymunedau a phobl benodol y bydd hyn yn debygol o effeithio fwyaf arnynt neu yw'r rhai mwyaf diamddiffyn. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>Caiff materion tymor hir/tueddiadau'r dyfodol, a'u heffaith, eu hystyried ymhellach gan y Grŵp Ymchwil. |
| 71) Cyffredinol<br><br>Byddai'r asesiad yn elwa o ddisgrifiad o sut mae'r agenda ataliol yn hanfodol i gynllunio llesiant a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn faes lle byddwn yn eich annog i roi ystyriaeth fanwl i'r hyn y mae'r data a'r dystiolaeth yn eu dweud wrthych, er mwyn gwneud synnwyr o heriau allweddol a nodwyd gennych. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>I'w ystyried gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o werthuso'r asesiad.<br><br>Hefyd **P**: gweithdy'r Grŵp Cynllunio neu'r IIA i fynd i'r afael â hyn o bosib. |
| 72) Cyffredinol<br><br>Mae lle i roi mwy o esboniad am sut y dewiswyd y chwe thema a sut maent yn cysylltu â'r saith nod llesiant cenedlaethol ac yn cyfrannu atynt. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Mae diwygiadau wedi'u cynnwys mewn adran Cyflwyniad ddiwygiedig. |
| 73) Canlyniadau a Sbardunau<br><br>Pam mae'r chwe thema a'r 19 sbardun yn arbennig o bwysig i Abertawe ac nid materion | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Gweler uchod (pwynt 72) |

| | | |
|---|---|---|
| llesiant eraill? | | |
| 74) Cyffredinol<br><br>Er mwyn i'r BGC ddeall sut gall *gynyddu* ei gyfraniad *i'r eithaf*, bydd angen deall y berthynas rhwng amcanion strategol dan y chwe thema a'r nodau cenedlaethol. Er y cyfeirir at y saith nod llesiant yn y cyflwyniad, ni chyfeirir atynt dan y chwe thema nac yn y dystiolaeth na'r dadansoddiad yn yr 19 sbardun llesiant. Mae'r adran 'Ynghylch y canlyniad hwn' yn darparu cyfle i awduron ddatblygu'r cyswllt hwn. Gellid gwneud hyn gyda thabl syml sy'n egluro'r cyfraniad at bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **P**<br><br>I'w ddatblygu fel rhan o ddatblygiad y cynllun llesiant. |
| 75) Cyffredinol<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r adrannau *'Crynodebau'* ac *'Ynghylch y canlyniad hwn'* yn yr asesiad yn aml yn tybio dealltwriaeth ddealledig o sut bydd y mater yn effeithio ar lesiant. Gellid gwneud hyn yn gliriach ac mae'n bosib y gall y nodau llesiant cenedlaethol ddarparu offeryn defnyddiol i wneud hyn, ac i nodi cyfraniad posib y BGC at amryfal nodau drwy weithgarwch integredig. Byddem yn disgwyl gweld esboniad cryfach o'r berthynas hon pan ailadroddir yr asesiad hwn yn y dyfodol a thrwy holl broses cynllunio llesiant yn Abertawe. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>I'w ystyried fel rhan o adroddiad gwerthuso asesiad ac wrth ailadrodd yr asesiad yn y dyfodol. |
| 76) Cyffredinol<br><br>Mewn mannau, byddai'r data'n elwa o fwy o | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Adolygodd arweinwyr canlyniadau eu penodau |

| | | |
|---|---|---|
| ddehongliad er mwyn deall *arwyddocâd* y mater i Abertawe gyfan. | | gan wneud unrhyw newidiadau yr ystyriwyd eu bod yn ymarferol yn y tymor byr. |
| 77) Cyffredinol<br><br>Mae'r ffrâm rydych wedi'i datblygu i gofnodi gwybodaeth dan bob un o'r themâu a'r sbardunau yn ganmoladwy ac yn darparu rhai 'ceisiadau' sylfaenol, clir gan gyfranogwyr dan bob is-bennawd. Mae hyn yn cynnwys adran lle mae gofyn o awduron ddadansoddi *'Gwahaniaethu yn Abertawe'.*<br>Gellid gwella'r dadansoddiad drwy roi mwy o ffocws ar gymunedau unigol yn ardal Abertawe. Gallai hyn gynnwys gwell dealltwriaeth o lesiant mewn ardaloedd a lleoedd gwahanol, gwahaniaethau mewn neu rhwng ardaloedd, anghydraddoldebau ac yn arbennig, faterion lleol dwys. Credwn y dylai asesiad llesiant ddarparu dealltwriaeth fwy lleol (a llai unffurf) o lesiant, a byddwn yn chwilio am dystiolaeth o hyn wrth i gynllunio llesiant fynd rhagddo. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>Dadansoddiad o wahaniaethau ardal (ardaloedd cymunedol) i'w ddatblygu ymhellach gan y Grŵp Ymchwil yn y flwyddyn i ddod. |
| 78) Atodiadau<br><br>Roedd bwriad i adeiladu ar y gwaith hwn i gynnwys data ar lefel gymunedol yn y dyfodol ar draws Gorllewin y Bae; Dwyrain y Bae; Y Ddinas; Cwm Tawe; Penderi a Llwchwr. Ar y sail hon, mae angen datblygu Atodiad 1 ac Atodiad 2 ymhellach. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>Fel pwynt 77 uchod.<br><br>Hefyd **A**: caiff unrhyw welliannau tymor byr posib i atodiadau 1/2 eu gwneud ochr yn ochr â chyhoeddi asesiad terfynol 2017. |
| 79) Cyffredinol/Canlyniad F | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A** |

| | | |
|---|---|---|
| Gellid cryfhau'r asesiad hefyd drwy gynnwys data am isadeiledd ynni, dŵr a thrafnidiaeth hanfodol ac isadeileddau hanfodol eraill. Mae'r math hwn o wybodaeth o berthnasedd allweddol i'r BGC, cyflwyno gwasanaethau a llesiant cymunedol. | | Mae pwynt bwled yn adran F2 wedi'i gynnwys i adlewyrchu hyn (dan 'Ynghylch y dystiolaeth').<br><br>Hefyd **R:** i'w ddatblygu ymhellach pan gaiff yr asesiad ei ailadrodd yn y dyfodol. |
| 80) Cyffredinol<br><br>Mae'n gadarnhaol gweld cynifer o'r adrannau dan bob un o'r 19 sbardun yn darparu gwybodaeth feintiol ac ansoddol am wasanaethau cyhoeddus, yn arbennig dan y rhannau *'canfyddiadau a safbwyntiau'*, *'rhagolygon i'r dyfodol'* a *'newidiadau dros amser'*. Mae hwn yn adnodd defnyddiol a dylai'r BGC ei goladu a'i ddadansoddi - beth mae'r wybodaeth hon yn ei ddweud wrthym ynghylch a yw gwasanaethau'n ddigonol; a oes bwlch sylweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael â'r 'sbardun'; maint yr her i'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n deillio o'r sbardun; a rôl bosib y BGC wrth ddatblygu camau gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â'r mater?<br>Gellid adeiladu ar hyn i roi mwy o ystyriaeth i ddehongli'r data er mwyn deall beth yw'r her i'r gwasanaethau cyhoeddus. Gellid cryfhau'r asesiad gyda dadansoddiad o negeseuon allweddol, mwy cyffredinol i'r BGC a'r sector cyhoeddus ynghylch y 'newid fesul cam' y mae'n debygol y bydd ei angen i fynd i'r afael â'r 19 sbardun hwn. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **P**<br><br>Mae hyn yn gysylltiedig â sut bydd y BGC yn defnyddio'r dystiolaeth yn yr asesiad yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| 81) Cyffredinol<br><br>Yn gyffredinol, defnyddir data meintiol yn dda i ddisgrifio'r sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, mewn llawer o leoedd, byddai'r naratif yn elwa o ddehongliad pellach er mwyn deall *arwyddocâd* y data (mae hyn yn arbennig o berthnasol i sbardunau sy'n seiliedig ar iechyd ac addysg). Mae hefyd gryn dipyn o amrywioldeb yn y blychau 'crynodeb' wrth ddiffinio goblygiadau'r darlun ar gyfer cymunedau. Mae angen i hyn gael ei gryfhau er mwyn cael ymdeimlad o raddfa, arwyddocâd a goblygiadau ar gyfer llesiant. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Adolygodd arweinwyr canlyniadau eu penodau gan wneud unrhyw newidiadau yr ystyriwyd eu bod yn angenrheidiol. |
| 82) Cyffredinol<br><br>Mae'r adran '*Mae gan bobl safon byw eithaf da'* yn nodedig am ei chydbwysedd ardderchog o ddata ansoddol a meintiol, dehongliad a naratif a dylid ei defnyddio fel meincnod ar gyfer adrannau eraill. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Yn sgîl hyn, roedd arweinwyr canlyniadau wedi ystyried ac adolygu'r penodau. |
| Pa mor effeithiol y mae'r 'templedi' sydd wedi'u datblygu'n cyfleu ac yn asesu llesiant:<br><br>*83) Cryfderau Abertawe* - mae hyn yn darparu rhestr gynhwysfawr o asedau a gwasanaethau ac ymyriadau sector cyhoeddus sydd eisoes yn bod. Byddai'n ddefnyddiol cael gwell dealltwriaeth o effaith gymharol y gweithgareddau hyn i fynd i'r afael â'r 'sbardun'. Beth y mae angen i ni wneud mwy ohono? | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Adolygodd arweinwyr canlyniadau eu penodau gan wneud unrhyw newidiadau yr ystyriwyd eu bod yn angenrheidiol. |

| | | |
|---|---|---|
| Pa mor effeithiol y mae'r 'templedi' sydd wedi'u datblygu'n cyfleu ac yn asesu llesiant:<br><br>*84) Newidiadau dros amser* - mae'r adrannau hyn yn amrywio wrth gyfleu'r neges am sut mae'r mater yn effeithio ar lesiant - beth yw effaith y newid neu'r duedd a beth yw ei goblygiadau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus? | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Adolygodd arweinwyr canlyniadau eu penodau gan wneud unrhyw newidiadau yr ystyriwyd eu bod yn angenrheidiol. |
| Pa mor effeithiol y mae'r 'templedi' sydd wedi'u datblygu'n cyfleu ac yn asesu llesiant:<br><br>*85) Cymariaethau* - gallai'r asesiad fod yn gliriach ynghylch yr hyn y mae'r gymhariaeth yn ei dweud wrthym am lawer o'r sbardunau. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Adolygodd arweinwyr canlyniadau eu penodau gan wneud unrhyw newidiadau yr ystyriwyd eu bod yn angenrheidiol. |
| Pa mor effeithiol y mae'r 'templedi' sydd wedi'u datblygu'n cyfleu ac yn asesu llesiant:<br><br>*86) Gwahaniaethau yn Abertawe* - mae gan hyn y potensial i ddatblygu, ynghyd ag Atodiad 1 a 2, er mwyn creu adnodd gwych (gweler y sylwadau uchod ym mhwynt 3) ond mae cyfnewidioldeb eang o ran sut ychwanegir at hyn. A ellir defnyddio data ansoddol yn fwy i ddisgrifio'r gwahaniaethau yn Abertawe os nad oes data meintiol ar gael? | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>Dadansoddiad o wahaniaethau ardal (ardaloedd cymunedol) i'w ddatblygu ymhellach gan y Grŵp Ymchwil yn y flwyddyn i ddod. |
| Pa mor effeithiol y mae'r 'templedi' sydd wedi'u datblygu'n cyfleu ac yn asesu llesiant: | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Adolygodd arweinwyr canlyniadau eu penodau |

| | | |
|---|---|---|
| *87) Canfyddiadau a Safbwyntiau* - nid yw'n glir mewn llawer o achosion, ganlyniadau a safbwyntiau pwy yw'r rhain, felly byddai'n ddefnyddiol pe gellid gwneud hyn yn fwy eglur. Mae hyn yn sylfaen dda i gynnwys gwybodaeth o weithgarwch ymgynghori. | | gan wneud unrhyw newidiadau yr ystyriwyd eu bod yn angenrheidiol. |
| Pa mor effeithiol y mae'r 'templedi' sydd wedi'u datblygu'n cyfleu ac yn asesu llesiant:<br><br>*88) Rhagolygon i'r Dyfodol* - Dylai'r BGC ddefnyddio'r wybodaeth hon a'i chrynhoi i gyfeirio'r newid sydd ei angen i fynd i'r afael â'r 'sbardun' yn ogystal â rôl y BGC. Prin yw'r rhai sy'n canolbwyntio ar y tymor hir 10+ o flynyddoedd - dylid annog hyn i ddechrau deall tueddiadau tymor hir a'u heffeithiau posib. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>Mae angen datblygu agwedd tueddiadau'r dyfodol ar yr asesiad ymhellach, a bydd y Grŵp Ymchwil yn ystyried hyn yn y flwyddyn i ddod.<br><br>Hefyd **P**: dylai'r dadansoddiad hwn gael ei drosglwyddo i'r BGC yn ddiweddarach. |
| Pa mor effeithiol y mae'r 'templedi' sydd wedi'u datblygu'n cyfleu ac yn asesu llesiant:<br><br>*89) Sut olwg fyddai ar welliant?* Dau gwestiwn a allai ganolbwyntio ar y defnydd o'r deunydd hwn yw sut gellid cyflawni'r 'gwelliant', a beth yw rôl y BGC yn hyn o beth?' | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **P**<br><br>I'w ystyried fel rhan o ddatblygu'r cynllun llesiant (a'r dadansoddiad o ymatebion). |
| Pa mor effeithiol y mae'r 'templedi' sydd wedi'u datblygu'n cyfleu ac yn asesu llesiant:<br><br>*90) Ynghylch y dystiolaeth* - mae'r adrannau hyn hefyd yn amrywiol, ond yn darparu adnodd da arall i'r BGC allu deall bylchau mewn data a'r | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Adolygodd arweinwyr canlyniadau eu penodau gan wneud unrhyw newidiadau yr ystyriwyd eu bod yn angenrheidiol. |

| | | |
|---|---|---|
| posibilrwydd i fynd i'r afael â hwy. | | Hefyd **R:** caiff bylchau mewn tystiolaeth/data yn yr asesiad terfynol eu coladu fel atodiad/adroddiad ar wahân. |
| 91) A: Mae plant yn cael dechrau da mewn bywyd<br><br>Mae llawer o'r wybodaeth yn gyffredinol ac yn effeithio, a gellir cyfleu'r arwyddocâd ar draws Abertawe'n gliriach. Mae peth o'r iaith yn adlewyrchu 'rheoli perfformiad' ac mae angen iddi fod yn gliriach ynghylch arwyddocâd effeithiau e.e. "mae angen mwy o welliannau", "mae pryderon" - beth yw natur y pryderon a hyd a lled y gwelliannau sydd eu hangen? | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Mae rhannau perthnasol o bennod canlyniad A wedi'u hadolygu a'u diweddaru. |
| 92) B: Pobl yn dysgu'n llwyddiannus<br><br>Ymddengys fod ffocws cul ar yr adran hon, a phrin yw'r sôn am y Prifysgolion a'r Colegau yn Abertawe, ac nid oes unrhyw sôn am addysg barhaus. Beth yw'r rhesymeg dros ddewis y sbardunau hyn i fesur y canlyniad hwn? | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Mae cynrychiolwyr BGC y prifysgolion/colegau lleol wedi darparu cynnwys sydd wedi ehangu cwmpas y bennod ar ganlyniad B.<br><br>Hefyd **R:** i'w ystyried ymhellach fel rhan o ddatblygu'r asesiad yn y tymor hwy. |
| 93) C: Swyddi da i bobl ifanc ac oedolion<br><br>Gallai roi mwy o oleuni i ni ar arwyddocâd gwahanol agweddau ar economi Abertawe - beth yw rôl y sector cyhoeddus. Beth yw rôl bargen y Dinas-ranbarth? Ceir dealltwriaeth gyfyngedig o'r dosbarthiad swydd yn Abertawe a rôl arbennig manwerthu mewn cymunedau penodol neu rôl Abertawe fel canolfan is-ranbarthol. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Mae rhannau perthnasol o bennod canlyniad C wedi'u hadolygu a'u diweddaru. |

| | | |
|---|---|---|
| 94) F: Mae gan bobl fannau da i fyw a gweithio ynddynt, ac ymweld â nhw<br><br>Mae'r adran ddiwylliannol ar hyn yn gryf ac wedi'i hysgrifennu'n dda. Roedd angen mwy o ddatblygiad ar adrannau eraill yn fwy na rhestr o bwyntiau bwled e.e. pam y mae cael dwy Brifysgol yn darparu cryfder? Beth yw'r sefyllfa o ran fforddadwyedd tai? Pa fioamrywiaeth sy'n dirywio a dan fygythiad? | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Mae rhannau perthnasol o bennod canlyniad F wedi'u hadolygu a'u diweddaru â thestun ychwanegol ac ychwanegwyd pwyntiau bwled ar draws yr holl sbardunau. |
| 95) Cyffredinol<br><br>Mae angen dealltwriaeth gliriach o ba gymunedau a phobl sy'n wydn neu'n agored i dueddiadau presennol ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu'r BGC i ddeall pa agweddau ataliol y gellir eu datblygu a dylai fod yn ffocws gwaith yn y dyfodol ar yr asesiad. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>I'w ystyried gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o werthuso'r asesiad.<br><br>Hefyd **P**: i'w ystyried gan y BGC neu'r Grŵp Cynllunio (drwy weithdy neu IIA). |
| 96) Cyffredinol<br><br>Gallai'r heriau gael eu diffinio'n gliriach yn y 'crynodeb ' ar bob sbardun. Mae'r adran *rhagolygon i'r dyfodol*' hefyd yn darparu cyfle gwych i gyfleu heriau dros y tymor canolig a hir. Dylai awduron a chyfranogwyr gael eu hannog i ddatblygu'r ymagwedd hon. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Adolygodd arweinwyr canlyniadau eu penodau gan wneud unrhyw newidiadau yr ystyriwyd eu bod yn angenrheidiol. |
| 97) Cyffredinol<br><br>Ceir data cyfoethog yn y ddogfen sy'n cynrychioli dadansoddiadau craff a dylai hyn ymddangos mewn ffordd gryfach mewn crynodeb eang yn y brif ddogfen. Mae'n amlwg | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **P**<br><br>I'w ystyried fel rhan o waith y BGC/Grŵp Cynllunio i ddatblygu'r cynllun llesiant. |

| | | |
|---|---|---|
| bod rhai materion craidd sy'n cael eu disgrifio yn y naratif a ddylai ddarparu cefndir cryfach i bob sbardun: plant sy'n byw mewn tlodi; adnoddau cyfyngedig ar gyfer gofal cymdeithasol; dim digon o dai yn cael eu darparu; diwygio lles; effeithiau'r hinsawdd; cyni; adnoddau naturiol yn dirywio. Mae hyn yn faes lle gall data a gwybodaeth bresennol helpu o bosib i ddarparu cyd-destun strategol eang ar gyfer yr 19 sbardun. | | |
| 98) Cyffredinol<br><br>Mae Deddf LlCD yn dangos yn glir mai cydweithio a chyfranogaeth yn ddwy o bum ffordd o weithio y mae angen i'r BGC eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **P**<br><br>I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod mewn cyfarfod dan bennawd gweithio mewn partneriaeth a 'chynnwys rhanddeiliaid'. |
| 99) Cyffredinol<br><br>Darlun rhannol yw hwn o'r gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori a ddefnyddiwyd i gyfeirio'r asesiad. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Mae diwygiadau wedi'u cynnwys mewn adran Cyflwyniad wedi'i diweddaru. |
| 100) Cyffredinol<br><br>Dylai'r asesiad terfynol esbonio buddion y cydweithio hwn, natur eu cyfraniad a lle y gellid gwella gweithio ar y cyd. Mae'r cydweithio hwn yn gadarnhaol a dylid adeilad arno wrth i chi symud ymlaen i gynllunio llesiant. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Mae mwy o fanylion wedi'u hychwanegu at y cyflwyniad.<br><br>Hefyd **P**: I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod mewn cyfarfod dan bennawd gweithio mewn partneriaeth a 'chynnwys rhanddeiliaid'. |
| 101) Cyffredinol<br><br>Mae lle i ystyried data o bob adran (ac ym mhob | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **P**<br><br>Caiff hyn ei ystyried fel rhan o ddatblygu cynllun |

| | | |
|---|---|---|
| adran) yn fwy, ochr yn ochr ag eraill, ac ystyried y rhyng-ddibyniaethau rhwng data. Mae hyn yn faes i chi ei ystyried ymhellach wrth i chi gwblhau eich asesiad i'w gyhoeddi, ac wrth i chi baratoi ar gyfer cynllunio llesiant. Dylai hyn gynnwys mwy o integreiddio ynghyd ag archwilio perthnasoedd polisi/heriau rhwng yr 19 sbardun yn fwy. | | llesiant.<br><br>Hefyd **R:** I'w ystyried gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o werthuso'r asesiad. |
| 102) Cyffredinol<br><br>Rydym yn deall bod gwaith eisoes wedi dechrau ac wedi'i gynllunio i ymchwilio ymhellach i ganfyddiadau'r asesiad gyda phartneriaid. Dylai'r rhyng-ddibyniaethau hyn fod yn rhan o'r gweithgarwch hwn. Dylai integreiddio ar draws themâu lles fod yn fater pwysig i'r BGC ei ystyried wrth iddo symud tuag at gynllunio llesiant. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **P**<br><br>Argymhellir bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnal gweithdy arbennig i fynd i'r afael â mater integreiddio. |
| 103) Cyffredinol<br><br>Deëllir bod cyfle i gynnwys mwy o ddadansoddiad o effaith bosib tueddiadau'r dyfodol ar lesiant a datblygu ffordd i ddadansoddi'r dyfodol. Byddem yn eich annog i fynd ar drywydd hyn yn y BGC wrth i chi weithio ar ddatblygu'r asesiad a chynllunio ar gyfer llesiant.<br>Gellid mabwysiadu ymagwedd syml i fynd i'r afael â'r mater hwn. Efallai bydd crynhoi'r heriau tymor byr, canolig a hir ar gyfer pob adran, nodi lle mae goblygiadau sylweddol posib i'r ardal, a bylchau yn eich dealltwriaeth o dueddiadau | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>Caiff materion tymor hir/tueddiadau'r dyfodol eu hystyried ymhellach gan y Grŵp Ymchwil fel rhan o ddatblygu'r asesiad. |

| | | |
|---|---|---|
| tymor hir yn helpu'r BGC i flaenoriaethu heriau hollbwysig lle mae angen gweithredu ar y cyd. | | |
| 104) Cyffredinol<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru'n llunio'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym mis Mai 2017. Wrth iddo ddatblygu, bydd angen i'ch asesiad ystyried y data sydd wedi'i gynnwys yn hwn, ond dylai geisio darparu pwyslais cliriach ar heriau tymor hir i lesiant yn yr asesiad cychwynnol a gyhoeddir yn y misoedd i ddod. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **R**<br><br>Fel uchod (pwynt 103). |
| 105) Cyffredinol<br><br>Byddai dealltwriaeth a dadansoddiad o faterion rhanbarthol a thrawsffiniol allweddol fanylach sy'n effeithio ar Abertawe'n fuddiol, i gyfeirio proses y cynllun llesiant. Cyfeiriad cyfyngedig a geir yn unig i'r rhanbarth ar draws yr 19 sbardun a lle gaiff ei grybwyll, ni cheir fawr o ddehongli. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **P**<br><br>I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod mewn cyfarfod dan y pennawd 'gweithio trawsffiniol'. |
| 106) Cyffredinol<br><br>Byddai'r asesiad yn elwa o ddehongliad pellach o ran sut gallai Prosiect Dinas-ranbarth Bae Abertawe effeithio ar holl agweddau ar lesiant cymunedol Abertawe. Dylid cynnwys dylanwad posib y prosiect ar gyfer holl adrannau'r asesiad, y tu hwnt i'r 'sbardunau economaidd', gan ei fod yn debygol o gael amryfal effeithiau ar draws gwahanol rannau o Abertawe. Gellid rhoi mwy o oleuni ar arwyddocâd patrymau cymudo ar lesiant yn Abertawe, materion hollbwysig ar gyfer isadeiledd cludiant a natur y | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **P**<br><br>I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei ystyried mewn cyfarfod dan y pennawd 'Effeithiau Cymdeithasol, Amgylcheddol ac Economaidd y Fargen Ddinesig'.<br><br>Hefyd **A**: cafodd pwynt bwled ychwanegol ei gynnwys ym mhennod canlyniad C (gweler pwynt 65). |

| | | |
|---|---|---|
| rhyng-berthnasoedd ag awdurdodau cyfagos a phartneriaid rhanbarthol eraill. Bydd hefyd yn bwysig i'r BGC ystyried casgliadau asesiadau lleol llesiant awdurdodau cyfagos wrth i'r gwaith i greu cynllun ddatblygu. | | |
| 107) Cyffredinol<br><br>Ffocws rhanbarthol yw rhywbeth y byddwn yn disgwyl iddo ymddangos yn yr asesiad pan gaiff ei ailadrodd yn y dyfodol i gyfeirio cynllunio llesiant yn Abertawe, gan efallai ffurfio rhan o'r cyd-destun ehangach ar gyfer y sbardunau fel yr awgrymwyd. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **P**<br><br>I'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod mewn cyfarfod dan y pennawd 'gweithio trawsffiniol' |
| 108) Cyffredinol<br><br>Mae'n gadarnhaol iawn gweld yr adrannau *'Ynghylch y dystiolaeth'* dan bob un o'r 19 sbardun, lle mae rhai awduron wedi nodi bylchau'n hawdd, a dylid annog eraill i wneud hynny. Mae hwn yn adnodd defnyddiol iawn. Gellid ei goladu a'i grynhoi i ddarparu cyfuniad o fylchau mewn data o wahanol agweddau ar y gwaith i ddeall yr hyn y gall fod ei angen yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir - h.y. beth sydd ar goll sy'n bwysig yn awr i gyfeirio datblygiad y cynllun, yr hyn y byddai'n dda i'w ddatblygu dros y tymor canolig a beth yw'r materion data tymor hwy. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Bylchau mewn data a nodwyd i'w coladu fel atodiad/adroddiad ar wahân (gweler pwynt 90).<br><br>Hefyd **R:** Bydd y Grŵp Ymchwil yn dechrau mynd i'r afael â bylchau yn y data fel rhan o'i gynllun gwaith. |
| 109) Cyffredinol<br><br>Mae'n dda iawn gweld yr ymagwedd yn cael ei mabwysiadu yn y cyflwyniad, lle'r ystyriwyd yn | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Mae mwy o fanylion wedi'u hychwanegu at y cyflwyniad. |

| | | |
|---|---|---|
| glir sut i ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a phum ffordd o weithio yn yr asesiad ei hun. Gellid datblygu hyn ymhellach yn yr asesiad terfynol i gyfleu sut mae hyn wedi newid yr ymagwedd o ddulliau 'traddodiadol' blaenorol o ddatblygu tystiolaeth ac ymgynghori ar lesiant. Beth fu gwerth ychwanegol defnyddio'r pum ffordd o weithio? Byddai hyn yn helpu sefydliadau'r BGC i ddechrau deall gwerth ei ddefnydd fel dull gweithio'r bartneriaeth. | | Roedd hefyd yn cydnabod ein bod yn dal ar gamau cynnar ymagwedd dra wahanol. |
| 110) Cyffredinol<br><br>Er y crybwyllir *Atal* yng nghyd-destun ymyriadau blynyddoedd cynnar a'r amgylchedd, byddai'r asesiad yn elwa o ddisgrifiad o sut mae'r agenda ataliol yn hanfodol i gynllunio llesiant a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **P**<br><br>Y BGC i fynd i'r afael â hyn - e.e. drwy Grŵp Cynllunio, gweithdy. |
| 111) Cyffredinol<br><br>Mater hollbwysig ar gyfer ein hadolygiad o'r asesiad hwn oedd a oedd y ddogfennaeth yn glir ynghylch sut byddai'r gwaith yn cael ei barhau i ddatblygu amcanion lleol a llunio cynllun. Mae hyn yn faes lle gellid cryfhau'r asesiad. Er bod cyflwyniad y Cadeirydd yn sôn am ddiben yr asesiad, mae angen i'r dogfennau fod yn fwy eglur am: y camau nesaf; sut gall unigolion a sefydliadau barhau i fod yn rhan o hyn; yr amserlen ar gyfer ymgysylltu a mewnbwn; a'r hyn y mae'r cynllun yn bwriadu ei wneud. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | **A**<br><br>Mae mwy o fanylion wedi'u hychwanegu at y cyflwyniad i egluro hyn. |
| 112) Cyffredinol | Comisiynydd Cenedlaethau'r | **A** |

| | | |
|---|---|---|
| Os yw amcanion yn mynd i fod yn gyfyngedig, dylai'r rhesymeg dros yr ymagwedd hon gael ei chyfleu i'r BGC. Yn bwysicaf, mae angen i'r esboniad hwn gyfleu mewn ffordd fwy effeithiol sut caiff y deunydd a goladwyd yn yr asesiad ei ddefnyddio i ffurfio amcanion ar gyfer y BGC. | Dyfodol Cymru | Fel uchod (pwynt 111). |
| 113) Cyffredinol<br><br>Dylai'r asesiad gynnwys ystyriaeth bellach o faterion cydlyniant cymunedol - yn gysylltiedig â'r Cynllun Cyflwyno Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol ar gyfer 2017-18 a'r nod 'cymunedau cydlynus' cenedlaethol. | Tlodi a'i Atal, Dinas a Sir Abertawe | **R**<br><br>Bydd y Grŵp Ymchwil i gychwyn yn ystyried hyn ymhellach fel rhan o ddatblygu'r asesiad. |

## Ymgynghoriad Asesu Lles y BGC

## Canfyddiadau'r Arolwg Cyhoeddus

### 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliwyd yr arolwg ymgynghori rhwng 23 Ionawr ac 28 Chwefror 2017. Fe'i hysbysebwyd trwy:

- Wefan Cyngor Abertawe
- Mewnrwyd Cyngor Abertawe
- Tudalen Facebook Cyngor Abertawe
- Llyfrgelloedd yn Abertawe
- Meddygfeydd teulu yn Abertawe
- Partneriaid y BGC
- Grwpiau cydraddoldeb
- Pob ymgynghorai statudol

1.2 Derbyniwyd cyfanswm o 159 o arolygon.

### 2. Casgliadau

2.1 Ar gyfartaledd, cytunodd y cyhoedd â'r sgorau a roddwyd i 9 o'r 19 o ysgogwyr ac roeddent o'r farn y dylai 10 newid.

2.2 O'r sgorau yr oedd angen eu newid yn eu barn hwy, roeddent yn credu mai un yn unig (Caiff babanod eu geni'n iach) a ddylai gynyddu un radd. Gyda phob un o'r lleill, roeddent yn credu y dylai'r sgôr gael ei lleihau un radd.

2.3 Y canlyniad ‘Mae gan bobl safon byw dda’ oedd yr unig ganlyniad lle roedd ymatebwyr, ar gyfartaledd, yn meddwl y dylai'r sgorau ar gyfer pob ysgogwr aros yr un peth â'r sgôr ddrafft a roddwyd.

2.4 Wrth ddadansoddi testun agored yr arolwg, daeth sawl thema ailadroddus i'r amlwg, gan gynnwys:

- Canol y ddinas
- Glendid y ddinas
- Cyfleoedd swyddi
- Cymorth, cefnogaeth, arweiniad a hyfforddiant
- Problemau cymdeithasol yn Abertawe

## 3. Canlyniadau

3.1 Mae'r sgorau cyhoeddus yn gyfartaledd o'r holl sgorau a dderbyniwyd gennym ar gyfer pob ysgogwr. I bob ysgogwr, gofynnwyd i'r cyhoedd roi rheswm am eu sgôr yn ogystal ag awgrymu gwelliannau. Dadansoddwyd yr holl sylwadau hyn a chofnodwyd y themâu cyffredin a oedd yn deillio ohonynt ar gyfer pob ysgogwr. Ceir rhestr lawn o'r sylwadau a dderbyniwyd yn Atodiad A. Dyma'r canlyniadau a gafwyd:

3.2 **Sut byddech chi'n sgorio byw yn Abertawe?**

Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 6. Dyma'r prif resymau a roddwyd:

- Cludiant cyhoeddus gwael
- Ffyrdd a mesurau rheoli traffig gwael
- Canol dinas dirywiedig
- Ardaloedd aflan
- Penrhyn prydferth Gŵyr a'r ardaloedd arfordirol
- Problemau cymdeithasol yn Abertawe
- Pobl a chymunedau cyfeillgar

3.3 **Mae plant yn cael dechrau da mewn bywyd**

| **Ysgogwr** | **Awgrymiadau** |
|---|---|
| Caiff babanod eu geni'n iach | • Rhoddwyd 5 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 6.<br>• Roedd sylwadau a roddwyd o ran yr ysgogwr hwn yn ymwneud yn bennaf â mwy o gymorth/gefnogaeth ac arweiniad gan fydwragedd ac ymwelwyr iechyd.<br>*'Mae angen mwy o arweiniad sylfaenol'* |
| Mae plant yn ddiogel rhag niwed | • Rhoddwyd 7 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 6.<br>• Roedd sylwadau a roddwyd o ran yr ysgogwr hwn yn cynnwys arferion diogelu plant a |

| | |
|---|---|
| | chefnogaeth ataliol well. |
| Mae plant cyn oed ysgol yn iach | • Rhoddwyd 5 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 5.<br>• Roedd sylwadau a roddwyd o ran yr ysgogwr hwn yn ymwneud yn bennaf â phwysigrwydd mentrau i hyrwyddo iechyd cyn ysgol, er bod rhaid darparu'r rhain mewn rhagor o ardaloedd yn Abertawe.<br>*'Mwyaf cadarn mae'r mentrau hyn yn cael eu gwreiddio, gorau y bydd y canlyniadau dros amser'* |
| Mae plant yn barod i ddechrau'r ysgol | • Rhoddwyd 5 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 5.<br>• Roedd sylwadau ar gyfer yr ysgogwr hwn yn cynnwys rhagor o barodrwydd ar gyfer gweithgareddau ysgol ym mhob ardal, mae llawer o blant yn dechrau yn yr ysgol heb fod yn barod ac mae meintiau dosbarthiadau mewn ysgolion yn mynd yn rhy fawr.<br>*'Mewn rhai ardaloedd difreintiedig, mae plant yn dechrau yn yr ysgol heb fod yn barod'* |
| Yn gyffredinol, mae plant yn cael dechrau da mewn bywyd | • Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 5.<br>• Roedd y prif faterion a nodwyd o ran y canlyniad hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth/gefnogaeth/arweiniad ar gyfer magu plant, mae amrywiaeth mawr rhwng ardaloedd yn Abertawe o ran blynyddoedd cynnar plant a phwysigrwydd ymyriad a mentrau'r blynyddoedd cynnar. |

### 3.4 Mae pobl yn dysgu'n llwyddiannus

| **Ysgogwr** | **Awgrymiadau** |
|---|---|
| Mae plant, pobl ifanc ac oedolion yn mynychu eu hysgolion a'u cyrsiau | • Rhoddwyd 7 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft. |

| | |
|---|---|
| hyfforddi. | • Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 6.<br>• Y brif broblem a nodwyd o ran yr ysgogwr hwn oedd bod angen gwneud mwy i ddatrys problemau presenoldeb.<br>*'Mae presenoldeb yn allweddol i gyrhaeddiad'* |
| Mae pobl yn datblygu'r sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i allu dysgu trwy eu bywydau. | • Rhoddwyd 7 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 6.<br>• Roedd y prif faterion a nodwyd o ran yr ysgogwr hwn yn cynnwys methiant y system addysg i baratoi myfyrwyr am waith, yr angen am ragor o gyrsiau galwedigaethol a dylid cynnig amrywiaeth ehangach o bynciau i fyfyrwyr. |
| Yn gyffredinol, mae pobl yn dysgu'n llwyddiannus. | • Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 6.<br>• Y prif fater a nodwyd o ran y canlyniad hwn oedd bod addysg yng Nghymru'n wael o'i chymharu â gwledydd eraill. |

### 3.5 Mae gan bobl ifanc ac oedolion swyddi da

| Ysgogwr | Awgrymiadau |
|---|---|
| Tynnu rhwystrau i gyflogaeth a hyfforddiant | • Rhoddwyd 5 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4.<br>• Roedd sylwadau a wnaed o ran yr ysgogwr hwn yn cynnwys mwy o gyfeiriadau i fentrau er mwyn helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith, mynd i'r afael â'r diwylliant budd-daliadau yn Abertawe a mwy o help gyda rhwystrau sy'n atal pobl rhag gweithio, megis cludiant, gofal plant a chyflogau gwael. |
| Mae cyfleoedd cyflogaeth da yn cael eu creu | • Rhoddwyd 5 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4. |

| | |
|---|---|
| | • Y prif fater a nodwyd o ran yr ysgogwr hwn oedd diffyg cyfleoedd swyddi yn Abertawe. |
| Yn gyffredinol, mae gan bobl ifanc ac oedolion swyddi da | • Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4.<br>• Y prif fater a nodwyd o ran y canlyniad hwn oedd diffyg amrywiaeth ymysg diwydiannau Abertawe. Mae angen i Abertawe ddenu busnesau a diwydiannau go iawn, nid canolfannau galwadau'n unig.<br>*'Abertawe yw prifddinas Cymru o ran canolfannau galwadau'* |

### 3.6 Mae safon byw dda gan bobl

| **Ysgogwr** | **Awgrymiadau** |
|---|---|
| Mae pobl yn bodloni'r isafswm safon incwm (cost safon byw sylfaenol a derbyniol). | • Rhoddwyd 4 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4.<br>• Y prif fater a nodwyd o ran yr ysgogwr oedd bod gormod o ragolygon swyddi gwael a gormod o swyddi â chyflogau gwael yn Abertawe. |
| Mae pobl yn osgoi'r Premiwm Tlodi (y costau ychwanegol mae'n rhaid i bobl ar incwm isel eu talu am bethau hanfodol). | • Rhoddwyd 3 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 3. |
| Mae pobl yn cael y gwerth mwyaf am eu harian | • Rhoddwyd 3 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 3.<br>• Y prif fater a nodwyd o ran yr ysgogwr hwn oedd bod gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor yn hanfodol i alluogi pobl i gael y gwerth mwyaf am eu harian.<br>*'Mwy o wybodaeth i bobl mewn fformat maent yn gallu ei ddeall'* |
| Yn gyffredinol, mae gan bobl safon byw dda | • Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4.<br>• Y prif fater a nodwyd ar gyfer y canlyniad hwn oedd bod |

| | |
|---|---|
| | amrywiaeth mawr yn y ddinas lle mae gan bobl safon byw dda. |

### 3.7 Mae pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol

| **Ysgogwr** | **Awgrymiadau** |
|---|---|
| Mae pobl yn gorfforol iach ac yn barod ar gyfer bywyd iach a hir | • Rhoddwyd 4 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4.<br>• Roedd sylwadau a wnaed am yr ysgogwr hwn yn cynnwys gwell cyfeirio i weithgareddau am ddim, rhagor o gefnogaeth, gwybodaeth a chyngor – yn benodol i rieni – a'r ffaith fod camddefnyddio cyffuriau'n broblem fawr yn Abertawe.<br>*'Mae gennym fwy o gampfeydd, sbas a chanolfannau hamdden nag erioed, ond gall y rhain fod yn ddrud'* |
| Mae gan blant, pobl ifanc ac oedolion iechyd a lles meddyliol da | • Rhoddwyd 5 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4.<br>• Y prif fater a nodwyd o ran yr ysgogwr hwn oedd nad oes digon o gefnogaeth i bobl â phroblemau iechyd meddwl. |
| Mae pobl hŷn yn heneiddio'n dda a chânt eu cefnogi i fod yn annibynnol | • Rhoddwyd 5 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4.<br>• Roedd y prif faterion a nodwyd o ran yr ysgogwr hwn yn cynnwys yr angen am ofal gwell yn y gymuned a gwaith mwy cydlynol rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. |
| Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel | • Rhoddwyd 5 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 5.<br>• Roedd sylwadau o ran yr ysgogwr yn ymwneud yn bennaf â gwell goleuo yn yr ardaloedd, pobl yn |

| | |
|---|---|
| | teimlo'n anniogel oherwydd problemau gyda chyffuriau ac alcohol yn Abertawe a'r angen i fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion ac ar-lein fel bod plant yn teimlo'n ddiogel. |
| Yn gyffredinol, mae pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol | • Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 5. |

**3.8 Lleoedd da i bobl fyw a gweithio ynddynt**

| Ysgogwr | Awgrymiadau |
|---|---|
| Mae'r amgylchedd naturiol yn iach ac yn wydn | • Rhoddwyd 5 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 5. |
| Mae gan bobl amgylchedd adeiledig o ansawdd da | • Rhoddwyd 4 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4.<br>• Roedd y prif faterion a nodwyd o ran yr ysgogwr hwn yn cynnwys yr angen i ystyried effaith adeiladu newydd ar ffyrdd, traffig ac ysgolion, yr angen am ragor o dai fforddiadwy a rhagor o ddatblygiadau blaengar. |
| Mae pobl yn byw mewn cymunedau cydnerthol ac amgylcheddol gynaliadwy | • Rhoddwyd 5 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4.<br>• Roedd y prif faterion a nodwyd o ran yr ysgogwr hwn yn cynnwys bod angen gwneud mwy i ddiogelu mannau gwyrdd yn Abertawe, rhagor o fentrau ar gyfer byw ffordd gynaliadwy o fyw a phroblemau gwastraff ac ailgylchu yn Abertawe. |
| Mae pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chymunedol yn ôl eu hanghenion | • Rhoddwyd 6 i hwn yn yr Asesiad Lles drafft.<br>• Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 5.<br>• Roedd y prif faterion a nodwyd o ran yr ysgogwr hwn yn cynnwys rhagor o weithgareddau a chyfranogiad cymunedol a |

| | |
|---|---|
| | hysbysebu gweithgareddau am ddim yn fwy.<br>*'Mae cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau cymunedol a diwylliannol yn fwyfwy cyfyngedig'* |
| Yn gyffredinol, mae lleoedd da i bobl fyw a gweithio ynddynt | • Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 5. |

**4. Casgliadau**

4.1 Ar gyfartaledd, cytunodd y cyhoedd â'r sgorau a roddwyd i 9 o'r 19 o ysgogwyr ac roeddent o'r farn y dylai 10 newid.

4.2 O'r sgorau yr oedd angen eu newid yn eu barn hwy, roeddent yn credu mai un yn unig (Caiff babanod eu geni'n iach) a ddylai gynyddu un radd. Gyda phob un o'r lleill, roeddent yn credu y dylai'r sgôr gael ei lleihau, fesul un radd.

4.3 Y canlyniad 'Mae gan bobl safon byw dda' oedd yr unig ganlyniad lle roedd ymatebwyr, ar gyfartaledd, yn meddwl y dylai'r sgorau ar gyfer pob ysgogwr aros yr un peth â'r sgôr ddrafft a roddwyd.

4.4 Wrth ddadansoddi testun agored yr arolwg, daeth sawl thema ailadroddus i'r amlwg, gan gynnwys:

- Canol y ddinas
- Glendid y ddinas
- Cyfleoedd swyddi
- Cymorth, cefnogaeth ac arweiniad i rieni
- Problemau cymdeithasol yn Abertawe

# Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar yr asesiad drafft o les lleol ar gyfer Abertawe, sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Diolch am adael i ni weld Asesiad o Les Lleol BGC Abertawe fel partner ymhlith yr ystod eang o randdeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod paratoi asesiad a'r dystiolaeth gefnogi yn gryn fenter ac yn cydnabod faint o waith a gyflawnwyd.

Rydym wedi strwythuro'n hymateb i'r ymgynghoriad ar eich asesiad fel a ganlyn (byddwn yn defnyddio'r un ymagwedd wrth ymateb i bob un o'r asesiadau):

- Sylwadau cyffredinol sy'n darparu trosolwg o farn am yr asesiad
- Sylwadau mwy penodol am y ffordd y mae'r dadansoddiad wedi'i gyflawni a'i gyflwyno a'r ffordd y bodlonwyd y gofynion statudol
- Tabl crynhoi sy'n nodi'r meysydd yr awgrymwn y gallent elwa o ddatblygiad pellach. Rydym yn mabwysiadu ymagwedd gyson at y materion hyn sydd wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:
    - Categori A - mae'r rhain yn faterion sylweddol y gobeithiwn yr eid i'r afael â hwy cyn cyhoeddi'r asesiad lles. Gallant fod yn ymwneud â phethau megis cydymffurfio â'r gofynion statudol neu'n fater sylfaenol o ran ansawdd y dadansoddiad
    - Categori B - mae'r rhain yn faterion pwysig a fyddai'n cefnogi cynllun lles sydd wedi'i gyfeirio'n well, ac y gobeithiwn y gellid mynd i'r afael â hwy ochr yn ochr â datblygiad y cynllun.
    - Categori C - mae'r rhain yn faterion a fyddai'n cryfhau'r asesiad, ond y gellid mynd i'r afael â hwy dros amser

**Barn Gyffredinol**

Mae'r asesiad hwn yn dangos yr ymrwymiad y mae BGC Abertawe wedi'i wneud i groesawu her yr asesiad lles. Er bod ein gwerthusiad yn nodi rhai meysydd i'w datblygu ymhellach, sydd i'w ddisgwyl gyda newid mor arwyddocaol mewn arfer dros amserlen heriol, mae'r asesiad yn ymdrin mewn ffordd ystyrlon â'r rhan fwyaf o'r meysydd allweddol a nodwyd yn y canllawiau statudol ac anstatudol. Felly, mae ar y trywydd iawn i gyflawni'r newid gofynnol wrth ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddiad, a bydd datblygiad parhaus ar hyd y llwybr hwn yn sicrhau bod gan y BGC ddigon o wybodaeth, a'i fod yn defnyddio tystiolaeth mewn ffyrdd creadigol a soffistigedig i'w helpu i wneud penderfyniadau.

Ceir y cyfle mwyaf ar gyfer gwelliant mewn perthynas â chynnwys, y mae diffyg tystiolaeth ohono yn yr ymgynghoriad drafft (gweler sylwadau annibynnol isod). Y prif feysydd eraill i'w datblygu yw ystyried tueddiadau a sefyllfaoedd yn y dyfodol a dadansoddi ardaloedd cymunedol ymhellach.

Mae cryfderau arbennig yr asesiad yn cynnwys ei ymagwedd newydd sbon at asesu lles, a fydd yn rhoi ymdeimlad defnyddiol o raddfa a chynnydd, a'r ffordd y mae'n cysylltu'r dystiolaeth leol â thystiolaeth ehangach am les, sy'n dangos cynnydd wrth gyflawni'r newid o asesu angen i asesu lles. Mae'r ymagwedd fyfyriol ac onest a gymerir yn y dadansoddiad a'r ymagwedd canlyniadau ac ysgogiadau hefyd yn gryfderau nodedig.

**Sylwadau ar agweddau penodol ar yr Asesiad**

**Gofynion Statudol**

Mae'r asesiad wedi ceisio cynnwys yr holl ofynion statudol a gynhwysir yn y Ddeddf. Ynghyd â nodi chwe ardal gymunedol, ceir cyfeiriadau defnyddiol at y dogfennau asesu, y dangosyddion cenedlaethol a ddefnyddiwyd, a phob un o'r adolygiadau statudol a'r asesiadau a ystyriwyd.

Gweler mwy o fanylion isod am Dueddiadau yn y Dyfodol.

**Strwythur a Fformat**

Mae gan yr asesiad strwythur rhesymegol ac mae'n hawdd iawn ei ddilyn. Mae wedi'i ysgrifennu mewn arddull ddarllenadwy a hygyrch iawn, ac mae'n gwneud ei bwyntiau'n glir iawn. Mae'r is-benawdau o dan bob ysgogwr yn rhoi trosolwg tryloyw a chynhwysfawr o'r dystiolaeth. Er bod y dadansoddiad yn gryno, sy'n helpu i'w wneud yn ddarllenadwy, byddai'n elwa o gael data sydd wedi'i gyflwyno mewn ffyrdd amrywiol (megis siartiau neu fapiau) i danlinellu'r negeseuon yn y testun. Ar ei ffurf bresennol, mae llawer iawn o destun yn yr asesiad.

Er bod y fformat yn rhesymegol ac yn ddarllenadwy, mae strwythuro'r asesiad yn ôl canlyniadau'n cyfyngu ar y gallu i wneud cysylltiadau rhwng themâu, a allai fod yn

ystyriaeth bwysig i'r BGC wrth bennu ei flaenoriaethau. Er y cydnabyddir hyn yn y ddogfen, byddem yn eich cynghori i gynnwys adran trosolwg fer sy'n edrych ar y rhyng-ddibyniaethau ar draws ganlyniadau.

Byddai'r asesiad hefyd yn elwa o ryw ffordd o grynhoi'r dystiolaeth, naill ai ar lefel ysgogwr neu ganlyniad. Mae'r tabl crynhoi ar ddechrau'r asesiad yn gam ymlaen i ddechrau mynd i'r afael â hyn, ond nid yw'n adlewyrchu ehangder y dystiolaeth a gyflwynir yn y prif adrannau.

**Cynnwys**

Mae cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid yn fwlch a gydnabyddir yn yr asesiad drafft, y bwriedir mynd i'r afael ag ef yn y fersiwn derfynol. Er y crybwyllir y gwaith cynnwys rhanbarthol sy'n cael ei oruchwylio gan Miller Research (ac ehangir arno ychydig yn y ddogfen drosolwg gefnogi) ar hyn o bryd, ni cheir manylion y dulliau a gaiff eu defnyddio, cwmpas y cynnwys a pha fath o gyfraniad y bydd yn ei wneud i'r asesiad. Nid yw'n glir ychwaith beth fydd yr amserlen ar gyfer mynd ati i ddadansoddi'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwaith cynnwys.

Mae'r diffyg tystiolaeth o gynnwys yn y drafft ymgynghori hwn yn gyfyngiad sylweddol; bydd ymatebwyr i bob pwrpas yn rhoi sylwadau ar sylfaen dystiolaeth rannol, ac ni chaiff safbwyntiau pwysig eu cynrychioli. Bydd hyn wrth gwrs yn effeithio ar ansawdd yr adborth y gall ymatebwyr ei roi.

Dylai'r asesiad cyhoeddedig o leiaf gynnwys trosolwg o ganfyddiadau'r gwaith cynnwys.

Cydnabyddir fodd bynnag, fod ymdrech sylweddol wedi'i gwneud i gynnwys ffurfiau eraill o dystiolaeth, e.e. arolygon perthnasol a thystiolaeth storïol, sy'n ychwanegu at y dadansoddiad o'r data ac yn cyflwyno rhai safbwyntiau diddorol.

**Cydbwysedd ac Ehangder**

Mae'r asesiad yn gyffredinol gytbwys ac yn rhoi sylw digonol i'r pedair agwedd ar les.

Mae glynu wrth ganlyniadau ac ysgogwyr sefydledig yr ardal (er eu bod wedi'u haddasu i'r Nodau Llesiant Cenedlaethol)yn ymagwedd resymol sy'n cynnig parhad o'r Cynllun Integredig Sengl a chynefindra i bartneriaid. Mae'r dull diagramau ysgogwyr yn rhoi strwythur a chysondeb i'r dadansoddiad.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn ddigonol i baentio llun cyffredinol o les yn yr ardal, ond mae'r ymagwedd yn ddetholus, gan arwain at ddadansoddiad cryno. Mae hyn yn gweithio o'i blaid ac yn dangos y symudiad oddi wrth asesiad o anghenion a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Teimlwn fod yr ysgogwyr amgylcheddol ychydig yn wanach o ran cwmpas na'r rhai

cymdeithasol ac economaidd, ac fel y disgwylid, ceir llai o dystiolaeth sy'n gysylltiedig â lles diwylliannol, sy'n debygol o fod yn faes ar gyfer datblygiad yn y dyfodol ledled Cymru. Gallai'r dadansoddiad o'r amgylchedd naturiol yn arbennig wneud mwy i archwilio'r berthynas rhwng lles pobl yn yr ardal.

Byddai'r asesiad yn elwa o fwy o ddatblygiad o ran lles pobl yn y gymuned. Nid yw'r dystiolaeth yn adlewyrchu'n llawn safbwyntiau'r grwpiau â diddordeb a nodwyd yn y canllawiau statudol, ac mae'n bosib y gallai rhai o'r safbwyntiau hyn newid y darlun cyffredinol o les yn yr ardal yn sylweddol, neu awgrymu ymagwedd sy'n ystyried gwahaniaethau bach ond pwysig yn fwy. Awgrymwn y dylai'r asesiad gynnwys mwy o drafodaeth am y posibiliadau am dystiolaeth a'i hargaeledd yn hyn o beth.

Fel y nodwyd, gallai'r asesiad elwa o ddadansoddiad pellach o ardaloedd cymunedol. Er ei fod yn cynnwys peth dadansoddiad o amrywiad yn Abertawe, mae llawer o'r dadansoddiad hwn yn ansoddol a byddai mwy na thebyg yn annigonol i roi dealltwriaeth fanwl i'r BGC o batrymau ar draws y sir. Nid yw'n glir ychwaith pa ardaloedd cymunedol y cyfeirir atynt mewn rhai adrannau, er enghraifft, dan y canlyniad "Caiff babanod eu geni'n iach", mae'r crynodeb yn awgrymu bod pryderon am anghydraddoldebau iechyd rhwng gwahanol ardaloedd yn Abertawe - fodd bynnag, nid yw'r testun yn trafod pa rai.

Yn seiliedig ar yr adborth rydym wedi'i dderbyn gan arbenigwyr polisi yn Llywodraeth Cymru, mae rhai meysydd penodol iawn rydym yn eu hamlygu er mwyn i chi eu hystyried. Er enghraifft:

- Gallai'r asesiad elwa o ddysgu sy'n dod i'r amlwg o'r asesiad poblogaeth sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y gellid ei gynnwys yn fwy diamwys yn yr asesiad.
- Gellid cryfhau tystiolaeth o'r rhwystrau rhag cael mynediad i wasanaethau iechyd yn yr ardal, yn enwedig mewn cymunedau mwy gwledig ac ardaloedd difreintiedig.
- Gallai'r asesiad gynnwys tystiolaeth o gynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol neu arolwg a oedd yn addas i blant a phobl ifanc.
- Gallai hefyd gynnwys mwy o dystiolaeth o drafod â phartneriaid o'r gwasanaeth Prawf, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a Thimau Troseddau Ieuenctid, sy'n gyfranogwyr gwahoddedig statudol, a gallai ddarparu cefndir am anghenion troseddwyr sydd yn y ddalfa ac yn gymuned.
- Er bod dadansoddiad byr o'r Gymraeg gyda'r adroddiad demograffig, byddai'r asesiad yn elwa o drafod y defnydd o'r iaith yn adran ddiwylliannol y brif ddogfen.
- Ceir rhai bylchau canfyddedig o ran tai; gwybodaeth am y sector rhentu preifat, cartrefi parciau yn yr ardal neu addasiadau i gartrefi (byw'n annibynnol â chymorth).

**Ymagwedd Fyfyriol a Beirniadol**

Yn gyffredinol, mae'r asesiad yn hynod fyfyriol a beirniadol o ran ei ymagwedd; mae'n cydnabod yn agored lle mae bylchau yn y sylfaen dystiolaeth bresennol a lle'r ystyrir bod gweithgareddau cyfredol yn aneffeithiol neu'n ddiffygiol. Mae hyn yn gadarnhaol iawn, ond gellid gwella'r ymagwedd fyfyriol drwy: 1) fod yn gliriach ynghylch goblygiadau cyfyngiadau tystiolaeth a'r bylchau ynddi, o ran sut maent yn effeithio ar ansawdd yr asesiad yn gyffredinol; a 2) bod yn gliriach ynghylch yr hyn, os unrhyw beth, a gaiff (neu y gellid) ei wneud i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Gallai peth sylw i'r ail yn benodol gynorthwyo wrth nodi blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Lles Lleol.

Gwneir defnydd da o ffurfiau ymchwil academaidd ac eraill i bennu'r cyd-destun ar gyfer rhai o'r meysydd pwnc, sy'n ddefnyddiol wrth ddeall y berthynas â lles. Ceir rhai datganiadau na chyfeirir atynt yn yr adrannau 'ynglŷn â'r canlyniad hwn' a allai elwa o gyfeirio clir.

**Ansawdd yr Ymagwedd Ddadansoddol**

Mae ansawdd y dadansoddiad yn yr asesiad hwn yn gyffredinol dda. Mae'n llwyddo i gyfuno ymchwil a data sydd eisoes ar gael i greu darlun cyffredinol o les yn Abertawe. Cyflwynir y data mewn ffordd ddadansoddol, sy'n caniatáu i brif feysydd pryder gael eu nodi. Fodd bynnag, gellid cryfhau hyn trwy ddadansoddi ardaloedd cymunedol ymhellach; defnyddio tystiolaeth ansoddol a gasglwyd drwy'r gwaith cynnwys; a dulliau cyflwyno data mwy amrywiol.

Mae'n galonogol gweld bod lles yn thema amlwg drwy'r holl asesiad. Mae'n gwneud defnydd arbennig o dda o ymchwil academaidd ar les i fframio'i ddadansoddiad a chysylltu ei ddata a'i dystiolaeth â'r cwestiynau sylfaenol am yr hyn sy'n bwysig.

Mae'r defnydd o raddfa 10 pwynt ar gyfer asesu cyflwr presennol lles yn syniad newydd ac mae'n amlwg yr aed ati i wneud hyn yn ofalus. Byddem yn cynghori gofal arbennig wrth asesu symudiadau i fyny neu i lawr y raddfa, y bydd angen iddynt gael eu cyfeirio nid yn unig gan y dystiolaeth sydd ar gael ond hefyd trwy ddealltwriaeth glir o achosiaeth.

Mae peth tystiolaeth bod Abertawe'n symud tuag at ymagwedd sy'n seiliedig ar asedau, sy'n galonogol iawn ac yn dangos cynnydd ar un o brif heriau'r asesiad lles. Fodd bynnag, rydym yn teimlo bod lle i wella hefyd o ran hyn.
Mae cyfeiriadau at asedau'r ardal yn eithaf arwynebol, ac nid ydynt bob amser yn trafod y cyfraniad maent yn ei wneud i les a sut y gellid adeiladu ar hyn yn y dyfodol. Ar ben hynny, mae cyfle i ailfframio peth o'r dadansoddiad sylfaenol i bwysleisio cryfderau (e.e. archwilio'r cyfleoedd a roddir gan boblogaeth sy'n heneiddio yn ogystal â'r heriau), sy'n debygol o fod yn her ar draws llawer o'r asesiadau.

Yn olaf, mae'r ymdrechion i fynd i'r afael â gwelliant yn y dyfodol yn ychwanegiad defnyddiol i'r asesiad; mewn llawer o achosion fodd bynnag, ânt ymhell y tu hwnt i'r hyn y gellid ei gasglu'n rhesymol o'r dystiolaeth a dechrau cynnig atebion ac ymyriadau i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Mae perygl y bydd hyn yn dylanwadu'n ormodol ar feddwl y BGC ac yn

cyfyngu ar yr opsiynau a gynigir ar gyfer y Cynllun Lles. Byddai'n well canolbwyntio'r adrannau hyn ar ba newid mewn canlyniadau y gellid eu disgwyl pe bai gwelliant, yn hytrach na hyrwyddo ymagweddau penodol.

**Tueddiadau yn y Dyfodol**

Ychydig iawn o ddadansoddiad ac ystyriaeth a geir o dueddiadau yn y dyfodol drwy'r holl asesiad. Felly, teimlwn ei fod yn canolbwyntio'n ormodol ar gyflwr presennol lles yn yr ardal ac y byddai'n elwa o ystyried goblygiadau'r darlun presennol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol (efallai drwy wneud mwy o ddefnydd o waith cyhoeddedig Uned Datblygu Cynaliadwy Abertawe). Gallai hyn bennu pa mor dda y caiff y BGC ei hysbysu o'r heriau a'r cyfleoedd y bydd yr ardal yn eu hwynebu yn y blynyddoedd a degawdau i ddod. Rydym yn cydnabod ar y cam hwn fod yr ymagwedd yn cael ei datblygu o hyd yn genedlaethol, a chaiff ei chryfhau dros amser. Fodd bynnag, hyd yn oed heb ddata penodol ar gyfer Abertawe, byddai dadansoddiad mwy datblygedig yn bosib, lle gellid trafod goblygiadau posib ar gyfer yr ardal fel rhan o'r asesiad.

## Meysydd i'w datblygu

| |
|---|
| **Categori A** |
| **Categori B**<br><br>Tueddiadau ar gyfer y dyfodol (gweler y paragraff)<br><br>Cynnwys (gweler y paragraff)<br><br>Grwpiau ar y cyrion a lles pobl yn yr ardal (gweler "Cydbwysedd ac Ehangder)<br><br>Sylwadau penodol a allai ddatblygu'r asesiad ymhellach (gweler "Cydbwysedd ac Ehangder")<br><br>Ymagwedd Fyfyriol a Beirniadol (gweler y paragraff)<br><br>Gwella adran yr Amgylchedd a Lles Diwylliannol (gweler "Cydbwysedd ac Ehangder")<br><br>Gwella'r dadansoddiad o ardaloedd Cymunedol (gweler "Ansawdd yr Ymagwedd<br><br>Ddadansoddol) Symud tuag at ymagwedd sy'n canolbwyntio ar asedau (gweler<br><br>"Ansawdd yr Ymagwedd Ddadansoddol") |

**Categori C**

Rhai datganiadau na cheir cyfeiriad atynt (gweler "Ymagwedd Fyfyriol a Beirniadol")

Amrywiaeth o ffyrdd o gyflwyno data a chysylltiadau rhwng themâu (gweler "Strwythur a Fformat")

**Categori C**

Rhai datganiadau na cheir cyfeiriad atynt (gweler "Ymagwedd Fyfyriol a Beirniadol")

Amrywiaeth o ffyrdd o gyflwyno data a chysylltiadau rhwng themâu (gweler "Strwythur a Fformat")

Future Generations Commissioner for Wales
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Dydd Mawrth 28 Chwefror 2017

Annwyl aelodau tîm cefnogi a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe,

Diolch am roi'r cyfle i mi roi adborth ar eich Asesiad o Les Lleol Drafft a anfonwyd i'r swyddfa ym mis Ionawr 2017.

Y peth cyntaf yr hoffwn ei wneud yw datgan yn glir fy mod i'n deall yn llawn yr heriau rydych chi wedi'u hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, a hoffwn longyfarch eich tîm ar eu gwaith caled a'u hymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried faint bydd eich gwaith hyd yma yn eich helpu i bennu eich amcanion ar y cyd ac ymgymryd â chynllunio ar gyfer lles. Yn fy nhyb i, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cynnig cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i newid sut rydym yn mynd ati i wneud pethau yng Nghymru a gwneud penderfyniadau ar y cyd er mwyn cyflwyno gwasanaethau a fydd yn fuddiol i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad yn rhan allweddol o hyn, ac er i mi lawn sylweddoli na fydd yn ddarlun llawn erbyn i chi ei gyhoeddi, mae'n bwysig ei fod yn nodi darlun llawn a gwybodus o les yn Abertawe ac yn eich cymunedau sy'n berthnasol yn awr ac yn y dyfodol. **Dylai'ch asesiad eich galluogi i nodi heriau allweddol yn eich ardal ac yn eich cymunedau'n glir, a datblygu amcanion ar y cyd a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Atodaf ddogfen sy'n rhoi adborth manwl i chi ar eich asesiad drafft, a'r hyn y dylech ystyried ei ddatblygu yn y tymor byr wrth i chi symud tuag at gynllunio ar gyfer lles ac o ran asesu lles.

Yn ystod 2017-18, un o'ch prif dasgau fydd datblygu eich amcanion lles ar y cyd fel rhan o'ch Cynllun Lles. Mae deddfwriaeth yn gofyn i chi geisio fy nghyngor ar sut i weithredu er mwyn cyflawni eich amcanion yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy (hynny yw, y pum ffordd o weithio).

Isod, nodaf rai o'r pethau y byddaf yn chwilio amdanynt wrth i fy swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i, bydd y BGC hynny sydd wedi dangos eu bod eisoes yn ystyried y pum ffordd o weithio mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a chynlluniau lles, a fydd yn cynnig buddion i'r holl sefydliadau cysylltiedig o ran mwyafu eu cyfraniad cydweithredol i'r nodau hyn a mynd i'r afael â heriau rhyng-genedlaethol.

Mae'r ymagwedd sydd gennych, o nodi chwe thema ac 19 'sbardun lles', yn ddiddorol ac mae eich ymagwedd at 'sgorio' y sbardunau hyn yn cynnig pwyntiau trafodaeth defnyddiol yn ogystal â galluogi ffocws ar eich dyheadau a sut allai gynnydd edrych. Credaf fod gennych y cyfle i archwilio ymhellach yr **integreiddio** rhwng y themâu, y sbardunau a'r saith nod llesiant cenedlaethol. Er mwyn i'r BGC ddeall sut y gall **gynyddu ei gyfraniad** i'r eithaf, bydd angen deall a chyfleu'r berthynas rhwng amcanion strategol dan y chwe thema hyn a'r nodau cenedlaethol.

Roedd yn dda gennyf weld eich bod chi wedi gwneud dechrau da yn eich ymagwedd at **gynnwys pobl a chymunedau** wrth ddatblygu eich asesiad, ac mae eich ymagwedd at sgorio sbardunau yn darparu sail gref i chi ar gyfer cyfranogiad pellach o werth. Byddwn yn eich annog i sicrhau eich bod yn parhau i ddarparu cyfleoedd fel y gall ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion fod yn rhan o ddylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a gallu dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn rydych yn ei wneud.

Mae'r adborth manwl yn amlygu bod rhai o'ch rhannau ar 'Ragolygon y Dyfodol' wedi'u hysgrifennu'n eithriadol o dda, yn enwedig eich rhan ar 'Safon Byw Dda i Bobl'. Wrth i chi ddatblygu'r asesiad a symud tuag at gynllunio ar gyfer lles, hoffwn eich gweld yn datblygu'r gwaith hwn a rhoi mwy o sylw i effaith bosib tueddiadau tymor hir ar Abertawe dan eich holl themâu a sbardunau. Dylai hyn gynnwys mwy o fewnwelediad i brif faterion ar gyfer lles **tymor hir** Abertawe, yn enwedig drwy ystyried pa heriau maent yn eu cyflwyno, a pha leoliadau, cymunedau a phobl benodol y bydd hyn yn debygol o effeithio fwyaf arnynt neu sydd fwyaf diamddiffyn.

Elfen allweddol o'r ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag codi yn hytrach nag ymateb iddynt yn unig, a dyma'r flaenoriaeth allweddol i chi wrth gynllunio ar gyfer lles yn fy marn i. Er y crybwyllir atal yng nghyd-destun ymyriadau blynyddoedd cynnar a'r amgylchedd, byddai'r asesiad yn elwa o ddisgrifiad o sut mae'r agenda ataliol yn hanfodol i gynllunio lles a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Mae hwn yn faes lle byddwn yn eich annog i roi ystyriaeth fanwl i'r hyn y mae'r data a'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthych, er mwyn gwneud synnwyr o heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac wrth wraidd hyn oll mae **cydweithrediad** – mae gennych yn awr y cyfle i ddatblygu ffordd o weithio ar y cyd ar lefel arall, gan gydweithio o ran adnoddau a dod o hyd i ffyrdd newydd o ymdrin â phroblemau cyfarwydd. Dylai'ch asesiad eich helpu i nodi'r cyfleoedd mwyaf ffrwythlon er mwyn gwneud hyn.

Mae eich tîm cefnogi wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn ac mae angen eich holl ymrwymiad a chefnogaeth ar y rheiny sy'n cefnogi eich cynllunio ar gyfer lles. Yn hynny o beth, y nodweddion allweddol fydd yr arweinyddiaeth rydych yn ei dangos a'ch parodrwydd i roi rhyddid a chaniatâd i bobl i archwilio ffyrdd newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Dyma'r newid diwylliannol sydd wrth wraidd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Wrth ddisgwyl y gofyn i mi ddarparu cyngor ar sut y dylech weithredu er mwyn bodloni eich amcanion ar y cyd, hoffwn weld mwy o fanylion o ran sut y byddwch yn defnyddio'ch asesiad wrth i chi barhau i symud tuag at gynllunio ar gyfer lles. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn rhoi gwybod i fy swyddfa sut rydych wedi ymateb i'n hadborth. Gyda hyn mewn cof, bydd hefyd yn bwysig i chi drosglwyddo fy adborth i'r pwyllgor craffu sy'n arwain gwaith

craffu’r BGC. Nodwyd bod ymagwedd fwy adeiladol wrth graffu yn rhan bwysig o gynyddu camau ar y cyd yn lleol.

Hyderaf fod ein hadborth yn glir ac yn defnyddiol ar y cam hwn. Fodd bynnag, mae’n rhaid i fi hefyd ailadrodd nad wyf yn ystyried eich asesiad fel digwyddiad untro. Wrth symud ymlaen, byddaf yn cynnig cyfleoedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rannu’r hyn a ddysgwyd ganddynt ac arfer gorau, a gobeithiaf y byddwch yn rhan o’r broses hon er mwyn darparu’r sail orau i chi gyflawni eich dyletswyddau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau,



Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Future Generations Commissioner for Wales | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

**Adborth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar**

**Asesiad o Lles Lleol Drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ABERTAWE 2017:**
***Sail dystiolaeth Cynllun Lles Abertawe.***

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar yr ymgynghoriad o Asesiad o Les Lleol Drafft Abertawe a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017. Mae'r adborth hen yn seiliedig ar adolygu'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol gan ein tîm prosiect[1] :

- *Asesiad o Les Lleol gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe 2017: Sail dystiolaeth Cynllun ar gyfer Lles Abertawe. Ymgynghoriad Drafft – Ionawr 2017*
- *Asesiad o Les Lleol Abertawe 2017 [Drafft] Atodiad 1: Proffil Demograffig o Abertawe*
- *Asesiad o Les Lleol Abertawe 2017 [Drafft] Atodiad 2: Ardaloedd Cymunedol yn Abertawe yn ôl Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI)*
- *Asesiad o Les Lleol Abertawe 2017 [Drafft] Atodiad 3: Cefndir yr Asesiad*
- Trafodaeth dros y ffôn rhwng y tîm prosiect ac aelodau tîm y BGC ar 14 Chwefror

Bwriad yr adborth hwn yw dylid ei ddefnyddio i lywio cyhoeddiad yr asesiad yng ngwanwyn 2017 lle bo hynny'n bosib a chan ystyried y terfynau amser sy'n bodoli, ond mae'n bwysicach ei fod yn llywio'r broses barhaus o ddatblygu eich asesiad a'ch cynllunio ar gyfer lles.

Adolygwyd yr asesiad gan y tîm prosiect gan ddefnyddio cyfres o feini prawf a ddatblygwyd yn benodol i ganolbwyntio ar agweddau ar gynhyrchiad, methodoleg asesiad, dadansoddiad a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu ystod eang o ymagweddau at asesiadau lleol o les a ddefnyddiwyd ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth wedi'i deilwra i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan amlygu cryfderau a meysydd posib y gellid eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i nodi materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer rhannu yr hyn a ddysgwyd ar lefel genedlaethol gyda'r amrywiaeth helaeth o gyrff y sector cyhoeddus ac eraill sy'n gysylltiedig â chynllunio ar gyfer lles.

Er y deallwn o'r drafodaeth dros y ffôn gyda'r tîm BGC fod yr Asesiad o Les yn broses barhaus a bod gwaith pellach yn cael ei wneud ar hyn o bryd, mae'n bwysig nodi'r

[1] Dr Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr Andrew Flynn, Prifysgol Caerdydd a Dr Mark Lang, Mark Lang Consulting

sylwadau canlynol a gweithredu yn seiliedig arnynt wrth i'r asesiad lles gael ei ddatblygu, ei addasu a'i hyrwyddo er mwyn llywio cynllunio ar gyfer lles ar draws y BGC.

**2. Nodau Llesiant Cenedlaethol**

Un o'r materion a ystyriwyd gennym yw pa mor effeithiol mae'r saith nod llesiant cenedlaethol wedi'u hadlewyrchu yn yr asesiad oherwydd mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLlCD) yn mynnu bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dangos sut maent yn cynllunio cynyddu eu cyfraniad i'r nodau. Mae'n bwysig bod yna gyswllt clir rhwng y data a gynhwysir yn yr asesiadau, dehongliad y data hwnnw a'n dealltwriaeth o holl agweddau lles yn ein cymunedau.

Deallwn y bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn datblygu ffyrdd gwahanol o adlewyrchu lles, ac yn achos Abertawe drwy chwe thema[2] ac 19 'sbardun' lles. Mae'r rhesymeg dros ddefnyddio'r fframwaith hwn yn glir, ac mae Atodiad 3 yn arbennig o ddefnyddiol wrth esbonio hyn. Roedd hefyd yn glir o'r drafodaeth dros y ffôn fod yr ymagwedd hon wedi datblygu o weithio mewn partneriaeth yn y gorffennol.

Bydd hyn yn cynnig fframwaith defnyddiol ar gyfer datblygu dealltwriaeth o gysylltiadau achosol a chamau gweithredu ataliol wrth i chi ddatblygu'ch sail dystiolaeth. Deallwn fwriad sgorio ac edrychwn ymlaen at glywed sut mae'r ymagwedd hon yn annog cyfranogiad gan mae'r ymagwedd hon yn annog cyfranogiad gan bartneriaid a chymunedau. Mae lle i roi mwy o esboniad am sut y dewiswyd y chwe thema a sut maent yn cysylltu â'r saith nod llesiant cenedlaethol ac yn cyfrannu atynt. Pam mae'r chwe thema a'r 19 sbardun yn arbennig o bwysig i Abertawe ac nid materion lles eraill?

Er mwyn i'r BGC ddeall sut y gall *gynyddu* ei gyfraniad *i'r eithaf*, bydd angen deall y berthynas rhwng amcanion strategol dan y chwe thema a'r nodau cenedlaethol. Er y cyfeirir at y saith nod llesiant yn y cyflwyniad, ni chyfeirir atynt dan y chwe thema nac yn y dystiolaeth na'r dadansoddiad yn yr 19 sbardun lles. Mae'r adran 'Ynghylch y canlyniad hwn' yn darparu cyfle i awduron ddatblygu'r cyswllt hwn. Gellid gwneud hyn gyda thabl syml sy'n egluro'r cyfraniad at bob un o'r nodau lles cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae'r adrannau *'Crynodebau'* ac *'Ynghylch y canlyniad hwn'* yn yr asesiad yn aml yn tybio dealltwriaeth ddealledig o sut bydd y mater yn effeithio ar les. Gellid gwneud hyn yn gliriach ac mae'n bosib y gall y nodau llesiant cenedlaethol ddarparu offeryn defnyddiol i wneud hyn, ac i nodi cyfraniad posib y BGC at nodau amrywiol drwy weithgarwch integredig.

[2]Dechrau da mewn bywyd i blant; Pobl yn dysgu'n llwyddiannus; Mae gan bobl ifanc ac oedolion swyddi da Mae gan bobl safon byw dda; Pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol; Mae gan bobl fannau da i fyw a gweithio ynddynt, ac ymweld â nhw.

Byddem yn disgwyl gweld esboniad cryfach o'r berthynas hon pan ailadroddir yr asesiad hwn yn y dyfodol a thrwy holl broses cynllunio lles yn Abertawe.

**3. Cynnwys Data – ardal a lle**

Mae Deddf LlCD yn mynnu bod asesiadau lles yn canolbwyntio ar ardal a 'lle' ac yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau ar draws eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau mae'r cynnwys data yn eich asesiad yn gwneud hyn.

Ceir defnydd da o ddata Abertawe gyfan, rhanbarthol a chymharol er mwyn llywio eich asesiad sy'n rhoi dealltwriaeth eang i ni o'r mathau o heriau a geir o ran lles. Fodd bynnag, mewn mannau, byddai'r data'n elwa o fwy o ddehongliad er mwyn deall *arwyddocâd* y mater i Abertawe gyfan. Mae gwella ein dealltwriaeth o les drwy ddehongli mwy effeithiol a chyfathrebu arwyddocâd yr heriau i les yn ddwy thema y byddwn yn cyfeirio yn ôl atynt yn hwyrach yn y ddogfen adborth hon.

Mae'r ffrâm rydych wedi'i datblygu i gofnodi gwybodaeth dan bob un o'r themâu a'r sbardunau yn ganmoladwy ac yn darparu rhai 'ceisiadau' sylfaenol, clir gan gyfranogwyr dan bob is-bennawd[3]. Mae hyn yn cynnwys adran lle mae gofyn i awduron ddadansoddi *'Gwahaniaethau yn Abertawe'.* Ceir enghreifftiau da lle mae data ACEHI ac ACEHG wedi llywio'r naratif, gan gynnwys adran '*Mae gan bobl safon byw dda*' a chanlyniad F2 ar yr amgylchedd ac isadeiledd.

Fodd bynnag, yn gyffredinol, credwn y gellid gwella'r dadansoddiad drwy roi mwy o ffocws ar gymunedau unigol yn ardal Abertawe. Gallai hyn gynnwys gwell dealltwriaeth o les mewn ardaloedd a lleoedd gwahanol, gwahaniaethau mewn neu rhwng ardaloedd, anghydraddoldebau ac yn arbennig, faterion lleol dwys. Credwn y dylai asesiad llesiant ddarparu dealltwriaeth fwy lleol (a llai unffurf) o les, a byddwn yn chwilio am dystiolaeth o hyn wrth i gynllunio ar gyfer lles fynd rhagddo.

Roedd yn ddefnyddiol deall o'n trafodaeth dros y ffôn fod cyfyngiadau amser a roddir ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni asesiad yn dylanwadu ar ba raddau y gallai data lleol gael ei gynnwys, a bod bwriad i adeiladu ar y gwaith hwn er mwyn cynnwys data'n lleol yn y dyfodol ar draws Gorllewin y Bae; Dwyrain y Bae; Y Ddinas; Cwm Tawe; Penderi a Llwchwr. Ar y sail hon, mae angen datblygu Atodiad 1 ac Atodiad 2 ymhellach.

Gellid cryfhau'r asesiad hefyd drwy gynnwys data am isadeiledd ynni, dŵr a thrafnidiaeth hanfodol ac isadeileddau hanfodol eraill. Dylai hyn gynwys dehongliad o heriau allweddol a chyfaddawdau (gweler sylwadau ar y pwynt hwn ym mhwynt 7 isod). Mae'r math hwn o wybodaeth o berthnasedd allweddol i'r BGC, cyflwyno gwasanaethau a lles cymunedol.

[3] Cryfderau Abertawe: Newidiadau dros amser; Cymariaethau â lleoedd eraill; Gwahaniaethau yn Abertawe; Canfyddiadau a safbwyntiau; Rhagolygon y dyfodol; Sut olwg fyddai ar welliant: ynghylch y dystiolaeth:

## 4. Cynnwys y Data – anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei fod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o anghenion gwahanol pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, ac y deallir goblygiadau'r anghenion hyn. Rydym wedi ystyried i ba raddau mae cynnwys data'r asesiad yn canolbwyntio ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, mewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau penodol o unigolion.

Blaenoriaeth i fy swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau eu bod nhw, yn gyntaf oll, yn cynnwys pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o fewnwelediad iddynt i brofiad pobl wrth ymwneud â chyrff cyhoeddus ac, yn ail, i weithredu ar y mewnwelediad hwn wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau.

Mae'n gadarnhaol gweld cynifer o'r adrannau dan bob un o'r 19 sbardun yn darparu gwybodaeth feintiol ac ansoddol am wasanaethau cyhoeddus, yn arbennig dan y rhannau *'canfyddiadau a safbwyntiau'*, *'rhagolygon i'r dyfodol'* a *'newidiadau dros amser'*. Mae hwn yn adnodd defnyddiol a dylai'r BGC ei goladu a'i ddadansoddi - beth mae'r wybodaeth hon yn ei ddweud wrthym ynghylch a yw gwasanaethau'n ddigonol; a oes bwlch sylweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael â'r 'sbardun'; maint yr her i'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n deillio o'r sbardun; a rôl bosib y BGC wrth ddatblygu camau gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â'r mater?

Gellid adeiladu ar hyn i roi mwy o ystyriaeth i ddehongli'r data er mwyn deall beth yw'r her i'r gwasanaethau cyhoeddus. Trafodir y pwynt mewn mwy o fanylder dan bwynt 6. Gellid cryfhau'r asesiad gyda dadansoddiad o negeseuon allweddol, mwy cyffredinol i'r BGC a'r sector cyhoeddus ynghylch y 'newid fesul cam' y mae'n debygol y bydd ei angen i fynd i'r afael â'r 19 sbardun.

Deallwn y bydd y gwaith ymgynghori a gomisiynwyd â Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-Bont ar Ogwr hefyd yn darparu mewnwelediad i anghenion gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig o gofio bod y gwaith hwn yn ystyried data o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

## 5. Dadansoddiad Meintiol ac Ansoddol

Cydnabyddwn yr her o gydbwyso data, mewnwelediadau a thystiolaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gytbwys o les cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, canolog a hir. Un o'n prif ystyriaethau yw i ba raddau mae dadansoddiad a methodoleg feintiol ac ansoddol mewn asesiadau'n darparu darlun cyflawn o les amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth gychwynnol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau. Hynny yw, beth sy'n wirioneddol bwysig?

Fel yr awgrymwyd uchod, credwn fod y fframwaith a'r templedi a ddatblygwyd ar gyfer yr asesiad yn ardderchog ac mae'n glir eu bod yn eich helpu i goladu a dechrau dehongli casgliad mawr o ddeunydd. Maent hefyd yn darparu dull defnyddiol ar gyfer ymgynghori ymhellach.

Yn gyffredinol, defnyddir data meintiol yn dda i ddisgrifio'r sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, mewn llawer o leoedd, byddai'r naratif yn elwa o ddehongliad pellach er mwyn deall *arwyddocâd* y data (mae hyn yn arbennig o berthnasol i sbardunau sy'n seiliedig ar iechyd ac addysg). Byddai hyn yn ein helpu i ddeall y sefyllfa'n well. Mae yna hefyd gryn dipyn o amrywioldeb yn y blychau 'crynodeb' wrth ddiffinio goblygiadau'r darlun ar gyfer cymunedau. Mae angen i hyn gael ei gryfhau er mwyn cael ymdeimlad o raddfa, arwyddocâd a goblygiadau ar gyfer lles.

Yn hynny o beth, mae yna ddefnydd llawer gwell o ddata ansoddol ac mae rhai awduron wedi darparu dadansoddiad sythweledol rhagorol er mwyn helpu i ddisgrifio arwyddocâd y sefyllfa bresennol (ac mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r rhannau ar dlodi a diwylliant). Dylid annog ymagwedd debyg ar draws y 19 sbardun. Mae'r rhan '*Mae gan Bobl Safon Byw Dda* yn nodedig am ei chydbwysedd ardderchog o ddata meintiol ac ansoddol, ei dehongliad a'i naratif, a dylid ei defnyddio fel meincnod i rannau eraill.

Mae'r sylwadau isod wedi'u seilio ar effeithiolrwydd y 'templedi' a ddatblygwyd wrth gyfathrebu ac asesu lles. Mae potensial amlwg yn y templedi hyn os cânt eu defnyddio'n ddoeth ac os caiff yr wybodaeth ei dadansoddi ar draws y 19 sbardun.

> *Cryfderau Abertawe* – mae hyn yn darparu rhestr gynhwysfawr o asedau a gwasanaethau ac ymyriadau sector cyhoeddus sydd eisoes yn bod. Byddai'n ddefnyddiol cael gwell dealltwriaeth o effaith gymharol y gweithgareddau hyn i fynd i'r afael â'r 'sbardun'. Beth y mae angen i ni wneud mwy ohono?
>
> *Newidiadau dros amser* – mae'r rhannau hyn yn amrywio wrth gyfleu'r neges am sut mae'r mater yn effeithio ar les - beth yw effaith y newid neu'r duedd a beth yw ei goblygiadau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus?
>
> *Cymariaethau* – gallai'r asesiad fod yn gliriach ynghylch yr hyn mae'r gymhariaeth yn ei ddweud wrthym am lawer o'r sbardunau – a yw'n arwyddocaol os yw Abertawe'n amrywio 0.1% o Sir Gâr neu Ben-y-Bont ar Ogwr? A yw'n amlygu anghydraddoldebau, neu faterion i wasanaethau cyhoeddus?
>
> *Gwahaniaethau yn Abertawe*– mae potensial yma i ddatblygu, ynghyd ag Atodiad 1 a 2, er mwyn creu adnodd gwych (gweler y sylwadau uchod ym mhwynt 3) ond mae cyfnewidioldeb eang o ran sut ychwanegir at hyn. A ellir defnyddio data ansoddol yn fwy i ddisgrifio'r gwahaniaethau yn Abertawe os nad oes data meintiol ar gael?
>
> *Canfyddiadau a Safbwyntiau* – nid yw'n glir mewn llawer o achosion canlyniadau a safbwyntiau pwy yw'r rhain, felly byddai'n ddefnyddiol pe gellid gwneud hyn yn fwy eglur. Mae hyn yn rhoi sylfaen dda i gynnwys gwybodaeth o weithgareddau ymgynghori.

*Rhagolygon y Dyfodol* - mae llawer o’r rhannau hyn wedi’u cwblhau ar sail yr hyn sy’n debygol o ddigwydd yn y blynyddoedd nesaf o ran cynllunio ymyriadau, er mae eraill yn fwy dyheadol. Dylai'r BGC ddefnyddio'r wybodaeth hon a'i chrynhoi i gyfeirio'r newid y mae ei angen i fynd i'r afael â'r 'sbardun' yn ogystal â rôl y BGC. Prin yw'r rhai sy'n canolbwyntio ar y tymor hir, 10+ o flynyddoedd – dylid annog hyn i ddechrau deall tueddiadau tymor hir a'u heffeithiau posib. (Gweler y sylwadau ar Ragwelediad a Thueddiadau’r Dyfodol ym mhwynt 10)

*Sut byddai gwelliant yn edrych?* – Mae’r rhan hon eisoes yn darparu adnodd ardderchog er mwyn deall natur y newidiadau sydd eu hangen a’r goblygiadau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Dau gwestiwn a allai ganolbwyntio ar y defnydd o'r deunydd hwn yw sut gellid cyflawni'r 'gwelliant', a beth yw rôl y BGC yn hyn o beth?'

*Ynghylch y dystiolaeth* – mae'r rhannau hyn hefyd yn amrywiol, ond maent yn darparu adnodd da arall i'r BGC allu deall bylchau mewn data a'r posibilrwydd i fynd i'r afael â hwy. (Gweler sylwadau pellach ar hyn ym mhwynt 12 isod).

Mae’r sylwadau canlynol yn canolbwyntio ar rannau thematig yr asesiad ac i ba raddau mae’r rhain yn asesu lles ar draws y 19 sbardun;

*Canlyniad A: Mae gan blant ddechrau da ym mywyd* – mae llawer o’r wybodaeth hon yn gyffredinol a gellid datgan yn gliriach yr effeithiau a’r arwyddocâd ar draws Abertawe. Mae peth o'r iaith yn adlewyrchu 'rheoli perfformiad' ac mae angen iddi fod yn gliriach ynghylch arwyddocâd effeithiau e.e. "mae angen mwy o welliannau", "mae pryderon" - beth yw natur y pryderon a hyd a lled y gwelliannau sydd eu hangen?

*Canlyniad B: Mae pobl yn dysgu’n llwyddiannus* – mae hyn yn canolbwyntio’n drwm ar ystadegau a chyrhaeddiad addysgol. Ymddengys fod ffocws cul ar y rhan hon, a phrin yw'r sôn am y Prifysgolion a'r Colegau yn Abertawe, ac nid oes unrhyw sôn am addysg barhaus. Beth yw'r rhesymeg dros ddewis y sbardunau hyn i fesur y canlyniad hwn?

*Canlyniad C: Mae gan bobl ifanc ac oedolion swyddi da* - mae gan y rhan hon dystiolaeth dda ond gellid darparu mewnwelediad mwy i arwyddocâd agweddau gwahanol o economi Abertawe – beth yw rôl y sector cyhoeddus? Beth yw rôl Bargen y Dinas-ranbarth? Ceir dealltwriaeth gyfyngedig o'r dosbarthiad o swyddi yn Abertawe a rôl arbennig manwerthu mewn cymunedau penodol neu rôl Abertawe fel canolfan is-ranbarthol. Mae naratif llawer mwy strategol am les yma sydd ar goll oherwydd ‘ffrâm’ gul o gwmpas yr ystadegau sydd ar gael.

*Canlyniad Ch: Mae gan bobl safon byw dda*
*Canlyniad D: Mae pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol*

Fel y nodwyd eisoes, mae’r rhannau hyn wedi’u datblygu’n arbennig o dda. Mae’n amlwg bod gan yr awduron yr hyder i ddehongli’r data a’u bod yn nodi’r heriau dros y tymor byr, canolog a hir yn dda a gwelliant a goblygiadau i wasanaethau cyhoeddus. Dylai’r holl rannau ymdrechu i ddilyn yr ymagwedd hon.

*Canlyniad Dd: Mae gan bobl fannau da i fyw a gweithio ynddynt, ac ymweld â nhw*. - mae'r rhan ddiwylliannol ar hyn yn gryf ac wedi'i hysgrifennu'n dda. Roedd angen mwy o ddatblygiad ar rannau eraill yn fwy na rhestr o bwyntiau bwled e.e. pam y mae cael dwy Brifysgol yn darparu cryfder? Beth yw'r sefyllfa o ran fforddadwyedd tai? Pa fioamrywiaeth sy'n dirywio a dan fygythiad?

**6. Heriau Allweddol**

Mae’n bwysig bod asesiadau lles, wrth asesu sefyllfa lles, yn canolbwyntio ar heriau allweddol dros y tymor byr, canolog a hir, yn ogystal â phriodoleddau ac asedau cadarnhaol yn yr ardal. Mae hyn yn gynnwys y cyfarwyddiadau rhwng nodau llesiant, tensiynau, asedau a diffygion lles yn yr ardal.

Deallwn mai bwriad yr asesiad yw bod yn sbardun trafodaeth ynghylch heriau Abertawe a sut i fynd i’r afael â nhw. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, gellid cryfhau’r asesiad drwyddi draw wrth gynnwys dehongliad o’u harwyddocâd i Abertawe a’i chymunedau–*sut* bydd y materion hyn yn effeithio ar les? Mae angen dealltwriaeth gliriach o ba gymunedau a phobl sydd â chadernid neu sy’n agored i dueddiadau’r presennol neu’r dyfodol. Bydd hyn yn helpu'r BGC i ddeall pa agweddau ataliol y gellir eu datblygu a dylai fod yn ffocws gwaith yn y dyfodol ar yr asesiad.

Gallai'r heriau gael eu diffinio'n gliriach yn y 'crynodeb ' ar bob sbardun. Mae'r rhan *’rhagolygon i'r dyfodol*' hefyd yn darparu cyfle gwych i gyfleu heriau dros y tymor canolig a hir. Dylai awduron a chyfranogwyr gael eu hannog i ddatblygu'r ymagwedd hon.

Ceir data cyfoethog yn y ddogfen sy'n cynrychioli dadansoddiadau craff a dylai hyn ymddangos mewn ffordd gryfach mewn crynodeb eang yn y brif ddogfen. Mae'n amlwg bod rhai materion craidd sy'n cael eu disgrifio yn y naratif a ddylai ddarparu cefndir cryfach i bob sbardun: plant sy'n byw mewn tlodi; adnoddau cyfyngedig ar gyfer gofal cymdeithasol; dim digon o dai yn cael eu darparu; diwygio lles; effeithiau'r hinsawdd; cyni; adnoddau naturiol yn dirywio. Mae hwn yn faes lle gall data a gwybodaeth bresennol helpu o bosib i ddarparu cyd-destun strategol eang ar gyfer yr 19 sbardun.

## 7. Cynnwys, Cyfranogaeth a Chydweithrediad

Mae Deddf LlCD yn dangos yn glir fod cydweithio a chyfranogaeth yn ddwy o bum ffordd o weithio y mae angen i'r BGC eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. O ganlyniad, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn lefel a dull y cynnwys, y gyfranogaeth a'r cydweithrediad ar draws y bartneriaeth wrth gynhyrchu'r asesiad, gan gynnwys ymgysylltu â chymunedau, y cyhoedd a sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat.

Bu'r drafodaeth dros y ffôn yn gymorth i ni er mwyn deall y gwaith sy'n cael ei wneud mewn cydweithrediad â Chyngor Pen-y-Bont ar Ogwr a Chyngor Castell-nedd Port Talbot i archwilio'r asesiadau lles ac anghenion y boblogaeth ac ymgynghori arnynt. Edrychwn ymlaen at ddarllen adroddiadau ar y gweithgarwch hwn. Mae'r data fel y'i cyflwynir yn gymhleth a bydd diddordeb gennym yn sut bydd gweithgarwch cydweithredol, ymarferion cynnwys ac ymgynghori yn y dyfodol yn cyflwyno'r wybodaeth i'r cyhoedd ac i gymunedau wrth i gynllunio ar gyfer lles fynd rhagddo.

Wrth reswm, oherwydd hyn, darlun rhannol yn unig sydd gennym o'r gweithgarwch cynnwys ac ymgynghori a ddefnyddiwyd i gyfeirio'r asesiad. Gallwn weld yr ymdrech a wnaed gyda'r arolwg ar-lein a deallwn y lefelau o gydweithio ar draws y bartneriaeth i ddatblygu'r asesiad.

Mae'n braf hefyd clywed faint o'r asesiad sydd wedi bod yn gatalydd i ddatblygu gweithio cydweithredol ar draws y BGC. Dylai'r asesiad terfynol esbonio buddion y cydweithio hwn, natur eu cyfraniad a lle gellid gwella gweithio ar y cyd. Mae'r cydweithio hwn yn gadarnhaol a dylid adeiladu arno wrth i chi symud ymlaen i gynllunio ar gyfer lles.

## 8. Integreiddio

Un o nodau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw annog integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei fod yn bwysig deall y berthynas rhwng lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. O ganlyniad, rydym wedi bod yn awyddus i ystyried lefel yr integreiddio rhwng polisi traddodiadol a seiliau cyfundrefnol wrth gynhyrchu'r asesiad. Mae'n bwysig archwilio'r data a restrir yn yr asesiad ar draws polisi traddodiadol a seiliau cyfundrefnol er mwyn dehongli'r hyn maent yn ei olygu ar gyfer lles yn yr ardal.

Mae lle i ystyried data o bob adran (ac ym mhob adran) yn fwy, ochr yn ochr ag eraill, ac ystyried y rhyng-ddibyniaethau rhwng data. Mae hwn yn faes i chi ei ystyried ymhellach wrth i chi gwblhau eich asesiad i'w gyhoeddi, ac wrth i chi gynllunio ar gyfer lles. Dylai hyn gynnwys mwy o integreiddio ac archwilio perthynas polisi/heriau a'r 19 sbardun ymhellach. Er enghraifft, mae gan dai a newid yn yr hinsawdd effeithiau amrywiol ar draws sawl sbardun. Sut bydd yr asesiad a'r cynllunio ar gyfer lles yn mynd i'r afael â materion sydd

â natur drawsberthynol fel hyn? Fel y nodwyd ym mhwynt 2, gallai'r nodau llesiant gynnig fframwaith defnyddiol i allu archwilio integreiddio ar draws sbardunau cynradd ac eilaidd yr asesiad.

Rydym yn deall bod gwaith eisoes wedi dechrau ac wedi'i gynllunio i ymchwilio ymhellach i ganfyddiadau'r asesiad gyda phartneriaid. Dylai'r rhyng-berthnasoedd hyn fod yn rhan o'r gweithgarwch hwn. Dylai integreiddio ar draws themâu lles fod yn fater pwysig i'r BGC ei ystyried wrth iddo symud tuag at gynllunio ar gyfer lles.

**9. Rhagwelediad a Thueddiadau'r Dyfodol**

Un o'r heriau allweddol sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth yw ystyriaeth o les yn y tymor byr, canolog *a hir* drwy gydol yr asesiad a'r broses gynllunio. Mae diddordeb gennym yn lefel y rhagwelediad a defnydd o ddadansoddi tueddiadau'r dyfodol a chydnabyddiaeth o les cenedlaethau'r dyfodol.

Yn gyffredinol, mae angen mwy o sylw i effaith bosib tueddiadau yn y tymor hir ar Abertawe dan y 19 sbardun, a dyma agwedd lle byddem yn disgwyl gweld gwelliant wrth i'r asesiad a'r cynllun ddatblygu. Hynny yw, pa mor ddiamddiffyn/gadarn yw ynni, dŵr, trafnidiaeth ac isadeiledd arall Abertawe o ran cefnogi'r economi a darparu seiliau ar gyfer lles ar draws y 19 sbardun?

Fel yr esboniwyd ym mhwynt 5, mae ymagweddau amrywiol ar draws y 19 sbardun o ran defnyddio'r rhan 'Rhagolygon y Dyfodol' er mwyn ystyried lles yn y tymor hir. Gwnaethpwyd hyn yn arbennig o dda mewn rhai rhannau, yn enwedig yn y rhan 'Safon Byw Dda', a gellid ei datblygu ymhellach mewn eraill, megis 'Dechrau Da mewn Bywyd' a 'Pobl yn Dysgu'n Llwyddiannus.'

Deallwn o'n trafodaeth dros y ffôn fod cyfle i gynnwys mwy o ddadansoddiad o effaith bosib tueddiadau'r dyfodol ar les a datblygu ffordd i ddadansoddi'r dyfodol. Byddem yn eich annog i fynd ar drywydd hyn yn y BGC wrth i chi weithio ar ddatblygu'r asesiad a chynllunio ar gyfer lles.

Gellid mabwysiadu ymagwedd syml i fynd i'r afael â'r mater hwn. Efallai bydd crynhoi'r heriau tymor byr, canolig a hir ar gyfer pob rhan, nodi lle mae goblygiadau sylweddol posib i'r ardal, a bylchau yn eich dealltwriaeth o dueddiadau tymor hir yn helpu'r BGC i flaenoriaethu heriau hollbwysig lle mae angen gweithredu ar y cyd.

Bydd Llywodraeth Cymru'n llunio'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym mis Mai 2017. Mae'r cynllun presennol yn cynnwys 6 thema allweddol: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol, Defnydd Tir ac Isadeiledd a Newid Cymdeithasol. Wrth iddo ddatblygu, bydd angen i'ch asesiad ystyried y data sydd wedi'i gynnwys yn hwn, ond dylai geisio darparu pwyslais cliriach ar heriau tymor hir i les yn yr asesiad cychwynnol a gyhoeddir yn y misoedd i ddod.

**10. Materion trawsffiniol**

Mae integreiddio a chydweithio yn hollbwysig i gyrff cyhoeddus sy’n rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn eu gweithgareddau. Un o’n hamcanion yw adolygu i ba raddau mae’r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol o ran gweithredu’n rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Credwn y byddai dealltwriaeth a dadansoddiad o faterion rhanbarthol a thrawsffiniol allweddol manylach sy'n effeithio ar Abertawe'n fuddiol, i gyfeirio proses y cynllun lles. Cyfeiriad cyfyngedig yn unig a geir i'r rhanbarth ar draws y 19 sbardun a lle gaiff ei grybwyll, ni cheir llawer o ddehongli.

Byddai'r asesiad yn elwa o ddehongliad pellach o ran sut gallai Prosiect Dinas-ranbarth Bae Abertawe effeithio ar holl agweddau ar les cymunedol Abertawe. Hyd yn oed os yw effeithiau penodol yn ansicr ar hyn o bryd, bydd ganddo ddylanwad amlwg ar gydlyniant, cydraddoldeb, cadernid ac yn y blaen. Dylid cynnwys dylanwad posib y prosiect ar gyfer holl adrannau'r asesiad, y tu hwnt i'r 'sbardunau economaidd', gan ei fod yn debygol o gael amryfal effeithiau ar draws gwahanol rannau o Abertawe. Gellid rhoi mwy o oleuni hefyd ar arwyddocâd patrymau cymudo ar les yn Abertawe, materion hollbwysig ar gyfer isadeiledd cludiant a natur y rhyng-berthnasoedd ag awdurdodau cyfagos a phartneriaid rhanbarthol eraill. Bydd hefyd yn bwysig i'r BGC ystyried casgliadau asesiadau lleol o les awdurdodau cyfagos wrth i'r gwaith i greu cynllun ddatblygu.

Mae'r ffocws rhanbarthol hwn yn rhywbeth y byddwn yn disgwyl iddo ymddangos yn yr asesiad pan gaiff ei ailadrodd yn y dyfodol i gyfeirio cynllunio ar gyfer lles yn Abertawe, gan efallai ffurfio rhan o'r cyd-destun ehangach ar gyfer y sbardunau fel yr awgrymwyd ym mhwynt 6. Roedd yn dda clywed yn ystod y drafodaeth dros y ffôn fod materion rhanbarthol eisoes yn cael eu hystyried gan dîm y BGC.

**11. Ansawdd data a bylchau yn y data**

Bwriad Deddf LlCD yw bod cynllunio ar gyfer lles yn broses barhaus lle caiff y sail dystiolaeth ei chryfhau'n raddol dros amser, gan alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall lles yn eu cymunedau a chynllunio ar ei gyfer. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus at faterion ansawdd data a bylchau yn y data wrth fynd rhagddo.

Mae'n gadarnhaol iawn gweld y rhannau *'Ynghylch y dystiolaeth'* dan bob un o'r 19 sbardun, lle mae rhai awduron wedi nodi bylchau'n hawdd, a dylid annog eraill i wneud hynny. Mae hwn yn adnodd defnyddiol iawn. Gellid ei goladu a'i grynhoi i ddarparu cyfuniad o fylchau mewn data o wahanol agweddau ar y gwaith i ddeall yr hyn y gall fod ei angen yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir – h.y. beth sydd ar goll sy'n bwysig yn awr i gyfeirio datblygiad y cynllun, yr hyn y byddai'n dda i'w ddatblygu dros y tymor canolig a beth yw'r materion data tymor hwy.

Byddai hyn yn galluogi'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i adeiladu ar waith y presennol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i gynnwys ymchwilio a rheoli data yn eu cynllunio busnes a chorfforaethol. Byddai hefyd yn nodi anghenion BGC i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Ddata Cymru.

**12. Defnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy**

Mae arweiniad statudol yn ei wneud yn gyfrifoldeb i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus *fwyafu* eu cyfraniad i nodau llesiant drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd maent yn gweithredu. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio wedi'u defnyddio yn ystod yr asesiadau lles.

Mae'n dda iawn gweld yr ymagwedd yn cael ei mabwysiadu yn y cyflwyniad, lle'r ystyriwyd yn glir sut i ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a phum ffordd o weithio yn yr asesiad ei hun. Gellid datblygu hyn ymhellach yn yr asesiad terfynol i gyfleu sut mae hyn wedi newid yr ymagwedd o ddulliau 'traddodiadol' blaenorol o ddatblygu tystiolaeth ac ymgynghori ar les. Beth fu gwerth ychwanegol defnyddio'r pum ffordd o weithio? Byddai hyn yn helpu sefydliadau'r BGC i ddechrau deall gwerth ei ddefnydd fel dull gweithio'r bartneriaeth.

Yn amlwg, mae gweithgareddau sy'n dangos yr egwyddor datblygu cynaliadwy a lle maent yn oblygedig yn yr ymagwedd a gymerir, ac mae'r gweithgareddau hyn yn dangos dealltwriaeth o Ddeddf LlCD a'i nodau:

*Tymor hir* – drwy'r rhan Rhagolygon y Dyfodol (gweler sylwadau ym mhwynt 9)
*Cyfranogiad* – drwy waith ymgynghori a wnaed ac sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd (gweler pwynt 7)
*Cydweithio* – drwy weithio gyda phartneriaid statudol ac eraill (gweler pwynt 7)
*Integreiddio* – gellid ei ddatblygu ymhellach gan y BGC (gweler pwyntiau 2 ac 8)

Er y crybwyllir *Atal* yng nghyd-destun ymyriadau blynyddoedd cynnar a'r amgylchedd, byddai'r asesiad yn elwa o ddisgrifiad o sut mae'r agenda ataliol yn hanfodol i gynllunio lles a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.

**13. Edrych ymlaen er mwyn blaengynllunio**

Mater hollbwysig ar gyfer ein hadolygiad o'r asesiad hwn oedd a oedd y ddogfennaeth yn glir ynghylch sut byddai'r gwaith yn cael ei barhau i ddatblygu amcanion lleol a llunio cynllun.

Mae hwn yn faes lle gellid cryfhau'r asesiad. Er bod awgrym gan y Cadeirydd yn ei gyflwyniad ar ddiben yr asesiad, credwn fod yn rhaid i'r dogfennau fod yn fwy penodol ynghylch: y camau nesaf; sut gall unigolion a sefydliadau barhau i fod yn rhan o hyn; yr amserlen ar gyfer ymgysylltu a mewnbwn; a'r hyn y mae'r cynllun yn bwriadu ei wneud.

Yn ogystal, ar hyn o bryd, mae'r Cynllun yn cael ei bortreadu fel un sydd â 'nifer bach o amcanion' wrth, ar yr un pryd, awgrymu mai proses agored yw hon ag iddi nifer eang o

sbardunau cynradd ac eilaidd. Os yw amcanion yn mynd i fod yn gyfyngedig, dylai'r rhesymeg dros yr ymagwedd hon gael ei chyfleu gan y BGC. Yn bwysicaf oll, mae angen i'r esboniad hwn gyfleu mewn ffordd fwy effeithiol sut caiff y deunydd a goladwyd yn yr asesiad ei ddefnyddio i ffurfio amcanion ar gyfer y BGC.

**14. Trosolwg**

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi nodi nifer o rannau lle credwn y gellid cryfhau'r asesiad, yn y tymor byr a chyn ei gyhoeddiad, a thros y tymor canolig wrth i ddadansoddiad ymatebol ddatblygu a'r cynllun gael ei lunio. Yn ogystal â hyn, trefnwyd galwad ffôn i drafod yr asesiad gydag aelodau tîm y BGC a oedd wedi bod yn rhan o'r broses. Nod yr alwad ffôn hon oedd rhoi cyfle i ni eglurhau/archwilio'r materion a amlygwyd yn ein hadolygiad cychwynnol a galluogi'r BGC i dynnu sylw at faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach llunio'r asesiad.

Mae sawl thema glir a chyson wedi ymddangos o'n hadolygiad a'r drafodaeth. Mae'n glir bod hyn wedi bod yn fenter enfawr dros gyfnod cymharol fyr o amser, a bod partneriaid wedi rhoi ymdrech fawr i lunio'r asesiad drafft. Cawson argraff dda iawn o'r strwythur sydd wedi'i sefydlu er mwyn casglu gwybodaeth ar draws y bartneriaeth a'r dechrau a wnaed wrth ddatblygu'r adnodd hwn.

Credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol er mwyn gwella'r asesiad:

*cyd-destun strategol* – disgrifiad ehangach o heriau lles i Abertawe dros y tymor byr, canolig a hir i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer y chwe thema a'r 19 sbardun

*ardal a lle* – i ategu'r 19 sbardun, adlewyrchu lles yn fwy mewn ardaloedd penodol yn Abertawe, er mwyn tynnu sylw'n well at faterion allweddol ar gyfer lles mewn ardaloedd gwahanol a'r asedau a'r anghydraddoldebau ar draws yr ardal

*arwyddocâd y data* – mwy o eglurhad ar arwyddocâd y data a'r heriau allweddol i les ar draws pob un o'r 19 sbardun.

*heriau* – darparu dadansoddiad cliriach o heriau (a chyfleoedd) tymor byr, canolig a hir i les

*cyd-destun rhanbarthol* – gwell dealltwriaeth o ryng-berthnasoedd Abertawe ag awdurdodau (a BGC) cyfagos a phrosiect Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

*tueddiadau'r dyfodol* – mwy o sylw'n cael ei roi i effaith bosib tueddiadau tymor hir ar les yn Abertawe gyfan a'i chymunedau

*symud ymlaen* – darparu disgrifiad cliriach o sut y bwriedir defnyddio'r data asesu, sut caiff bylchau mewn data eu rheoli a pha mor dda y bydd y cynllunio'n datblygu

Cydnabyddir y gellid mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rhwng nawr a chyhoeddiad cyntaf yr asesiad.

Hyderwn y bydd y materion a godir uchod yn llywio'r gwaith cydweithredol hwn er mwyn

adlewyrchu'r elfennau yn gryfach gan y BGC yn yr Asesiad o Lesiant Lleol terfynol a thrwy gydol y broses o gynllunio ar gyfer lles.

# Sylwadau ar asesiad lles Abertawe

Ased naturiol gwerthfawr yw ein hamgylchedd ac mae'n cynnig cyfleoedd i helpu i wella iechyd a lles pobl.  Mae'r adnoddau naturiol hyn yn cyfrannu bron £9 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn.

Mae'r asesiad lles yn gam allweddol wrth nodi amcanion lles Abertawe; ymdrech ar y cyd yw hi ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd i gyflawni'r nodau lles. Rydym yn croesawu'r cyfle i nodi sylwadau i helpu'r broses hon:

- Mae angen cysylltiad rhwng yr ysgogwyr gwahanol; mae llawer o'r rhain yn gysylltiedig a gallant effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar ei gilydd. Er enghraifft, gellir gweld dylanwadau amgylcheddol fel llinyn sy'n cysylltu llawer o'r canlyniadau. Mae angen i ni ddangos y rhyngweithio allweddol rhwng yr ysgogwyr amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

- Mae angen cysylltiad clir rhwng y data, sut y'i dehonglir a'n dealltwriaeth o les yn ein cymunedau – gan mapio'r cysylltiad rhwng yr ysgogwyr a'r nodau lles.

- Mae'r sgorau lles a awgrymir yn ffordd effeithiol o gyfleu statws canfyddedig yr ysgogwyr. Fodd bynnag, mae angen cefnogi'r rhain gyda rhesymau sy'n cael eu cyfleu'n glir am y ffigur a gall fod angen rhannu'r ysgogwyr yn llawer o ffigurau, e.e.  mae Ysgogwr F1 (mae'r amgylchedd naturiol yn iach ac yn gydnerth) yn crynhoi swm anferth o ddata a gwybodaeth fel ffigur unigol, felly gellid cynnwys ffigurau lluosog.

- Mae cynnwys data gofodol yn ffordd effeithiol a diddorol o gyfleu'r gwahaniaethau o fewn Abertawe a rhwng cymunedau – gall hyn ein galluogi i ganolbwyntio'n fwy ar leoedd. Mae data gofodol hefyd yn ddull greddfol o asesu statws ysgogwr (e.e. ansawdd dŵr, data tlodi) a sut mae hyn yn berthnasol i les – gweler pecyn tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer Abertawe, sy'n atodedig.

- **Data i'w gynnwys:**

    - Ceir effeithiau yn y dyfodol a'r risgiau yng Nghymru yn yr Asesiad o Risgiau Newid yn yr Hinsawdd – crynodeb i Gymru 2017.
    - Mae data CNC ar gyfer yr asesiad lles (atodedig) yn rhoi data gofodol o ran ein hadnoddau naturiol.
    - Mae'r adroddiad terfynol am Dreial Tawe a gwefan y prosiect yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'r asesiad lles. Cyfrannodd rhanddeiliaid yn helaeth at y broses hon a lluniwyd pedwar datganiad ar y cyd (gweler isod) o ran y 'weledigaeth' ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Abertawe a'r Tawe'n gynaliadwy.

- Mae Asesiad o Risgiau Newid yn yr Hinsawdd 2017 yn rhoi crynodeb o'r risgiau trawsbynciol cysylltiedig sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd a dylid ei gynnwys er mwyn helpu i asesu 'rhagolygon ar gyfer y dyfodol' – mae hefyd yn ein helpu i fynd i'r afael â'r risgiau hyn ac yn ein galluogi ni fel Cymru i fod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang.

- Mae angen mwy o gyfranogaeth gan amrywiaeth ehangach o randdeiliaid i symud ymlaen i'r cynllun lles er mwyn caniatáu i bob grŵp gael ei ystyried.

- Mae rhai materion yn drawsffiniol ac mae angen eu deall a mynd i'r afael â hwy ar y raddfa hon.
  *E.e. mae gan afon Tawe ei ffynhonnell ym Mhowys, mae'n llifo drwy Gastell-nedd Port Talbot ac yna i Abertawe, felly mae angen ystyried materion ansawdd dŵr yn drylwyr; mae rhwydweithiau beicio'n darparu llwybrau teithio llesol rhwng ffiniau awdurdodau unedol ac maent fwyaf effeithiol pan gânt eu cynllunio'n seiliedig ar anghenion y boblogaeth.*

- Bydd proses fapio effeithiol rhwng ysgogwyr yn ein helpu i ddeall y risgiau a llunio blaenoriaethau i'w datblygu.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

21.02.2017

Dinas a Sir Abertawe
Canolfan Ddinesig,
Heol Ystumllwynarth,
Abertawe,
SA1 3SN

## Ymateb i Asesiad Llesiant Abertawe

Diolch am y cyfle i ymateb yn ffurfiol i'ch Asesiad Llesiant drafft.

Cydnebydd Cyngor Celfyddydau Cymru, ac yntau'n bartner a enwir, bwysigrwydd diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Felly rydym yn awyddus i gynnal deialog gyda chi fel y datblyga eich agenda dros yr wythnosau a'r misoedd a ddaw.

Rydym yn ymwybodol o'r ffyrdd amrywiol yr ymgysylltasoch â'r cyhoedd dros y chwe mis diwethaf wrth ichi ddatblygu'r ddogfen hon. Gwyddom hefyd fod y darn hwn o waith yn un cymhleth ac mae arno angen cyrraedd pawb sy'n byw ac yn gweithio yn eich ardal a chyfathrebu gyda hwy. Os oes modd llwyddo wrth wneud hyn, bydd gan eich gwaith ystyr a gwaddol sy'n parhau y tu hwnt i'r ddogfen hon. Mae hyn, wrth gwrs, yn cydweddu ag ethos y ddeddf.

Ar ôl craffu ar eich dogfen, hoffem awgrymu o bosibl fod y celfyddydau wedi'u tangynrychioli yn eich asesiad. (Gyda llaw, gwelsom yr un peth mewn llawer o leoedd yng Nghymru.) Cydnabyddwn fod y data sydd ar gael ar hyn o bryd am y pwnc hwn yn llai cynhwysfawr na'r hyn a ddisgwyliwn ei gael mewn meysydd mwy yn y gwasanaethau cyhoeddus (megis Iechyd neu Addysg). Rydym hefyd yn ymwybodol bod gwahaniaeth farn am ystyr y celfyddydau a diwylliant. Weithiau mae hyn yn atal pobl rhag sylweddoli beth sy'n bosibl. Gallai gyfyngu ar amlygrwydd y celfyddydau ac felly leihau eu heffaith a'u posibiliadau yn eich ardal. Gobeithiwn y gellwch fynd i'r afael â hyn yn eich cynlluniau at y dyfodol.

Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL
Ffôn: 0845 8734 900
Ffacs: 029 2044 1400
SMS: 07797 800504
Ebost: gwybodaeth@celf.cymru
Gwefan: www.celf.cymru

Bute Place, Cardiff CF10 5AL
Tel: 0845 8734 900
Fax: 029 2044 1400
SMS: 07797 800504
Email: info@arts.wales
Website: www.arts.wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Swyddfeydd Lleol/Local Offices:
Caerdydd/Cardiff, Bae Colwyn/Colwyn Bay, Caerfyrddin/Carmarthen
Rhif Elusen Gofrestredig/Registered Charity Number: 1034245

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome correspondences in Welsh and English, corresponding in Welsh will not lead to a delay.

Gwyddom o'n sgyrsiau cychwynnol yn lleol eich bod yn ymwybodol o'r materion hyn. Felly hoffem amlinellu rhai o'r meysydd allweddol lle gwna'r celfyddydau wir gyfraniad at ddiwallu amcanion ehangach polisi cyhoeddus. Hoffem hefyd gynnig ichi ein cefnogaeth bellach o ran cydweithio a datblygu'n bellach eich cynlluniau.

Credwn fod y celfyddydau'n sylfaenol i bob agwedd ar yr agenda lesiant. Gweithia Cyngor y Celfyddydau er meithrin amgylchedd y gall celfyddydau Cymru ffynnu ynddo – sef amgylchedd sy'n gwneud y canlynol:

- nodi a meithrin talent greadigol, lle bynnag y mae i'w chael yng Nghymru, a hynny i'w photensial llawn
- annog ymgyfranogi gweithredol
- cefnogi a dathlu dychymyg, arloesedd ac uchelgais
- meithrin creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- galluogi artistiaid i ddatblygu gyrfa broffesiynol yng Nghymru a sefydliadau i fanteisio ar farchnadoedd newydd i'w gwaith
- ysbrydoli pobl ifainc i ddatblygu eu posibiliadau creadigol
- coleddu cydraddoldeb ac amrywiaeth
- dod o hyd i leoedd a ffyrdd newydd i bobl ymgyfranogi o'r celfyddydau
- datblygu traddodiadau creadigol Cymru a'u hailddehongli â pherthnasedd cyfoes
- bod yn rhyngwladol ei olwg
- cydnabod pwysigrwydd hanfodol cynaliadwyedd

Credwn y bywoga'r celfyddydau ystod eang o strategaethau sy'n cynnal y bywyd cyhoeddus. Cynhwysant y celfyddydau ac iechyd, twristiaeth ddiwylliannol, celfyddyd gyhoeddus ac adfywio canol ein trefi a gwnânt ein bywyd beunyddiol yn ystyrlon, yn ddilys ac yn ddedwydd. Mae'r celfyddydau yn cynnal a chreu swyddi, cyfoethogi gwasanaethau addysg, dod â phobl at ei gilydd a gwella ansawdd ein bywyd.

Wrth ystyried y celfyddydau a'r 7 amcan llesiant, gwelwn fod:

- **y celfyddydau'n rhan o sector creadigol ehangach sy'n cyfrannu at greu Cymru ffyniannus** – maent yn gyrru ein heconomi rhagddi a chyfrannu'n uniongyrchol o ran creu swyddi a chyfoeth. Lle cynhyrchiol yw lle cryf, creadigol ac arloesol. Cyfranna sawl rhan o'r sectordiwylliannol, gan gynnwys Oriel Gelf Glynn Vivian ar ei newydd wedd, Oriel Mission, Canolfan Celfyddydau Taliesin, Theatr y Grand, Neuadd Brangwyn yn ogystal â digwyddiadau blynyddol megis Gŵyl Ryngwladol Abertawe a Gŵyl Jas Rhyngwladol Abertawe. , at dwristiaeth gan gynhyrchu'r galw am gludiant, llety, arlwyo, twristiaeth arall a busnesau sy'n gweithio gyda busnesau.

- **mae cefnogi addysg a deori talent ifanc i'r economi wybodaeth newydd yn fuddsoddiad o ran llewyrch a gwytnwch y dyfodol** – un o ddisgwyliadau mwyaf elfennol addysg gyffredinol heddiw yw galluogi pobl ifainc i gael swydd ar ôl ymadael â'r ysgol. Newidiodd y cyd-destun economaidd a'r rhagolygon cyflogaeth yn sylfaenol yn y degawdau diwethaf. Roedd prif gwmnïau'r byd yn y gorffennol yn ymwneud â diwydiant a chynhyrchu. Erbyn hyn cyfathrebu,

gwybodaeth, adloniant, gwyddoniaeth a thechnoleg yw busnes y prif gorfforaethau a hynny'n gynyddol. Gofyn y rhain am lefel uchel o ddychymyg creadigol a gweledigaeth fentrus - rhinweddau a feithrinir yn benodol gan y celfyddydau a diwylliant. Rydym hefyd yn bartner i Lywodraeth Cymru wrth ddarparu "Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau" sy'n trawsnewid addysg greadigol yn ysgolion Cymru.

- **mae buddion tra hysbys i iechyd pobl wrth gymryd rhan yn y celfyddydau** – teimla pobl yn well mewn amgylchedd dymunol sydd wedi'i wella gan ddyluniad a chelfwaith da yn ogystal â gwneud gweithgareddau creadigol. Mae'r buddiannau hyn yn ymwneud yn bennaf ac iechyd a llesiant emosiynol: er enghraifft, grym cerddoriaeth a'r theatr i ddarparu cyfleoedd am hunanfynegiant a chymdeithasu gan leihau bod yn ynysig a mynd i'r afael â thlodi dyhead.

- **cymorth yw'r celfyddydau i greu Cymru fwy cyfartal** – gall y celfyddydau ddymchwel rhwystrau a chyrraedd pobl sydd weithiau ar gyrion ein cymdeithas. Daw syrcas a charnifal â phobl at ei gilydd mewn bwrlwm o ddathliad ac mae sawl enghraifft o brosiectau celfyddydol sydd ar y cyrion megis y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, teithwyr neu bobl sy'n byw gyda dryswch. "Hynt", er enghraifft, yw ein cynllun hygyrchedd o ran tocynnau sy'n galluogi rhagor o bobl anabl i fynychu perfformiadau mewn lleoliadau ledled Cymru.

- **cyfoethoga'r celfyddydau ein bywyd a chyfrannant at gydlyniant ein cymuned** – mae Cyngor y Celfyddydau yn benderfynol o annog cynifer o bobl â phosibl i fwynhau gweithgarwch artistig o safon a chymryd rhan ynddo. Mae gan hyn fuddion ar lefel yr unigolyn a'r gymuned. A phan ddaw cymunedau at ei gilydd i fwynhau gweithgarwch creadigol, gall hynny gael effaith drawsnewidiol. Dengys ein prosiect Creu Cymunedau Cyfoes mewn 7 cymuned ledled Cymru rym y celfyddydau'n gatalydd o ran adfywio a'r effaith y gallant ei chael ar fywyd cymunedau.

- **yn eu hanfod cyfranna'r celfyddydau at wneud Cymru yn ddiwylliant bywiog** – cefnogant hefyd ffyniant y Gymraeg. Cynorthwya prosiectau megis ein cynllun Noson Allan bobl leol i hyrwyddo prosiectau celfyddydol o safon yn eu cymuned leol. Yn 2016/7 cefnogwyd 12 o ddigwyddiadau Noson Allan gan 8 o grwpiau amrywiol o hyrwyddwyr yn Sir Abertawe. Gall hyn gefnogi cymunedau i ddarparu cynnyrch Cymraeg neu ddwyieithog yn lleol a hyrwyddo'r iaith yn rhywbeth byw a gweladwy y tu allan i furiau'r ysgol gan roi'r cyfle i bobl gymdeithasu yn eu dewis iaith. Hefyd gall pobl drwy hyn weld posibiliadau gyrfa sydd ymhlyg wrth y Gymraeg.

- **cynnig y celfyddydau gyfleoedd i fynd yn rhan o Gymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang** – drwy'r celfyddydau gall lleoedd fynd yn enwog gan godi eu proffil, magu eu hawdurdod a lledaenu eu henw da. Mae hynny o bwys. Dibynna busnesau llwyddiannus ar weithlu medrus. Ond gall y gweithlu medrus hwnnw weithio yn rhywle. Pan ystyria arweinwyr busnes dyfu neu adleoli eu busnesau, rhoddant bwys ar yr ansawdd bywyd iddynt hwy, eu teuluoedd a'u gweithlu. Bydd yr ystyriaethau hyn o bwys i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a byddwch yn ystyried y materion hyn yn flaenoriaeth wrth gynllunio'n economaidd ac ymateb i ddeddfwriaeth llesiant y Llywodraeth.

O fabandod hyd henoed, gwyddom y gall y celfyddydau gael effaith gadarnhaol ar fywyd dinasyddion. Cyn gynted â'ch bod wedi nodi eich blaenoriaethau allweddol, rydym yma i'ch cefnogi wrth gyflawni'r amcanion hyn. Gallwn newid ein ffocws i roi'r gefnogaeth orau ichi a nodi meysydd o'r ymarfer gorau y gallech ddysgu oddi wrthynt pe hoffech neu eu hefelychu hyd yn oed.

O ran yr effaith y gall **tueddiadau'r dyfodol** ei chael ar y rhain, dangosodd ymarferwyr celfyddydol a chreadigol fod ganddynt allu rhyfeddol i ddod o hyd i atebion newydd i broblemau sy'n hen gyfarwydd. Mae'n rhan o'u natur ddychmyglon, arloesol a chreadigol a gallant ystyried pethau o'r newydd drwy lygaid gwahanol a chreadigol. A phan fo'r bobl iawn gyda chi, hyderwn y gallwn eich cefnogi i gael atebion ffres i'r materion o'ch blaen.

Yn olaf dylech fod wedi derbyn ein llyfryn yn barod am gyfraniad y celfyddydau at ein bywyd beunyddiol. Yn hwnnw mae astudiaethau achos a gasglwyd gennym o bob cwr o Gymru. Gallwn hefyd gynhyrchu tystiolaeth debyg yn lleol ac atodwn enghraifft o hyn.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi fel y symuda'r agenda bwysig hon ymlaen.

Yn gywir

Nick.

Nick Capaldi
Prif Weithredwr

Gwasanaeth Cenedlaethol
Rheoli Troseddwyr yng Nghymru

National Offender
Management Service in Wales

Hannah Williams
Pennaeth Cynnwys Rhanddeiliaid, Gwasanaeth Cenedlaethol
Rheoli Troseddwyr yng Nghymru
33 Stryd Westgate
Caerdydd
CF10 1JE

E-bost: Hannah.Williams@probation.gsi.gov.uk

Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Bwrdd Gwasanaethau Abertawe
d/o Ystafell Gaerloyw
Neuadd y Ddinas
Abertawe
SA1 4PE

cc. Graham Barrett, Llywodraethwr, CEM
Abertawe

16 Chwefror 2017

Annwyl Gadeirydd

Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru (NiW) yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar les lleol.

Er nad yw cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli i Gymru, cydnabyddir bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) ac Asesiadau Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn berthnasol i boblogaeth troseddwyr yn y carchar a'r gymuned. Mae uwch-gynrychiolwyr NiW felly yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid lleol a rhanddeiliaid allweddol i wella lles cymdeithasol pobl yng Nghymru.

Mae effaith trosedd a throseddu yn effeithio ar gymunedau, rhyw, oedran, hil, crefydd a statws cymdeithasol-economaidd, sy'n ei wneud yn berthnasol i bob partner a phoblogaeth. Ein cyfraniad penodol ni i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus yw helpu partneriaid i leihau troseddau ac aildroseddu. Bydd hyn yn cefnogi partneriaid i gyflawni eu cyfrifoldebau a rennir o dan Ddeddf Troseddu a Phlismona 2009 i ffurfio strategaethau a'u rhoi ar waith er mwyn lleihau aildroseddu. Bydd gwaith statudol NiW i ddiogelu'r cyhoedd drwy gyflawni gofynion dedfryd y llys hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at wneud cymunedau lleol yn fwy diogel.

Mae oddeutu hanner o'r holl droseddau yn cael eu cyflawni gan bobl sydd eisoes wedi bod trwy'r System Cyfiawnder Troseddol. Yn ariannol, mae'r aildroseddu hyn yn costio rhwng £9.5 a £13 biliwn y flwyddyn i'r cyhoedd ar draws y DU[1] ac mae effaith aildroseddu ar unigolion, dioddefwyr a chymunedau lleol yr un mor niweidiol. Gall nifer cymharol fach o unigolion felly gael effaith andwyol anghymesur ar les cymunedau lleol a'u hymdeimlad o les. Mae NiW yn gweithio ar y cyd â swyddogion Llywodraeth Cymru i arwain ar ddatblygiad fframwaith newydd ar ran Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru gyfan er mwyn amlinellu ffyrdd i bartneriaid weithio gyda'i gilydd i leihau nifer y dioddefwyr troseddau a chyflawni diben cyffredin, sef creu cymunedau mwy diogel ledled Cymru.

Mae troseddwyr ymhlith y grwpiau mwyaf diamddiffyn a ffiniol ein cymunedau lleol ac mae eu nodweddion yn aml yn cynnwys eu hanghenion cymhleth a rhyng-gysylltiedig, sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ymysg pethau eraill. Maent hefyd yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd anhrefnus, camweithredol ac anfanteisiol.

Defnyddir y System Asesu Troseddwyr i asesu pa mor debygol yw troseddwr o aildroseddu ac i gyfeirio datblygiad cynllun i reoli unrhyw risg o niwed. Defnyddir yr asesiad hefyd i nodi anghenion sy'n ymwneud â throseddu ac mae'n cynnwys y meysydd canlynol:

- Addysg, Hyfforddiant a Chyflogadwyedd

[1] https://www.gov.uk/government/publications/2010-to-2015-government-policy-reoffending-and-rehabilitation/2010-to-2015-government-policy-reoffending-and-rehabilitation

- Llety
- Camddefnyddio cyffuriau
- Camddefnyddio alcohol
- Iechyd
- Perthnasoedd
- Agweddau
- Meddwl ac ymddygiad

Mae'n bwysig y deëllir anghenion y boblogaeth droseddwyr yn y carchar a'r gymuned er mwyn galluogi partneriaid i weithio gyda'i gilydd i leihau aildroseddu, cynllunio ar gyfer y dyfodol a chydbwyso gofynion gwasanaethau tymor byr a thymor hir.

Gobeithiwn fod y data atodedig yn ddefnyddiol wrth gyfeirio eich asesiad lles lleol ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i gefnogi amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) drwy barhau i wella diogelwch cymunedol yn ein cymunedau lleol.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, e-bostiwch Eirian Evans, Pennaeth yr Uned Gyflwyno Leol: Eirian.Evans@probation.gsi.gov.uk.

Yn gywir,

Hannah Williams

**Pennaeth Cynnwys Rhanddeiliaid, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru**

**Data Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe**

- Carchar lleol yw CEM Abertawe lle cedwir dynion a reolir ar Gategori B. Ym mis Tachwedd 2016, roedd 444 o ddynion yn CEM Abertawe, sef 13% o boblogaeth carcharau Cymru[2].
- Ni fydd yr holl ddynion o Abertawe sydd wedi cael eu dedfrydu i'r ddalfa yn bwrw eu tymor yn CEM Abertawe. Bydd rhai ohonynt yn bwrw eu tymor mewn carchar y tu allan i ardal Abertawe. Mae dynion o'r tu allan i Abertawe hefyd yn CEM Abertawe.
- Mae'r tabl isod yn dangos nifer/cyfran y dynion yn CEM Abertawe sy'n bwrw tymor mewn carchar a'r nifer/y gyfran ar remand. [3]

| **Math o ddalfa** | **Abertawe** | | **Cymru Gyfan** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Wedi'u dedfrydu | 347 | 75% | 3050 | 89% |
| Remand | 113 | 25% | 383 | 11% |
| Anrhoseddol | - | - | 10 | <1% |
| **Cyfanswm** | **460** | **-** | **3443** | **-** |

*TABL 1. Math o ddalfa i ddynion yn CEM Abertawe ac yn ystâd carcharau Cymru (30.09.2016)*

- Roedd 25% o ddynion yn CEM Abertawe ym mis Medi ar remand. Mae gan garcharau remand lleol drosiant uchel o garcharorion, sy'n gofyn am ddilyniant gofal o'r ddalfa i'r gymuned.

- Cyflwynodd rhaglen Gweddnewid Adsefydlu'r Llywodraeth, fel rhan o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (2014), oruchwyliaeth statudol estynedig i droseddwyr sydd wedi'u dedfryd i lai na 12 mis yn y ddalfa, gan wella cyfleoedd ar gyfer gwneud gwaith adsefydlu ystyrlon gyda llawer nad oeddent yn gymwys yn flaenorol am gefnogaeth statudol, gan gynnwys rhai o grwpiau mwyaf niferus o garcharorion â dedfryd tymor byr.

- Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o broffil oedran y dynion sydd yn CEM Abertawe[3], y mae'r mwyafrif ohonynt yn oedolion (21 oed ac yn hŷn).

| **Band oedran** | **Abertawe** | | **Cymru Gyfan** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Rhai ifainc ac oedolion ifanc (15-20) | 30 | 7% | 245 | 7% |
| Oedolion (21+) | 430 | 93% | 3198 | 93% |
| **Cyfanswm** | **460** | **-** | **3443** | **-** |

*TABL 2. Cyfran y dynion yn CEM Abertawe ac yn ystâd carcharau Cymru (30.09.2016)*

- Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o broffil troseddu y rheiny yn CEM Abertawe. [3] Y trosedd mwyaf cyffredin ymhlith y dynion yn CEM Abertawe yn ystod mis Medi 2016 oedd lladrad, wedi'i ddilyn gan drais.

| **Trosedd** | **Abertawe** | | **Cymru Gyfan** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Trais yn erbyn person | 95 | 21% | 719 | 21% |

[2] https://www.gov.uk/government/collections/prison-population-statistics
[3] https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-april-to-june-2016

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Troseddau lladrata | 109 | 24% | 662 | 19% |
| Troseddau cyffuriau | 85 | 18% | 583 | 17% |
| Troseddau rhywiol | - | - | 492 | 14% |
| Lladrad | 31 | 7% | 291 | 8% |
| Troseddau diannod | 66 | 14% | 247 | 7% |
| Troseddau amrywiol yn erbyn cymdeithas | 16 | 3% | 166 | 5% |
| Meddu ar arfau | 22 | 5% | 94 | 3% |
| Tramgwyddau trefn gyhoeddus | 11 | 2% | 56 | 2% |
| Difrod troseddol a llosgi bwriadol | 7 | 2% | 48 | 1% |
| Troseddau twyll | 6 | 1% | 43 | 1% |
| Ni chofnodir y drosedd | 12 | 3% | 37 | 1% |
| **Cyfanswm** | **460** | **-** | **3438** | |

*TABL 3. Trosedd mynegai o ddynion yn CEM Abertawe ac ystâd carcharau Cymru (30.09.2016)*

- Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o genedligrwydd y dynion yn CEM Abertawe. [3] Ym mis Medi 2016, roedd poblogaeth carchar CEM Abertawe yn cynnwys dinasyddion Prydeinig yn bennaf.

| **Cenedligrwydd** | **Abertawe** | | **Cymru Gyfan** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Dinesydd Prydeinig | 436 | 95% | 3278 | 95% |
| Dinesydd Tramor | 18 | 4% | 152 | 4% |
| Ni chofnodir | 6 | 1% | 13 | <1% |
| **Cyfanswm** | **460** | **-** | **3443** | **-** |

*TABL 4. Cenedligrwydd dynion yn CEM Abertawe ac yn ystâd carcharau Cymru (30.09.2016)*

Mae'r rhan fwyaf o'r data a'r wybodaeth a goladwyd gan NiW yn wybodaeth reoli heb ei chyhoeddi a dderbyniwyd drwy systemau data gweinyddol. Mae data wedi'i gydgasglu yn cael ei gyhoeddi'n rheolaidd yn gov.uk o fewn tudalennau cyhoeddiadau statudol Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel y cyfeirir atynt isod.

| **Ffynhonnell** | **Enghreifftiau o beth gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus** | **Dolen** |
|---|---|---|
| **Ystadegau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder** | Ystadegau poblogaethau carcharau sy'n darparu gwybodaeth am boblogaeth fesul carchar<br><br>Cânt eu diweddaru bob mis ar lefel sefydliad | https://www.gov.uk/government/collections/prison-population-statistics |
| | Ystadegau rheoli troseddwyr (chwarterol)<br>- Poblogaeth carcharau fesul grŵp troseddu, grŵp oedran, crefydd, ethnigrwydd<br>- Derbynfeydd carcharau<br>- Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog<br>- Rhyddhau o garchar<br>- Troseddwyr a reolir yn y gymuned (gan gynnwys gofynion, dechreuadau a therfyniadau).<br>- Galwadau yn ôl i'r carchar<br><br>Wedi'u diweddaru a'u cyhoeddi'n chwarterol ar lefel sefydliad/ardal gymunedol a Chymru a Lloegr | https://www.gov.uk/government/collections/offender-management-statistics-quarterly |

| | | |
|---|---|---|
| | Ystadegau perfformiad ymddiriedolaethau prawf a charcharau<br>- Poblogaeth carcharau (gan y sefydliad)<br>- Ymddygiad troseddwyr, nifer y rhaglenni trin troseddwyr rhyw a thrais domestig sy'n dechrau ac yn cael eu cwblhau<br>- Camddefnyddio sylweddau (profion cyffuriau ar hap, gofynion ailsefydlu ar gyfer cyffuriau, gofynion triniaeth alcohol)<br>- Rhyddhau troseddwr i lety sefydlog<br>- Rhyddhau troseddwr i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth<br><br>Wedi'u diweddaru a'u cyhoeddi bob blwyddyn ar lefel sefydliad/ardal gymunedol a Chymru a Lloegr | https://www.gov.uk/government/collections/prison-and-probation-trusts-performance-statistics |
| | Ystadegau aildroseddu i ddarparu'r gyfran o droseddwyr sy'n aildroseddu a nifer yr aildroseddau a brofwyd yn ôl<br>- Hanes y troseddwr<br>- Demograffeg<br>- Carcharau unigol/ymddiriedolaethau prawf<br>- Awdurdodau lleol<br>- Timau Troseddu Ieuenctid.<br><br>Wedi'u diweddaru a'u cyhoeddi'n chwarterol ar lefel sefydliad/ardal gymunedol a Chymru a Lloegr | https://www.gov.uk/government/collections/proven-reoffending-statistics |

*TABL 5. Data a gyhoeddwyd - carcharau ac ymddiriedolaethau prawf*

Rydym yn gweithio gyda'r Uned Ystadegau i archwilio sut gallwn barhau i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eich asesiadau lles lleol, gydag ystyriaeth benodol i wybodaeth y gallwn ei darparu mewn perthynas ag achosion cymunedol. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch ag: Eirian Evans, Pennaeth yr Uned Gyflwyno Leol: Eirian.Evans@probation.gsi.gov.uk.

Atodiad 7

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

08442 64 06 70
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

At: Cadeiryddion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
CC: Swyddogion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
CC: Cydlynwyr Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Awdurdodau Lleol
CC: Eiriolwyr dros Bobl Hŷn Awdurdodau Lleol

13eg Chwefror 2017

**Ynghylch: Asesiadau o Lesiant Lleol**

Annwyl Gadeiryddion,

Rwyf yn gwybod bod llawer ohonoch bellach yn cynnal ymgyngoriadau â rhanddeiliaid ynghylch eich asesiadau o lesiant lleol. Diolch yn fawr i'r rheini ohonoch sydd wedi fy ngwahodd i wneud sylwadau ar eich asesiadau drafft. Yn hytrach nag ymateb i ymgyngoriadau unigol, hoffwn dynnu eich sylw at fy Nghanllawiau ar sut i baratoi Cynlluniau Llesiant Lleol, sy'n seiliedig ar fy ngwaith ymgysylltu â phob Bwrdd ac ar gyfranogiad mewn cyfarfodydd blaenorol[1].

Mae nifer o'ch asesiadau drafft ar gael ar-lein erbyn hyn, ac mae'r cyfeiriadau at bobl hŷn mewn sawl cyd-destun gwahanol yn codi fy nghalon. Yn yr asesiadau drafft hyn, cydnabyddir ac adlewyrchir yr angen i gadw pobl hŷn yn iach, yn ddiogel ac yn weithgar yn eu cymunedau, yn ogystal â'r angen i gydnabod cyfraniad sylweddol pobl hŷn at ein heconomi a'n cymunedau. Ceir hefyd cyfeiriadau at rai o'r prif heriau sy'n wynebu pobl hŷn, gan gynnwys cwympo, dementia, unigrwydd, a dysgu a chyflogaeth.

Mae rhai ohonynt hefyd yn cyfeirio at fy Nghanllawiau a Heneiddio'n Dda yng Nghymru[2], a chroesawaf y gydnabyddiaeth hon a'r angen i weithio gyda'n gilydd i helpu i sicrhau iechyd, annibyniaeth a llesiant pobl hŷn, ac

[1] http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/PSB_Guidance_w.sflb.ashx
[2] http://www.ageingwellinwales.com/wl/home

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

i sefydlu cymunedau ystyriol o oedran sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau ataliol i bobl hŷn.  Gwnaethpwyd argraff arbennig arnaf gan y cyfeiriadau at bobl hŷn yn y cyd-destunau gwahanol yn asesiad drafft Caerffili, ynghyd â manteisio i’r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil poblogaeth sy’n heneiddio.

Rwyf yn edrych ymlaen at weithio ymhellach gyda chi yn ystod y misoedd nesaf, a dymunaf bob llwyddiant i chi wrth gyflawni eich gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid. Tua’r haf, byddaf yn mynd ati i gynnal digwyddiadau, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn myfyrio ar yr asesiadau o lesiant lleol, ac i ystyried sut mae anghenion ac amodau pobl hŷn yn cael eu hadlewyrchu ar draws meysydd blaenoriaeth y Cynlluniau Llesiant.

Mae croeso i chi gysylltu â mi neu’r Arweinydd Cymunedau, Llywodraeth Leol a Lles, Iwan Williams (iwan.williams@olderpeoplewales.com, 02920 445 045), os hoffech drafod y materion hyn yn fanylach.

Dymuniadau gorau,

Sarah Rochira

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Iechyd ar Waith
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTO IN PEOP

**A2** – rydym yn cyfrannu at y canlyniad hwn gyda'n polisi ailgartrefu sy'n seiliedig ar anghenion, rôl UCT/PYT etc. ynghyd â'r STR ar stadau lle mae swyddogion yn gweithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd e.e darparu celfi/pecynnau ar gyfer babanod

**E3** - A ddylid cyfeirio at drawstoriad da o lety i bobl hŷn, gyda chyfeiriad penodol i'n stoc (er bod ein stoc yn ganran fechan o gyfanswm y ddinas a'r sir). Gallai gynnwys cyfeiriad at y ffaith fod llety ar gael gyda chefnogaeth isel sy'n helpu i leddfu peth o'r pwysau ar wasanaethau megis y rhai a ddarperir gan gartrefi preswyl a nyrsio, iechyd etc.

**E4** – angen cyfeirio dan YG at effaith troseddu sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau.
Efallai fod eisiau cyfeirio hefyd at ein UCC, ynghyd â'r gwaith rhagweithiol rydym yn ei wneud gyda phartneriaid ar ein stadau e.e. system gofalwr o bell mewn nifer o flociau uchel.
Ni cheir cyfeiriad at yr henoed yn teimlo'n ddiogel gan y gall hyn gael manteision iechyd e.e. cysgu'n well, cymryd mwy o ran yn eu cymuned felly'n lleihau...

**F2** – yn fy marn i, byddwn yn dweud bod y sgôr lles yn fwy fel 5 na 4.

**Sylw Cyffredinol** – ymddengys fod rhai ardaloedd yn brin o dai ac nid ydynt yn cydnabod effaith tai ar iechyd a lles person. Nid yw'n cael ei grybwyll mewn gwirionedd tan F2 ac F3. Gellid rhoi mwy o bwyslais ar yr effaith ar iechyd meddwl er enghraifft yr amgylchedd cartref.

**Peter Williams**
**Strategic Planning & Enabling Manager/Rheolwr Cynllunio a Galluogi Strategol**
**Housing & Public Protection/Tai a Diogelu'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Fadam

Crisis UK yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl ddigartref.

Roedd hi'n dda gweld cyfeiriad at atal digartrefedd yn y dystiolaeth rydych wedi'i hystyried wrth ddatblygu'r Diagram Ysgogwr ar gyfer Canlyniad Poblogaeth F - Mae gan bobl le da i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Serch hynny, ymddengys fod bwlch yn y dystiolaeth sy'n ymwneud â'r amgylchiadau lle ni chafodd digartrefedd ei atal. Pen pellaf y sbectrwm i bobl yn y sefyllfa hon yw cysgu ar y stryd, a bydd y dystiolaeth ddiweddaraf yn cadarnhau bod hyn ar gynnydd yn Abertawe, yn enwedig o ran y bobl hynny ag anghenion cymhleth. Bydd bywydau'r unigolion hyn hefyd yn cyfrannu at o leiaf bedwar o'r pum canlyniad poblogaeth arall.

Elfen benodol yr ymddengys ei bod wedi'i hepgor o'r adran ar Ganlyniad Poblogaeth F yw unrhyw gyfeiriad at y newidiadau sydd ar ddod i Lwfans Tai Lleol ar gyfer pobl dan 35 oed a'r angen diamod am gynnydd mewn darpariaeth ar gyfer opsiynau tai fforddiadwy a rennir.

F2.1 Sicrhau bod gan bobl dai fforddiadwy, o safon, ynni-effeithlon a hyblyg

Sut olwg fydd ar y gwelliant?

. • Digon o dai i ateb y galw, gan gynnwys tai fforddiadwy a chymdeithasol.

Mae'n golygu mwy na 'thai digonol i ateb y galw' mae'n ymwneud â pha mor briodol yw'r tai sydd ar gael. Mae hyn yn mynd i fod yn her sylweddol i'r ALl ac LCC eraill dros y blynyddoedd nesaf ac ymddengys fod hyn wedi'i hepgor o'ch ffynonellau tystiolaeth. Nid yw'r geiriad rydych yn ei argymell ar hyn o bryd yn adlewyrchu'n llawn ddifrifoldeb ac agosrwydd y mater hwn. Drwy beidio â chyfeirio at hyn mae'r newid yn wrthgynhyrchiol i'r ffaith fod y naratif ar gyfer yr agwedd hon o'r Canlyniad Poblogaeth yn cyfeirio at atal digartrefedd.

Os oes angen eglurhad ynghylch y sylwadau uchod, rhowch wybod i mi.

Cofion gorau

Karen Grunhut
**Director of Crisis Skylight South Wales | Cyfarwyddwraig Crisis Skylight De Cymru**

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

Ein cyf: AD/SHG/JD/cw

Dyddiad: 6 Mawrth 2017

Pencadlys Bwrdd Iechyd PABM
One Talbot Gateway, Seaway Parade,
Port Talbot
SA12 7BR

01639 683302
WHTN: 1787 3302

Y Cyng. Rob Stewart
Arweinydd
Dinas a Sir Abertawe

swanseapsb@swansea.gov.uk

Annwyl Rob

Isod ceir sylwadau gan Fwrdd Iechyd PABM mewn perthynas ag Asesiad Lles Abertawe. Rydym wedi cadw'r rhain ar lefel uchel yn hytrach na chloddio i fanylion y ddogfennaeth.

Rydym yn croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar yr asesiad, ond dylid nodi bod y cyfnod cyfyngedig i ymateb yn golygu nad ydy wedi bod yn bosib ystyried drwy brosesau llywodraethu priodol yn y sefydliad. Caiff y tri Asesiad Lles ar gyfer pob awdurdod lleol yn ardal y bwrdd Iechyd eu hystyried yng nghyfarfod y Bwrdd ar 30 Mawrth, fel y nodwyd yn flaenorol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ar y cyd ag Asesiad Poblogaeth Partneriaeth Bae'r Gorllewin.

Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y themâu a nodir yn yr Asesiad Lles, on eto, fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n bryderus nad yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael y cyfle i ystyried y problemau sy'n wynebu poblogaeth Abertawe mewn ffordd fwy blaengar a gwahanol yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hytrach na'r ymagwedd flaenorol a gymerwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gynt. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i wneud gwahaniaeth sylweddol i'r bobl yn ein hardal ac, yn ein barn ni, bydd angen ymagweddau gwahanol i'r rheiny a gymerwyd yn flaenorol os ydym am fod yn llwyddiannus, fel yr ydym wedi'i gydnabod drwy gynnwys y ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus arall yn ein hardal.

Hoffai'r Bwrdd Iechyd hefyd weithio gyda'r awdurdod lleol a phartneriaid statudol eraill i benderfynu a chytuno ar y prosesau o ystyried safbwyntiau a fynegwyd fel rhan o'r gwaith cynnwys ar yr Asesiad Lles a defnyddio hyn i ddatblygu'r Cynllun Lles gofynnol. Yn amlwg,

mae'r sefydliad yn llunio ei Amcanion Lles ei hun ar hyn o bryd, yn unol â gofynion y Ddeddf, a bydd yn awyddus i weld y rhain yn cael eu datblygu ar draws yr ardal, fel y bydd partneriaid statudol eraill yn ei wneud dwi'n siŵr.

Mae hefyd yn werth nodi, er bod gwahaniaethau rhwng y tri asesiad lles ar draws ardal PABM, mae yna hefyd llawer o bethau cyffredin a blaenoriaethau tebyg sy'n dod i'r amlwg, felly mae'r Bwrdd Iechyd yn gweld manteision hyrwyddo rhai o'r materion hyn yn rhanbarthol yn hytrach nag mewn awdurdodau lleol unigol er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd gorau posib ar gyfer y boblogaeth gyfan.

Un o'r gwersi a ddysgwyd o lunio'r Asesiad Lles yw, er mwyn iddo fod y mwyaf effeithiol, mae angen cynnwys y pedwar partner statudol yn llawn ar bob cam o ddatblygu'r prosesau a'r dogfennau i gefnogi gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn hytrach na'r rhain yn cael eu datblygu gyda chyn lleied o gyfranogaeth â phosib gan y partneriaid.

Rydym yn credu bod y gyfranogaeth hon hyd yma wedi bod yn gyfyngedig oherwydd ei fod wedi'i seilio ar ffordd o weithio'r hen Fwrdd Gwasanaethau Lleol. Rydym yn credu bod angen i'r ymagwedd hon newid yn sylweddol os yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am fwyafu ei effeithiolrwydd a mynd ati i gyflawni'r gwelliannau cynaliadwy sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Byddwn yn fwy na pharod i drafod unrhyw un o'r materion yr ydym wedi'u codi ymhellach.

Yn gywir,

**ANDREW DAVIES**
**CADEIRYDD**

**SIAN HARROP-GRIFFITHS**
**CYFARWYDDWR STRATEGAETH**


- Cadeirydd/Chairman: **Andrew Davies**
- Prif Weithredwr/Chief Executive**: Paul Roberts**

Pencadlys ABM/ABM Headquarters, One Talbot Gateway, Seaway Parade, Parc Ynni Baglan, Port Talbot SA12 7BR.
Rhif ffôn: 01639 683344 Telephone: 01639 683344 FFACS: 01639-687675 a 01639-687676
Bwrdd Iechyd ABM yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
ABM University Health Board is the operational name of Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board
www.abm.wales.nhs.uk

DINAS A SIR ABERTAWE
CITY AND COUNTY OF SWANSEA

**Y Cynghorydd Rob Stewart**
**Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe**

**Drwy e-bost:**

Gofynnwch am: *Please ask for:* Trosolwg a Chraffu

*Llinell Uniongyrchol: Direct Line:* 01792 636292

*E-bost/E-mail:* scrutiny@swansea.gov.uk

*Ein Cyf./ Our Ref:*

*Eich Cyf./ Your Ref:*

*Dyddiad Date:* 31 Ionawr 2017

**Crynodeb:** Dyma lythyr oddi wrth Banel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid i Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dilyn cyfarfod y panel ar 18 Ionawr. Mae'n cynnwys adborth o sesiwn holi ac ateb y Panel gyda Chyfarwyddwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (GGCA) ac ym rhoi sylwadau ar yr Asesiad Lles drafft.

Annwyl Gynghorydd Stewart,

Nod y llythyr hwn yw rhoi adborth i chi ac aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) am gyfarfod Panel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y Panel), a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2017.

**Sesiwn holi ac ateb gyda Chyfarwyddwr CGGA**

Fel y gwyddoch, rydym yn cynnal cyfres o sesiynau holi ac ateb gyda holl aelodau craidd y grŵp er mwyn deall y cyfraniad mae eu sefydliadau yn ei wneud i waith y BGC. O ganlyniad i'n trafodaeth ag Amanda Carr, Cyfarwyddwr CGGA, hoffem godi'r pwyntiau canlynol i'w hystyried gan y BGC.

Cawsom ein hannog i glywed barn y Cyfarwyddwr mai rôl allweddol y BGC yw edrych ar gyflwyniad gwasanaeth ar gyfer yr amcanion allweddol a chanolbwyntio ar gydlynu'r adnoddau sydd eisoes yn bodoli er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Byddwn yn parhau i chwilio am enghreifftiau o ran sut mae hyn yn cael ei gyflawni wrth i ni graffu ar y BGC.

Roeddem yn falch o glywed bod y BGC yn sefydlu gweithgor i ddatblygu strategaeth gyfathrebu oherwydd mae'n bwysig bod gwaith y bwrdd yn glir, yn dryloyw a bod y cyhoedd yn ei ddeall. Rydym yn credu bod angen i'r strategaeth hon ganolbwyntio ar ffyrdd i annog mwy o gyfraniad gan y cyhoedd wrth ddatblygu gwaith a blaenoriaethau'r BGC. Rydym yn cefnogi barn y BGC fod angen i strategaeth gyfathrebu ganolbwyntio ar gynnwys a ffyrdd i hyrwyddo cydgynhyrchiad ac nid canolbwyntio ar hybu negeseuon allweddol yn unig. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod yn rhaid i adnoddau fod ar waith i ddatblygu a chyflawni hyn ac rydym yn credu y dylai'r BGC ystyried sut bydd hyn yn cael ei gefnogi.

Gwnaethom drafod ansicrwydd cyllid sy'n wynebu CGGA a sefydliadau trydydd sector eraill, sy'n gallu cael effaith ar ei allu i gefnogi gwaith y BGC ac i gynllunio ymlaen llaw. Roeddem yn siomedig i glywed nad oes Swyddog Partneriaeth penodol bellach yn CGGA, sydd â rôl allweddol yn cysylltu gwaith y trydydd sector â chyrff y sector cyhoeddus. Er ei fod yn rhan o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr i fynd i gyfarfodydd strategol allweddol, cawsom wybod nad yw'r CGGA bob amser yn gallu darparu neu gydlynu cynrychiolaeth mewn is-grwpiau, gweithgorau a grwpiau tasg a gorffen. Rydym felly yn argymell bod y BGC yn ystyried yr opsiwn o gytuno ar arian cronnol er mwyn hwyluso cyfranogaeth y trydydd sector yn ei waith.

**Ymgynghoriad ar yr Asesiad Lles drafft**

Gwnaethom drafod yr Asesiad Lles drafft yn ein rolau fel ymgyngoreion statudol ac mae gennym y sylwadau canlynol yr hoffem iddynt gael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol:

- Mae angen crynodeb Cymraeg syml i wneud yr Asesiad Lles yn fwy hygyrch.

- Mae'n debyg bod y data cymharol a ddefnyddir i bennu'r sgorau ar gyfer yr ysgogwyr yn seiliedig ar gymhariaeth ag awdurdodau eraill yng Nghymru yn unig; fodd bynnag, teimlodd y Panel y dylid ehangu ar y data cymharol i gynnwys awdurdodau sy'n perfformio orau ar draws y DU i gael darlun mwy cywir gywir o ba mor dda y mae Abertawe yn perfformio, o ystyried nad yw Cymru o reidrwydd yn perfformio orau. Yn yr un modd, dylid gosod strategaethau/amcanion yn erbyn y gorau yn y dosbarth, yn enwedig pan fyddwn ni wedi sgorio ein hunain yn uchel.

- Roeddem yn teimlo bod y sgôr a roddir i E2 (bod gan blant, pobl ifanc ac oedolion iechyd a lles meddyliol da) yn rhy uchel, yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwiliad craffu i GIMPPhI (Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc), a ddangosodd ddiffyg pryderus o ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl. Yn yr un modd, mae'r Panel yn disgwyl i ganfyddiadau o waith/ymchwiliadau craffu eraill lywio'r Asesiad Lles.

- Dylai datganiadau yn yr Asesiad Lles fod yn glir o ran a ydynt yn seiliedig ar ffeithiau neu farn ac os ydynt yn seiliedig ar ddata, eu bod wedi'u cyfeirnodi'n glir, er enghraifft, "Mae canlyniad D yn nodi nad yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yn Abertawe yn profi tlodi incwm. Nid ydym yn dadlau'r datganiad; fodd bynnag, rydym yn meddwl y dylai datganiadau fel hyn gyfeirio at y dystiolaeth y maent yn seiliedig arni.

Bydd aelodau'r panel hefyd yn cyfrannu at y broses ymgynghori yn unigol drwy'r arolwg.

**Cyfarfodydd i ddod:**
Yn dilyn ein sesiynau holi ac ateb gydag aelodau grŵp craidd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, byddwn yn cynnal cyfarfod gyda chi ac Andrew Davies (PABM) ar 15 Chwefror.

**Eich ymateb**

Yn eich ymateb, byddem yn gwerthfawrogi eich sylwadau ar y materion a godwyd yn y llythyr hwn. Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb yn benodol i'r argymhellion canlynol:

- Dylai strategaeth gyfathrebu'r BGC ganolbwyntio ar gynnwys a ffyrdd o hyrwyddo cydgynhyrchiad, ac nid ar hybu negeseuon allweddol yn unig.
- Dylai'r BGC gadarnhau sut ariennir datblygiad a chyflwyniad ei strategaeth gyfathrebu.
- Dylai'r BGC ystyried yr angen i hwyluso cyfranogaeth y trydydd sector yn ei waith, er enghraifft, yr opsiwn o gytuno ar gyllid cronnol i gefnogi hyn.
- Cadarnhau y bydd ein sylwadau ar yr Asesiad Lles yn cael eu hystyried fel rhan o'r drafft diwygiedig.

Byddwn yn ddiolchgar petaech yn gallu ymateb i'r llythyr hwn erbyn 21

Chwefror 2017. Yn gywir,

**Y Cynghorydd Mary Jones**
**Cynullydd, Panel Craffu Perfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
**cllr.mary.jones@swansea.gov.uk**

# Tystiolaeth Ansoddol ar gyfer Asesu Lles Lleol

## Adroddiad cynnwys dinasyddion

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Ionawr 2017

Prif Awdur:
Claire Kerby,
Bruce Whitear,
Nick Miller

Ionawr 2017

Pen-y-Wyrlod, Llanvetherine, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK
www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

# Cynnwys


1 Rhagarweiniad ..... 3

2 Lles yn Ninas a Sir Abertawe ..... 4

2.1 Canfyddiadau Ymchwil Sylfaenol ..... 4

3 Lles yn ôl Ardal Gymunedol a Thema ..... 11

3.1 Dwyrain y Bae ..... 11

3.2 Gorllewin y Bae ..... 14

3.3 Y Ddinas ..... 17

3.4 Cwm Tawe ..... 20

3.5 Llwchwr ..... 22

3.6 Penderi ..... 24

4 Lles yn ôl Grŵp Defnyddwyr ..... 27

4.1 Pobl yr ystyrir eu bod yn ddiamddiffyn neu dan anfantais - Trais Domestig ..... 27

4.2 Pobl a chanddynt nodwedd a warchodir - Plant a Phobl Ifanc ..... 29

4.3 Pobl a chanddynt nodwedd a warchodir – Pobl Hŷn ..... 32

4.4 Pobl a chanddynt nodwedd a warchodir – Iechyd ac Anabledd ..... 34

4.5 Pobl a chanddynt nodwedd a warchodir – Iechyd Meddwl ..... 37

4.6 Pobl a chanddynt nodwedd a warchodir - Anabledd Dysgu ac Anhwylder y Sbectrwm Awtistig ..... 38

4.7 Pobl a chanddynt nodwedd a warchodir – Hil/Crefydd ..... 39

4.8 Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ..... 39

4.9 Pobl ag angen gofal a chefnogaeth neu sy'n eu darparu – Gofalwyr ..... 40

5 Lles yn Ninas a Sir Abertawe: Dadansoddiad Eilaidd ..... 42

5.1 Lles Cymdeithasol ..... 43

5.2 Lles Diwylliannol ..... 44

5.3 Lles Economaidd ..... 44

5.4 Lles Amgylcheddol ..... 44

6 Crynodeb ac Argymhellion ..... 46

6.1 Crynodeb ..... 46

6.2 Cynnydd yn erbyn nodau DLlCD ..... 49

6.3 Argymhellion i Adeiladu Lles ..... 51

Ffigur 1 Categorïau o ystyr Lles Diwylliannol yn ôl ymatebwyr i’r arolwg yn rhanbarth Abertawe ........ 5
Ffigur 2 Meddwl am les diwylliannol,, ........ 5
Ffigur 3 Pa DDAU beth rydych chi’n credu gallai ........ 5
Ffigur 4 Categorïau o ystyr Lles Economaidd yn ôl ymatebwyr i’r arolwg yn Rhanbarth Abertawe........
Ffigur 5 Ystyr Lles Economaidd - ymatebwyr i’r arolwg yn Abertawe........ 7
Ffigur 6 Ffactorau sy’n cyfrannu at les economaidd - ymatebwyr i’r arolwg yn Abertawe ...... 7
Ffigur 7 Categorïau o ystyr Lles Amgylcheddol, yn ôl ymatebwyr i’r arolwg yn rhanbarth Abertawe ........ 8
Ffigur 8 Ystyr Lles Amgylcheddol - ymatebwyr i’r arolwg yn Abertawe ........ 9
Ffigur 9 Ffactorau a fyddai’n gwella lles amgylcheddol - ymatebwyr i’r arolwg yn Abertawe.. 9
Ffigur 10 Categorïau o ystyr Lles Cymdeithasol yn ôl ymatebwyr i’r arolwg yn rhanbarth Abertawe ........ 9
Ffigur 11 Ystyr Lles Cymdeithasol - ymatebwyr i’r arolwg o Abertawe........ 10
Ffigur 12 Ffactorau sy’n cyfrannu at les cymdeithasol - ymatebwyr i’r arolwg o Abertawe 10
Ffigur 13 Ymatebion i'r arolwg fesul ardal gymunedol ........ 55
Ffigur 14 Canran yr Ymatebion i'r Arolwg fesul Band Oed........ 56

## Tabl Atodiadau

Atodiad 1 Gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ........ 53
Atodiad 2 Ymagwedd Fethodolegol........ 55
Atodiad 3 Holiadur Ar-lein ........ 58
Atodiad 4 Arweiniad Trafodaeth ar gyfer y Gweithdy........ 64
Atodiad 5 Ffynonellau a ddefnyddiwyd ar gyfer Dadansoddiad Eilaidd........ 67

# 1 Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon yn dogfennu canfyddiadau asesiad annibynnol o les pobl yn Ninas a Sir Abertawe. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (DLICD) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ym mhob ardal awdurdod lleol gael adroddiad gwybodaeth ansoddol fel rhan o'r asesiadau y mae'n ofynnol iddynt eu cynnal. Comisiynwyd Miller Research, mewn partneriaeth â Bruce Whitear Consulting gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, ar ran CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CBS Castell-nedd Port Talbot, Dinas a Sir Abertawe a Bwrdd Iechyd PABM i gefnogi'r broses hon.

Roedd y comisiwn yn ymwneud â chasglu a dadansoddi tystiolaeth o ymchwil sylfaenol (newydd) yn ogystal â gwybodaeth eilaidd (sydd eisoes yn bod). Casglwyd data elfennol drwy gyfres o weithdai/grwpiau ffocws, cyfweliadau un i un â rhanddeiliaid ac arolwg sylweddol - y cafwyd ymatebion ar eu cyfer gan 636 o unigolion o ardal Bae'r Gorllewin, y nododd 239 ohonynt eu bod yn byw yn Ninas a Sir Abertawe.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i drefnu mewn pum pennod:

- Mae Pennod 2 yn cynnwys trosolwg o les yn Ninas a Sir Abertawe yn ôl thema.
- Mae Pennod 3 yn dadansoddi lles yn ôl ardal gymunedol
- Mae Pennod 4 yn darparu trosolwg o les ar gyfer grwpiau dinasyddion
- Mae Pennod 5 yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil eilaidd
- Mae Pennod 6 yn cynnig crynodeb ac argymhellion

- Mae Atodiad 1 yn darparu cyd-destun ar gyfer yr asesiad drwy ddisgrifio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

# 2 Lles yn Ninas a Sir Abertawe

Mae'r bennod hon o'r adroddiad yn darparu dadansoddiad o ganfyddiadau'r ymchwil ar gyfer Dinas a Sir Abertawe (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel Abertawe) ar gyfer pedwar thema DLlCD:

- Diwylliannol,
- Economaidd,
- Amgylcheddol a
- Chymdeithasol.

Diben y bennod hon yw darparu tystiolaeth ymchwil y gellir ei defnyddio gan y BGC i gyfeirio datblygiad cynlluniau lles yn y dyfodol. Mae'r rhan gyntaf yn darparu dadansoddiad o ganfyddiadau'r ymchwil ar gyfer Abertawe ar gyfer pob thema.

## 2.1 Canfyddiadau Ymchwil Sylfaenol

Mae'r rhan hon yn defnyddio canfyddiadau ymchwil sylfaenol i ddarparu asesiad o les ar gyfer pob thema ar gyfer Abertawe. Mae pob rhan yn fras yn dilyn strwythur tebyg. Trafodir ystyr pob thema i'r bobl yn y rhanbarth yn gyntaf, gydag agweddau sy'n cyfrannu at les yn dilyn hyn, ac yn olaf, trafodir awgrymiadau ar gyfer gwella lles.

Cafwyd lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r term lles ymhlith y 239 o bobl a ymatebodd i'r arolwg, gyda 96% yn dweud eu bod yn gyfarwydd â'r term cyn iddynt ateb y cwestiwn amdano yn yr arolwg. Yn gyffredinol, roedd dealltwriaeth yr ymatebwyr i'r arolwg o ystyr lles yn dda. Roedd ymatebion yn canolbwyntio ar iechyd corfforol a meddwl pobl, gyda llawer yn gwneud sylwadau ar les fel rhywbeth cyfannol neu gyflawn - ac yn cynnwys pob agwedd ar fywyd person. Cofnodwyd nifer o gyfeiriadau at fod yn hapus ac yn fodlon gan ymatebwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a aeth i'r gweithdy'n gwybod y gair ond efallai na fyddent wedi'i ddefnyddio'n rheolaidd.

*"Cael hwyl gyda phobl eraill, peidio â bod yn ddigalon, peidio â phoeni am bethau" (person yn ei saith degau, gweithdy yn Abertawe)*

### 2.1.1 Lles Diwylliannol yn Ninas a Sir Abertawe

Gofynnwyd i ymatebwyr ynghylch yr hyn yr oedd lles diwylliannol yn ei olygu iddynt hwy, a rhoddwyd yr ymatebion mewn pedwar categori penodol [1] yn ymwneud â'r diffiniadau mwyaf poblogaidd. Roedd preswylwyr Abertawe'n fwyaf tebygol o ddiffinio lles diwylliannol o ran y celfyddydau, y theatr, llenyddiaeth etc. [2] (38%), ac roedd chwarter (26%) yn ei ddiffinio o ran treftadaeth, iaith, traddodiadau a chredoau etc.[3] (Ffigur 1).


[1] *Sefydlwyd categorïau yn dilyn ymarfer dadansoddi cynnwys y set ddata gyffredinol (y tri rhanbarth wedi'u cyfuno). Grwpiwyd ffactorau cyffredin nes bod categorïau pendant ac ystyrlon yn dod i'r amlwg. Ar ôl hyn, categoreiddiwyd canfyddiadau o bob rhanbarth i'r grwpiau a ddiffiniwyd ymlaen llaw.*

[2] *Roedd y categori hwn yn cynnwys y themâu cysylltiedig canlynol: y Celfyddydau, y Theatr, Llenyddiaeth, Amgueddfeydd, Sinema, Ffilmiau, Barddoniaeth a Hanes.*

[3] *Roedd y categori hwn yn cynnwys y themâu cysylltiedig canlynol: Treftadaeth, Iaith, Traddodiadau, Credoau, Arferion, Cymru/y Gymraeg.*

Ar gyfer 16% o sampl yr arolwg, roedd lles diwylliannol yn gysylltiedig â gweithgareddau chwaraeon a hamdden, ac roedd un o bob deg o ymatebwyr yn cyfeirio ato o ran addysg neu ddysgu. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys teimladau fel meddu ar ymdeimlad o berthyn neu deimlo'n rhan o'r gymuned.

Ffigur 1 Categorïau o ystyr Lles Diwylliannol yn ôl ymatebwyr i'r arolwg yn rhanbarth Abertawe




*Ffynhonnell: Miller Research (UK) Ltd. - Arolwg Ar-lein o Asesiad Lles 2016*

**Ffigur 2 Gan feddwl am les diwylliannol, beth mae hyn yn ei olygu neu'n cyfeirio ato yn eich tyb chi?**

*Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein (Abertawe) N=165*

**Ffigur 3 Pa DDAU beth yn eich barn chi allai wella'ch lefel lles diwylliannol?**

*Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein (Abertawe) N=151*

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg hefyd ba agweddau ar eu bywydau oedd yn cyfrannu at les, ac roedd y gyfran fwyaf wedi cyfeirio at wneud gweithgareddau diwylliannol (Ffigur 2). Serch hynny roedd rhai yn y gweithdai'n cyfeirio at anhawster cael mynediad i weithgareddau o'r fath yn Abertawe, fel a fynegwyd gan un ymatebwr:

*"Does dim diwylliant amgen, dim ffilm neu gerddoriaeth, dim bandiau byw. Rhaid i chi fynd i Fryste am gerddoriaeth" (Gweithdy Abertawe)*

I gyd-fynd â'r pwynt hwn, mynegodd rhai o'r bobl a aeth i'r gweithdy angen am fuddsoddi mewn cerddoriaeth a lleoliadau cerddoriaeth fyw i helpu i wella lles diwylliannol yn yr ardal.

Yn ystod y gweithdai, roedd diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg (gan gynnwys dysgu i siarad Cymraeg) yn codi'n aml pan ofynnwyd i bobl pa ddau beth a fyddai'n helpu eu lles diwylliannol (Ffigur 3). I'r gwrthwyneb, fodd bynnag, teimlai rhai pobl fod yr iaith Gymraeg yn fwy blaenllaw na diwylliant Cymru ar draul ffactorau eraill:

*"Mae bod yn Gymro yn fwy na'r iaith - yn bersonol, rwy'n elwa'n fwy o ddysgu am hanes Cymru a sut mae'n cysylltu â fy mywyd heddiw. Mae gormod o bwyslais ar yr iaith, yn fy marn i." (Gweithdy Abertawe)*

Gwnaeth eraill y pwynt, er nad oeddent yn siarad yr iaith, nad oedd hyn yn effeithio ar eu diddordeb yn niwylliant Cymru'n gyffredinol.


Yn benodol, roedd bron pumed (18%) o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg wedi dweud y byddai gwirfoddoli yn darparu mynediad i weithgareddau diwylliannol ac felly'n cyfrannu at les. Yn yr un modd, roedd y ffactorau a fyddai'n gwella mynediad yn gysylltiedig â chyflawni lles diwylliannol.

### 2.1.2 Lles Economaidd yn Ninas a Sir Abertawe

Yn gyffredinol, nododd y bobl a gymerodd ran yn yr asesiad fod lles economaidd unigolyn yn ymwneud yn bennaf â'r swm o arian (incwm) a oedd ganddynt yn ogystal â'u safon byw gyffredinol. Soniodd bron tri chwarter (72%) o ymatebwyr i'r arolwg am eiriau a oedd yn sôn am arian wrth ddiffinio beth oedd lles economaidd yn ei olygu iddyn nhw (

Ffigur 4). Mae'n bwysig sylwi ar y ffaith fod pumed (20%) o ymatebwyr i'r arolwg wedi defnyddio datganiadau a oedd yn cyfeirio at 'gael digon o arian' neu rywbeth tebyg wrth ddisgrifio lles economaidd.

Ffigur 4 Categorïau o ystyr Lles Economaidd yn ôl ymatebwyr i'r arolwg yn Rhanbarth Abertawe




*Ffynhonnell: Miller Research (UK) Ltd. - Arolwg Ar-lein o Asesiad Lles 2016*

[4] *Defnyddiwyd y termau chwilio canlynol: 'arian, incwm, cyllid, ariannol, tâl, fforddio, enillion, cyflog, pensiwn'.*

**Ffigur 5 Ystyr Lles Economaidd - ymatebwyr i'r arolwg yn Abertawe**

*Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein (Abertawe) N=201*

**Ffigur 6 Ffactorau sy'n cyfrannu at les economaidd - ymatebwyr i'r arolwg yn Abertawe**

*Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein (Abertawe) N=198*

Roedd sicrwydd ariannol yn fater arwyddocaol i ymatebwyr, gyda 44% yn dweud ei bod yn poeni am arian (o'i gymharu ag 17% nad oedd yn poeni am arian).

Nododd un unigolyn wahaniaeth rhwng lles economaidd ac ariannol, gan ddweud bod y cyntaf yn ymwneud â mynediad y cyhoedd i wasanaethau a'r ail yn fater personol o allu fforddio i dalu eich costau byw:

*"Mae economaidd yn golygu bod [Cyngor] Abertawe'n gallu cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd sydd am eu cael. Mae ariannol i fi'n golygu bod yn gallu talu fy miliau etc. ar fy mhensiwn sylfaenol."* (Ymatebwr i'r arolwg)

Yn ôl ymatebwyr, y ddau ffactor pwysicaf a gyfrannodd at gyflawni lles economaidd oedd cael swydd dda a safon byw dda (Ffigur 6). Soniodd tair rhan o bump o ymatebwyr (60%) eiriau a oedd yn ymwneud â swyddi [5], a soniodd pumed (230%) am 'safon byw'.

Pan ofynnwyd am ddau beth a fyddai'n gwella'u lles economaidd, dywedodd bron traean o ymatebwyr i'r arolwg (29%) godiad cyflog a chyfeiriodd pumed (19%) at y ffactor cysylltiedig o ddod o hyd i swydd well neu newydd (â mwy o dâl). Roedd sylwadau eraill yn cyfeirio at ostyngiadau mewn costau byw a chynnydd mewn llog ar gyfer cynilion (neu enillion ar fuddsoddiadau gan gynnwys pensiynau).

### 2.1.3 Lles Amgylcheddol yn Ninas a Sir Abertawe

O safbwynt y sawl a ymatebodd i'r arolwg, roedd lles amgylcheddol yn ymwneud yn bennaf â chael amgylchedd glân (34% o ymatebwyr) a bod yn gallu cael mynediad i'r awyr agored


[5] *Sef: gwaith, gweithio, cyflogaeth.*

[6] *Neu debyg. Defnyddiwyd y termau chwilio canlynol: mwy o dâl, codiad cyflog, cynnydd mewn tâl, mwy o arian, mwy o gyflog/tâl, cael mwy o dâl, gwell tâl.*

[7] *Y gyfran a soniodd am eiriau a oedd yn ymwneud â 'glân'.*

(26%). Mae Ffigur 7 yn dangos y geiriau a ddyfynnwyd amlaf gan ymatebwyr i'r arolwg pan ofynnwyd iddynt ddiffinio lles amgylcheddol. Roedd y rhain hefyd yn ategu'r hyn a nodwyd gan y rhai a aeth i weithdy a oedd yn canolbwyntio ar fynediad i barciau, lleoedd agored glân ac ardaloedd dymunol yn yr awyr agored i gerdded/eistedd. Siaradodd y rhai a aeth i weithdy am yr angen am 'le hyfryd i fyw', cymuned ddiogel i fyw ynddi neu amgylchedd glanach heb sbwriel, graffiti a phethau diolwg eraill'.

Ffigur 7 Categorïau o ystyr Lles Amgylcheddol, yn ôl ymatebwyr i'r arolwg yn rhanbarth Abertawe




*Ffynhonnell: Miller Research (UK) Ltd. - Arolwg Ar-lein o Asesiad Lles 2016*

Nodwyd agosrwydd yr arfordir a thraethau o safon gan nifer a aeth i weithdy fel dylanwad mawr ar les. Ystyrid bod gallu cael mynediad i amgylchedd da a glân yn gyfrannwr allweddol tuag at gyflawni lles amgylcheddol, ac roedd traean o ymatebwyr wedi crybwyll hyn:

*"Rwy'n gallu cael mynediad i barc gwledig lleol yn hawdd i chwarae gyda fy mhlant a cherdded. Cael mynediad i benrhyn Gŵyr - hyfryd"*

Nid oedd y fath fynediad yn hawdd i bob un o'r rhai a fu yn y gweithdy, fel a fynegwyd gan un ohonynt:

"*Rydym yn byw mewn ardal anhygoel, ond mae llawer o bobl yn byw mewn ardaloedd ofnadwy ynddi a dydyn nhw byth yn mynd i'r traeth. Dydyn nhw ddim yn gallu oherwydd cludiant a'r gost"*

Mae'n amlwg bod rhai rhwystrau i rai preswylwyr rhag cael mynediad i'r amgylchedd naturiol ac fel yr awgrymwyd uchod, y rhai y mae eu hincwm yn isel efallai, sy'n dioddef fwyaf. Atgyfnerthwyd y teimlad hwn gan ganlyniadau'r arolwg, oherwydd crybwyllwyd yr angen am gyfleusterau neu wasanaethau 'gwell' gan bron hanner (48%) y sampl. Dywedodd un ymatebwr y gallai'r gwelliannau gynnwys:

[8] *Cyfran yr ymatebwyr a grybwyllodd y geiriau canlynol: awyr agored, lle agored, man gwyrdd, y tu allan*

*"Gwell gwasanaethau cludiant cyhoeddus - mwy rheolaidd a llai drud; dinas/strydoedd siopa canol y dref taclusach."* (Ymatebwr i'r arolwg)

**Ffigur 8 Ystyr lles amgylcheddol - ymatebwyr i'r arolwg yn Abertawe**

*Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein (Abertawe) N=170*

**Ffigur 9 Ffactorau a fyddai'n gwella lles amgylcheddol - ymatebwyr i'r arolwg yn Abertawe**

*Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein (Abertawe) N=167*

Cyfeiriodd bron chwarter (23%) o ymatebwyr at y ffaith fod strydoedd glanach neu daclusach [9] (gydag un o bob deg yn cyfeirio at 'sbwriel') yn angenrheidiol i wella lles amgylcheddol. Yn y gweithdai, cafwyd llawer o sylwadau am sbwriel, yr angen am ddarparu mwy o finiau baw cŵn a'r angen am addysgu am waredu gwastraff ac ailgylchu.

### 2.1.4 Lles Cymdeithasol yn Abertawe

Mae lles cymdeithasol yn golygu cael rhwydwaith da o ffrindiau a theulu yn ôl y mwyafrif a ymatebodd i'r arolwg (65%). Crybwyllwyd cael mynediad i weithgareddau, cyfleusterau hamdden neu ddigwyddiadau cymunedol hefyd, ynghyd â theimlo'n ddiogel. Mae'r dyfyniadau canlynol yn darparu trosolwg o'r hyn yr oedd lles cymdeithasol yn ei olygu i'r sawl a ymatebodd i'r arolwg.


*"Cael rhwydwaith o ffrindiau/aelodau teuluol a pheidio â bod yn unig nac yn ynysig."* (Ymatebwr i'r arolwg - Abertawe)

*"Rhwydweithiau cymdeithasol cryf, digon o weithgaredd a theimlo'n rhan o'm cymuned."* (Ymatebwr i'r arolwg - Abertawe)

*"Cael teulu a ffrindiau cariadus a chymdogion gerllaw. Hefyd byw mewn cymdogaeth ddiogel, lle mae'r lefel troseddu'n isel."* (Ymatebwr i'r arolwg - Abertawe)

Ffigur 10 Categorïau o ystyr Lles Cymdeithasol yn ôl ymatebwyr i'r arolwg yn rhanbarth Abertawe

[9] *Dyma'r termau chwilio a ddefnyddiwyd: taclusach, glân, wedi'i lanhau, glanach, sbwriel, llanast, graffiti*
[10] *Dyma'r termau chwilio a ddefnyddiwyd: Teulu, ffrindiau, ffrind, teuluoedd, cymdeithasol.*




*Ffynhonnell: Miller Research (UK) Ltd. - Arolwg Ar-lein o Asesiad Lles 2016*

**Ffigur 11 Ystyr lles cymdeithasol - ymatebwyr i'r arolwg o Abertawe 1**

*Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein (Abertawe) N=204*

**Ffigur 12 Ffactorau sy'n cyfrannu at les cymdeithasol ymatebwyr i'r arolwg**

*Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein (Abertawe) N=178*

Yn ystod gweithdy, gwnaed sylw cyffredinol o ran y ffaith y bu dirywiad cyffredinol mewn lles cymdeithasol mewn ardaloedd yn Abertawe. Dywedodd un person:

"*nid yw cymunedau'n gweithredu cystal ag yr oeddent slawer dydd*";

Ar y llaw arall, roedd aelod cymharol ifanc o'r cyhoedd wedi rhoi'r bai am hyn yn rhannol ar y cyfryngau cymdeithasol:

"*Mae pobl yn rhyngweithio'n llai fyth heddiw, yn enwedig wyneb yn wyneb. Dydyn nhw ddim yn teimlo'r angen i adael y tŷ mwyach*".

Mynegodd yr un person y farn nad yw rhwydwaith cymdeithasol hynod ddatblygedig bob amser yn beth da, oherwydd: "*rhaid i bobl ddysgu i fod yn annibynnol".*

Teulu a ffrindiau hefyd oedd y cyfranwyr mwyaf arwyddocaol i les cymdeithasol yn Abertawe (73% o ymatebion), gyda bod yn actif neu'n iach yn dilyn hyn - fel y nodwyd gan 44% o'r sampl:

*"Bod yn iach, cael ffrindiau agos a bod yn actif, yn enwedig cerdded."* (Ymatebwr i'r arolwg – Abertawe)

Yn gyffredinol, crybwyllodd 20% o'r sampl y geiriau 'iechyd' neu 'iach', gan ddangos bod hyn hefyd yn elfen bwysig o gyflawni lles cymdeithasol i bobl yn Abertawe.

Yn naturiol, pan ofynnwyd beth byddai'n helpu i wella lles cymdeithasol, cyfeiriwyd at y gallu i dreulio mwy o amser gyda theulu a ffrindiau a bod yn iach/fwy actif yn aml. Darparwyd awgrymiadau ynghylch sut y gellid cyflawni hyn, gyda llawer yn cyfeirio at gael mwy o gyfleusterau hamdden (fforddiadwy) a gwell mynediad iddynt. Crybwyllwyd cael mwy o amser (i ffwrdd o'r gwaith) a mwy o arian i hwyluso mynediad i weithgareddau hamdden yn aml hefyd.

Yn y gweithdai, roedd rhai yn disgrifio Abertawe fel ardal "nad yw'n ddoeth mynd yno" yn y nos oherwydd defnyddwyr cyffuriau ac alcohol a diffyg plismona. Roedd cyfranogwyr am gyflwyno newidiadau er mwyn gwneud iddo deimlo'n lle mwy diogel i fod yn y nos.

# 3 Lles yn ôl Ardal Gymunedol a Thema

Mae'r bennod hon o'r adroddiad yn archwilio'r chwe ardal gymunedol yn Abertawe (Dwyrain y Bae, Gorllewin y Bae, y Ddinas, Cwm Tawe, Llwchwr a Phenderi) yn ôl y pedair thema lles (lles diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol). Mae'n defnyddio'r ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd drwy'r arolwg ar-lein a'r grwpiau gweithdy fel yr amlinellir yn y fethodoleg (Atodiad 2).

## 3.1 Dwyrain y Bae

### 3.1.1 Lles Diwylliannol

Ymatebwyr yr arolwg yn Nwyrain Abertawe oedd fwyaf tebygol o awgrymu bod lles diwylliannol yn ymwneud â gwasanaethau diwylliannol megis y celfyddydau, y theatr, llenyddiaeth ac amgueddfeydd a bod yn gallu cael mynediad i'r rhain yn eu hardal gymunedol. Er bod llai o ffocws ar dreftadaeth a thraddodiadau Cymru a'r iaith Gymraeg nag mewn rhai cymunedau eraill, cafwyd sawl cyfeiriad at fwynhau amrywiaeth diwylliannol, er enghraifft:

*"Bod yn gallu cymysgu'n gymdeithasol â grŵp amrywiol o bobl o wahanol gefndiroedd a diwylliannau. Cael eich cyfoethogi drwy dreulio amser gyda phobl o amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol a diwylliannol."* (Ymatebwr i'r arolwg, Dwyrain y Bae).

Trafododd ymatebwyr i'r arolwg fod bod yn rhan o gymuned/grŵp a chael ymdeimlad o berthyn yn agweddau pwysig ar les diwylliannol, ynghyd â'r cyfle i gyfrannu; dangoswyd hyn gan un person a aeth i weithdy a ddiffiniodd lles diwylliannol yn syml fel: *"rhoi i gymdeithas".*

Cymryd rhan mewn gweithgareddau a grwpiau cymdeithasol a diwylliannol oedd y prif gyfranwyr at les diwylliannol yn yr ardal. Roedd y rhain yn cynnwys grwpiau canu, cerddoriaeth/celf/y theatr, gwyliau amrywiaeth, llyfrgelloedd, lleoliadau cyhoeddus, gwirfoddoli, grwpiau LGBT a Phrifysgol y 3edd Oes, ymysg eraill. Roedd y rhai a aeth i weithdy hefyd wedi nodi bod gweithgareddau megis y celfyddydau, gwnïo a gwneud dillad i aelodau'r teulu yn cyfrannu at eu lles diwylliannol. Hefyd, nododd dau berson yn yr ardal hon a aeth i weithdy bwysigrwydd gwirfoddoli yn y gymuned er mwyn gwreiddio'u hunain yn y

[11] *Neu gamau gweithredu cysylltiedig sy'n cyflawni canlyniad tebyg - dyma'r termau chwilio a ddefnyddiwyd: ymarfer corff, ffit, ffitrwydd, cerdded, campfa, actif, iechyd, iach a deiet*

gymuned, er mwynhad ac i gyfoethogi eu bywyd. Nododd un o'r rhai a aeth i weithdy bwysigrwydd ysgrifennu, barddoniaeth a'r celfyddydau (oriel gelf Abertawe ar fin ailagor) ar gyfer eu lles diwylliannol. Eto, mae'r mynediad a'r gallu i gymryd rhan mewn grwpiau aelodaeth yn cyfrannu at les diwylliannol ymatebwyr i'r arolwg a'r rhai a aeth i weithdy. Fodd bynnag, nododd un ymatebwr i'r arolwg:

*"Rwy'n anabl ac nid oes gennyf fywyd cymdeithasol na chyfleoedd i wneud unrhyw beth fel hyn".*

Roedd gwelliannau awgrymedig ar gyfer lles diwylliannol yn Nwyrain y Bae yn amrywiol, ond roeddent yn cynnwys trafodaethau ynghylch cael mwy o amser ar gyfer gweithgareddau diwylliannol, hyrwyddo gweithgareddau presennol yn fwy ac opsiynau fforddiadwy fel y gall mwy o bobl gymryd rhan ynddynt. Awgrymodd un o'r rhai a aeth i weithdy ostyngiad yng nghost ioga a gwella argaeledd dosbarthiadau myfyrdod, gan awgrymu bod angen mwy o gefnogaeth ar gyfer y rhai sydd am eu mynychu neu athrawon i gynnal dosbarthiadau.

Caiff enghreifftiau penodol o newidiadau a godwyd gan ymatebwyr, a fyddai'n rhoi hwb i les diwylliannol, eu hamlinellu isod.

- Canolfan i Fenywod;
- Mwy o siopau a bwytai amrywiol (e.e. llysieuol);
- Mwy o wybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli;
- Tocynnau theatr rhatach;
- Mwy o weithgareddau am bris rhesymol i unigolion anabl;
- Mwy o fynediad i amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu fforddiadwy;
- Dychweliad parhaol y Proms yn y Parc a;
- Chyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg (yn y nosweithiau).

### 3.1.2 Lles Economaidd

Diffiniwyd lles economaidd yn Nwyrain y Bae yn Abertawe mewn termau tebyg i hynny ledled Abertawe gyfan, gyda ffocws ar arian am sicrwydd ariannol a gallu fforddio talu biliau ac osgoi tlodi. Roedd tôn llawer o'r ymatebion i'r arolwg yn cyfleu poblogaeth a oedd yn agos at yr ymylon. Er enghraifft:

*"Cael ansawdd bywyd rhesymol; peidio â chael eich llethu gan ddyledion na chael anhawster talu'r rhent etc... Teimlo bod gennych reolaeth dros eich arian"*

*"Cael digon o arian i oroesi - cael digon o arian i allu cynnal eich plant"*

Cefnogir hyn gan berson a aeth i weithdy a nododd mai lles economaidd yw:

*"Gallu darparu'ch anghenion sylfaenol ac ychydig mwy i bawb, heb niweidio'r amgylchedd".*

Nodwyd bod y cyfraniad mwyaf sylweddol at les economaidd yn dod o gyflogaeth sy'n sicr ac sy'n talu cyflog cymharol dda:

*"mae cael swydd â thâl a safon byw eithaf da yn cyd-fodoli er mwyn profi lles economaidd ac ariannol."* (Ymatebwr i'r arolwg)

O ran gwella lles economaidd, nododd ymatebwyr Dwyrain y Bae (fel mannau eraill) mai naill ai mwy o incwm neu gostau byw is o ran biliau cyfleustodau, tanwydd

a chost bwyd fyddai'r prif ffactorau i'w hystyried. Teimlai rhai y byddent yn elwa o gyngor ariannol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r arian a oedd ar gael ganddynt. I breswylwyr hŷn, byddai lefelau pensiwn uwch a sicrwydd o ran pensiynau, ynghyd â chynnydd mewn cyfraddau llog, yn gwella lles economaidd y rhai a ymatebodd i'r arolwg.

Nododd un o'r rhai a aeth i weithdy y byddai gwelliannau i'w les economaidd yn cael ei gyflawni gan ddarpariaeth cefnogaeth benodol i ddod yn hunangyflogedig (fel na fyddai angen iddo fod yn ddibynnol yn ariannol ar Lwfans Byw i'r Anabl (TAB bellach) a chael mynediad i hyfforddiant neu brentisiaeth am bris fforddiadwy.

### 3.1.3 Lles Amgylcheddol

Yn ôl ymatebwyr i'r arolwg, mae lles amgylcheddol yn Nwyrain y Bae yn golygu cael amgylchedd glân a diogel, yn rhydd o lygredd. Gwerthfawrogwyd mannau agored a pharciau, ac agosrwydd yr arfordir yn fawr gan breswylwyr, er enghraifft:

*"Byw mewn amgylchedd diogel gyda mynediad i fannau agored";*

*"Cael mynediad i aer glân, dŵr glân a man agored o safon,"* a;

*"Pharciau lleol y mae modd eu cyrraedd yn hawdd, byw'n agosach at benrhyn Gŵyr a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog".*

Roedd ffactorau eraill a oedd yn cyfrannu at les amgylcheddol yn cynnwys:

- Defnyddio ynni gwyrdd;
- Cerdded a beicio gymaint â phosib;
- Amgylchedd naturiol ac adeiledig y mae rhai'n gofalu amdano;
- Ailgylchu ac economi gylchol;
- Ansawdd dŵr da a systemau carthffosiaeth effeithiol;
- Lefelau isel o draffig a'r sŵn sy'n gysylltiedig â hyn;
- Amgylchedd gwaith iach.

Atgyfnerthwyd y themâu hyn gan y rhai a aeth i weithdy, a thrafodwyd *"afonydd glân"*, bod *"heb sbwriel"* a phrofi amgylchedd glân i fyw a gweithio ynddo'n gyffredinol. Nododd un o'r rhai a aeth i weithdy yn Nwyrain y Bae yr angen am ddefnyddio adnoddau'n effeithiol i sicrhau amddiffyniad i'r amgylchedd ac ar gyfer bioamrywiaeth. Nodwyd ganddynt bwysigrwydd blodau gwyllt i gefnogi bioamrywiaeth drwy wenyn ac ieir bach yr haf mewn ardaloedd segur. Soniodd person arall a aeth i weithdy am gadwraeth ynni a datblygiad ynni glân a'r defnydd ohono.

Roedd y meysydd allweddol i'w gwella yn Nwyrain y Bae yn ymwneud â rheoli adnoddau a'r amgylchedd yn well, yn ogystal â chynnal tir cyhoeddus yn well i ddenu bywyd gwyllt a bioamrywiaeth lle bynnag y bo modd. Cafwyd galwadau am well mynediad i leoedd naturiol drwy gludiant cyhoeddus gwell a chefnogaeth ar gyfer ceir trydan a'r angen am welliannau i'r isadeiledd beicio i fynd i'r afael â diffyg llwybrau beicio.

Amlinellir mwy o welliannau o'r arolwg isod.

- Rheoli adnoddau'n well - cynyddu darpariaeth gwasanaeth ac addysg o ran ailgylchu, llai o sbwriel, glanhau strydoedd yn aml ac yn well, llai o dipio anghyfreithlon, mwy o finiau baw cŵn;
- Mwy o dir cyhoeddus sydd wedi'i gynnal yn dda - blodau/borderi, ardaloedd blodau gwyllt, torri perthi a glaswellt mewn parciau;

- Hawliau tramwy cyhoeddus sydd wedi'u cynnal yn well;
- Mynediad haws i gefn gwlad drwy gludiant cyhoeddus;
- Cadw a rheoli'r amgylchedd yn well.

### 3.1.4 Lles Cymdeithasol

Roedd diffiniad lles cymdeithasol i ymatebwyr o Ddwyrain y Bae yn debyg i'r hyn a gafwyd ledled Abertawe gyfan, gyda ffocws ar fod yn hapus ac yn iach, ac ystyriwyd bod cysylltiadau cymdeithasol da â ffrindiau, teulu a'r gymuned ehangach yn bwysig. Fe'i diffiniwyd gan un ymatebwr i'r arolwg fel hyn:

*"Cael teulu cefnogol gerllaw, rhai ffrindiau y gallwch ddibynnu arnynt, bod yn gallu ymlacio a bod yn hapus yn eich bywyd cymdeithasol. Hyder a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned."*

Gwelwyd mai cael ffrindiau a chadw'n heini oedd y ffactorau mwyaf cyffredin sy'n cyfrannu at les cymdeithasol:

*"Mae'n bwysig bod yn actif ac rwy'n mwynhau gwneud ymarfer corff gyda ffrindiau a theulu."* (Ymatebwr i'r arolwg, Dwyrain y Bae)

Nododd ymatebwr i'r arolwg hefyd fod lles cymdeithasol yn ymwneud â "chyswllt dynol rheolaidd" a chael pobl o'ch cwmpas.

O ran pethau a fyddai'n gwella lles cymdeithasol yn y gymuned, amlygodd ymatebwyr i'r arolwg amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys;

- Mwy o weithgareddau neu gyrsiau addysgol i gyfoethogi amser rhydd am bris rhesymol;
- Mwy o gyngor iechyd a lles un i un;
- Mwy o amser i fwynhau cymdeithasu;
- Mwy o gampfeydd/ddosbarthiadau fforddiadwy ar gyfer pobl 50+;
- Gallu cael mynediad i driniaethau meddygol go iawn yn gynt.

## 3.2 Gorllewin y Bae

### 3.2.1 Lles Diwylliannol

Roedd dealltwriaeth preswylwyr Gorllewin y Bae o les diwylliannol yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r rhai o Ddwyrain y Bae. Roedd cael mynediad i'r celfyddydau, y theatr, y sinema a digwyddiadau oll yn allweddol i ddiwylliant. Fodd bynnag, roedd mwy o bwyslais yma ar ddiwylliant a hanes Cymru a'r cyd-destun Cymreig. Er enghraifft:

*"Bod yn aelod o'ch cymuned leol. A pheidio â theimlo eich bod wedi'ch eithrio. Cael cyfleoedd i ddysgu a chymryd rhan mewn dosbarthiadau lleol, bod yn gallu cael mynediad i adeiladau hanesyddol etc."* (Ymatebwr i'r arolwg)

Roedd cael mynediad i gyfleusterau diwylliannol yn bwysig ar gyfer lle, ynghyd â'r cysylltiad diwylliannol sy'n dod o gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y gymuned, er enghraifft:

*"Mynediad i elfennau o ddiwylliant megis y sinema, cerddoriaeth, y theatr sy'n cyfoethogi ac yn difyrru, i werthfawrogi cefndiroedd diwylliannol eraill a'r hyn y gallant ei gynnig o ran safbwynt ac agwedd".*

*"Y gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac arferion aneconomaidd sy'n rhoi ystyr i fywyd."*

Ystyriwyd bod gwirfoddoli hefyd yn cyfrannu at les diwylliannol; yn enwedig helpu eraill y mae angen cefnogaeth arnynt.

Siaradodd un o ymatebwyr Gorllewin y Bae am les diwylliannol o ran bwyd a marchnadoedd lleol yn yr ardal, nad oedd yn rhywbeth y cyfeiriwyd ato'n aml o ran ystyr lles diwylliannol neu ei gyfraniad iddo yn unrhyw un o ardaloedd cymunedol Abertawe, er gwaethaf presenoldeb y farchnad eiconig yng nghanol y ddinas a marchnadoedd ffermwyr rheolaidd.

*"Balchder cenedlaethol mewn digwyddiadau chwaraeon a bwyd a chynnyrch lleol yn y marchnadoedd niferus yn Abertawe."*

Roedd awgrymiadau ar gyfer pethau a fyddai'n gwella lles diwylliannol yng Ngorllewin y Bae yn canolbwyntio ar gael amser ar gyfer gweithgareddau diwylliannol a hefyd ddealltwriaeth o'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael i'w mwynhau.

Roedd gwelliannau i wasanaethau'n cynnwys:

- Gwell gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael i fynd iddo;
- Mwy o weithgareddau diwylliannol - mwy o gerddoriaeth fyw, theatr, digwyddiadau cymunedol gyda diwylliannau gwahanol;
- Mwy o gefnogaeth ddiwylliannol gan y cyngor; a
- Gofalu'n well am ein treftadaeth.

### 3.2.2 Lles Economaidd

Awgrymodd ymatebwyr Gorllewin y Bae mai ystyr lles economaidd oedd bod yn hapus ac yn iach, ynghyd ag adnoddau digonol i gynnal hynny:

*"Cael digon o incwm i allu talu am ffordd o fyw hapus ac iach"*

Adroddodd ymatebwyr i'r arolwg hefyd ei fod yn ymwneud â chael digon o incwm/arian i fyw bywyd cyfforddus i dalu am fwyd, tŷ, biliau a threuliau beunyddiol.

*"Peidio â gorfod poeni am dalu am bethau sy'n angenrheidiol: llety, bwyd, gwres, dillad, etc."*

Ystyriwyd mai'r ffactorau pwysicaf sy'n cyfrannu at les economaidd oedd cael swydd a sicrwydd swydd i gefnogi teulu. Awgrymodd ymatebwyr i'r arolwg welliannau i les economaidd sy'n canolbwyntio ar fwy o incwm, a llai o gostau. Dyma'r awgrymiadau penodol eraill:

- Gofal plant mwy fforddiadwy yn yr ardal;
- Cefnogaeth ar gyfer cyllidebu a rheoli arian;
- Dod o hyd i ffyrdd i leihau costau cyfleustodau;
- Darparu gofal seibiant i alluogi gofalwyr i weithio, a;
- Gwell cludiant cyhoeddus i alluogi mynediad i gyflogaeth.

### 3.2.3 Lles Amgylcheddol

Nododd ymatebwyr o Orllewin y Bae amrywiaeth eang o ffactorau amgylcheddol megis agosrwydd yr arfordir, llygredd aer isel, dŵr glân, awyr iach a bwyd, tai da, mynediad i fannau gwyrdd heb sbwriel ac amgylchedd naturiol iach. Roedd un o'r ychydig ymatebion a oedd yn crybwyll cenedlaethau'r dyfodol yn benodol yn dweud:

*“Byw mewn ecosystem amrywiol ac iach sy’n cynnal fy anghenion ac anghenion sawl cenhedlaeth yn y dyfodol.”*

Roedd ffactorau y nodwyd eu bod yn cyfrannu at les amgylcheddol yn amrywiol. Roedd mynediad yn hanfodol er mwyn gallu ymwneud â’r amgylchedd naturiol ehangach a chyfranogi iddo. Er enghraifft: “*Mynediad i fannau agored diogel, heb lygredd”*

Fel mewn rhannau eraill o Abertawe, gwelwyd bod agosrwydd at benrhyn Gŵyr yn fudd mawr, felly hefyd barciau lleol;

*“Cael mynediad i fan gwyrdd, penrhyn Gŵyr a’r holl draethau, a’r mannau hyn yn cael eu cadw’n daclus. Rwy’n hoffi gweld yr holl flodau gwyllt o gwmpas Abertawe.”* (Ymatebwr i’r arolwg)

Roedd gwelliannau awgrymedig ar gyfer Gorllewin y Bae o’r ymatebion i’r arolwg yn ymwneud â darparu gweithgareddau awyr agored, amgylchedd glanach, gwell cysylltiadau cludiant ac integreiddio gweithgareddau awyr agored yn well i ardaloedd trefol. Dyma awgrymiadau o’r arolwg:

- Rheoli traffig mewn ardaloedd gwledig;
- Costau parcio is ger traethau lleol i annog cyfranogiad gweithredol;
- Codi’r gwaharddiad cŵn ar draethau yn ystod yr haf;
- Rheoli adnoddau’n well - llai o sbwriel, casglu sbwriel yn effeithlon a strydoedd glanach;
- Cludiant cyhoeddus rhatach a gwell i annog pobl i ddefnyddio’u ceir yn llai aml (yn enwedig pan fydd un yn unig yn y car);
- Darpariaeth beicio well - llwybrau a rennir yn rhy gul ac nid ydynt yn cysylltu â’r mannau lle mae pobl yn byw;
- Dylunio gwell fel bod natur yn dod yn rhan o ddylunio trefol.

### 3.2.4 Lles Cymdeithasol

Roedd ymatebwyr i’r arolwg o Orllewin y Bae yn diffinio lles cymdeithasol yn bennaf o ran pwyslais cryf ar gysylltiadau cymdeithasol â theulu a ffrindiau a’r gefnogaeth a ddaw o’r cysylltiadau hyn. Diffiniad un ymatebwr i’r arolwg o les cymdeithasol yw:

*“Cael grŵp cefnogol o bobl o’ch cwmpas sy’n gallu’ch cefnogi a’ch arwain yn ôl y galw.”*

Cyfeiriodd ymatebwyr at amrywiaeth o ffyrdd y gall lles cymdeithasol amlygu ei hun, gan gynnwys bod yn rhydd o drosedd, teimlo’n werthfawr mewn cymdeithas a bod yn ddiogel.

Ystyriwyd mai ffrindiau a theulu’n bennaf oedd yn cyfrannu at les cymdeithasol, er bod cadw’n heini a bod yn actif hefyd yn bwysig:

*“Grŵp da o ffrindiau i gymdeithasu â nhw; cadw’n heini a bwyta’n dda”*

Awgrymodd ymatebwyr Gorllewin y Bae mai meysydd gwella posib i’w lles cymdeithasol oedd cyflawni cydbwysedd bywyd/gwaith i sicrhau bod ganddynt amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol ac i’w dreulio gyda’u cysylltiadau cymdeithasol. Roedd meysydd penodol i’w gwella’n cynnwys:

- Llai o oriau gwaith a mwy o hyblygrwydd, gydag oriau i ganiatáu cydbwysedd bywyd-gwaith gwell.
- Argaeledd gweithgareddau cymdeithasol a hamdden cynyddol yn yr ardal leol;

- Cael mwy o gyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd a rhoi cynnig ar weithgareddau newydd fel canŵio yn yr ardal leol am brisiau fforddiadwy;
- Dosbarthiadau ymarfer corff/ffitrwydd i bobl dros 50 oed y tu allan i oriau gwaith;
- Cludiant cyhoeddus amlach a gwell;
- Sicrwydd y bydd y gwasanaeth llyfrgell yn parhau.

## 3.3 Y Ddinas

### 3.3.1 Lles Diwylliannol

Roedd ymatebwyr yn ardal gymunedol y ddinas yn diffinio lles cymdeithasol fel cael mynediad i weithgareddau diwylliannol, mynd ar gyrsiau a gwirfoddoli. Cafwyd nifer bach o gyfeiriadau yma i Gymreictod, Prydeindod a threftadaeth.

*"Bod yn gallu cael mynediad i dreftadaeth, y celfyddydau, addysg, hamdden a*

*chwaraeon cyfoethog ac amrywiol." "Mynd ar gyrsiau. Ymuno â Phrifysgol y 3edd*

*Oes, Sefydliad y Merched a grwpiau llyfrau. Gwirfoddoli."*

Mae'r cysylltiad hwn â gwahanol weithgareddau yn yr ardal yn cyd-fynd â'r diffiniad o les diwylliannol mewn ardaloedd cymunedol eraill.

Daw cyfraniadau at les diwylliannol o gymryd rhan mewn gweithgareddau:

*"Amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd, digwyddiadau a rennir, grwpiau cymunedol, cwrdd â phobl newydd, dysgu pethau newydd..."*

Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at les cymdeithasol yr ymatebwyr i'r arolwg sy'n byw yn ardal gymunedol y ddinas. Yn yr un modd, cefnogir hyn gan y rhai a aeth i'r gweithdy a nododd fod saethyddiaeth, gwirfoddoli a diwylliant Cymru oll yn cyfrannu at eu lles diwylliannol.

I'r rhai a aeth i weithdy yn enwedig yng nghanolfan gymunedol Townhill, nid oedd lles diwylliannol yn flaenoriaeth iddynt. Byddent yn mynd â'u plant i'r sinema neu i ddosbarthiadau, ond nid oeddent yn ei ystyried yn rhywbeth y gallant ei fforddio neu sy'n eu denu. Maent yn tueddu i gymdeithasu o gwmpas paned o de neu yn y dafarn.

Mewn ymateb i'r cwestiwn yn yr arolwg am y pethau a fyddai'n gwella'u lefel o les diwylliannol, roedd ymatebwyr yn canolbwyntio ar amrywiaeth cynyddol o weithgareddau diwylliannol i fynd iddynt a mwy o ryngweithio cymdeithasol ag eraill. Nododd y rhai a aeth i weithdy'r angen i wella gweithgareddau clybiau ieuenctid i blant yn yr ardal a derbyn Abertawe amlddiwylliannol. Dyma enghreifftiau o welliannau a awgrymwyd:

- mwy o weithgareddau diwylliannol a oedd yn cynnwys: *"perfformiadau am ddim, digwyddiadau gwyddoniaeth am ddim"*, "*mwy o ddigwyddiadau cyhoeddus yn Mayhill (nid y Ffenics, Townhill yw honno) mwy o ddigwyddiadau yn Amgueddfa Abertawe";*
- cyfle i ddysgu am dreftadaeth; a
- *"gwell adnoddau cymunedol, yn enwedig adnoddau cymdeithasol. Mwy o fuddsoddiad mewn celfyddydau cymunedol".*

### 3.3.2 Lles Economaidd

Roedd lles economaidd yn ardal gymunedol y ddinas, yn debyg i'r ardaloedd cymunedol eraill, yn canolbwyntio ar arian a chael digon i ddiwallu anghenion yr unigolyn.

*"Cael digon o arian i sicrhau safon byw resymol a diwallu fy anghenion".*

*"Cael incwm i'm galluogi i fwynhau bywyd ar lefel resymol a bod heb bryderon ynghylch sut rydych yn mynd i ymdopi'n ariannol - talu biliau a chynilo rhywfaint a chael yr arian i dalu am fy angladd."*

Dywedodd cwpl o ymatebwyr yn yr ardal gymunedol hon mai lles economaidd oedd "*bod heb ddyled a gallu ateb eich galwadau."*

Daw cyfraniadau at les economaidd o gael swydd sy'n talu'n dda ac yn cynnig sicrwydd yn bennaf, fel yr ardaloedd cymunedol eraill yn Abertawe. Er enghraifft, nododd un ymatebwr i'r arolwg *"cael swydd sy'n talu cyflog digonol ac sy'n swydd ddiogel..."* Mae hyn felly'n caniatáu i bobl ennill digon i gefnogi eraill, fel yr ardaloedd cymunedol eraill.

Er bod cyflogwyr mawr yn ardal Abertawe, roedd rhai ymatebwyr yn poeni am ddiogelwch swydd ac mae'r cyflogau ar gyfer llawer o swyddi'n isel. I riant sengl y cyfwelwyd ag ef, ni welwyd hyn fel ateb i'w broblem oherwydd yn gyffredinol, drwy dderbyn swydd, roedd yn wynebu perygl o fethu cyflawni ymrwymiadau, megis taliadau rhent, os oedd plentyn yn sâl, ac ystyriwyd bod hyn yn risg rhy fawr. Roedd cost gofal plant yn rhwystr arall i rieni sengl yn gael swydd, oherwydd roedd cost gofal plant weithiau'n uwch na'r cyflog (gyda chludiant) a dderbyniwyd.

*"Hoffwn gael swydd/dychwelyd i'r gwaith, ond byddai'n waeth arnaf oherwydd mae gennyf 2 o blant (nad ydyn nhw'n mynd i'r ysgol eto)"* (Person a gymerodd ran yn y gweithdy, Townhill)

Mae pobl ddi-waith yn poeni'n gyson am arian ac yn dibynnu ar fudd-daliadau a thai cymdeithasol i gael deupen llinyn ynghyd.

Roedd gwelliannau i les economaidd yn canolbwyntio ar gynnydd mewn tâl neu bensiwn a gostyngiad mewn costau byw. Trafododd un person a aeth i weithdy y pryder ynghylch oedran pensiwn y wladwriaeth yn codi o 65 oed i 67 oed a'i allu i barhau i weithio oherwydd pryderon iechyd posib. Adroddwyd bod y newid parhaus hwn mewn oed pensiwn yn bryder gan y rhai a aeth i weithdy ac ymatebwyr i'r arolwg. Amlinellir mwy o'r gwelliannau a awgrymwyd isod.

*"Gwelliant i bensiwn y wladwriaeth, cadw prisiau bwyd ar lefel fforddiadwy"*

*"Cynyddu cyflogau a gostwng costau byw."*

Nododd un person a aeth i weithdy brinder argaeledd hyfforddiant am ddim ar hyn o bryd, a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar ei allu i gael swydd.

### 3.3.3 Lles Amgylcheddol

Roedd lles amgylcheddol yn ardal gymunedol y ddinas yn canolbwyntio ar lendid yr ardal leol:

*"Aer glân, di-fwg, casgliadau sbwriel a glanhau strydoedd"*.

Nododd ymatebwyr i'r arolwg hefyd yr angen am amgylcheddau gwaith iach, lefelau llygredd isel a mynediad i fannau gwyrdd a glan y môr;

*"Mynediad i fannau trefol gwyrdd a glas [sy'n] fannau cyhoeddus, diogel a rennir sy'n cael eu rheoli'n dda."*

Nododd ymatebwyr i'r arolwg hefyd amrywiaeth eang o fannau a oedd yn cyfrannu at eu lles amgylcheddol, megis: *"Mae gan Abertawe lan môr gwych i gerdded ar ei hyd, ac arfordir penrhyn Gŵyr, a gerddi hardd drwy'r ddinas."*

*"Mae byw yn Abertawe ger y traeth a pharciau, mannau agored, amgylchedd naturiol - yn dda ar gyfer iechyd a lles, yn enwedig iechyd meddwl."*

Yn Townhill, amlygodd y rhai a aeth i weithdy bwysigrwydd cael gardd neu randir fel lloches o'r amgylchedd adeiledig trefol.

Cwynodd sawl person a aeth i'r gweithdai yn ardal gymunedol y ddinas am y ffaith fod biniau du'n cael eu casglu'n llai aml, ac er eu bod yn deall yr angen am ailgylchu, dywedodd rhai eu bod yn gwneud hynny am fod yn rhaid iddynt, ac nid am eu bod eisiau ei wneud. Adroddwyd bod tipio anghyfreithlon wedi cynyddu ers i'r system newydd fod ar waith.

Byddai cludiant cyhoeddus gwell, gwella glendid ardaloedd cyhoeddus a gweithgareddau corfforol i bob grŵp oed yn gwella lles amgylcheddol i bobl sy'n byw yn y ddinas. Roedd un person a aeth i weithdy'n cefnogi'r pryder am gludiant cyhoeddus am nad oedd yn gallu cael mynediad i'r traeth oherwydd diffyg isadeiledd trafnidiaeth.

Nodwyd pryder hefyd gan rai a aeth i weithdy ynghylch cyflwr yr amgylchedd adeiledig yng nghanol y ddinas, a'r angen dybryd i adnewyddu adeiladau a chynnal siopau. Ychydig o bobl fyddai'n mynd i'r ddinas gyda'r nos oherwydd problemau alcohol a chyffuriau yn yr ardal etc.

Trafododd un arall fanteision posib gwneud canol y ddinas yn barth i gerddwyr yn unig. Roedd gwelliannau amgylcheddol posib a awgrymwyd gan ymatebwyr i'r arolwg yn cynnwys:

- Glendid yr ardal gymunedol a'r angen am fwy o fannau tyfu cymunedol i ddod â phobl ynghyd a gwella bwyta'n iach;
- Ymdrech gymunedol i glirio llwybrau natur sydd wedi'u gorchuddio â thyfiant - er enghraifft rhwng y Gors a Mayhill;
- Gwell cludiant cyhoeddus: "*gwell cysylltiadau bws â phenrhyn Gŵyr"* a *"cysylltiadau cludiant gwell a rhatach".*

### 3.3.4 Lles Cymdeithasol

Roedd ystyr lles cymdeithasol yn y ddinas yn canolbwyntio ar gysylltiadau cymdeithasol drwy ffrindiau a theulu. Nododd un ymatebwr i'r arolwg fod lles cymdeithasol yn golygu:

*"Cael rhwydwaith cefnogaeth gymdeithasol gadarn a ffrindiau".*

Nododd y rhai a aeth i weithdy bod eu hymdeimlad o gymuned yn gyfyng am eu bod ar brif ffordd, ond roedd eu hymdeimlad o berthyn yn dod o fod yn aelodau o grwpiau eraill;

*"Cael ffrindiau da, teulu a chymdogion. Cael hobïau a rhoi yn ôl i'r gymuned drwy wirfoddoli."*

Roedd cysylltiadau ffrindiau a theulu hefyd yn cyfrannu at les cymdeithasol yn yr ardal gymunedol hon, yn debyg i ardaloedd eraill yn Abertawe.

*"Cael digon o gyfleoedd i gymdeithasu â theulu a ffrindiau".*

Trafododd y rhai a aeth i weithdy bwysigrwydd sefydliadau cefnogi i'w lles cymdeithasol hefyd; roedd grwpiau fel MIND neu fynychu sesiynau therapi ymddygiad gwybyddol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les.


MILLER
Research Evaluation Consulting

Roedd gwelliannau posib i les cymdeithasol yn cynnwys gwella mynediad i weithgareddau cymdeithasol a phreswylwyr yn dod o hyd i fwy o amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Awgrymodd ymatebwyr i'r arolwg y gwelliannau canlynol.

*"Gweithio llai o oriau a chwrdd â mwy o'm cymdogion"*

*"Cael yr amser i dreulio ar weithgareddau cymdeithasol, gweithio llai o oriau, gan fy mod yn llawer rhy flinedig i dreulio amser ar weithgareddau cymdeithasol"*

*"Gwneud mwy o wirfoddoli a gwneud ffrindiau newydd"*

*"Mynediad i gampfa a phwll nofio y tu allan i oriau gwaith, yn agos i gartref, sy'n rhad"*

## 3.4 Cwm Tawe

### 3.4.1 Lles Diwylliannol

Disgrifiwyd lles diwylliannol yng Nghwm Tawe mewn ffordd debyg i'r hyn a gafwyd yn ardal ehangach Abertawe, gyda ffocws ar fynediad a chyfranogiad diwylliannol mewn amrywiaeth eang o weithgareddau a gwasanaethau, er enghraifft:

*"Mynediad i lyfrgelloedd, cyfleoedd dysgu, y theatr, ffilm celf, bwydydd gwahanol a theithio."*

Fodd bynnag, roedd pwyslais hefyd ar agweddau diwylliannol ar agweddau ac ymddygiad mewn cymuned o ran:

*"Y ffordd rydym yn rhyngweithio â'n gilydd, a'n gwerthoedd, ein credoau, ein harferion a'n hymddygiad (unigol, cymunedol a theuluol)."*

Roedd cyfraniadau at les diwylliannol hefyd yn mynd y tu hwnt i'r unigolyn - er enghraifft, ystyriwyd bod gwirfoddoli ar gyfer sefydliadau cymunedol gwahanol yn rhan annatod o les:

*"Cyfleoedd gwirfoddoli a bod yn rhan o'r gymuned, teimlo'n rhan o rywbeth".*

*"Gwirfoddoli gyda grwpiau diddordeb lleol...gefeillio, camlas, grwpiau cerdded, gwaith cynghorydd, lles glowyr..."*

Awgrymwyd gwelliannau penodol ar gyfer lles diwylliannol yng Nghwm Tawe, sef asedau a chyfleusterau diwylliannol mwy lleol, pwyslais cryf ar ddysgu'r Gymraeg a dysgu am hanes a diwylliant Cymru, (roedd un ymatebwr am gael y cyfle i ddatblygu ac ymarfer ei Gymraeg yn ystod y dydd yn y gwaith), ynghyd â gwell gwasanaethau bws lleol, mwy o ddosbarthiadau hamdden a chyfleoedd gwirfoddoli yn y gymuned.

### 3.4.2 Lles Economaidd

Ystyrir lles economaidd yng Nghwm Tawe eto fel gallu fforddio i fodloni rhwymedigaethau ariannol drwy gael digon o arian i beidio â gorfod poeni amdanynt. Awgrymodd un ymatebwr i'r arolwg mai lles economaidd oedd;

*"Cael digon o adnoddau i gynnal safon byw realistig neu'r gallu i'w darparu drwy eich ymdrech eich hun/neu waith a rhwyd ddiogelwch os na fydd hyn yn bosib."*

Fel mewn mannau eraill, y cyfrannwr at les economaidd a drafodwyd gan amlaf oedd *"cael swydd"* sy'n rhoi sicrwydd, yn talu incwm da ac yn ddigon i gefnogi cysylltiadau cymdeithasol. Nododd un ymatebwr i'r arolwg mai'r ffactorau a oedd yn cyfrannu at ei les economaidd oedd: "*Gwaith a than yn ddiweddar, gredydau treth. Nawr mae'n anodd arna' i ac rwy'n teimlo'n ariannol sâl"*

Nododd person a aeth i weithdy bwysigrwydd cerdyn bws am ddim i les economaidd a chymdeithasol rhai preswylwyr gan y gallai hyn helpu i atal unigedd. Mae hyn yn enghraifft dda o'r angen am feddwl integredig ar draws themâu lles a'r effaith y gall gwasanaethau penodol ei chael ar nifer o'r themâu lles.

Nododd llawr o breswylwyr Cwm Tawe bryder ynghylch sicrwydd swydd ac felly sicrwydd ariannol yn yr hinsawdd economaidd gyfredol a chyd-destun Prydael. Roedd rhai preswylwyr am gael gwell cyngor ar reoli arian ac mewn rhai achosion, reoli dyled. Roedd biliau cyfleustodau a chostau teithio'n bryderon allweddol i lawer.

### 3.4.3 Lles Amgylcheddol

Roedd mwy o ffocws yng Nghwm Tawe ar ddiffiniad cymunedol o les amgylcheddol, sef *“amgylchedd personol yn y gwaith a gartref”, “amgylchedd allanol”, “yr amgylchedd o'm cwmpas”* yn hytrach na thra-niferedd y tirlun a mannau gwyrdd a oedd yn ffocws mewn mannau eraill.

*“I fi mae lles amgylcheddol yn golygu bod mewn ardal leol dda, lle mae ychydig iawn o ymddygiad gwrthgymdeithasol, cymdogion da ac ardal bleserus i fyw ynddi”.*

O ran ffactorau sy'n cyfrannu at les amgylcheddol, crybwyllwyd gerddi a chael mynediad i fannau agored ac aer glân sawl gwaith. Gwelwyd y traethau, yn enwedig ym Mhenrhyn Gŵyr, yn fanteision gwirioneddol i'r ardal, a oedd yn caniatáu amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi lles amgylcheddol. Roedd llwybrau beicio, parciau, arsylwi ar fywyd gwyllt, ardaloedd chwarae i blant a mynediad cyffredinol i gefn gwlad yn bwysig hefyd. Er enghraifft:

*“Mynd am droeon yn y mynyddoedd ac ar y traethau”* a;

*“Chael gardd ddymunol a mynediad i fannau awyr agored hyfryd yn fy ardal”.*

Cysylltwyd gwelliannau i les amgylcheddol â gwell gwasanaethau yn yr ardal leol, megis: cynnal toiledau cyhoeddus yn well, clirio sbwriel o ardaloedd, atal tipio anghyfreithlon, system ailgylchu genedlaethol unffurf a sicrhau bod gwasanaethau cludiant cyhoeddus ar gael yn rhwydd.

Nododd un o'r rhai a aeth i weithdy yr angen am wella goleuadau stryd yn enwedig adeg y cyfnos i'r rhai â nam ar y golwg. Ynghyd â gwelliannau i wasanaethau, awgrymodd unigolion bethau y gallent wneud yn fwy, megis cael yr amser i wneud gweithgareddau yn yr awyr agored a bod yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael eisoes, i werthfawrogi lles amgylcheddol yr ardal.

### 3.4.4 Lles Cymdeithasol

Diffiniwyd lles cymdeithasol o'r arolwg fel cysylltiadau cymdeithasol cytbwys â theulu, ffrindiau a chymuned. Mae hyn yn debyg iawn i ardal Abertawe yn ei chyfanrwydd. Er enghraifft:

*“Cael rhwydwaith o ffrindiau/aelodau teuluol a pheidio â bod yn unig nac yn ynysig.”*

*“Cymdeithasol - bod yn gymdeithasol weithredol, cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd ar gael yn lleol - yn enwedig rhai rhad.”*

Awgrymodd ymatebwyr i'r arolwg gyfraniadau i'w lles cymdeithasol o amrywiaeth o ryngweithiadau gweithgareddau cymdeithasol. Roedd ffocws cryf ar iechyd a bod yn actif; er enghraifft, bod yn yr awyr agored, mynd â chŵn am dro a chymryd rhan mewn chwaraeon.
I'r rhai ag anghenion neilltuol, nododd cyfranogwyr gweithdai fod grwpiau cefnogi cymunedol ac arbenigol yn hanfodol er mwyn cynnal lles cymdeithasol a lleihau unigedd.

Gellid crynhoi'r gwelliannau allweddol i les cymdeithasol fel gwell iechyd, mwy o amser ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a chorfforol a llai o oriau gwaith. Roedd rhai pobl hefyd am leihau eu hamserau teithio i'r gwaith er mwyn lleihau eu hamser i ffwrdd o gartref.

## 3.5 Llwchwr

### 3.5.1 Lles Diwylliannol

Disgrifiwyd ystyr lles diwylliannol yn Llwchwr gan ymatebwyr i'r arolwg yn bennaf o ran agweddau cymdeithasol ar ddiwylliant; deall diwylliant a hanes Cymru ond hefyd, ddiwylliannau eraill sy'n cyfrannu at gymuned Llwchwr. Er enghraifft:

*"Bod yn gallu dathlu'r lle rydych yn dod ohono a bod yn falch ac yn rhydd i wneud hynny";*

*"Diwylliannau o ba le bynnag, sy'n byw gyda'i gilydd heb orfodi credoau ar eraill,"* a;

*"Gwerthfawrogi'r grymoedd hynny sydd wedi creu'r gymuned leol a chenedlaethol"*

Cafwyd sawl cyfeiriad i osgoi gwahaniaethu a bod yn falch o ddathlu tarddiadau a gwreiddiau. Roedd sawl sylw yn crybwyll diwylliant Cymru, ac roedd peth balchder mewn Cymreictod a'r defnydd o'r iaith.

Yn ogystal, cafwyd rhai cyfeiriadau i weithgareddau'n ymwneud â'r celfyddydau, y theatr, llenyddiaeth etc. ond yn llai o lawer nag yn Abertawe gyfan.

*"Mae mynediad i amgueddfeydd am ddim yn wych, mae cael mynd â theuluoedd i amgueddfeydd y glannau, Pwll Mawr, Sain Ffagan yn wych, ac mae mor bwysig gweld hen adeiladau'r oes a fu yng Nghymru."*

O ystyried ffactorau sy'n cyfrannu at les diwylliannol yn yr ardal, crybwyllwyd gwirfoddoli a chefnogi grwpiau diddordeb lleol, boed y rheiny'n ddiwylliannol, yn amgylcheddol neu'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol.

Adroddodd un person a aeth i weithdy, nad oedd yn gallu gweithio oherwydd cyflyrau iechyd, ei fod wedi ceisio cael mynediad i gyrsiau celf a chrefft rhan-amser, ond roedd llawer wedi dod i ben, ac roedd yr ychydig rai a oedd yn cael eu cynnal o hyd yn rhy ddrud iddo eu fforddio.

Roedd gwelliannau awgrymedig i ddiwylliant ar gyfer Llwchwr yn cynnwys mwy o gyfleoedd i'r gymuned ddod ynghyd. Fodd bynnag, cafwyd arwyddion o lefel uchel o les, ac nid oedd nifer o ymatebwyr yn gallu nodi pethau a fyddai'n gwella eu lles yn y maes hwn:

*"Dim; rydyn ni'n lwcus iawn yng Nghymru. Ac er tegwch i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol, mae gennym gyfleusterau o safon er gwaethaf heriau ariannu."*

Er hynny, cafwyd nifer o awgrymiadau o'r arolwg:

- Cyfleoedd gwirfoddoli;
- Cyrsiau addysg mwy fforddiadwy neu rai ychwanegol am ddim i oedolion, megis dysgu iaith newydd, gan gynnwys y Gymraeg;
- Mwy o wybodaeth a chyhoeddusrwydd am gyfleoedd cymunedol diwylliannol i fynd iddynt neu gymryd rhan ynddynt;
- Mwy o gyfleusterau cymunedol a sicrhau eu bod yn hygyrch drwy gludiant cyhoeddus.

### 3.5.2 Lles Economaidd

Mae ystyr lles economaidd yn Llwchwr yn canolbwyntio ar ddigonolrwydd, fel mewn ardaloedd eraill yn Abertawe;

*"Cael digon o arian i fyw mewn ffordd lle nad oes rhaid i chi boeni am gynnal eich ffordd o fyw".*

Fel a drafodwyd mewn ardaloedd cymunedol eraill, roedd lles economaidd felly'n canolbwyntio ar fyw heb bryder ariannol neu straen.

Y cyfraniad mwyaf at les economaidd yn ôl y rhai a ymatebodd i'r arolwg oedd cyflogaeth. *"Cael swydd"* a chyflog sy'n caniatáu i mi *"gynnal fy nheulu", "...sy'n cwrdd â fy nghostau byw dyddiol ac yn caniatáu safon byw boddhaol"* a *"chael swydd lle'r teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi...".* Fel yr awgrymwyd yn helaeth mewn deunydd ysgrifenedig, mae pwysigrwydd swydd ar gyfer lles yn arwyddocaol am ei fod yn effeithio ar ymdeimlad o hunan-bwrpas a phwrpas ehangach yr unigolyn, i allu cefnogi cysylltiadau cymdeithasol a byw'n annibynnol yn ariannol. Fodd bynnag, roedd sawl un o'r rhai a gyfwelwyd yn ymwybodol nad oedd ganddynt lawer o arian i sbario, ac roedd rhai wedi cael profiad o fod mewn dyled a'i oblygiadau:

"*Mae gan ddiffyg lles ariannol effaith uniongyrchol ar iechyd meddwl...gallwch gael eich dal mewn byd o fenthyciadau diwrnod cyflog...etc*." (Un o'r rhai a aeth i weithdy yn Llwchwr)

Trafodwyd pwysau ariannol yn helaeth, yn enwedig o ran effeithiau estynedig cyni ar setliadau cyflog. Pan ofynnwyd iddynt am welliannau posib mewn lles economaidd, roedd mwy o gyflog yn fater pwysig i ymatebwyr:

*"Mwy o gyflog a chostau byw llai"* a;

*"Chodiad cyflog yn ein swydd gan nad ydym wedi cael un am nifer o flynyddoedd".*

Nododd rhai o'r ymatebwyr i'r arolwg y byddai mwy o wybodaeth a chyngor ar reoli arian a chyllidebu'n helpu i wella'u lles economaidd.

### 3.5.3 Lles Amgylcheddol

Yn debyg i ranbarth Abertawe yn ei gyfanrwydd, dywedodd ymatebwyr Llwchwr mai lles amgylcheddol oedd cael amgylchedd glân a diogel i fyw ynddo, gyda phwyslais arbennig ar aer glân a diffyg llygredd. Er enghraifft, i gael

*"Amgylchedd glân, di-lygredd i fyw ynddo"*, ac;

*"Aer glân ac amgylchedd cain"*.

Roedd hefyd yn bwysig cael mynediad i fannau naturiol a gwyrdd yn yr ardal, ynghyd ag agosrwydd penrhyn Gŵyr ar gyfer cerdded;

*"Mynediad i fannau gwyrdd, aer glân a dŵr, coetiroedd a bioamrywiaeth iach."*

Cafwyd sawl cyfeiriad hefyd at agweddau mwy cymdeithasol ar les, gydag angen a nodwyd i gadw diogelwch cymunedol, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a sŵn a pheidio â gorfod poeni am gymdogion. Fodd bynnag, nododd y rhai a aeth i weithdy welliant yn yr amgylchedd mewn rhai ardaloedd;

"*Ddim yn byw gyda gwerthwyr cyffuriau fel yr oedd yn arfer bod yma 12 mis yn ôl."*

O ran gwelliannau posib i les amgylcheddol, soniodd preswylwyr am amrywiaeth eang o ffactorau, gan gynnwys:

- Cael gwared ar sbwriel, gwm cnoi, sigaréts a mwg e-sigaréts;

- *Gwell cludiant cyhoeddus, llai o geir a lorïau ar y ffyrdd. Lleihau dibyniaeth ar danwyddau ffosil;*
- Mwy o lwybrau beicio a mannau gwyrdd yng nghanol dinas Abertawe;
- Gwell cludiant cyhoeddus;
- Mwy o fannau agored hygyrch, er enghraifft, mynediad agored i gaeau er mwyn mynd â chŵn am dro;
- Mwy o weithgareddau awyr agored sy'n addas i oedolion;
- Gwell parciau ac ardaloedd chwarae.

### 3.5.4 Lles Cymdeithasol

Adroddodd yr ymatebwyr i'r arolwg o ardal Llwchwr mai ystyr lles cymdeithasol oedd y cydlyniant cymdeithasol a gafwyd drwy gysylltiadau cymdeithasol megis ffrindiau a theulu. Mae'r mynediad i rwydwaith cefnogi da yn hanfodol ar gyfer lles cymdeithasol;

*"Cael rhwydwaith da o ffrindiau a theulu i gynorthwyo â'r teimlad o gael eich caru a'ch cefnogi."*

*"Cael pobl y gallwch siarad â nhw am broblemau, neu rannu pethau da â nhw."*

Hefyd y cysylltiad â chymuned, er enghraifft;

*"Lles cymdeithasol yw'r pethau rydych yn eu gwneud i gymryd rhan mewn cymdeithas a sut rydych yn ymrwymo iddi ac yn rhan ohoni.*

Mae'r cyfraniadau at les cymdeithasol yn Llwchwr yn debyg i ranbarth Abertawe yn ei gyfanrwydd. Mae'r cysylltiadau a'r gweithgareddau cymdeithasol (e.e. rhedeg, mynd i'r gampfa, garddio, gwneud ymarfer corff a bod yn aelod o glwb) oll yn cyfrannu at les cymdeithasol.

Mae rhai awgrymiadau penodol o'r arolwg ar-lein yn cynnwys:

- Siopau coffi lleol;
- Ffyrdd diogelach i feicwyr, a thyllau yn y ffordd yn cael eu trwsio;
- *"Mwy o grwpiau mamau a babanod yn fy ardal [a] chostau gofal plant rhatach am fwy o amser rhydd";*
- Gwell cludiant cyhoeddus;
- Mwy o feddygon teulu mewn meddygfeydd lleol a chynyddu mynediad i feddygon y tu allan i oriau.

## 3.6 Penderi

### 3.6.1 Lles Diwylliannol

Roedd lles diwylliannol i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ym Mhenderi yn ymwneud â gweithgareddau cymunedol, deall diwylliannau eraill ac amrywiaeth a chael rhyddid i arfer defodau diwylliannol ac ysbrydol.

*"Mae lles diwylliannol i fi'n ymwneud â phob diwylliant mewn cymdeithas yn byw'n gytûn. Bwy gyda'n gilydd mewn cytgord a heb ddrwgdeimlad a/neu ragfarn."*

*"Cael rhyddid i fwynhau crefydd a diddordebau diwylliannol eraill heb gael eich gwawdio a heb ofni dial", a;*

*"Chael mynediad i wledydd eraill, cymdogaethau amrywiol, cynnal traddodiadau, bwytai amlddiwylliannol..."*

Adroddodd ymatebwyr i'r arolwg ym Mhenderi am yr amrywiaeth o weithgareddau sy'n cyfrannu at eu lles diwylliannol, gan gynnwys gwirfoddoli, mynd i sioeau, dosbarthiadau nos, ymweld â'r ardal lle maent yn byw, yn ogystal ag ymweld â safleoedd Treftadaeth Naturiol a Pharciau Cenedlaethol.

Roedd gwelliannau i les diwylliannol ym Mhenderi fel yr adroddwyd amdanynt yn yr arolwg yn cynnwys mwy o gyfleoedd ar gyfer digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau diwylliannol a mwy o addysg amlddiwylliannol mewn ysgolion.

### 3.6.2 Lles Economaidd

Roedd lles economaidd ymhlith ymatebwyr Penderi yn ymwneud yn gryf iawn ag osgoi pryderon am arian a chyflawni sicrwydd ariannol, er enghraifft:

*"Y gallu i symud ymlaen â bywyd bob dydd wrth ystyried fy sefyllfa ariannol a sefydlogrwydd fy incwm yn ystod yr hinsawdd economaidd."*

Fel mewn mannau eraill, defnyddiwyd y term 'cael digon' yn aml ar draws ardal y gymuned i ddiffinio lles economaidd, gyda phwyslais ar yr incwm ariannol i dalu am gostau bob dydd megis biliau, bwyd a thai.

Eto, ystyriwyd bod cyflogaeth yn gyfrannwr hanfodol at les economaidd ar gyfer yr ardal gymunedol hon, o ran swydd â sicrwydd, tâl da a darparu sefydlogrwydd;

"*Cael swydd sy'n cyfateb i'r sgiliau a'r cymwysterau sydd gennyf; cael cyflog sy'n gystadleuol neu o leiaf wedi'i feincnodi; gallu fforddio pethau moethus fel gwyliau."*

Mewn ymateb i'r cwestiynau am ba ddau beth allai wella lles economaidd, adroddodd ymatebwyr i'r arolwg newidiadau unigol (e.e. gwario arian yn ddoethach), gwelliannau gan y cyngor (e.e. lleihau treth y cyngor) a ffactorau sy'n dibynnu ar yr economi (e.e. cyfraddau llog). Amlinellir y gwelliannau awgrymedig o'r arolwg isod.

- Lleihau costau bob dydd (e.e. biliau) a gweithgareddau adloniant am gost resymol (e.e. y theatr a'r sinema);
- Trethi is (e.e. treth y cyngor);
- Gwell cyfraddau llog (i bensiynwyr);
- Ffactorau unigol megis gwario'n ddoethach a chynilo'n rheolaidd.

### 3.6.3 Lles Amgylcheddol

Roedd ymatebwyr i'r arolwg o ardal gymunedol Penderi'n adleisio'r diffiniadau ehangach o les amgylcheddol, ac yn canolbwyntio ar amgylchedd o ansawdd da a lle i'w fwynhau. Ystyriwyd bod aer glân a bod yn rhydd o sbwriel a llygredd yn gyfranwyr allweddol at les. Roedd agosrwydd arfordir Gŵyr hefyd yn bwysig iawn i bobl, ynghyd â mynediad i erddi a pharciau;

*Byw mewn ardal lle mae digon o le gwyrdd, rhodfeydd, parciau, traethau, sy'n lân ac yn daclus a chanddi lefelau llygredd isel.*

Nododd ymatebwyr i'r arolwg hefyd nifer o ffyrdd i wella eu lles amgylcheddol ym Mhenderi. Roedd hyn yn cyd-fynd â rhanbarth Abertawe yn ei gyfanrwydd, gyda ffocws ar lendid eu

hamgylchedd (e.e. mwy o addysg ailgylchu a llai o dipio anghyfreithlon), yn ogystal â rhai ffactorau penodol:

- Mwy o falchder yn y gymdogaeth;
- Mynediad i ddosbarthiadau ymarfer corff awyr agored;
- Cefnogaeth er mwyn beicio i'r gwaith;
- Amgylcheddau gweithio gwell;
- Mwy o leoedd di-draffig

### 3.6.4 Lles Cymdeithasol

Mae Penderi'n cyd-fynd ag ardaloedd cymunedol eraill yn Abertawe, lle mae lles cymdeithasol iddyn nhw'n golygu cael cefnogaeth gan ffrindiau a theulu, er enghraifft *"cael ffrindiau, teulu a byw mewn cymuned dda"*. Nododd cwpwl o breswylwyr hefyd bwysigrwydd cydbwysedd bywyd-gwaith i sicrhau bod ganddynt yr amser am weithgareddau cymdeithasol.

*"Cydbwysedd bywyd-gwaith da, bod yn actif ac yn gymdeithasol yn fy amser rhydd, cael digon o amser ac arian i wario gyda theulu a ffrindiau".*

Mae'r arolwg yn awgrymu mai'r ffactorau sy'n cyfrannu at les cymdeithasol ym Mhenderi yw "*cael ffrindiau da"* i gymdeithasu a threulio amser gyda hwy. Ystyrir bod amser hefyd yn ffactor pwysig, a chael digon o amser i wneud y gweithgareddau cymdeithasol a ddymunir.

Roedd gwelliannau posib i les cymdeithasol yn debyg i'r rhai ar draws ardal ehangach Abertawe, gan gynnwys treulio mwy o amser ar weithgareddau cymdeithasol.

Fodd bynnag, codwyd materion penodol, gan gynnwys:

- Mwy o gyfathrebu a rhwydweithio wyneb yn wyneb;
- Bwyta'n iach yn y gweithle;
- Gweithredu ar gostau cyfleustodau;
- Cydbwysedd gwaith-bywyd gwell.

# 4 Lles yn ôl Grŵp Defnyddwyr

Mae'r adran hon yn ystyried y cyfeiriad penodol a wneir i'r grwpiau a restrir yng ngofynion DLlCD;

- Pobl yr ystyrir eu bod yn ddiamddiffyn neu dan anfantais; e.e. y rhai sy'n cael eu heithrio'n ariannol, dioddefwyr cam-drin domestig a'r rhai sy'n dioddef anghydraddoldeb incwm a phroblemau amgylcheddol.
- Pobl a chanddynt nodwedd a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a thueddfryd rhywiol.
- Plant, sy'n golygu pobl dan 18 oed, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn tlodi a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu bywydau a'u lles cyffredinol; plant sy'n ddigartref, ceiswyr lloches, sipsiwn a theithwyr neu blant sy'n profi cam-drin domestig neu'n dyst iddo.
- Pobl ifanc sydd wedi derbyn gofal, wedi'u gosod mewn llety, wedi'u maethu ac mae hawl ganddynt i gael cefnogaeth.
- Pobl y gall fod angen gofal a chefnogaeth arnynt; neu bobl sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal a chefnogaeth.

Lle bynnag y bo modd, mae'r data wedi'i rannu yn ôl math; ffynonellau cynradd ac eilaidd a thema lles; economaidd, diwylliannol, amgylcheddol a chymdeithasol.

## 4.1 Pobl yr ystyrir eu bod yn ddiamddiffyn neu dan anfantais - Trais Domestig

Caiff y gwaith maes ansoddol y dynodwyd ei fod yn cael ei wneud gyda dioddefwyr trais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol ei fanylu isod. Mae'r crynodeb yn seiliedig ar sgyrsiau â phobl sy'n cynnal grwpiau i fenywod sydd wedi cael eu cam-drin (yn dreisgar neu'n ddomestig) a menywod sydd wedi dioddef trais.

Roedd anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn amrywiol. Nodwyd y materion canlynol gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy:

- Materion sylfaenol tlodi a mynediad i wasanaethau, unigedd a diffyg hyder.
- Problemau iechyd meddwl yn codi oherwydd cam-drin domestig, megis hunan-niweidio a phroblemau yfed/cyffuriau, anhwylder straen wedi trawma (PTSD)
- Argaeledd amrywiaeth o wasanaethau yn ôl angen.
    - Lloches/llety dros dro.
    - Cyngor untro'n unig.
- Y gallu i ddefnyddio gwasanaethau yn ôl y galw ac yn ôl yr angen.
- Materion a geir oherwydd cyfyngiadau ariannu (a'r posibilrwydd y bydd y sefyllfa'n gwaethygu).
- Diffyg dealltwriaeth ymhlith gweithwyr cymdeithasol o'r mater y mae'r defnyddwyr yn ei wynebu. Diffyg hyfforddiant ac ymagwedd empathig.
- Diffyg dealltwriaeth o'r meini prawf penodol i gael mynediad i gefnogaeth gan y menywod pan gânt eu hasesu i weld a ydynt yn gymwys am gefnogaeth y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r meini prawf yn benodol iawn ac ni all menywod

- gael mynediad i gefnogaeth yn hawdd. Pan fyddant, weithiau mae'n teimlo'n fwy cosbol na defnyddiol.
- Pennir y cynllun y mae'n rhaid i fenywod ei ddilyn i barhau i dderbyn gwasanaethau cymdeithasol heb eu cyfraniad. Mae'n rhaid iddynt ddilyn gofynion na fyddant o bosib yn ddigonol. Mae'n teimlo'n fwy fel ymarfer ticio blychau nag ateb. Mae menywod sy'n dioddef cam-drin domestig yn cael amser caled a gall poeni am eu sefyllfa a bodloni gofynion waethygu eu cyflwr meddwl.
- Diffyg cysondeb gyda'r gweithwyr cymdeithasol, gan ei fod yn anodd i'r menywod adeiladu perthynas â dieithryn pan fyddant yn siarad am faterion personol. Ystyrir bod trosiant staff yn rhy uchel. Gall hyn fod oherwydd pa mor anodd yw'r swydd ond mae teimlad hefyd nad yw staff wedi cael digon o hyfforddiant i ymdrin â'r problemau y mae'r menywod yn eu hwynebu.

Mae'r cyngor yn gwneud peth gwaith i wella'r gofal a lefel y gwasanaeth a roddir i fenywod sy'n dioddef camdriniaeth (treisgar, domestig a rhywiol).

Prosiect sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd yn Abertawe a'i ariannu gan y gwasanaethau cymdeithasol yw'r hwb Cam-drin Domestig yn yr orsaf heddlu. Mae'r tîm yn ffonio pob person sydd wedi dioddef cam-drin domestig sydd â phlant i weld a oes angen mwy o help arno, a gall ei atgyfeirio i'r tîm ymyrryd yn gynnar, a chael mynediad i amlasiantaethau. Cafwyd adborth cadarnhaol i'r prosiect. Arweinir yr hwb gan ddau uwch-ymarferydd sydd wedi dewis eu tîm yn ofalus a'u hyfforddi.

Mae'r tîm atal ac ymyrryd yn gynnar eto'n ased cadarnhaol y gall menywod â phlant dan 5 oed gael mynediad iddo. Mae Cymorth i Fenywod wedi cael adborth da amdano hefyd gan fod y trothwy i gael mynediad i'r gwasanaeth yn is, felly gall mwy o bobl elwa ohono. Mae'n targedu esgeuluso neu gam-drin plant yn benodol, ond mae'n wasanaeth sy'n cael ei ystyried yn bwynt dechrau da. Gall gweithwyr teulu ddod i dai menywod a'u helpu.

### Cymorth i Fenywod Abertawe

Mae Cymorth i Fenywod Abertawe yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau a'r nod o fynd i'r afael ag amrywiaeth o anghenion gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhaglen Rhyddid
- Cwnsela
- Homeopathi
- Llety mewn tŷ diogel (mae Abertawe'n cynnig dwy loches a thri thŷ diogel)
- Y Cynllun Gwybodaeth, Cefnogaeth a Grymuso Cam-drin Domestig (DAISE), sy'n cynnig cefnogaeth un i un
- Gwasanaethau plant i blant o 5 i 17 oed.
- Prosiect CHAT (Newid Agweddau Gyda'n Gilydd) (plant 3 i 18 oed)
- 'Your Opinion Matters': rhaglen a ariennir gan y loteri sy'n dod i ben cyn bo hir

Adroddwyd mai menywod di-waith rhwng 25 a 45 oed sy'n defnyddio'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau a ddisgrifir uchod. Maent fel arfer yn hunangyfeirio, gyda rhai yn cysylltu o ganlyniad o gamdriniaeth hanesyddol.

Serch hynny, nid oedd pob un o’r rhain yn y categorïau hyn; nodwyd bod ‘cyflawnwyr uchel’ ymhlith y rhai a oedd yn ceisio cymorth, a/neu wragedd/bartneriaid “*o bob math gan gynnwys arolygwyr yr heddlu and barnwyr*”.

Yn gyffredinol, mynegwyd y farn bod newidiadau sylweddol wedi’u gwneud dros yr ugain mlynedd diwethaf. Nid yw cam-drin domestig (yn ei holl ffurfiau) bellach yn bwnc mor wahareddedig ag y bu bryd hynny, ac mae safonau wedi codi ac yn fwy proffesiynol.

O safbwynt proffesiynol, mynegwyd diddordeb yng nghanfyddiadau’r cynllun peilot Gofyn a Gweithredu sydd ar waith ar hyn o bryd, a chodwyd peth pryder ynghylch goblygiadau ariannol y peilot uchod o ran darparu’r hyfforddiant angenrheidiol.

O safbwynt proffesiynol a defnyddwyr gwasanaeth, teimlir bod dymunoldeb darparu ymyriadau teuluol, gweithio gyda thramgwyddwyr, plant, cymunedau BME a grwpiau eraill yn flaenoriaeth uchel.

## 4.2 Pobl a chanddynt nodwedd a warchodir - Plant a Phobl Ifanc

Nid oedd un o’r myfyrwyr a oedd yn rhan o’r cyswllt sylfaenol yn teimlo’n gyfforddus wrth ddefnyddio neu ddiffinio’r term ‘lles’. Gwnaed hyn yn amlwg yn yr ysgolion Cymraeg, lle nad oedd unrhyw un o’r myfyrwyr yn gyfarwydd â’r gair Cymraeg am les - *‘Lles’*. Yn gadarnhaol, yn yr holl ysgolion, roedd y gair ‘lles’ yn creu trafodaeth:

*“Ydy e’n golygu sut mae plant yn teimlo yn yr ysgol, pethau fel ’na ?”* (ysgol uwchradd Gymraeg, Abertawe)

*“Effeithiolrwydd personol da”* – term yr oedd myfyrwyr wedi’i ddysgu yn ystod eu hastudiaethau ar gyfer Bagloriaeth Cymru (ysgol uwchradd Saesneg, Abertawe)

Pan ofynnwyd am y pethau sy’n helpu i gyfrannu at ymdeimlad o les, derbyniwyd ymatebion cyson am ffrindiau a theulu, sy’n awgrymu bod y plant hyn yn blaenoriaethu perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol fel rhan graidd o’u hymdeimlad o les:

*“Cwrdd â’ch ffrindiau.”* (ysgol uwchradd Saesneg, Abertawe)

*“Teulu cefnogol.”* (ysgol uwchradd Saesneg, Abertawe)

Ar ôl siarad am les yn gyffredinol, symudodd y drafodaeth ymlaen i’r pedwar categori o les cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Roedd manylder yr ymatebion yn amrywio yn ôl eu perthnasedd canfyddedig.

### 4.2.1 Lles Cymdeithasol

Ystyriwyd bod lles cymdeithasol, a ddiffiniwyd gan y grŵp hwn fel cymdeithasu a chyfeillgarwch, yn bwysig iawn. Roedd llawer yn disgrifio sut mae teulu a ffrindiau’n helpu gyda hyder a chymhelliant.

*“Ffrindiau a theulu – y bobl sydd o’ch cwmpas, y bobl rydych yn eu gweld yn aml sy’n cael effaith gadarnhaol ar eich bywyd”* (ysgol uwchradd Gymraeg, Abertawe)

Yn gyffredinol, roedd pobl ifanc a phlant yn disgrifio sut byddent yn hoffi gweld mwy o ddigwyddiadau a phethau i’w gwneud gyda’u ffrindiau a’u teuluoedd. Ar draws y grwpiau, dywedodd myfyrwyr fod diffyg gweithgareddau neu grwpiau i ymuno â nhw yn eu tref leol, ac nid oeddent am fynd i’r parc yn unig. Yn hytrach, roeddent am rywle diogel lle gallent *“dreulio amser”*.

Ystyriwyd bod gweithgareddau trefnedig hefyd yn ffordd bwysig o ddatblygu lles cymdeithasol, fel a ddisgrifiwyd mewn sawl ysgol. Gwnaed gweithgareddau'n aml mewn perthynas â'r ysgol, gydag enghreifftiau fel:

- Clwb drama, yr oedd y rhan fwyaf yn cymryd rhan ynddo. (ysgol uwchradd Saesneg, Abertawe)
- Clybiau chwaraeon – rygbi, pêl-droed, carate, pêl-fasged a gymnasteg.
- Roedd un cyfranogwr yn aelod o gôr a cherddorfa, a dywedodd fod hyn wedi helpu i gynyddu ei ymdeimlad o les. (ysgol uwchradd Gymraeg, Abertawe)

Ystyriwyd bod y diffyg darpariaeth o weithgareddau y tu allan i'r ysgol yn wael;

*"Does dim byd i arddegwyr, gallwch fynd am dro neu fynd i'r traeth ond dim ond hyn a hyn o weithiau gallwch chi wneud hynny."* (ysgol uwchradd Saesneg, Abertawe)

Mynegwyd canfyddiad gwahanol gan un myfyriwr, a ddywedodd:

*"Mae stwff ar gael mwy na thebyg, ond dyw pobl ddim yn ei ystyried yn 'cŵl' a does dim llawer yn mynd."* (ysgol uwchradd Saesneg, Abertawe)

Crybwyllwyd cyfryngau cymdeithasol gan lawer fel offeryn i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau. Roedd llawer o gyfranogwyr yn ymwybodol o fanteision a pheryglon defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Roedd yn ymddangos eu bod yn ymwybodol o beryglon megis mynd yn gyfaill â dieithriaid ar-lein, defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn lle bywyd cymdeithasol a'r potensial i faterion preifat gael eu postio ar lwyfan cyhoeddus. Roeddent yn cefnogi'r syniad nad oedd bywyd actif ar gyfryngau cymdeithasol o reidrwydd yn cyfateb i les cymdeithasol cadarnhaol.

*"Mae cyfryngau cymdeithasol yn cymryd lle ffrindiau weithiau; efallai bydd gan rywun dros 1000 o ffrindiau, ond faint ohonyn nhw sydd wedi cwrdd mewn bywyd go iawn?"* (ysgol uwchradd Saesneg, Abertawe)

*"Os ydych chi'n gweld eraill yn gwneud yn well na chi, gall fwrw'ch hyder."* (ysgol uwchradd Gymraeg, Abertawe)

Mynegodd y myfyrwyr benywaidd bryder arbennig am sut roedd pobl eraill yn eu hamgyffred hwy a'u bywydau. Teimlent y gallent reoli'r ffordd yr oeddent yn cael eu hamgyffred drwy eu proffiliau cyfryngau cymdeithasol drwy bostio lluniau hyfryd ohonynt a hoffi neu dagio sefydliadau, bandiau penodol etc. Rhoddodd hyn fwy o hyder i'r merched ac roeddent yn teimlo ei fod yn gwella'u lles cymdeithasol (ysgol uwchradd Gymraeg, Abertawe)

Roedd llawer o'r rhai a fynychai ysgol uwchradd yn dweud bod paratoi ar gyfer arholiadau'n cael effaith andwyol ar eu lles. Roedd hyn yn wir ar gyfer myfyrwyr ysgolion uwchradd Cymraeg a Saesneg. Mewn rhai ysgolion, roedd pryderon am baratoi ar gyfer arholiadau'n arwain at drafodaethau am y gofal bugeiliol a ddarperir mewn ysgolion. Roedd rhai o'r myfyrwyr mewn ysgolion uwchradd Saesneg yn fodlon iawn ar eu gofal bugeiliol a chael swyddog lles, cwnselwyr ac athrawon cyfeillgar iawn a pharod eu cymwynas. Teimlai'r holl fyfyrwyr eu bod yn gallu cael cefnogaeth gan y staff pryd bynnag roedd ei angen arnynt.

### 4.2.2 Lles Diwylliannol

Roedd y syniad o les diwylliannol yn arbennig o anodd ei ddiffinio ymhlith plant a phobl ifanc. Teimlai un myfyriwr ysgol uwchradd y gallai gynnwys crefydd, côr, rygbi a chwaraeon.


MILLER Research Evaluation Consulting

(ysgol uwchradd Gymraeg, Abertawe) Crybwyllwyd yr eglwys o bryd i'w gilydd, ond roedd unrhyw sôn am ymgysylltu'n weithredol â'r eglwys yn brin.

### 4.2.3 Lles Amgylcheddol

Arweiniodd trafodaethau am les amgylcheddol at wahaniaethau mewn dealltwriaeth o ran yr ystyr. Roedd rhai yn ei ystyried yng nghyd-destun isadeiledd, sef chwaraeon a chyfleusterau chwaraeon. Yn gadarnhaol, ymhlith y rhan fwyaf o'r plant a phobl ifanc a gymerodd ran yn y gwaith maes, y farn oedd bod ganddynt ddigon o fynediad i ardaloedd ar gyfer chwaraeon, a bod y mannau yr oeddent yn mynd iddynt mewn cyflwr da yn gyffredinol.

Roedd eraill yn ystyried lles amgylcheddol yng nghyd-destun cynaladwyedd amgylcheddol, gyda ffocws ar ailgylchu. Yn y cyd-destun hwn, roedd y mwyafrif yn ystyried mai cyfrifoldeb eu rhieni oedd ymdrechion amgylcheddol, er bod rhai'n honni eu bod yn helpu gyda'r ailgylchu. Roedd y plant/bobl ifanc yr ymgysylltwyd â hwy'n tueddu i beidio â meddwl am ganlyniadau tymor hir a sut gallai materion megis ailgylchu effeithio arnynt yn y dyfodol.

Yn olaf, roedd eraill yn ystyried lles amgylcheddol yng nghyd-destun eu hamgylchedd neu ardal leol, weithiau ar lefel 'feicro':

*"Mae'r toiledau yn yr ysgol yn ofnadwy, dim caeadau, dim seddi, pobl yn smygu ynddynt, mae'n gwneud i chi beidio ag eisiau mynd iddynt. Dim ond pedwar o ugain sy'n gweithio i'r merched."* (ysgol uwchradd Saesneg, Abertawe)

Ar lefel fwy cyffredinol, gwnaed sylwadau'n aml am yr ardaloedd yr oedd plant a phobl ifanc yn byw ynddynt. Roedd myfyrwyr ysgolion uwchradd yn siarad am yfed dan oed ar y strydoedd ac mewn parciau:

*"Plant meddw, twp yn cynnau tanau ac yn difetha'r lloriau a'r cysgodfeydd yn y parciau."* (ysgol uwchradd Saesneg, Abertawe)

Yn gyffredinol, roedd gwahanol ystyr i'r cysyniad o 'Les Amgylcheddol' ymhlith y bobl ifanc yr ymgysylltwyd â hwy, yn amrywio o isadeiledd (cyfleusterau chwaraeon), lefelau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu mewn ardal, a chynaladwyedd yr amgylchedd naturiol.

### 4.2.4 Lles Economaidd

Yn gyffredinol, roedd y plant a'r bobl ifanc yn deall y term lles economaidd yn dda mewn perthynas ag ennill arian/incwm a chael swydd. Fe'i disgrifiwyd gan un myfyriwr fel a ganlyn:

*"Os na allwch ddod o hyd i swydd os ydych mewn ardal dlawd lle nad oes llawer o swyddi, allwch chi ddim prynu bwyd, rydych chi'n talu am dŷ, allwch chi ddim cael yr holl bethau rydych am eu cael, y pethau rydych yn breuddwydio amdanynt pan fyddwch wedi tyfu'n oedolyn, felly rydych yn methu cael llawer o bethau ac mae eich lles yn isel." (ysgol uwchradd Gymraeg, Abertawe)*

I rai plant a phobl ifanc, roedd cael eu harian poced eu hunain yn golygu eu bod yn gallu prynu'r hyn roeddent am ei gael heb ofyn. Roedd cael arian a/neu gerdyn banc yn gwneud iddynt deimlo'n aeddfed. Roeddent yn hoffi'r ffordd yr oedd cael arian yn golygu eu bod yn gallu mynd i leoedd gyda ffrindiau, prynu dillad newydd a cholur etc. a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n dda ac yn hapus.

Roedd rhai myfyrwyr mewn ysgolion uwchradd Saesneg yn teimlo y dylent gael addysg ariannol gwell.

## 4.3 Pobl a chanddynt nodwedd a warchodir – Pobl Hŷn

O'r arolwg ar-lein, esboniwyd y term lles gan ymatebwyr hŷn o ardal Abertawe, fel y rhai ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot, fel bod yn gorfforol ac yn feddyliol iach. Roedd materion penodol yn cynnwys y canlynol;

- Mae iechyd o'r pwys pennaf fel y sylfaen y gellir adeiladu agweddau eraill ar fywyd arni. (I'r rhai sy'n profi effeithiau naturiol heneiddio, neu'n profi cyflyrau iechyd cronig, mae angen eu rheoli gyda chymorth a chefnogaeth);
- Gwybod bod gwasanaethau cefnogi'n hygyrch pan fo'u hangen – gyda'r pwyslais y gellir eu cyrraedd drwy gludiant cyhoeddus os oes angen ac nid ydynt hefyd y tu ôl i furiau ariannol;
- Er bod teimladau o annibyniaeth yn allweddol i les, mae gwybod bod help ar gael os oes angen yn cynnig cysur seicolegol da;
- Bod yn rhan o ryw fath o gymuned leol, a all gynnwys teulu, ffrindiau, cymdogion ac eraill sy'n rhan o weithgareddau rydych chi'n cymryd rhan ynddynt. Mae hyn yn cyfrannu at safbwynt ac agwedd meddwl iach a chadarnhaol, gan gynnwys datblygu hunan-barch; a
- Phwysigrwydd mynediad i grwpiau gwahanol drwy gludiant fforddiadwy a chyfleus.

Cyfwelwyd â chynrychiolydd o Age Cymru i ddarparu gwybodaeth bwysig a manwl am y materion ynghylch pobl hŷn ym mhob awdurdod lleol. Darparodd y cynrychiolydd wybodaeth am yr awdurdodau lleol cyfan, gan sicrhau bod y materion yn cael eu hailadrodd ym mhob ardal.

Mae Age Cymru'n cynnig salw ffurf ar gefnogaeth a gwasanaethau, â'r nod o gynyddu galluoedd ariannol, iechyd a chymdeithasol unigolyn. Mae eu gwasanaethau'n cynnwys cyflawni tasgau domestig i'r henoed megis coginio, gwaith tŷ a siopa; gwasanaethau cyngor a gwybodaeth; eiriolaeth a bod yn gyfaill.

Yn y gorffennol, darparwyd y gwasanaethau hyn am ddim, ond nid fel yna y mae hi bellach.

Mae Age Cymru'n disgrifio pedwar angen cefnogaeth allweddol y mae'n teimlo bod angen eu blaenoriaethu ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. Atal yr angen am dalu am wasanaethau. Mae perygl y gall gwasanaethau y mae'n rhaid talu amdanynt ddenu masnachwyr twyllodrus ac nid ydynt yn fforddiadwy i lawer.
2. Cynnydd sylweddol i wasanaethau cyngor a gwybodaeth. Gwrthodir 90% o geisiadau am fudd-dal pan gânt eu cyflwyno am y tro cyntaf, ond caiff y penderfyniad ar gyfer 95% ohonynt ei wrthdroi yn dilyn apêl, sy'n gwastraffu cryn dipyn o amser ac adnoddau.

3. Darparu eiriolaeth. Ddwy flynedd yn ôl, cyflogwyd wyth eiriolwr ar gyfer ardal Bae'r Gorllewin: dim ond un swydd amser llawn sydd bellach, a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer lefel uchel o eiriolaeth sy'n ymwneud â hawliau dynol a chamdriniaeth. Mae hyn yn rhywbeth y mae Age Cymru wedi'i ddwyn i sylw'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol.

4. Mwy o ffocws ar wasanaethau cyfeillio. Mae gan Abertawe 100 o gleientiaid y cânt eu ffonio unwaith yr wythnos am sgwrs 30 munud, ond mae'r gwasanaeth hwn mewn perygl (ac mae eisoes wedi'i dorri o bosib yn CNPT a Phen-y-bont ar Ogwr) oherwydd toriadau i gyllid a ddisgwylir ym mis Ebrill. Dywedodd Age Cymru y bydd dros '8,000 o bobl 50+ oed yn Abertawe na fyddant yn cael cysylltiad ag unrhyw un yr wythnos hon".

Bernir bod yr amgylchedd naturiol o gwmpas Abertawe'n ddefnyddiol iawn i les cyffredinol dinasyddion hŷn yn yr ardal. Mae'n cynnwys llwybrau cerdded a beicio lleol gwych, y mae rhai'n ystyried eu bod yn cael eu cynnal yn dda ac yn ddi-sbwriel.

Er yr edmygwyd yr amgylchedd naturiol yn fawr, ni chafwyd cymaint o barch at yr amgylched adeiledig. Gwnaed sylwadau ynghylch yr anghenion canlynol:

- Bydd y cyngor yn gwrthdroi safonau cynnal a chadw gwael y ffyrdd, y palmentydd a chyfleusterau;
- Caiff y ddinas ei chadw'n rhydd o sbwriel a phethau hyll;
- Ni fydd gwasanaethau'n dioddef mwy o doriadau ond yn hytrach, cânt eu hadfer fel eu bod yn gweithredu'n llawn e.e. llyfrgelloedd, parcio (rhatach) ac am ddim;
- Rhoddir terfyn ar ddatblygiadau dieisiau (megis datblygiad fflatiau mewn lleoliad yn Sgeti);
- Rheolir traffig cyflym yn well, felly hefyd ymddygiad gwrthgymdeithasol;

O'r arolwg ar-lein, roedd ymatebwyr hŷn o ardal Abertawe'n tueddu i esbonio lles, fel y rhai ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot, fel bod yn gorfforol ac yn feddyliol iach. Roedd materion penodol a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- Mae iechyd o'r pwys pennaf fel y sylfaen y gellir adeiladu agweddau eraill ar fywyd arni. I'r rhai sy'n profi effeithiau naturiol heneiddio, neu'n profi cyflyrau iechyd cronig, mae angen eu rheoli gyda chymorth a chefnogaeth;
- Gwybod bod gwasanaethau cefnogi'n hygyrch pan fo'u hangen – gyda'r pwyslais y gellir eu cyrraedd drwy gludiant cyhoeddus os oes angen ac nid ydynt hefyd y tu ôl i furiau ariannol;
- Er bod ymdeimlad o annibyniaeth yn allweddol i les, mae gwybod bod help ar gael os oes angen yn cynnig cysur seicolegol da;
- Bod yn rhan o ryw fath o gymuned leol, a all gynnwys teulu, ffrindiau, cymdogion ac eraill sy'n rhan o weithgareddau rydych chi'n cymryd rhan ynddynt. Mae hyn yn cyfrannu at
- safbwynt ac agwedd meddwl iach a chadarnhaol, gan gynnwys datblygu hunan-barch; a

- Phwysigrwydd mynediad i grwpiau gwahanol drwy gludiant fforddiadwy a chyfleus.

I gynyddu eu lles, roedd pobl hŷn yn Abertawe am i'r cyngor gynnal a chadw'r amgylchedd adeiledig yn well, megis atgyweirio ffyrdd/palmentydd, glanhau strydoedd, torri glaswellt a chynnal ardaloedd gwyrdd a llwybrau troed – gan gynnwys ychwanegu gwell goleuadau. Ochr yn ochr â hyn, mae awydd am well mesurau tawelu traffig a gwell llwybrau beicio er mwyn lleihau cystadleuaeth am le ar y ffyrdd.

Roedd cludiant yn fater pwysig i lawer a esboniodd ei fod yn ymddangos bod gwasanaethau bysus yn lleihau ond yn mynd yn fwy drud. Mae hyn yn lleihau mynediad pobl i fywyd a gweithgareddau cymdeithasol megis ymweld â chanol y ddinas. Mae nifer bach ar-lein yn awgrymu y dylid ystyried a hyrwyddo mentrau cludiant cymunedol.

Awgrymodd ymatebwyr hefyd na ddylid amharu ar fywyd dinasyddion hŷn mewn unrhyw ffordd fel nad yw problemau unigrwydd yn gwaethygu.

## 4.4 Pobl a chanddynt nodwedd a warchodir – Iechyd ac Anabledd

### 4.4.1 Nam ar y golwg

Cyfyngwyd gweithgareddau i'r rhai â nam synhwyraidd i gymryd rhan mewn amgylcheddau gweithdy/cyfarfod, yn hytrach nag ymatebion drwy'r arolwg ar-lein, oherwydd rhwystrau penodol i'r demograffig hwn. Cynhaliwyd un grŵp gyda grŵp Young at Heart a oedd yn cynnwys deuddeg o ddynion a menywod a dau ddehonglydd Iaith Arwyddion Prydain, a grŵp arall a oedd yn cynnwys rhai â nam ar y golwg/ cefnogwyr y rhai â nam ar y golwg. Yn ogystal, aeth cwpwl â namau golwg cyfyngedig i sesiynau galw heibio. Cynorthwywyd y grŵp a oedd yn cynnwys y rhai â nam ar y golwg yn Abertawe gan yr RNIB a'i wirfoddolwyr. Darparodd y cyngor arian ar gyfer 1.5 helpwr cyfwerth ag amser llawn, ac roedd yn gyfrifol am amrywiaeth eang o weithgareddau yn yr ardal gan gynnwys cefnogi nofio, darllen, teithiau i'r theatr, golff a thenis.

Pan ofynnwyd ynghylch yr hyn a ddeëllir gan y term "lles", fe'i disgrifiwyd gan un cyfranogwr â nam ar y golwg fel a ganlyn:

*"Pob agwedd ar fywyd, iechyd, sut gallwch symud o gwmpas, yr help sydd ar gael, hyder i fyw eich bywyd, mynd allan yn ddiogel ac yn hyderus, peidio â theimlo ofn"*

Cyflwynir yr agweddau ar les a godwyd drwy gydol y prosesau cynnwys dan y themâu canlynol.

#### Mynediad i Gefnogaeth Ariannol ac Ymarferol

Pryder allweddol a godwyd oedd y diffyg mynediad i wybodaeth ariannol ac ymarferol. Dywedodd un cyfranogwr fod:

*"Llawer o bobl yn gaeth i'w tŷ ac maent yn mynd yn unig am nad ydynt yn cofrestru gyda'r RNIB a dydyn nhw ddim yn ymwybodol o'r hyn y gallant ei gael/ sydd ar gael iddynt".* (Cadeirydd y grŵp)

Yn yr un modd, awgrymodd cyfranogwyr y byddai cymorth ariannol tuag at gost dyfeisiau a ddyluniwyd i helpu'r rhai â nam ar y golwg, gan gynnwys hyfforddiant i'w defnyddio, yn eu cynorthwyo'n well i fod yn annibynnol. Mae angen awgrymiadau ynghylch ble mae angen cymorth ariannol ac ymarferol, gan gynnwys meddalwedd gyfrifiadurol.

Ar ben hynny, awgrymwyd hyrwyddo llinell gymorth yr RNIB fel ffynhonnell cyngor a chymorth a chefnogaeth ariannol ar ei chyfer. Mae hyn yn berthnasol o wybod bod gan rai bryderon ynghylch diffyg mynediad i wybodaeth ymarferol a help i'r rhai â nam ar y golwg e.e. awgrymiadau ar adnabod gwrthrychau yn y cartref (e.e. yn y gegin, ar foddion/dabledi, cynhwysion), a defnyddio chwyddwydrau (i'r rhai â rhywfaint o olwg).

#### Ymgyrchoedd Addysg

Dywedodd nifer o'r rhai a fu'n bresennol y byddai ymgyrchoedd addysg ynghylch nam ar y synhwyrau yn llwyddo i wella cydlyniant cymdeithasol a'u profiadau â'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Tynnwyd sylw at y ffaith fod angen addysg yn y meysydd canlynol:

- Ymhlith y cyhoedd, y cyngor, gwasanaethau iechyd a'r rhai â nam ar y golwg;
- cydnabyddiaeth mai 5% yn unig o'r rhai â nam ar y golwg sy'n gallu darllen Braille;

13 *Derbyniodd yr RNIB arian loteri er enghraifft i gael mynediad i arbenigwr mewn hawliau lles i roi cyngor*

- anogaeth i'r rhai â nam ar y golwg i ymweld â'u meddyg teulu a chael help/chofrestru: nid yw rhai'n sylweddoli bod ganddynt nam, mae eraill yn gwadu hyn, ac mae'n well gan eraill gadw'r peth yn gudd; ni fydd rhai'n ymwybodol bod lwfans anabledd ar gael yn unig i'r rhai dan 65 oed.

Awgrymwyd hefyd y dylid rhoi pwysau ar gynghorau lleol i roi mwy o sylw i'r peryglon a wynebir gan y rhai â nam ar y golwg o ran croesfannau ar ffyrdd, rhwystrau ar balmentydd fel seddi y tu allan i gaffis, palmentydd cyffyrddol, cyhoeddiadau clir a chlywadwy yn yr orsaf fysus a'r angen am fwy o groesfannau sebra.

*"Dwi ddim yn gallu croesi'r ffordd lle dwi'n byw – mae mynd mas fel antur fach"*

*"Mae 26 safle bws; dim ond un arwydd sydd ar y safleoedd bysus ac nid yw'n ddarllenadwy iawn. "Mae angen gwneud cyhoeddiad drwy'r uwch-seinydd yn gyson yn ogystal â staff i helpu teithwyr am fod gan rai pobl fwy nag un anabledd - efallai nad eu golwg yw'r broblem"*

#### Mynediad i Wasanaethau

Roedd y gwelliannau y gofynnwyd amdanynt i gynorthwyo lles i'r deillion a gwella'i gynaladwyedd yn cynnwys:

- Darparu mwy o fynediad i wybodaeth yn y fformat cywir i bobl allu darllen, a mwy o adnoddau i gyrraedd mwy o bobl i'w helpu i fyw bywyd gwell/mwy diogel
- Cymorth wrth brynu eitemau y mae eu hangen i wella lles y deillion megis meddalwedd/darllenwyr
- Darparu cyfleoedd cyflogaeth, yn enwedig i'r deillion ifanc, a chyda chyfraddau tâl boddhaol
- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o nam ar y golwg
- Hwyluso mynediad i'r cyllid newydd, heb unrhyw ostyngiad yn y swm a dderbynnir o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol

Dywedodd un o'r bobl a fu'n bresennol *"Oni bai am y grŵp hwn, byddwn wedi colli fy mhwyll."*

Yn debyg i fynediad i wasanaethau, roedd mynediad i gludiant yn bwysig hefyd, a'r angen i gynllunio ymlaen llaw, *"hyd yn oed ar gyfer y daith fyrraf*."

### 4.4.2 Nam ar y clyw/Byddar

I'r rhai a oedd yn disgrifio'u hunain fel di-lais neu heb iaith, mynegwyd barn debyg iawn yn Abertawe ag a glywid mewn ardaloedd eraill. Y rhwystr cyntaf i'r grwpiau hyn oedd 'arwyddo' lles: nid oes ffordd 'amlwg' o gyfathrebu lles mewn iaith arwyddion.

Roedd y cysyniad o les yn heriol i'r gymuned fyddar hefyd. Mae rhwystrau i les mor eang, gwelwyd ei fod yn haws siarad am yr agweddau hyn, y pethau negyddol, yn hytrach na'r cadarnhaol.

Roedd yr "*anghenion a'r rhwystrau hynod gymhleth"* (dehonglydd) a wynebwyd yn cynnwys y rhai isod.

#### Mynediad i Wybodaeth

Roedd cyfleu gwybodaeth i'r rhai â nam ar y clyw neu'r byddar yn hynod broblemus ar gyfer gwybodaeth ymarferol, ariannol ac iechyd/meddygol. Er enghraifft, soniodd un a

fu'n bresennol am y profiad o gyrraedd apwyntiadau a chanfod nad oedd dehonglydd wedi'i drefnu neu heb gyrraedd. Ar nodyn cysylltiedig, siaradodd rai am yr ofn o gael camddiagnosis a cholli gwybodaeth hollbwysig, gyda chanlyniadau peryglus o bosib.

Roedd rhai yn ystyried hyn yn andwyol i les meddwl. Disgrifiodd un person y teimladau o straen a phanig a oedd yn cychwyn yn syth mewn cynifer o sefyllfaoedd y mae'r rhai sy'n gallu gweld yn eu cymryd yn ganiataol, fel mynd i weld optegydd, gwneud neu gael apwyntiad ar gyfer gwasanaethau iechyd (h.y. meddyg teulu neu ysbyty). Dyma'r prif bryderon a oedd yn gysylltiedig â hyn:

- Mae rhai dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain yn rhai Lefel 1, felly nid ydynt yn deall y derminoleg iechyd, gan arwain at ddigon o gyfleoedd am gamgymeriadau. Dywedwyd bod camddiagnosio'n gyffredin.
- Mae camwybodaeth yn gyffredin gan nad ydynt yn gallu disgrifio'r hyn maent yn ei deimlo neu ble yn union, ac yna nid ydynt yn gallu deall ymateb y meddyg teulu. Wrth gymryd meddyginiaeth, nid ydynt o reidrwydd yn gwybod beth maent yn ei gymryd, a gall hyn fod yn beryglus.

O ran cael mynediad iI wybodaeth ymarferol ac ariannol, mynegodd rhai a fu'n bresennol bryder ynghylch eu dealltwriaeth wrth reoli arian, morgeisi, gwasanaethau ariannol, budd-daliadau a threth. Yn gyffredinol, nodwyd bod llawer o achosion o salwch meddwl ymhlith y gymuned fyddar, wedi'i achosi'n rhannol (o leiaf) gan broblemau o ran cyfathrebu.

## Safonau Addysg

Mynegodd rhai a fu'n bresennol bryder am y lefelau addysg sydd ar gael i'r rhai yn y gymuned fyddar.

Teimlwyd bod problemau addysg mawr am nad oes unrhyw ysgolion i'r byddar mwyach. Addysgwyd rhai (o'r rhai a oedd yn bresennol – y rhai sydd ychydig yn hŷn) mewn ysgolion i'r byddar, ac ystyriwyd hyn yn beth cadarnhaol oherwydd deallwyd eu hanghenion, roedd ganddynt safonau Iaith Arwyddion Prydain uchel, a meithrinwyd cyfeillgarwch tymor hir ymhlith y myfyrwyr yno. Roedd y rhai mewn ysgolion prif ffrwd yn dioddef yn aml; rhoddwyd cynorthwywyr dysgu neu gyfathrebwyr iddynt nad oedd yn gallu defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, neu roedd eu defnydd ohoni'n wael. Mewn un ysgol, roedd menyw ginio a oedd, drwy gyd-ddigwyddiad, yn gallu gwneud ychydig o iaith arwyddion, felly fe'i neilltuwyd i fyfyriwr byddar, a'i gwneud yn Gynorthwy-ydd Addysgu. Nid oedd ganddi unrhyw gymwysterau eraill, er yr argymhellir bod gan gynorthwywyr addysgu gymwysterau hyd at o leiaf Lefel 4, a Lefel 6 o ddewis.

Dywedodd y dehonglwr fod gan athrawon ddisgwyliadau isel iawn o alluoedd plant

byddar; "*Doedden ni ddim yn gallu sefyll arholiadau fel yr 11+ neu TGAU. Dim ond celf*

*y caniatawyd i ni wneud".*

Roedd un o'r grŵp wedi llwyddo i gyrraedd coleg i astudio arlwyo – roedd am fod yn gogyddes - ond methodd oherwydd y gwaith ysgrifenedig. Roedd un arall am fod yn brentis peirianneg, ond bu'n rhai iddo yntau roi'r gorau iddi hefyd.

## Rheolaeth dros Fywyd o Ddydd i Ddydd

Disgrifiodd un sut ceisiodd fynd i'r gampfa, ond rhoddodd y gorau iddi am nad oedd yn gallu deall y symbolau na'r cyfarwyddiadau (ac nid oedd yn gallu gofyn). Mewn ffordd debyg,

ceisiodd un arall fynd i nofio, ond bu'n rhaid iddi roi'r gorau iddi oherwydd y diffyg cyfathrebu. Nawr mae'n ofni'r dŵr (ac ni fydd yn rhoi cynnig arni eto).

Nid oedd pethau bob amser yn negyddol; crybwyllwyd rhai profiadau cadarnhaol, ond gyda chryn anogaeth yn unig. Disgrifiodd un sut roedd yn hoffi gwylio Strictly Come Dancing; a disgrifiodd un arall ei bod wedi bod i'r opera unwaith a chymaint roedd hi wedi'i fwynhau. Er nad oed dyn gallu clywed, roedd yn gallu gwylio'r llwyfan a'r symudiadau a gallai deimlo dirgryniadau'r gerddoriaeth. Roedd yr un cyfwelai'n mwynhau eistedd mewn oriel leol yn edrych ar y lluniau; er bod yr oriel ar gau ar hyn o bryd ar gyfer gwaith adnewyddu. Roedd un arall yn mwynhau operâu sebon ar y teledu drwy Iaith Arwyddion Prydain.

Y prif rwystrau i les yn y grŵp hwn oedd cael mynediad i wybodaeth a'r gallu i gyfathrebu. Ystyriwyd y diffyg mynediad i wybodaeth am ofal iechyd (oherwydd nad oedd ar gael neu wasanaethau cyfieithu o safon isel) yn achosi straen sylweddol ac yn andwyol i les meddwl. Yn yr un modd, dywedodd y rhai a fu'n bresennol eu bod yn cael problemau'n cael mynediad i gyngor ariannol digonol ac roedd gallu'r bobl hyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau er mwynhad neu ffitrwydd yn gyfyngedig oherwydd diffyg gwybodaeth mewn fformat i'r byddar neu'r rhai â nam synhwyraidd (h.y. Braille). Roedd gwelliannau posib i les ar gyfer y rhai â nam ar y golwg yn cynnwys mynd i'r afael â'r sylw uchod, ond hefyd y canlynol:

- Gwneud gwelliannau i isadeiledd, yr amgylchedd adeiledig a 'manylion bach' a allai fod o werth sylweddol, megis sicrhau darpariaeth barcio am ddim y tu allan i gartrefi pobl ddall;
- Cynnig gostyngiadau ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon neu hamdden fel ffordd o annog ffitrwydd ac iechyd;
- Gwella dulliau cyfathrebu, gydag anghenion y rhai â nam synhwyraidd yn flaenoriaeth uwch nag ydyw ar hyn o bryd, e.e. drwy sicrhau hygyrchedd eang dolenni clyw, gwneud apwyntiadau drwy e-bost neu ddull heblaw'r ffôn a llythyrau mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Yn yr un modd, gyda dulliau cyfathrebu sy'n ymwneud â gwasanaethau a chyfleusterau eraill y cyngor megis casglu gwastraff a phriffyrdd.

Ar ôl yr hyn a oedd yn teimlo fel ymgynghoriadau niferus, mynegwyd cryn rwystredigaeth gan y grŵp hwn ynghylch y diffyg camau gweithredu o ganlyniad i'r ymgynghoriadau.

## 4.5 Pobl a chanddynt nodwedd a warchodir – Iechyd Meddwl

Roedd ymatebwyr â phroblemau iechyd meddwl yn pryderu'n gyffredinol am fynediad i wasanaethau a'u lles economaidd.

Roedd llawer o'r ymatebwyr wedi bod ar restrau aros i weld seiciatryddion a chwnselwyr am gyfnod hir o amser; mae un wedi bod yn aros am dros ddwy flynedd; "*Os nad ydych yn hunan-niweidio neu'n teimlo fel lladd eich hun, rydych chi ar waelod y rhestr*".

Mae materion ariannol yn bryder i'r rhan fwyaf o ymatebwyr ac roeddent yn teimlo bod angen cefnogaeth i helpu pobl sy'n mynd i ddyled, sy'n hawdd i bobl na allant gael mynediad i'r rhyngrwyd oherwydd gorbryder, problemau hyder neu analluedd oherwydd oed. Ffactor sy'n cyfrannu at ansefydlogrwydd ariannol yw'r diwygiad diweddar i fudd-dal anabledd. Disodlwyd y Lwfans Byw i'r Anabl gan fudd-daliadau'r Taliad Annibyniaeth Bersonol (TAB) sy'n teimlo'n llai sicr i'r rhai sy'n eu derbyn. Teimlai'r ymatebwyr mai pobl fel meddygon neu unigolion â gwybodaeth feddygol ddylai fod yn rheoli TAB, a fyddai'n helpu i sicrhau eu lles economaidd.

## 4.6 Pobl a chanddynt nodwedd a warchodir - Anabledd Dysgu ac Anhwylder y Sbectrwm Awtistig

Ar gyfer yr ymchwil, aethom i grŵp a gynhelir gan Gofal, siaradom â chwe pherson mewn bore coffi Macmillan ac aethom i grŵp Pobl Abertawe'n Gyntaf.

Roedd gan y grŵp Pobl yn Gyntaf ddealltwriaeth dda o ystyr lles iddynt hwy, er enghraifft:

- *"Gofalu amdano'ch chi'ch hun, gofalu am eich corff."*
- *"Sut rydych chi'n teimlo."*
- *"Ble rydych chi'n byw."*
- *"Cefnogaeth dda."*
- *"Arian hefyd."*
- Roedd gan un dyn anawsterau iechyd meddwl yn ogystal - *"Cael emosiynau gwahanol."*

Roedd consensws mai lles cymdeithasol oedd y pwysicaf, a lles ariannol yn ail, er bod yr ail yn caniatáu i chi wneud pethau gyda'ch ffrindiau a'ch teulu.

Roedd lles cymdeithasol yn canolbwyntio ar rwydweithiau o ffrindiau ac mewn rhai achosion, y teulu. Roedd sawl un yn ceisio cynnal ffordd o fyw actif drwy gymryd rhan mewn nofio, drama, cerdded a rygbi o bryd i'w gilydd.

O ran lles diwylliannol, roedd gwirfoddoli'n bwysig iawn i'r grŵp – gan gynnwys peth gwaith grŵp amgylcheddol. Byddai'n well gan y mwyafrif fod mewn cyflogaeth, ond byddent yn wynebu problemau colli budd-daliadau. Roedd un cwpwl y cyfwelwyd â hwy ond yn gallu ennill swm penodol rhyngddynt. Roedd yr oriau hynny'n mynd tuag at y dyn gan mai ef gafodd swydd gyntaf, ond roedd y fenyw am weithio ers hynny, ac nid oedd yn gallu. Gallai ennill £20 yr wythnos yn unig cyn yr effeithiwyd ar eu budd-daliadau (tai ac anabledd).

Yn ogystal â'r rhwystrau hyn, roedd yn rhaid iddynt hefyd wynebu rhagfarn gan gyflogwyr, a oedd yn dangos diffyg ymwybyddiaeth o anableddau a'u goblygiadau'n gyson:

*Gyda chyflogwyr, dydyn nhw ddim yn rhoi'r amser i ddangos pethau i chi'n iawn a dydyn nhw ddim yn rhoi amser i chi ddangos eich bod yn gallu ei wneud."*

*"Does ganddyn nhw ddim y ffydd y gallwn ei gwneud"* a;

*"Dylai pawb gael ei drin yn yr un ffordd."*

Mae pobl sy'n mynychu'r grwpiau Gofal yn mynd yno'n rheolaidd ac yn ei ystyried yn fan lle nad ydynt yn cael eu barnu. Yno gallant gael cefnogaeth na allant ei chael yn unman arall. Dywedodd cyfranogwyr na fyddant yn ymdopi ac efallai byddent yn niweidio'u hunain heb y grŵp hwn. Dyma'r prif faterion a godwyd:

- Diffyg grwpiau cefnogi sy'n hygyrch i bobl nad oes ganddynt gludiant;
- Mae angen iddynt fyw mewn amgylchedd diogel i gynyddu eu lles;
- Diffyg gweithgareddau i bobl a allai fod yn anghyfforddus/deimlo dan bwysau'n hawdd mewn amgylchedd dieithr;
- Methiant i gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth a chael yr wybodaeth angenrheidiol;
- Anawsterau cael mynediad i'r gwasanaethau cymdeithasol gan fod asesiadau'n gallu cymryd amser hir; a

- Rhestrau aros hir i weld arbenigwr (seiciatrydd, seicolegydd).

Yn gyffredinol, mae dibyniaeth drom ar elusennau i ddarparu cefnogaeth i bobl ag anabledd iechyd meddwl.

Meysydd y mae angen eu gwella:

- Dylai gweithwyr iechyd proffesiynol gyfathrebu'n well â'r cyhoedd am yr holl afiechydon iechyd meddwl; a
- Roedd defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo y dylai mwy o gwnsela gael ei gynnig iddynt i wella'u lles.

## 4.7 Pobl a chanddynt nodwedd a warchodir – Hil/Crefydd

### Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig (EYST)

Disgrifiwyd Abertawe gan y grŵp hwn fel *"pair"* o ethnigrwydd, oedran a chefndiroedd. Credwyd yn gyffredinol bod ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn wydn iawn ac yn ymgysylltu'n gyflym.

Ystyriwyd bod gwasanaethau EYST sef darparu sgiliau ychwanegol, hamdden, dinasyddiaeth, cwnsela a chefnogaeth yn hynod werthfawr. Uwchlaw popeth oedd y cyfleoedd a gynigiwyd i ddysgu/gwella Saesneg, a'r clwb gwaith cartref.

Ystyriwyd Prydael yn her fawr i'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy, am ei fod wedi cyfreithloni barn eithafol, yn eu profiad hwy. Roedd rhai o'r rhai y cyfwelwyd â hwy wedi gweld cynnydd mewn enllibion hiliol, er enghraifft wrth deithio ar y bws.

## 4.8 Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

### Ifanc, Sengl, Digartref

Cyfwelwyd â grŵp o bobl ifanc, sengl, ddigartref yn Abertawe fel rhan o'r ymchwil. Roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o ystyr lles, gan ei ddiffinio mewn ffordd amrywiol fel:

*"Iechyd meddwl, eich bywyd, tai"*

*"Effaith ddomino, mae popeth yn effeithio arnoch yn gymdeithasol, yn*

*feddyliol, yn gorfforol."*

*"Sicrhau bod gennych fwy a'ch bod yn hapus, bod gennych ddillad i'w gwisgo."*

Ar gyfer y grŵp hwn, roedd materion perthnasol a oedd yn effeithio ar les yn cynnwys y gwasanaethau cefnogi a dderbyniwyd gan Barnardo's a Bays.

*"Mae Bays yn un o'r unig leoedd rwy'n gwybod amdanynt a fyddai'n*

*gwrando arnoch."*

*"Os ydych yn cyd-dynnu â'ch gweithiwr, mae'n wych"*

---

14 *Prosiect ar gyfer y digartref ifanc.*

Cafwyd barn lai cadarnhaol ar rai darparwyr llety lloches a'r heddlu nad oedd yn eu barn hwy yn eu cymryd o ddifri pan fyddai problemau'n codi;

*"Gan ein bod wedi bod mewn hostelau ieuenctid, dydyn nhw ddim yn eich cymryd o ddifri."*

*"Maen nhw'n meddwl tybed pam y mae pobl ifanc yn ceisio mynd i'r afael â phethau eu hunain."*

Roedd pob un yn cyfaddef bod ganddo broblemau gyda chyffuriau ac alcohol, ac nid oedd un ohonynt yn ymddiddori mewn gweithgareddau ffordd o fyw iach. Roedd gan un anhwylder bwyta ac nid oedd un ohonynt yn cymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon;

*"Dechreuais gymryd 'uppers' (cyffuriau adfywio) a stwff achos y bobl roeddwn i'n treulio amser gyda nhw." "Maen nhw'n gallu synhwyro'ch bod chi wedi cymryd rhywbeth ond does neb yn dweud dim wrthych."*

O ran ffactorau a fyddai'n gwella lles, roedd consensws bod gan bobl beth cyfrifoldeb dros wella'u lles eu hunain.

*"D'wedwn i ei fod yn gylch, mae eich lles cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yn gysylltiedig. Heb un, 'dych chi'n torri'r gadwyn."*

Roedd rhai cyfranogwyr yn anelu at fynd i'r coleg neu gymryd rhan mewn prentisiaethau. Roedd un ferch newydd golli ei swydd mewn canolfan alwadau, ac roedd yn ystyried gyrfa mewn therapi harddwch, ond gyda hyfforddiant yn y swydd i helpu gyda materion ariannol. Roedd tri yn mynd i'r coleg i astudio arlwyo a lletygarwch.

*"Rwyf am deithio'r byd gyda hyn, dysgu am fwydydd y byd."*

Roedd eraill wedi gadael:

*"Mae pobl mor sbeitlyd yn y coleg, dwi ddim am fynd yno."*

O ran lles economaidd, cafwyd rhywfaint o agwedd o falchder mewnol mewn dealltwriaeth ariannol wael, ac roedd pob un o'r rhai a gyfwelwyd wedi adrodd am wario unrhyw arian a dderbyniwyd cyn gynted ag yr oeddent yn ei gael.

O ran yr amgylchedd, nid oedd unrhyw un o'r rhai a gyfwelwyd yn ailgylchwyr gweithredol.

Fodd bynnag, roedd un wedi cydnabod y dylai o bosib ystyried yr amgylchedd yn fwy difrifol:

*"Rydych chi'n dinistrio'r byd os nad ydych."*

## 4.9 Pobl ag angen gofal a chefnogaeth neu sy'n eu darparu – Gofalwyr

I ofalwyr, dywedwyd bod lles cymdeithasol yn bwysig am eu bod weithiau'n dibynnu ar gefnogaeth gan eraill (ffrindiau neu deulu) i gyflawni eu dyletswyddau fel rhoddwr gofal. Dywedodd rai bod yn rhaid defnyddio unrhyw amser i ffwrdd o'u dyletswyddau gofalu i fwyafu eu lles eu hunain. Adroddodd gofalwyr ifanc nad ydynt yn cael digon o gefnogaeth ariannol a fyddai'n caniatáu iddynt beidio â gweithio, a'u bod yn well eu byd yn gweithio na chael Lwfans Gofalwyr. Nid yw gofalwyr yn cael unrhyw lwfans os ydynt dan 18 oed, neu os ydynt yn mynd i'r coleg.

*"Lles cymdeithasol i fi yw cael cefnogaeth fy nheulu a'm ffrindiau. Mae'n cyfeirio at fy mherthnasoedd ag eraill. Mae lles cymdeithasol yn ymwneud â'r rhwydweithiau rydym yn eu hadeiladu gartref ac yn y gwaith sy'n cyfrannu at ein hapusrwydd ac yn darparu cefnogaeth drwy amserau anodd."* (Menyw, Dwyrain y Bae)

O'r sylwadau a dderbyniom, gall bod yn ofalwr fod yn arwahanol. Mae cael lles cymdeithasol da, boed wrth fynd i grŵp neu gael ffrindiau a theulu o'r pwys pennaf iddynt hwy ac i allu

rhoi gofal. Roedd gallu siarad â phobl am y pethau da a gwael sy'n digwydd yn eu bywydau, y gallu i geisio cyngor a rhannu profiadau â phobl o'u cwmpas hefyd yn hanfodol bwysig ar gyfer eu lles. Dyna pam roedd y gofalwyr sy'n oedolion ifanc wedi crybwyll bod y grŵp maent yn ei fynychu, unwaith y mis ar hyn o bryd, ond ddwywaith y mis cyn bod hir, yn hanfodol i'w lles. Dyma'r unig le lle gallant ganolbwyntio ar eu hunain, ymhlith pobl sy'n profi'r un problemau â hwy.

O'r gofalwyr yr oedd angen cefnogaeth arnynt a ymatebodd i'r arolwg, yr oedolion ifanc sy'n mynychu'r grŵp gofalwyr a'r rhai yr ymgysylltom â hwy yn ystod y sesiynau galw heibio, mae'r boddhad ar gyfer y gefnogaeth maent yn ei derbyn yn amrywiol. Mae'r ymatebion a dderbyniom yn awgrymu bod boddhad yn dibynnu ar y math o gefnogaeth maent yn cyfeirio ati. Roedd rhai sylwadau'n ymwneud â'r gefnogaeth ar gyfer y person maent yn gofalu amdano, yn hytrach na'r gefnogaeth maen nhw'n ei chael fel gofalwyr.

Roedd gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn anfodlon ar y gefnogaeth maent yn ei chael. Dywedodd y mwyafrif ohonynt nad ydynt yn cael unrhyw gefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol. Yr unig fan lle maent yn ei chael yw canolfan ofalwyr Abertawe. Ystyrir y ganolfan yn hafan ddiogel lle gall gofalwyr wneud gweithgareddau fel gwibdeithiau dydd, a chael cefnogaeth un i un.

Meysydd i'w gwella i ofalwyr ag angen cefnogaeth yn ardal Abertawe yw'r canlynol:

- mwy o grwpiau cefnogi'n lleol, a gwybodaeth amdanynt,
- gwell cludiant cyhoeddus,
- teimlo llai o straen, pobl yn gwrando arnynt,
- cael cyngor ar y budd-daliadau/lwfansau y gallant hwy a'r bobl maent yn gofalu amdanynt eu cael,
- mwy o weithgareddau i'r anabl a gweithgareddau rhatach yn gyffredinol.

"*Dim digon o weithgareddau'n lleol i bobl gorfforol anabl iau…prin iawn yw'r cyfleoedd i gwrdd â phobl ddigyflog eraill.* " (Gofalwr benywaidd, Dwyrain y Bae).

Mae traffig ffyrdd, parcio ar y palmant a chyflwr y ffyrdd (ddim yn lân) yn faterion yr hoffai gofalwyr iddynt gael eu gwella. I ofalwyr sy'n rhoi gofal i bobl mewn cadair olwyn, gall fod yn hynod ingol i ddefnyddio palmentydd pan fydd ceir wedi parcio arnynt.

*"Mwy o draffig yn gwneud ffyrdd lleol yn beryglus i gerdded arnynt oherwydd diffyg palmentydd. (Gofalwr benywaidd, Cwm Tawe).*

# 5 Lles yn Ninas a Sir Abertawe: Dadansoddiad Eilaidd

Nid yw'r cysyniad o 'les' yn amlwg iawn yn y ffynonellau eilaidd, gyda'r holl gyfeiriadau a nodwyd yn dod o'r cyd-destun Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ceir cyfeiriad at Iechyd a Lles Da, cyflawni 'canlyniadau lles' a Heneiddio'n Dda a bod lles yn ymwneud ag ymdeimlad o 'obaith'.

Mae cysyniadau cysylltiedig eraill yn cynnwys cyfeiriad at anghydraddoldebau iechyd annerbyniol, ffocws ar atal ac ymyrryd yn gynnar a phenderfynyddion iechyd.

**Mynediad**

Defnyddir y term 'mynediad' yn aml a gellir ei groesgyfeirio i feysydd eraill o'r dadansoddiad:

- Mynediad daearyddol h.y. yn y gymuned agosaf
- Mynediad drwy well ymwybyddiaeth a gwybodaeth
- Mynediad drwy well cludiant
- Mynediad drwy ehangu darpariaeth a mwy o sylw i anghydraddoldeb mewn mynediad
- Amseroldeb mynediad

**Gwybodaeth a Chyfathrebu**

Mater gwybodaeth a chyfathrebu oedd y thema amlaf a nodwyd. Nid yw'r cyfeiriadau'n cyfleu ymdeimlad o bobl yn dderbynwyr gwybodaeth goddefol, ond yn hytrach yr angen am wybodaeth i fod ar gael mewn ffyrdd sy'n galluogi pobl i fod yn arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain (Adolygiad Comisiynu Abertawe ar gyfer Anabledd Corfforol). Y pwyslais yn y cyfeiriadau oedd yr angen am welliannau mewn argaeledd gwybodaeth i gefnogi annibyniaeth a galluogi mynediad. Roedd yn cynnwys:

- Cynyddu ymwybyddiaeth ar draws y boblogaeth am faterion penodol megis gwell cyfathrebu rhwng cynghorwyr a phreswylwyr.
- Gwybodaeth y gellir cael gafael arni'n hawdd ac yn annibynnol e.e. drwy gyfeiriadur gwasanaethau, neu un ystorfa wybodaeth sy'n galluogi pobl i fod yn arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain.
- Mae angen i staff sydd mewn cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd feddu ar ddigon o wybodaeth a dylent allu cyfeirio pobl. Teimlir bod pobl sy'n gweithio mewn cymunedau lleol yn fwy tebygol o allu gwneud hyn, a
- Gwybodaeth wedi'i theilwra i anghenion penodol lle y bo'n briodol e.e. tynnwyd sylw at anghenion cymunedau lleiafrifoedd ethnig a du a'r iaith Gymraeg gan ofalwyr yn Abertawe; cyfeiriwyd at bobl sy'n colli synhwyrau; a gofalwyr, gyda chyfeiriad penodol at werth un pwynt cyfeirio i bobl gael gafael ar wybodaeth am anghenion penodol.
- Gwybodaeth benodol am yr hyn y dylai pobl ei ddisgwyl gan wasanaethau, gan gynnwys amseroldeb gwasanaethau.
- Cydnabyddiaeth bod gwybodaeth sydd ar gael i ofalwyr yn gwella.

[15] Gweler Atodiad 5 am y ffynonellau a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad eilaidd

- Mae lle i wella o ran cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau.

Mae'r wybodaeth yn awgrymu bod potensial ar gyfer ymagwedd fwy strategol at wybodaeth ar draws sefydliadau, a datblygu'r defnydd o dechnoleg fel help i gryfhau hunan-fynediad i wybodaeth.

**Partneriaeth a Chydweithio**

Mae thema ehangach hefyd sy'n ymwneud â chryfhau'r ddeialog rhwng gwasanaethau cyhoeddus a'r cyhoedd, ac ar draws gwasanaethau cyhoeddus - iaith partneriaeth; defnyddir cyd-gynhyrchu a chydweithredu'n aml yn y deunydd ffynhonnell, er ar adegau gall hyn fod yn ddehongliad o'r dystiolaeth sylfaenol gan awduron yr adroddiadau.

Yn gyffredinol, yr awgrym yw y gellir cyflawni mwy drwy weithio ar y cyd ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus a thrwy ymagwedd gydweithredol gan y sector cyhoeddus â'r cyhoedd. Er mwyn i'r cyhoedd gael llais a chael eu hystyried fel asiantiaid newid yn hytrach na gwrthrych i'w newid, ac i hyn arwain at fodelau amgen megis mentrau cymdeithasol a chyflwyno wedi'u harwain gan ddefnyddwyr. Hefyd, gall fod angen peth gwaith cydweithredu hynod soffistigedig i ddatrys rhai o'r heriau mawr y mae angen eu hwynebu.

Lle'r oedd pobl yn teimlo yr ymgysylltwyd â hwy o ran newid, gwerthfawrogwyd hyn yn fawr.

Dyma'r maes lle amlygwyd y cysyniad o ddefnyddio asedau presennol i wella 'pethau', a cheir nifer o gyfeiriadau at hyn, er nad oes cyfeiriad i'r term penodol 'asedau'.

Dylid cydnabod y daw'r farn hon o ddefnyddwyr sydd eisoes wedi'u symbylu i ymgysylltu, felly bydd yn adlewyrchu'r is-grŵp hwn o ddefnyddwyr.

## 5.1 Lles Cymdeithasol

**Cludiant**

Nodwyd bod cludiant yn broblem o nifer o ymarferion cynnwys ac ymgynghori anghysylltiedig.

Mae hyn o bosib yn gysylltiedig â'r diffyg cyfleusterau sylfaenol mewn rhai cymunedau, sy'n gwneud byw o ddydd i ddydd yn heriol iawn lle nad oes gan bobl eu cludiant eu hunain a lle mae gan gludiant cyhoeddus ei gyfyngiadau o ran cefnogi pobl i reoli eu bywydau beunyddiol.

Unwaith yr ystyrir y dewis ar gyfer darpariaeth gwasanaethau, cyhyd ag y bo modd mewn cymunedau lleol, mae'r gofyniad am gludiant, yn enwedig ar gyfer y mwyaf diamddiffyn yn ein cymdeithas, yn thema gyffredin.

Mae ymdeimlad nad oes digon o sylw'n cael ei roi i'r gofynion am gludiant wrth i wasanaethau newid, ac y gallai hyn fod yn rhwystr i bobl gefnogi ffyrdd newydd o wneud pethau.

Amlygwyd mwy o bwyslais ar rôl cludiant cymunedol wrth ddarparu gwasanaeth ymatebol, wedi'i deilwra dros gynlluniau isadeiledd fel ased y gellid adeiladu arno.

## 5.2 Lles Diwylliannol

Yr ymdeimlad yma oedd bod mwy o gyfleoedd i gymunedau ddatblygu dealltwriaeth a rennir o anghenion gwahanol bobl sy’n bwy gyda hwy, er enghraifft, cymunedau sy’n ystyriol o oed a dementia.

Roedd cyfeiriad at gysyniad parch yn gysylltiedig â’r maes hwn. Roedd hyn yn amrywio o bwysigrwydd urddas a’r parch a ddangosir at bobl sy’n derbyn gofal gan wasanaethau i’r angen am ddinasyddiaeth dda mewn cymunedau – dangos cwrteisi syml i bobl, bod yn garedig, yn ofalgar, yn gymdogol, yn ystyriol ac yn barchus’ ac i gymunedau fod yn ‘hygyrch, yn oddefgar ac yn gynhwysol’ a chael ‘ymdeimlad o berthyn’

**Cymuned**

Pwysleisir pwysigrwydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn y thema hon. Mae tystiolaeth fod diffyg parodrwydd i newid mewn cymunedau, ac mae’n ymddangos y cyflwynir hyn fel bygythiadau i adeiladau, gwasanaethau neu fynediad lleol, pan ystyrir bod y rhain hefyd yn cefnogi dichonoldeb a bywiogrwydd cymunedau lleol.

Mae ymdeimlad o gefnogaeth ar gyfer mwy o ffocws ar ‘yn y gymuned’ dros ddarpariaeth fwy arbenigol. Mae hefyd ymdeimlad o angen i ddefnyddio a chynyddu cyfleusterau ym mhob cymuned i’r eithaf, gan greu canolfannau cymunedol sy’n ffynhonnell gwybodaeth a chyngor, ac sy’n fannau diogel.

## 5.3 Lles Economaidd

Mae lles economaidd y boblogaeth a welir drwy’r deunydd ffynhonnell yn ymwneud ag angen cyffredinol i gefnogi galluoedd ariannol pobl yn y gymuned, mwyafu eu hincwm, a galluogi i hyn gael ei ddefnyddio’n ddoeth i ddiwallu anghenion economaidd sylfaenol pobl.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Pwysigrwydd gwasanaethau cyngor a chefnogaeth ariannol a lles i gynyddu gallu a dealltwriaeth ariannol a lleihau pryderon am gyllid.
- Mae’r gofyniad am dai fforddiadwy sy’n sylfaen i ymagwedd gytbwys at gostau byw o ddydd i ddydd (bwyd, ynni, cludiant).
- Help i bobl aros yn weithgar yn economaidd a chael mynediad i hyfforddiant, addysg a chyflogaeth.

Mae’r adran hon, efallai uwchlaw popeth arall, yn adlewyrchu faint o dystiolaeth a adolygwyd sy’n gysylltiedig â’r mwyaf diamddiffyn yn ein cymdeithas, ac felly’n fwy tebygol o fod yn yr amgylchiadau economaidd mwyaf heriol.

## 5.4 Lles Amgylcheddol

Ychydig iawn o gyfeiriadau sydd at les economaidd yn y dystiolaeth y tu hwnt i’r hyn a gaiff ei nodi mewn man arall.  Gall manylion penodol gynnwys:

- Diogelwch cyfleusterau lleol gan gynnwys palmentydd ac ardaloedd chwarae, a’r cyfraniad a wneir gan doiledau cyhoeddus at hyrwyddo annibyniaeth yn y gymuned.
- Cynnal a chadw cyfleusterau cymunedol gan gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus
- Yr heriau o ran dichonoldeb a bywiogrwydd trefi a chymunedau, a’r effaith negyddol y caiff hyn ar yr amgylchedd lleol

**Teimlo'n ddiogel**

Amlygir y cysyniad o ddiogelwch drwy nifer o leoliadau ac adroddiadau gwahanol. Yr ymdeimlad blaenaf yw i bawb yn y gymdeithas deimlo bod y gymuned maent yn byw ynddi'n ddiogel – bod eu cartref yn lle diogel ac yn lloches personol, eu bod yn teimlo'n ddiogel pan fyddant yn mynd hwnt ac yma yn y gymuned, a bod ganddynt fannau diogel i ymweld â hwy yn eu cymuned, a'u bod yn teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio gwasanaethau neu'n symud i ofal sefydliadau statudol.

Mae rhai enghreifftiau ymarferol iawn o'r hyn y mae hyn yn ei olygu i bobl:

- Bod opsiynau tai, gan gynnwys cartrefi gofal, yn gallu diwallu anghenion penodol cymunedau
- Bod yr amgylchedd ffisegol yn lle diogel, megis ardaloedd chwarae ffurfiol ac anffurfiol, ond hefyd balmentydd a strydoedd wedi'u goleuo'n dda
- Pan fydd pobl yn mynd allan, maent yn hyderus y byddant yn gallu cael mynediad i doiled a lle i eistedd i gael seibiant
- Hyder bod cyfleusterau lleol a dewisiadau amgen i fodelau gwasanaeth traddodiadol yn derbyn eu hanghenion, neu fel arall, bydd pobl yn dewis aros gartref

# 6 Crynodeb ac Argymhellion

## 6.1 Crynodeb

### Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn dogfennu canfyddiadau asesiad annibynnol o les Dinas a Sir Abertawe. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (DLlCD) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ym mhob ardal awdurdod lleol gael adroddiad gwybodaeth ansoddol fel rhan o'r asesiadau y mae'n ofynnol iddynt eu cynnal.

### Gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae Deddf LlCD yn ceisio gwella lles cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru drwy osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i feddwl am ac ystyried y pum ffordd o weithio a'r saith nod llesiant ym mhob polisi ac wrth wneud penderfyniadau.

Mae rôl y BGC wrth wella lles yn ei ardal yn gofyn am asesiad cychwynnol er mwyn sefydlu 'gwaelodlin lles' ac, yn dilyn hynny, bennu amcanion sy'n cyd-fynd â'r nodau lles ac sy'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n rhan hanfodol o'r Ddeddf. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth o'r asesiad lles hwn, mae'n ofynnol i bob BGC lunio a chyhoeddi Cynllun Lles Lleol, sy'n pennu ei amcanion a'r camau gweithredu y mae eu hangen i'w cyflawni.

### Ymagwedd Fethodolegol

Roedd yr ymagwedd at yr asesiad yn ardal Dinas a Sir Abertawe'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Arolwg ar-lein a dderbyniodd 239 o ymatebion gan bobl sy'n byw yn Ninas a Sir Abertawe;
- Chwe gweithdy gyda 29 person yn bresennol ynddynt;
- Ymgynghori â rhanddeiliad;
- Ail adolygiad o lenyddiaeth a thystiolaeth; a
- Phedwar grŵp ffocws â diddordeb penodol, dau â phlant ysgol uwchradd, grŵp gydag oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol a dau gyda'r digartref ifanc.

### Ymchwil Sylfaenol Lles yn Ninas a Sir Abertawe

#### Lles Diwylliannol:

Roedd lles diwylliannol yn canolbwyntio ar fynediad i'r celfyddydau, y theatr, y sinema a chwaraeon. Ystyriwyd gwirfoddoli'n fodd gwych i ddatblygu lles. Roedd cefnogaeth i'r Gymraeg yn gymysg, yn gryf iawn mewn rhai cymunedau.

#### Lles Economaidd:

Yn gyffredinol, roedd y bobl a gymerodd ran yn yr asesiad yn nodi bod lles economaidd unigolyn yn ymwneud yn bennaf â digonolrwydd a'r gallu i gynnal safon byw resymol. Mae gwahaniaeth o ran lles economaidd rhwng y rhai y mae bywyd yn

gymharol gyfforddus iddynt ac sy'n ystyried lles fel cael adnoddau sbâr am rai pethau moethus, a'r rhai sy'n byw ar yr ymylon economaidd, y mae lles iddynt hwy'n ymwneud â digonolrwydd i ddiwallu anghenion a goblygiadau sylfaenol. Roedd sicrwydd ariannol yn bwysau allweddol i'r rhai ag incymau isel, mewn gwaith portffolio, neu'n ddi-waith. Fel mewn mannau eraill, cafwyd tystiolaeth eang o dlodi yn y gwaith ac anallu i ddianc rhag y fagl budd-daliadau i'r rhai nad oeddent yn gweithio.

Roedd gweithwyr yn pryderu am safonau byw'n dirywio, gan fod rhai heb gael codiad cyflog ers sawl blwyddyn, ac eraill wedi symud yn raddol i swyddi â llai o sgiliau, a llai o dâl.

### Lles Amgylcheddol:

Mae ansawdd y dirwedd yn ddylanwad allweddol ar les amgylcheddol, gyda mynediad i arfordir Gŵyr, afonydd, tir agored neu barciau'n rhoi hwb sylweddol i les. Gwerthfawrogwyd cerdded a beicio ar hyd yr arfordir, mewn parciau neu ar y bryniau o ran eu cyfraniad at les. Mewn rhai cymunedau, gwrthbwyswyd tlodi economaidd cymharol i ryw raddau gan ansawdd uchel y dirwedd ffisegol. Yn anffodus, mae'r amgylchedd adeiledig mewn sawl ardal yn y ddinas a chanol trefi yn yr ardal yn methu cyfateb i'r safonau, a theimlai llawer o randdeiliaid na allent fod yn falch o'u trefi lleol fel y maent, gyda siopau wedi cau, safonau cynnal a chadw gwael a gormod o draffig.

Condemniwyd faint o sbwriel a thipio anghyfreithlon oedd yn yr ardal yn helaeth, ac roedd awydd i weld cosbau llymach i'r rhai sy'n tramgwyddo yn y ffordd hon.

O safbwynt yr ymatebwyr i'r arolwg, roedd lles amgylcheddol yn ymwneud yn bennaf â chael 'amgylchedd glân (26% o ymatebwyr) a gallu cael mynediad i'r 'awyr agored'. Cyfeiriodd bron chwarter (23%) o ymatebwyr at y ffaith fod strydoedd glanach neu daclusach (gydag un o bob deg yn cyfeirio at 'sbwriel') yn angenrheidiol i wella lles amgylcheddol.

### Lles Cymdeithasol:

Daw llawer o gryfder lles cymdeithasol o ffrindiau a theulu, gydag ychydig llai o bwyslais ar gymuned nag mewn rhai ardaloedd eraill. Roedd cydbwysedd gwaith-bywyd yn her i lawer o bobl a oedd yn gweithio am ei fod yn rhwystr i les cymdeithasol mewn rhai achosion; I'r rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain, yn enwedig yr henoed, mae rhwydweithiau cymdeithasol a chlybiau'n bwysig iawn. Crybwyllwyd materion ynghylch cludiant cyhoeddus yn aml o ran meithrin lles cymdeithasol, gan fod cludiant gwael yn sylfaen i rwystrau rhag cael mynediad i wasanaethau a lleoedd.

Pan ofynnwyd beth oedd lles cymdeithasol yn ei olygu iddynt hwy, yr ymateb a gafwyd amlaf ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg oedd cael rhwydwaith da o deulu a ffrindiau. Soniodd tri chwarter (73%) o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn Abertawe am deulu a ffrindiau neu bod yn gymdeithasol fel y prif bethau yn eu bywydau sy'n cyfrannu at les cymdeithasol. Yn naturiol, pan ofynnwyd beth byddai'n helpu i wella lles cymdeithasol, cyfeiriwyd at y gallu i dreulio mwy o amser gyda theulu a ffrindiau a bod yn iach/fwy actif yn aml. Darparwyd awgrymiadau ynghylch sut y gellid cyflawni hyn, gyda llawer yn cyfeirio at gael mwy o gyfleusterau hamdden (fforddiadwy) a gwell mynediad iddynt. Crybwyllwyd cael mwy o amser (i ffwrdd o'r gwaith) a mwy o arian i hwyluso mynediad i weithgareddau hamdden yn aml hefyd.

## Ymchwil Eilaidd

[16] *Y gyfran a soniodd am eiriau a oedd yn ymwneud â 'glân'.*
[17] *Dyma'r termau chwilio a ddefnyddiwyd: taclusach, glân, wedi'i lanhau, glanach, sbwriel, llanast, graffiti*

Nid yw’r cysyniad o ‘les’ yn amlwg iawn yn y ffynonellau eilaidd. Ceir chwe chyfeiriad yn unig a phob un ohonynt yn deillio o gyd-destun Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, nodwyd rhai themâu sy'n adlewyrchu'r rhai a nodwyd yn yr ymchwil sylfaenol.

Roedd themâu allweddol a nodwyd yn cynnwys;

- Mynediad i'r amgylchedd a gwasanaethau;
- Gwybodaeth a chyfathrebu;
- Partneriaeth a chydweithio;
- Cludiant cyhoeddus;
- Teimlo'n ddiogel;
- Pwysigrwydd cymuned
- Cadernid economaidd

## Lles yn ôl Grwpiau Dinasyddion

### Trais Domestig

Mynegwyd y cafwyd gwelliannau sylweddol i safonau cefnogi cam-drin domestig yn yr ugain mlynedd diwethaf. Mae cefnogaeth ar gael yn rhwyddach yn awr er bod problemau o hyd o ran cysondeb a diffyg hyfforddiant.

### Plant a Phobl Ifanc

Roedd plant a phobl ifanc yn awyddus i drafod lles; roeddent yn meddwl bod ffrindiau a theulu, gweithgareddau, cyfryngau cymdeithasol a'u hamgylchoedd yn effeithio ar eu lles. Roedd gwelliannau'n cynnwys gwell darpariaeth y tu allan i'r ysgol, gwell cefnogaeth yn ystod cyfnodau arholiadau a chynnal a chadw'r ysgol yn well.

### Pobl hŷn

I bobl hŷn yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr ymchwil, mae nifer o themâu allweddol yn effeithio ar les:

- Cadw'n iach ac yn actif;
- Gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael a sut i gael mynediad iddi;
- Hyrwyddo annibyniaeth wrth ddarparu sicrwydd rhwyd ddiogelwch;
- Bod yn rhan o gymuned - boed honno'n deulu, yn ffrindiau neu'n ardal leol.
- Problemau mynediad chludiant.

### Iechyd ac Anabledd

Er bod llawr o ymatebwyr ag amrywiaeth o afiechydon ac anableddau tymor hir neu gronig, cafwyd nifer o themâu allweddol.

- Mynediad i gefnogaeth ariannol ac ymarferol
- Cefnogaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant
- Mynediad i wybodaeth a gwasanaethau
- Cyfathrebu ac ymwybyddiaeth
- Rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd

### Iechyd Meddwl

Dyma'r materion allweddol i'r rhai â phroblemau iechyd meddwl:

- Cynnal mynediad i wasanaethau;
- Cyflawni cydnabyddiaeth o angen;
- Rheolaeth ariannol a chyngor ar ddyled.

### Gofalwyr

Ystyriwyd bod cefnogaeth i ofalwyr drwy grwpiau cymdeithasol, ffrindiau a theulu'n hynod bwysig er mwyn iddynt barhau i allu gofalu am rywun. Roedd y rhan fwyaf yn anfodlon ar y gefnogaeth roeddent yn ei chael drwy'r gwasanaethau cymdeithasol a'r gefnogaeth ariannol i gael seibiant. Teimlai gofalwyr ei bod hi'n bwysig gwella cysylltiadau cludiant a lwfansau budd-daliadau a darparu gweithgareddau rhatach yn gyffredinol.

## 6.2 Cynnydd yn erbyn nodau DLlCD

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi saith nod i Gymru weithio tuag atyn nhw. Dangosir y rhain isod, ynghyd â rhai mesurau pwysig i ddangos sut mae preswylwyr Dinas a Sir Abertawe yn cyfrannu tuag at y nodau hyn.

| Nod | Cynnydd/Camau gweithredu |
|---|---|
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Fel mewn mannau eraill, mae gan breswylwyr ymwybyddiaeth o faterion megis newid yn yr hinsawdd a'r angen i ailgylchu. Fodd bynnag, i lawer o ddinasyddion, mae angenrheidrwydd economaidd cynnal sicrwydd ariannol a thalu biliau'r aelwyd yn flaenoriaeth. |
| Cymru lewyrchus | Mae canfod a chadw swydd sicr, â thâl da yn yr ardal yn her i lawer o breswylwyr. Dywedodd nifer sylweddol o ymatebwyr eu bod yn poeni am arian. Byddai cael help gyda dealltwriaeth a rheolaeth ariannol yn helpu i gyflawni'r nod hwn. |
| Cymru gydnerth | Roedd preswylwyr yn pennu gwerth uchel ar yr amgylchedd naturiol ac yn enwedig yr arfordir, mannau gwyrdd a pharciau. Roedd rhai yn pryderu am lygredd aer o gwmpas canol y ddinas a hoffent iddo fod yn ardal i gerddwyr yn unig. |
| Cymru iachach | Mae llawer o bobl yn cydnabod yr angen i fod yn iach ac mae rhai wedi seilio'u bywydau cymdeithasol o gwmpas chwaraeon neu weithgaredd awyr agored ac yn cydnabod ei werth. Fodd bynnag, i lawer o bobl, erys ffordd y fyw actif ac iach yn ddyhead yn unig. Nid yw mynediad i feddygon a gwasanaethau iechyd yn gyffredinol yn gyfartal yn y chwe ardal gymunedol. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Yn Abertawe, fel mewn mannau eraill, mae gwahaniaeth rhwng y rhai â safon byw resymol a'r rhai a oedd mewn mwy o berygl o wynebu problemau economaidd megis dyled. |

| | |
|---|---|
| Cymru o gymunedau cydlynus | Mae gan Abertawe amgylchedd amlddiwylliannol, er y gellid gwneud mwy i ddathlu'r amrywiaeth yn yr ardal. Yn y ddinas ac mewn cymunedau eraill yn yr ardal, mae ymdeimlad cryf o gymdogaeth a pherthyn. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae'r diddordeb yn yr iaith Gymraeg, hanes a threftadaeth Cymru yn bwysig mewn rhai cymunedau yn Abertawe, ond yn y ddinas, mae cymysgwch diwylliannol cyfoethog y dylid ei feithrin. Fodd bynnag, roedd rhai dinasyddion yn dal dig oherwydd amlygrwydd canfyddedig y Gymraeg. |

## 6.3 Argymhellion i Adeiladu Lles

Roedd llawer o'r materion sy'n effeithio ar les yn Abertawe yn canolbwyntio ar wasanaethau a chefnogaeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Mae disgwyliad y bydd yr awdurdod yn darparu atebion, sy'n mynd i fod yn hynod annhebygol ar adeg o doriadau cyllidebol ac sy'n mynd yn groes i ysbryd DLlCD. Dyna pam mae'r argymhellion isod yn canolbwyntio ar ddinasyddion yn cymryd mwy o reolaeth o'u tynged eu hunain, neu'n ceisio atebion rhad lle mae hyn yn bosib.

### 6.3.1 Lles Diwylliannol

I wella lles diwylliannol yn rhanbarth Abertawe, codwyd nifer o feysydd yr oedd angen sylw arnynt:

1. Nododd sawl ymatebwr i'r ymchwil eu bod yn ei chael hi'n anodd gwybod pa ddigwyddiadau neu grwpiau oedd yn cael eu cynnal yn eu hardal. Dylid cymryd camau i sicrhau bod preswylwyr yn deall lle i ddod o hyd i wybodaeth leol - yn enwedig ymhlith yr henoed neu'r anabl.
2. Roedd lles diwylliannol yn tueddu i gynnwys y celfyddydau, y theatr a'r sinema, hanes Cymru a'r Gymraeg a chwaraeon. Yr hyn a oedd yn bwysig i lawer o oedolion oedd y cyfle i gael mwy o wersi Cymraeg ac, yn hollbwysig, gyfleoedd i ymarfer - e.e. Boreau coffi neu rwydweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a sesiynau Cymraeg yn y gwaith.
3. Hefyd, teimlwyd ei bod yn bwysig sefydlu ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli yn yr ardal; yn enwedig ymhlith pobl sydd wedi ymddeol y mae ganddynt lawer i'w gynnig o hyd.
4. Codwyd pwynt arall ynghylch pwysigrwydd cyhoeddusrwydd a hyrwyddo gwydnwch a'r angen i gymunedau fod yn gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau.

### 6.3.2 Lles Economaidd

1. Drwy gydol y broses gynnwys, cyfeiriodd unigolion o oed gwahanol at beidio â deall sut i reoli materion ariannol orau, neu gael y bargeinion gorau gyda biliau cyfleustodau, er enghraifft. Gallai rhaglen o ddosbarthiadau llythrennedd ariannol (gan gynnwys mewn ysgolion) helpu unigolion i reoli eu materion ariannol yn well ac felly, wella'u hymdeimlad o les.
2. I rai pobl, roedd mynediad i waith yn anodd oherwydd diffyg cludiant neu broblemau gofal plant. Un ateb posib fyddai gwella'r ddarpariaeth waith mewn cymunedau difreintiedig drwy ddatblygu lle i gychwyn busnes neu le gwaith a rennir a chefnogaeth ar gyfer hunangyflogaeth neu entrepreuneuriaeth. Roedd rhai preswylwyr am weld cyfleoedd cyflogaeth drwy ddatblygu'r economi gylchol yn yr ardal.
3. Roedd ansicrwydd swyddi'n rhwystr i les i rai yr ymgysylltwyd â hwy. Tynnwyd sylw at y ffaith y gallai'r sector cyhoeddus weithredu fel enghraifft batrymol yn y maes hwn drwy atal y defnydd o gontractau dros dro i fynd i'r afael â hyn.
4. Roedd costau ynni a gwresogi'n faterion arwyddocaol i lawer o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy, yn enwedig ymhlith pobl hŷn a'r rhai ag anableddau. Efallai bydd cyfle i ddatblygu rhwydweithiau ynni lleol, gyda chefnogaeth gan raglen Ynni Lleol 'Twf Gwyrdd' Llywodraeth Cymru.

### 6.3.3 Lles Amgylcheddol

I wella lles amgylcheddol yn Ninas a Sir Abertawe, byddem yn argymell canolbwyntio ar:

5 Reoli adnoddau'n well - cynyddu darpariaeth gwasanaeth ac addysg am ailgylchu, annog pobl i beidio â thaflu sbwriel a thipio'n anghyfreithlon, glanhau strydoedd yn well ac yn amlach neu gasglu sbwriel fel cymuned. Rheoli gwastraff cŵn yn well drwy ddarparu biniau neu annog perchnogion cŵn i fynd â gwastraff cŵn adref.

6 Mae ansawdd y dirwedd yn ddylanwad allweddol ar les amgylcheddol, gyda mynediad yn ardal Abertawe i arfordir, traethau, afonydd a pharcdir o ansawdd uchel iawn, y gall pob un ohonynt roi hwb sylweddol i les. Mewn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig, gwrthbwyswyd tlodi economaidd cymharol i ryw raddau gan ansawdd uchel y dirwedd ffisegol. Yn anffodus, mae'r amgylchedd adeiledig mewn sawl ardal yn y ddinas a chanol trefi yn yr ardal yn methu cyfateb i'r safonau, a theimlai llawer o randdeiliaid na allent fod yn falch o'u trefi lleol fel y maent, gyda siopau wedi cau, safonau cynnal a chadw gwael a gormod o draffig. Dylid rhoi sylw i ddefnydd amgen, sesiynau cymunedol a syniadau eraill i adennill yr amgylchedd a'i wella.

7 O ran materion amgylcheddol ehangach, gallai poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr elwa o addysg i adnabod buddion lles cael mynediad i'r amgylchedd naturiol, a darparu cymorth i bobl nad ydynt fel arfer yn cael mynediad iddo wneud hynny. Gallai llwybrau beicio sy'n dechrau yn y dref i ganiatáu cymudo a beicio hamdden heb fynd â'r beic yn y car fod yn fenter o'r fath a allai gyfrannu at hyn.

### 6.3.4 Lles Cymdeithasol

Mae lles cymdeithasol yn canolbwyntio'n gryf iawn ar gysylltiadau â theulu a ffrindiau. Fodd bynnag, i'r rhai heb deulu neu rwydweithiau cymdeithasol, mae problemau unigedd a diffyg lles sylweddol. Gellid mynd i'r afael â'r rhain i ryw raddau drwy:

1 Greu strydoedd glanach, mwy diogel, yn enwedig gyda'r nos. Yn y gweithdai, roedd rhai yn disgrifio Abertawe fel ardal "nad yw'n ddoeth mynd yno" yn y nos oherwydd defnyddwyr cyffuriau ac alcohol a diffyg plismona. Roedd cyfranogwyr am gyflwyno newidiadau i wneud i'r ddinas deimlo'n lle mwy diogel i fod allan ynddo gyda'r hwyr a gall dinasyddion chwarae rhan yn hyn.

2 Problemau cludiant cyhoeddus a mynediad i waith, hamdden a thirwedd. Mae problem ddofn â cludiant cyhoeddus (ac yn enwedig gwasanaethau bws), lle mae diffyg cyfatebiaeth rhwng ffyrdd unigol o fyw ac anghenion gwaith sy'n gynyddol hyblyg, ac amserlenni a threfniadau cludiant mwy llym. Mae angen i Abertawe fod yn fwy creadigol ynghylch meithrin ymagweddau hyblyg at gludiant, boed drwy gynlluniau rhannu ceir, llogi ceir trydan, hyrwyddo beicio ar gyfer y gwaith a hamdden neu feddwl am leoliad y cyfleusterau o ran ble mae pobl yn byw.

3 Cynyddu darpariaeth meddygfeydd meddygon teulu a mynediad i ofal iechyd i rai o ardaloedd rhanbarth Abertawe.

4 Gall gwelliannau i les cymdeithasol gynnwys darparu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli; mynediad yn ystod cyfnodau tawel i ganolfannau hamdden i annog pobl hŷn i aros yn actif; ac yn gysylltiedig â hyn, welliannau mewn cludiant cyhoeddus i hwyluso'r mynediad hwn (gweler uchod).

# Atodiad 1 Gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'r bennod hon yn darparu cyd-destun ar gyfer yr asesiad drwy gynnig trosolwg byr o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (DLlCD) cyn trafod goblygiadau'r Ddeddf ar gyfer yr asesiad hwn.

## Gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae DLlCD yn ceisio gwella lles cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru drwy osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i feddwl mewn ffordd fwy cynaliadwy a thymor hir. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ymdrechu i'w cyflawni ac y dylent eu hystyried wrth gynllunio polisïau a gwneud penderfyniadau. Ar y cyd, mae'r saith nod llesiant yn darparu gweledigaeth ar gyfer Cymru ddelfrydol. Eu diben yw cyflawni:

1. Cymru lewyrchus;
2. Cymru gydnerth;
3. Cymru iachach;
4. Cymru sy'n fwy cyfartal;
5. Cymru o gymunedau cydlynus;
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yng Nghymru ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, gyda chylch gorchwyl i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae aelodau statudol o bob BGC yn cynnwys yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol, Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae rôl y BGC wrth wella lles yn ei ardal yn gofyn am asesiad cychwynnol i gadarnhau 'gwaelodlin lles' ac yn dilyn hyn, amcanion i'w pennu sy'n cyd-fynd â'r nodau llesiant cenedlaethol ac yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n rhan annatod o'r Ddeddf. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth o'r asesiad lles hwn, mae'n ofynnol i bob BGC lunio a chyhoeddi Cynllun Lles Lleol, sy'n pennu ei amcanion a'r camau gweithredu y mae eu hangen i'w cyflawni.

## Goblygiadau ar gyfer yr Asesiad Lles hwn

Yn achos Deddf LlCD, mae arweiniad anstatudol yn nodi'r angen i gael gwybodaeth ansoddol fel rhan o'r asesiadau:

- *"Dylai Dadansoddiad o Ymatebion cytbwys felly gynnwys rhyw fath o dystiolaeth ansoddol ynghyd â data meintiol"*[18]
- *"Felly, bydd disgwyl i fwrdd [gwasanaethau cyhoeddus] ddefnyddio ystod eang o ffynonellau i asesu cyflwr lles ohonynt, er enghraifft... tystiolaeth ansoddol sy'n nodi barn a chanfyddiadau pobl yn ogystal â rhoi cyd-destun i ddata meintiol (y stori y tu ôl i'r data)."* [19]

[18] *Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol - Byrddau gwasanaethau cyhoeddus: Canllawiau ar ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddiad t. 8*

[19] *Rhannu Pwrpas: Canllawiau Statudol Rhannu Dyfodol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 SPSF 3: Rôl gydweithredol (byrddau gwasanaethau cyhoeddus), t.12*

Roedd asesiadau blaenorol o natur debyg - yn fwyaf perthnasol, yr asesiad o anghenion sy'n sail i'r Cynlluniau Integredig Sengl (CIS) - yn nodi sawl pryder ynghylch ansawdd y dadansoddiad, gan gynnwys gorddibyniaeth ar dystiolaeth feintiol. Roedd gwerthusiad o'r CIS yn nodi *"[absenoldeb] unrhyw dystiolaeth feintiol i wrthbwyso tystiolaeth feintiol a rhoi cyd-destun iddi, gan olygu bod y cynlluniau'n cael eu seilio'n bennaf ar ddadansoddiad ystadegol arwynebol."*

Roedd y diffygion a gydnabuwyd yn y data a oedd yn sail i'r CIS wedi cyfeirio datblygiad yr arweiniad anstatudol ar gyfer y BGC yn rhannol, yn benodol ar lunio'r asesiad lles, ac yn ei dro, y Cynllun Lles Lleol. Mae'r arweiniad yn ail-ddweud bod *"diffyg cymharol tystiolaeth ansoddol i ddatblygu esboniadau ac archwilio achosion"* yn y CIS, felly'r pwyslais yn yr arweiniad ar gynnwys tystiolaeth ansoddol yn yr asesiadau lles, ac, yn ei dro, gomisiynu'r gwaith i sicrhau safbwynt tystiolaeth ansoddol i asesiadau lles yn Abertawe.

Pryder arall ynghylch asesiad o anghenion y CIS oedd y *"diffyg eglurder ynghylch cynnwys dinasyddion yn y broses asesiad o anghenion"*, canlyneb debygol o orddibyniaeth ar ddata ystadegol. Mae'r arweiniad a'r côd ymarfer i lunio'r asesiadau lles a'r adroddiad asesu poblogaeth gyfunol yn pwysleisio'r angen i gynnwys ymgynghoriad helaeth â phobl y mae'r asesiadau'n berthnasol iddynt.

Nid yw'r asesiad lles hwn yn gweithredu mewn gwagle o ddealltwriaeth o les presennol y boblogaeth. Mae cyrff iechyd ac awdurdodau lleol wedi bod yn cynnal asesiadau o anghenion ar y cyd i fod yn sail i gynllunio mewn perthynas â'u poblogaeth leol ers cychwyn y strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles cyntaf ar ddiwedd y 90au, a thrwy gynllunio cymunedol a'r gofyniad am gynlluniau integredig sengl. Mae hefyd yn ofynnol i sefydliadau gynnwys eu poblogaethau, drwy ymagwedd sy'n cynnwys cydgynhyrchu, i nodi amrywiaeth cyfan o ymatebion lleol i bolisi cenedlaethol.

Mae hyd a lled ac aeddfedrwydd y gwaith hwn yn amrywiol, ond mae'r adroddiad hwn yn cynnwys barn ystyriol a fynegwyd gan y cyhoedd. Dyluniwyd y fethodoleg hon felly i ystyried y dadansoddiad presennol o ddata ansoddol diweddar yn yr awdurdod lleol a'r ardal gymunedol, a chan sefydliadau partner.

Er hynny, mae cynnwys dinasyddion yn allweddol i'r asesiad lles. I grynhoi, roedd ein hymagwedd wedi cynnwys nifer o ffyrdd gwahanol i bobl ymgysylltu, a oedd cynnwys:

- presenoldeb mewn gweithdy;
- cyfranogiad mewn grŵp ffocws;
- llenwi holiadur ar-lein; a
- chymryd rhan mewn cyfweliad manwl.

20 *Cyflwynwyd cynlluniau integredig sengl gan Lywodraeth Cymru yn 2012 i gymryd lle o leiaf bedwar o'r cynlluniau a'r strategaethau statudol cyfredol (y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol). Fe'u hystyriwyd yn ffordd o alluogi llywodraeth leol a'i phartneriaid, drwy Fyrddau Gwasanaethau Lleol (BGLl) i ddod ynghyd i gynllunio, gweithio, cyflwyno a gwella.*

21 *Cynlluniau Integredig Sengl: Adolygiad Dros Dro*, 2013 t.31

22 *Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol - Byrddau gwasanaethau cyhoeddus: Canllawiau ar ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddiad* t. 2

23 *Ibid*.

# Atodiad 2 Ymagwedd Fethodolegol

Roedd yr ymagwedd at gomisiynu rhanbarthol yn ardal cyngor Dinas a Sir Abertawe yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Arolwg ar-lein a dderbyniodd 239 o ymatebion gan bobl sy'n byw yn Ninas a Sir Abertawe;
- Chwe gweithdy gyda 29 person yn bresennol ynddynt;
- Ymgynghori â rhanddeiliad;
- Ail adolygiad o lenyddiaeth a thystiolaeth; a
- Phedwar grŵp ffocws â diddordeb penodol, dau â phlant ysgol uwchradd, grŵp gydag oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol a dau gyda'r digartref ifanc.

Amlinellir pob un o'r ymagweddau ymchwil hyn yn fanylach isod.

## Arolwg Ar-lein

Derbyniwyd 239 o ymatebion gan bobl sy'n byw yn Ninas a Sir Abertawe i'r arolwg ar-lein. Dangosir y dosbarthiad o ymatebion i'r arolwg fesul ardal gymunedol (Dwyrain y Bae, Gorllewin y Bae, y Ddinas, Cwm Tawe, Llwchwr a Phenderi) yn Ffigur 13. Amlinellir yr holiadur ar gyfer yr arolwg ar-lein yn Atodiad 1.

Ffigur 13 Ymatebion i'r arolwg fesul ardal gymunedol


*Ffynhonnell: Data a chyflwyniad yr arolwg gan Miller Research (UK) Ltd. gan ddefnyddio data Google Map (2016).*

Mae'r map yn dangos bod y nifer uchaf o ymatebwyr yn byw yn ardal Dwyrain y Bae (63 o ymatebion), gydag ardal Llwchwr yn ail (50 o ymatebion). Cafwyd 46 ac 43 ymateb

ar gyfer ardaloedd cymunedol Cwm Tawe a Gorllewin y Bae yn eu tro, ond 16 ac 14 ymatebion yn unig a gafwyd gan ardaloedd cymunedol Penderi a'r Ddinas yn eu tro.

Roedd tri chwarter (76%) o'r ymatebwyr i'r arolwg yn fenywod a chwarter yn ddynion (24 %) gan awgrymu bod dynion yn cael eu tangynrychioli yn y sampl o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Mae Ffigur 14 yn dangos dosbarthiad y bandiau oed o'r ymatebion i'r arolwg gyda 26% yn dod o bob un o'r bandiau oed 35-44 a 45-54. Fodd bynnag, 1% yn unig o ymatebion ddaeth o bobl 18 i 24 oed a 2% o'r rhai 75 oed ac yn hŷn.

Ffigur 14 Canran yr Ymatebion i'r Arolwg fesul Band Oed




*Ffynhonnell: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r arolwg gan Miller Research (UK) Ltd.*

## Gweithdai

Yn ardal y cyngor, cynhaliwyd chwe gweithdy galw heibio hanner diwrnod, gan ddenu cyfanswm o 29 o bobl. Mae Tabl 1 yn manylu ar nifer y rhai a oedd yn bresennol yn ôl lleoliad. Cyflwynwyd y gweithdai yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. Nod yr ymgynghoriad oedd ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gyfranogwyr i ddeall eu safbwynt hwy am les ym mhob ardal gymunedol. Mae'r arweiniad trafodaeth ar gyfer y gweithdy ar gael yn Atodiad 2.

Tabl 1 Grwpiau Gweithdy Rhanbarth Abertawe a'r Nifer a oedd yn Bresennol

| Ardal Gymunedol | Lleoliad Cymunedol | Nifer a oedd yn |
|---|---|---|
| Y Bae - Dwyrain | Canolfan Gymunedol Parc Sgeti | 3 |
| Y Bae - Gorllewin | Neuadd Blwyf Pennard | 4 |
| Dinas | Canolfan Gymunedol San Phillip | 7 |
| Dinas | Canolfan Gymunedol Townhill | 11 |
| Cwm Tawe | Canolfan Gymunedol Treforys | 2 |
| Llwchwr | Canolfan Gorseinon | 2 |

*Ffynhonnell: Miller Research (UK) Ltd.*

[24] *Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru [http://participation.cymru/cy/egwyddorion/ <http://www.participationcymru.org.uk/media/288784/national_principles_for_public_engagement_aug1_.pdf >]*

[25] *Roedd cwmpas y cyfranogwyr yn cynnwys: Y Cyhoedd; Pobl hŷn; Pobl y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt; Gofalwyr (h.y: y rhai sy'n darparu gofal a chefnogaeth i deulu a ffrindiau); Dinasyddion â phroblemau iechyd, anableddau corfforol/dysgu neu awtistiaeth a chyflyrau iechyd meddwl; Dinasyddion â nam synhwyraidd (gyda gofalwyr/cyfieithwyr); Pobl â nodweddion a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; Grwpiau eraill gan gynnwys: Ffermwyr Ifanc (yn cynrychioli'r gymuned wledig); Tenantiaid Cymdeithasau Tai.*

Roedd y gweithdai, a oedd yn ymwneud â themâu Deddf LlCD, yn para oddeutu awr. Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn y gweithdy gwblhau holiadur demograffig byr fel rhan o'r ymgynghoriad.

### Ail Adolygiad o Ddeunydd Darllen a Thystiolaeth

Roedd yr ail adolygiad o ddeunydd darllen a thystiolaeth yn cynnwys:

- Ymchwil a dadansoddiad ansoddol credadwy sy'n berthnasol i les dinasyddion yn yr ardal. Er enghraifft, gwerthusiadau, astudiaethau ethnograffig ac astudiaethau achos;
- Tystiolaeth ansoddol wedi'i chasglu o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, gwerthuso gwasanaethau neu ymchwil i faterion lleol, sy'n berthnasol i les lleol;
- Tystiolaeth ansoddol a gafwyd o arolygon dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth sy'n berthnasol i les lleol.

Nodwyd ffynonellau tystiolaeth posib drwy ymgynghori ag arweinwyr polisi a nodwyd drwy aelodau BGC a Grŵp Swyddogion Cynnwys Bae'r Gorllewin, yn ogystal â thystiolaeth ddogfennol arall a gasglwyd o amrywiaeth o ffynonellau a fformatau.

### Grwpiau Ffocws

Cynhaliwyd grwpiau ffocws mewn dwy ysgol uwchradd yn ardal y cyngor (un ysgol Saesneg ac un ysgol Gymraeg). Y nod oedd casglu barn pobl ifanc 10 i 12 oed (ysgol gynradd) ac 16 oed (ysgol uwchradd), gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai sy'n blant sy'n derbyn gofal (PDG).

Roedd pob grŵp ffocws yn cynnwys wyth i ddeng myfyriwr ac yn para oddeutu hanner awr i dri chwarter awr. Cynhaliwyd yr holl waith maes gan roi sylw agos at ganllawiau'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, gan sicrhau y dilynwyd yr holl weithdrefnau diogelu.

Cynhaliwyd dau grŵp ffocws hefyd gyda grwpiau diddordeb arbennig yn ardal y cyngor, a oedd yn cynnwys oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol ac unigolion ifanc digartref. Dilynwyd fformat tebyg ar gyfer y grwpiau hyn, ond gydag arweiniad trafodaeth diwygiedig i gyd-fynd â'u gofynion penodol.

---

26 *Mae'r rhestr hon wedi'i haralleirio o dudalen 18 Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol - Byrddau gwasanaethau cyhoeddus Canllawiau ynghylch y defnydd o dystiolaeth a dadansoddiad, ar gael o: http://gov.wales/topics/improvingservices/public-services-boards/?skip=1&lang=cy*

27 *http://www.hawliauplant.cymru/index.php/cyfranogiad cymru/*

# Atodiad 3 Holiadur Ar-lein

**Arolwg Ar-lein Bae'r Gorllewin: Asesiad Lles a Gofal a Chefnogaeth**

## Rhagarweiniad

Penodwyd Miller Research gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, ar ran CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CBS Castell-nedd Port Talbot, Dinas a Sir Abertawe a Bwrdd Iechyd PABM i gynnal asesiad o anghenion lles, gofal a chefnogaeth pobl yn rhanbarth Bae'r Gorllewin. Darparwyd arian ar gyfer yr asesiad hwn gan Lywodraeth Cymru yn rhanbarthol.

Roedd rhan o'r ymchwil yn cynnwys arolwg byr o bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Diolch i chi ymlaen llaw am wneud ymdrech i gwblhau'r arolwg hwn. Ni ddylai gymryd mwy na deng munud i'w gwblhau.

Sylwer bod yr holl ymatebion yn ddienw, ac adroddir amdanynt ar y cyd gydag ymatebion a dderbyniwyd gan yr holl bobl eraill sy'n byw yn y rhanbarth. Ni chaiff ymatebion unigol eu rhannu â'r cynghorau, y Bwrdd Iechyd nac unrhyw asiantaeth arall (gan gynnwys Llywodraeth Cymru).

Bydd pob ymatebwr yn cael ei gynnwys mewn cystadleuaeth am flwch llysiau organig a gaiff ei ddanfon i'w gartref bob mis am dri mis, fel diolch am roi o'i amser.

## Amdanoch chi

1. Darparwch gôd post eich cartref

2. Ydych chi'n cwblhau'r arolwg hwn fel:

- Aelod o'r cyhoedd
- Aelod o staff mewn Awdurdod Lleol neu Fwrdd Iechyd
- Cynrychiolydd sefydliad o'r Trydydd Sector
- Darparwr gwasanaethau gofal annibynnol
- Parti/grŵp arall â diddordeb (rhowch fanylion______________________)

## Dealltwriaeth o Les

*Y prif reswm am yr arolwg hwn yw deall canfyddiadau pobl o 'les': yr hyn y mae'n ei olygu, a'r hyn sy'n cyfrannu at les. Nid oes atebion cywir neu anghywir, a chedwir yr holl atebion yn gwbl gyfrinachol. Atebwch bob cwestiwn mor onest ag y gallwch. Os cewch drafferth gydag un cwestiwn, ewch ymlaen i'r un nesaf, ond daliwch ati tan y diwedd!*

3. Ydych chi wedi clywed am y term 'lles' cyn heddiw?

Ydw
Nac ydw

Mewn brawddeg, allwch chi ddisgrifio'r hyn y mae'r term 'lles' yn ei olygu i chi. (Meddyliwch am yr hyn y mae'n ei olygu i chi, nid beth arall y gallai ei olygu i eraill)

*Dywedwyd bod 'Lles yn cynnwys y ffactorau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n pennu ansawdd bywyd person".*

4. Gan feddwl am les economaidd neu ariannol:
    (a) Beth mae hyn yn ei olygu neu'n cyfeirio ato, yn eich barn chi?
    (b) Pa bethau yn eich bywyd sy'n cyfrannu fwyaf at eich lles economaidd neu ariannol personol (e.e: cael swydd neu safon byw weddol)?
    (c) Pa DDAU beth allai wella'ch lefel o les economaidd yn eich barn chi?

5. Gan feddwl am les cymdeithasol:
    (a) Beth mae hyn yn ei olygu neu'n cyfeirio ato, yn eich barn chi?
    (b) Pa bethau yn eich bywyd sy'n cyfrannu fwyaf at eich lles cymdeithasol personol (e.e: teimlo'n heini ac yn iach neu gael ffrindiau)?
    (c) Pa DDAU beth allai wella'ch lefel o les cymdeithasol yn eich barn chi?

6. Gan feddwl am les amgylcheddol:
    (a) Beth mae hyn yn ei olygu neu'n cyfeirio ato, yn eich barn chi?
    (b) Pa bethau yn eich bywyd sy'n cyfrannu fwyaf at eich lles amgylcheddol personol (e.e: cael mynediad i fannau agored clir, di-lygredd)?
    (c) Pa DDAU beth allai wella'ch lefel o les amgylcheddol yn eich barn chi?

7. Gan feddwl am les diwylliannol:
    (a) Beth mae hyn yn ei olygu neu'n cyfeirio ato, yn eich barn ?
    (b) Pa bethau yn eich bywyd sy'n cyfrannu fwyaf at eich lles diwylliannol personol (e.e: cyfleoedd gwirfoddoli neu gael y cyfle i ddysgu/ddefnyddio Cymraeg)?
    (c) Pa DDAU beth allai wella'ch lefel o les diwylliannol yn eich barn chi?

### Lles a'r lle rydych chi'n byw

Gan feddwl am yr ardal lle rydych chi'n byw, ystyriwch sut mae eich ardal yn cyfrannu at eich lles personol:

8. Darparwch rai enghreifftiau o bethau yn eich ardal leol a fyddai, yn eich barn chi, yn cyfrannu at eich lles. Gallai hyn gynnwys unrhyw beth, o bobl leol i lendid y strydoedd.

9. Allech chi roi enghreifftiau o unrhyw rwystrau neu bethau yn eich ardal leol sy'n tanseilio'ch lles yn eich barn chi?

10. Allech chi ddisgrifio unrhyw newidiadau rydych yn credu y gellid eu gwneud i'ch ardal leol neu gamau gweithredu penodol y gellid eu cymryd a fyddai'n helpu i gynyddu'ch lefel o les?

## Gofal a chefnogaeth

11. Ydych chi neu'r person rydych yn cwblhau'r arolwg hwn ar ei ran, yn derbyn unrhyw wasanaethau gofal a chefnogaeth ar hyn o bryd?
*Drwy hyn, rydym yn golygu'r gofal a ddarperir gan staff sy'n cael eu talu i'ch helpu (er enghraifft): y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cartref Gofal neu rywun a gyflogir gennych chi/eich teulu gan ddefnyddio Taliad Uniongyrchol).*

- Ydw
- Nac ydw


MILLER Research Evaluation Consulting

- Ddim am ddweud

Os ydych, pa fath o wasanaethau gofal/cefnogaeth ydych chi'n eu derbyn?

12. Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi ar y gwasanaethau gofal a chefnogaeth rydych yn eu derbyn?
    - Bodlon dros ben
    - Eithaf bodlon
    - Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
    - Eithaf anfodlon
    - Anfodlon iawn

Rhowch resymau dros eich ateb

13. Ydych chi wedi teimlo eich bod wedi cael eich cynnwys yn ddigonol mewn penderfyniadau a wneir am eich gofal/cefnogaeth?
    - Ydw
    - Weithiau
    - Nac ydw
    - Ddim yn gwybod

Rhowch resymau dros eich ateb

14. Fyddech chi'n disgrifio'ch hun yn ofalwr neu rywun y mae angen cefnogaeth arno?
    - Byddwn
    - Na fyddwn
    - Ddim am ddweud

15. Os ydych, ydych chi'n teimlo eich bod yn derbyn cefnogaeth ddigonol i gyflawni'ch rôl fel gofalwr?
    - Ydw
    - Weithiau
    - Nac ydw
    - Ddim yn gwybod

Rhowch resymau dros eich ateb

## Adborth a gwaith dilynol

16. Fyddai diddordeb gennych mewn derbyn adborth am yr wybodaeth rydym yn ei chasglu fel rhan o'r ymchwil hon?
Bydd
Na fydd

17. Fyddech chi'n fodlon i ni gysylltu â chi eto yn y dyfodol fel rhan o unrhyw waith dilynol am les?
Byddwn
Na fyddwn

18. Hoffech chi gael eich cynnwys yn y gystadleuaeth i ennill blwch o lysiau organig a gaiff ei ddanfon i'ch cartref bob mis am dri mis?
Hoffwn
Na hoffwn

Os ateboch yn gadarnhaol i gwestiynau 16, 17 a/neu 18, nodwch eich cyfeiriad e-bost

Hoffem eich sicrhau y byddwn yn cysylltu â chi i ddarparu adborth a/neu am waith dilynol yn unig, a/neu os ydych wedi ennill y gystadleuaeth, ac nid am unrhyw reswm arall.

## Mwy o wybodaeth amdanoch chi:

I'n helpu i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau'n deg i bawb y mae eu hangen arnynt, byddem yn ddiolchgar pe gallech ateb ychydig mwy o gwestiynau amdanoch chi'ch hun. Mae'n bwysig ystyried effaith y gwasanaethau gofal a chefnogaeth a lles ar bob dinesydd, a dyna pam rydym yn casglu gwybodaeth fonitro yn seiliedig ar y grwpiau nodweddion gwarchodedig a gaiff eu cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Nid yw'n ofynnol i chi gwblhau'r rhan hon o'r arolwg fel rhan o'r holiadur. Nid oes rhaid i chi ateb unrhyw un o'r cwestiynau os nad ydych am wneud hynny. Fel arall, gallech ddewis ateb rhai ac nid eraill drwy ddewis 'ddim am ddweud'; mewn ymateb i gwestiynau y byddai'n well gennych beidio â'u hateb.

Ni fydd gwybodaeth a allai eich enwi fel unigolyn yn cael ei rhannu ag unrhyw bartïon eraill.

**Tarddiad Ethnig**
Gwyn ☐
Seisnig/Cymreig /Albanaidd/Prydeinig/Gwyddelig - Gogledd Iwerddon☐
Gwyddelig ☐
Sipsi/Teithiwr Gwyddelig ☐
Roma ☐
Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch isod)
___________________________________________
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig ☐
Indiaidd ☐ Pacistanaidd☐
Bangladeshaidd ☐ Tsieineaidd ☐
Cefndir Asiaidd arall (nodwch isod)

Treftadaeth Gymysg/Luosog
Gwyn a Du Caribïaidd ☐
Gwyn a Du Affricanaidd ☐
Gwyn ac Asiaidd ☐
Cefndir cymysg arall (nodwch isod)
___________________________________________
Du ☐
Caribïaidd ☐
Affricanaidd ☐
Cefndir du arall (nodwch isod) ___________________________

Grŵp ethnig arall (nodwch isod)________________________

Dewis peidio â dweud ☐

**Rhyw**
Gwryw ☐ Benyw☐ Arall☐
Dewis peidio â dweud ☐

**Hunaniaeth Rhyw**

Ydych chi'n uniaethu fel trawsryweddol? ☐ Ydw ☐Nac Ydw

Dewis peidio â dweud ☐

**Anabledd**

Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?

☐ Ydw ☐ Nac Ydw

☐Dewis peidio â dweud

Os ydych, disgrifiwch natur eich anabledd

______________________________________________________________

Dewis peidio â dweud ☐

**Statws Perthynas**

Partneriaeth Sifil ☐

Priod ☐

Cyd-fyw ☐

Sengl ☐

Arall (nodwch isod)

______________________________

Dewis peidio â dweud ☐

**Crefydd/Cred**

Dim crefydd ☐

Cristion ☐

Bwdhydd☐

Hindŵ ☐

Iddew ☐

Sîc ☐

Mwslim ☐

Arall (nodwch isod) ___________________________________

Dewis peidio â dweud ☐

**Tueddfryd Rhywiol**

Hoyw/Lesbiaidd☐

Deurywiol☐

Gwahanrywiol/Syth ☐

Arall (nodwch isod) ___________________________

Dewis peidio â dweud ☐

**Ydych chi'n siarad Cymraeg?**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Rwy'n dysgu Cymraeg☐

Dewis peidio â dweud ☐

**I ba un o'r grwpiau oed canlynol rydych chi'n perthyn?**

Dan 16 oed ☐

16 – 17 ☐

18 – 24 ☐

25 – 34 ☐

35 – 44 ☐

45 – 54☐

55 – 64 ☐

65 – 74 ☐

75 – 84 ☐

85 + ☐

Dewis peidio â dweud ☐

## Diolch yn fawr am gwblhau'r arolwg hwn.

Cofiwch fod yr holl ymatebion yn ddienw, ac ni chaiff ymatebion unigol eu rhannu â'r cynghorau, y Bwrdd Iechyd nac unrhyw asiantaeth arall (gan gynnwys Llywodraeth Cymru).

Os oes gennych fwy o gwestiynau am yr ymchwil hon, mae croeso i chi ffonio Claire Kerby yn Miller Research ar 01873 851888 neu e-bostio clairek@miller-research.co.uk

# Atodiad 4 Arweiniad Trafodaeth ar gyfer y Gweithdy

## Rhagarweiniad

Cyflwyno'r asesiad, ei nodau a'r cyd-destun:

- Bydd ymchwil a gomisiynwyd gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr/CBS CNPT/Dinas a Sir Abertawe a'r canfyddiadau o'r ymgynghoriad yn llywio datblygiad cynllun gweithredu i wella lles ym Mhen-y-bont ar Ogwr/CNPT/Abertawe;
- Bydd popeth gaiff ei ddweud yn gyfrinachol ac ni chaiff sylwadau eu priodoli i unigolion na'r grwpiau/sefydliadau maent yn eu cynrychioli;
- Pwysleisiwch nad oes ateb cywir neu anghywir a'n bod am i bobl fod yn agored ac yn onest am eu barn am les;
- Gofynnwch i gyfranogwyr geisio osgoi siarad ar draws ei gilydd;
- Mynnwch ganiatâd i gofnodi'r grŵp ffocws;
- Esboniwch ein bod yn hapus i ddarparu adborth ar y canlyniadau o'r ymgynghoriad ac y byddwn yn trafod cyfleoedd ar gyfer hyn ar ddiwedd y sesiwn;
- Gofynnwch am enw cyntaf pawb.

## Dealltwriaeth o les

*Os yw'r grŵp yn cynnwys defnyddwyr presennol gwasanaethau gofal a chefnogaeth, dylai'r drafodaeth fod yng nghyd-destun:*

- *Yr hyn y mae cyfranogwyr yn ei feddwl am y gofal a'r gefnogaeth maent yn eu derbyn*
- *Beth fyddai'n helpu/beth sydd angen ei newid er mwyn gwella eu hansawdd bywyd*
- *Yr hyn y mae cyfranogwyr yn teimlo y byddai'n atal eu hanghenion rhag dwysáu*

- Esboniwch ein bod am siarad am 'les'
- Archwiliwch eu sylwadau/ymatebion cychwynnol
  - Ydyn nhw wedi clywed y gair hwn yn cael ei ddefnyddio o'r blaen?
  - Beth mae'n ei olygu yn eu barn nhw?
    - Anogwch ddisgrifiad - (efallai'n disgrifio 'lles' i rywun nad yw'n siarad Cymraeg, neu i rywun o blaned arall)
    - Os oes gan rywun 'llawer o les', beth mae hyn yn ei olygu? Beth mae'n ei olygu os nad oes gan rywun lawer o les?

- Rhestrwch enghreifftiau o ffyrdd y caiff lles ei greu (defnyddiwch luniau o gylchgronau i helpu/gyfoethogi fel y bo'n briodol neu yn ôl y galw, ac os yw amser yn caniatáu).

[1] *Defnyddir y math hwn o 'dechneg alldaflol' yn gyffredin mewn ymchwil ansoddol fel ffordd o ysgogi ymatebion. Gall helpu i 'wyro cyfrifoldeb' am yr hyn y mae pobl yn ei ddweud, gan roi mwy o hyder i'r siaradwr leisio'i farn.*

- Archwiliwch deimladau am yr hyn y mae lles yn ei 'olygu' os ydym yn ei rannu i ddarnau gwahanol (dangoswch gardiau fflach, â phob agwedd ar les wedi'i ysgrifennu arnynt h.y. economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol):
- Ymatebion digymell wrth weld y pedwar ohonynt:
  - P'un sy'n golygu fwyaf iddynt/ymddangos yr hawsaf i'w deall a pham *(ysgrifennwch sylwadau ar bapur siart troi)?*
  - P'un sy'n golygu leiaf iddynt/leiaf perthnasol iddynt/ymddangos y mwyaf anodd i'w deall?
  - Gan ystyried y rhai sy'n 'cwympo yn y canol': beth sydd 'fwyaf/lleiaf anodd' i ddeall amdanynt?
- Dangoswch ddiffiniad ysgrifenedig ac archwiliwch lefelau dealltwriaeth (yr hyn maen nhw'n ei feddwl y mae'n ei olygu), a'r perthnasedd iddyn nhw eu hunain
- Os yw'r grŵp yn cynnwys defnyddwyr presennol gwasanaethau gofal a chefnogaeth, dylai'r drafodaeth fod yng nghyd-destun:
  - Yr hyn y mae cyfranogwyr yn ei feddwl am y gofal a'r gefnogaeth maent yn eu derbyn
  - Beth fyddai'n helpu/beth sydd angen ei newid er mwyn gwella eu hansawdd bywyd
  - Yr hyn y mae cyfranogwyr yn teimlo y byddai'n atal eu hanghenion rhag dwysáu

Esboniwch y bydd y drafodaeth nawr yn canolbwyntio ar bob un o'r pedair agwedd a grybwyllwyd uchod, gan ddechrau gyda'r un y teimlwyd bod ganddo'r cysylltiad mwyaf. *(Sylwer bod yn rhaid i ni gofnodi 'pleidleisiau' unigol - h.y: pwy yn union sy'n meddwl bod gan bob 'math' y cysylltiad mwyaf.*

DS: sylwer y bydd trefn yr adrannau canlynol (h.y: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol) yn amrywio yn ôl sut bydd pob grŵp yn pleidleisio. Mae'r cynnwys sy'n dilyn yn adlewyrchu'r angen i nodi gwerthoedd, dyheadau a blaenoriaethau, anghenion (ac atebion) ac asedau cyfredol dinasyddion, fel y cyfeirir atynt yng nghanllawiau anstatudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). [30]

## Lles Cymdeithasol

- Cyfeiriwch at y sylwadau ar y siart troi ac atgrynhoi’r hyn maent wedi'i ddweud
- Beth arall gallai lles cymdeithasol gyfeirio ato?
- Os oes angen, defnyddiwch rai ysgogiadau fel a ganlyn:
  - Rôl ffrindiau/teulu/aelodau o'r gymuned/gweithwyr cefnogi a gofalwyr
  - Teimlo'n annibynnol, cael rheolaeth dros fywyd, cael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau a chyfleusterau
  - Teimlo'n heini ac yn iach
  - Rheoli straen yn dda/foddhaol

---

29 *Er enghraifft, "Y ffactorau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n pennu ansawdd bywyd person" ('diffiniad gweithredol' a ddarparwyd gan Ddinas a Sir Abertawe)*

30 *http://gov.wales/topics/improvingservices/public-services-boards/?skip=1&lang=cy*

  - Yfed alcohol yn anaml/achlysurol yn unig
  - Cael cyfleoedd e.e: am ddysgu, gwaith
- O'r pethau a drafodwyd, beth sydd bwysicaf iddynt?
- P'un o'r pethau hyn sydd ganddynt yn awr? H.y.: pa bethau yn eu bywyd ar hyn o bryd sy'n cyfrannu at eu lles cymdeithasol eu hunain?
- Pa bethau allai wella eu lefel o les cymdeithasol yn eu barn nhw?

### Lles Economaidd

- Cyfeiriwch at y sylwadau ar y siart troi ac atgrynhoi’r hyn maent wedi'i ddweud
- Beth arall y gallai lles economaidd gyfeirio ato?
- Os oes angen, defnyddiwch rai ysgogiadau fel a ganlyn:
  - Cael safon bywyd 'gweddol'
  - Cael swydd (y maent yn ei mwynhau)
  - Cael yr addysg/sgiliau angenrheidiol ar gyfer gwaith
- O'r pethau a drafodwyd, beth sydd bwysicaf iddynt?
- P'un o'r pethau hyn sydd ganddynt yn awr? h.y: pa bethau yn eu bywyd ar hyn o bryd sy'n cyfrannu at eu lles economaidd?
- Pa bethau allai wella'u lefel o les economaidd yn eu barn nhw?

### Lles Amgylcheddol

- Cyfeiriwch at y sylwadau ar y siart troi ac atgrynhoi’r hyn maent wedi'i ddweud
- Beth arall y gallai lles amgylcheddol gyfeirio ato?
- Os oes angen, defnyddiwch rai ysgogiadau fel a ganlyn:
  - Bod yn ymwybodol o ailgylchu, defnyddio ynni a gofalu am yr amgylchedd.
  - Cael mynediad i fannau agored clir, di-lygredd.
- O'r pethau a drafodwyd, beth sydd bwysicaf iddynt?
- P'un o'r pethau hyn sydd ganddynt yn awr? H.y.: pa bethau yn eu bywyd ar hyn o bryd sy'n cyfrannu at eu lles amgylcheddol?
- Pa bethau allai wella'u lefel o les amgylcheddol yn eu barn nhw?

### Lles Diwylliannol

---

31 *Mae hyn yn cynnwys yr angen i nodi gwerthoedd, dyheadau a blaenoriaethau dinasyddion.*
32 *Mae hyn yn cynnwys yr angen i nodi asedau dinasyddion.*
33 *Mae hyn yn cynnwys yr angen i nodi anghenion dinasyddion. ac atebion posib (DLlCD) ac anghenion ardal a pha wasanaethau y mae eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny (SSWA).*
34 *Mae hyn yn cynnwys yr angen i nodi gwerthoedd, dyheadau a blaenoriaethau dinasyddion.*
35 *Mae hyn yn cynnwys yr angen i nodi asedau dinasyddion.*
36 *Mae hyn yn cynnwys yr angen i nodi anghenion dinasyddion, ac atebion posib (DLlCD) ac anghenion ardal a pha wasanaethau y mae eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny (SSWA).*
37 *Mae hyn yn cynnwys yr angen i nodi gwerthoedd, dyheadau a blaenoriaethau dinasyddion.*
38 *Mae hyn yn cynnwys yr angen i nodi asedau dinasyddion.*
39 *Mae hyn yn cynnwys yr angen i nodi anghenion dinasyddion, ac atebion posib (DLlCD) ac anghenion ardal a pha wasanaethau y mae eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny (SSWA).*

- Cyfeiriwch at y sylwadau ar y siart troi ac atgrynhoi’r hyn maent wedi'i ddweud
- Beth arall y gallai lles diwylliannol gyfeirio ato?
- Os oes angen, defnyddiwch rai ysgogiadau fel a ganlyn:
    - Gwirfoddoli
    - Mynd i'r sinema/bingo/theatr
    - Bod yn aelod o sefydliad crefyddol
    - Mynd allan (neu gymryd rhan) i fwynhau cerddoriaeth/perfformiadau o ryw fath (e.e. cyngerdd, opera, dawns, bale) a/neu deithiau i safleoedd hanesyddol neu ddiwylliannol
    - Defnyddio'r llyfrgell leol
    - Cymryd rhan mewn chwaraeon
    - Bod yn rhan o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru/cael cyfle i ddysgu/siarad Cymraeg.
- O'r pethau a drafodwyd, beth sydd bwysicaf iddynt?
- P'un o'r pethau hyn sydd ganddynt yn awr? H.y.: pa bethau yn eu bywyd ar hyn o bryd sy'n cyfrannu at eu lles diwylliannol?
- Pa bethau allai wella'u lefel o les diwylliannol yn eu barn nhw?

## Sut mae'r ardal leol yn helpu eu lles

- Pa wasanaethau a chyfleusterau a ddarperir yn yr ardal leol sy'n cyfrannu at eu lles?
- P'un o'r rhain sydd bwysicaf/lleiaf pwysig a pham?
- Pe gallent gael rhai o'r gwasanaethau hyn, pa rai y bydden nhw'n eu cadw a pham?
- Ac eithrio'u hunain, pwy sy'n elwa o'r gwasanaethau hyn? Sut?
- **Yn olaf**, gan ddychwelyd i'w holiadur cychwynnol, sut gallent symud yn uwch i fyny'r sgoriau boddhad? Beth byddai'n rhaid iddyn nhw ei wneud, a pha help fyddai ei angen arnynt?
- Unrhyw sylwadau i gau'r drafodaeth?

## Adborth a gwaith dilynol

A fyddai diddordeb ganddynt mewn derbyn adborth am yr wybodaeth rydym yn ei chasglu fel rhan o'r ymchwil hon?

(Os byddai, nodwch gyfeiriadau e-bost/rhifau ffôn)

A fydden nhw'n barod i chi gysylltu â hwy eto yn y dyfodol fel rhan o unrhyw waith dilynol am les?

(Os byddent, nodwch gyfeiriadau e-bost/rifau ffôn)

## Diolch a gorffen

# Atodiad 5 Ffynonellau a ddefnyddiwyd ar gyfer Dadansoddiad Eilaidd

40 *Mae hyn yn cynnwys yr angen i nodi gwerthoedd, dyheadau a blaenoriaethau dinasyddion.*
41 *Mae hyn yn cynnwys yr angen i nodi asedau dinasyddion.*
42 *Mae hyn yn cynnwys yr angen i nodi anghenion dinasyddion ac atebion posib.*

| **Gwybodaeth am y Ddogfen** | **Math o Ddata** | **Nifer y bobl a gynhwyswyd/yr ymgynghorwyd â hwy** | **Ardaloedd Daearyddol a Gynhwyswyd** | **Dull Cynnwys/ Ymgynghori** | **Categorïau Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant** |
|---|---|---|---|---|---|
| Arolwg Tadau Cymru 2016. Both Parents Matter Cymru. Both Parents Matter | Ansoddol a Meintiol | 219 | Cymru | Arolwg o aelodau | Pob grŵp |
| Cyd-gynllun Trafnidiaeth ar gyfer De-Orllewin Cymru | Ansoddol a Meintiol | 45 o ymatebion | Bae'r Gorllewin | Adborth ysgrifenedig ar y ddogfen ymgynghori | Pob grŵp |
| Strategaeth ar gyfer Darparu Gwybodaeth i Ofalwyr ac Ymgynghori â Hwy PABM 2013-16 | Ansoddol a Meintiol | Heb ei nodi | Bae'r Gorllewin | Holiaduron a digwyddiadau | Gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt |
| Crynodeb o ymgysylltu â gofalwyr a gofalwyr ifanc yn Abertawe (6 dogfen/darn) | Ansoddol | Heb ei ddarparu | Abertawe | Holiaduron a gweithdai | Gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Reoliadau Addysg Uwch | Ansoddol yn unig | Heb ei nodi | Bae'r Gorllewin | Heb ei nodi | Gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt |
| Crynodeb o fersiwn ddrafft yr Arolwg Ciplun Gwerthfawrogi Gofalwyr | Ansoddol a Meintiol | 66 | Bae'r Gorllewin | Holiadur | Gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt |
| Adolygiad Comisiynu Anabledd Corfforol | Ansoddol yn unig | Heb ei nodi | Abertawe | Gweithdai | Anabledd Iechyd a Chorfforol |
| Adolygiad Abertawe o'r Model Gwaith Cymdeithasol. Adborth gan bobl anabl. | Ansoddol yn unig | Heb ei nodi | Abertawe | | Anabledd Iechyd a Chorfforol |
| Adroddiad Rhaglen De Cymru am Holiadur Cynnwys 2013 a darn o adroddiad o gyfarfodydd cyhoeddus (2 ddogfen) | Ansoddol a Meintiol | 859 o PABM o gyfanswm o 1207 | Cymru | Holiadur papur ac ar-lein | Anabledd Iechyd a Chorfforol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymateb y Cyngor Iechyd Cymunedol i Newid er Gwell ac adroddiad am y dadansoddiad o'r arolwg (2 ddogfen) | Ansoddol a Meintiol | 123? | Bae'r Gorllewin | Holiadur | Anabledd Iechyd a Chorfforol |
| Newid er Gwell<br>Y Canlyniadau:<br>Darn o ddogfen PowerPoint | Ansoddol yn unig | Ni cheir cyfeiriad iddo | Bae'r Gorllewin | Gweithdai | Anabledd Iechyd a Chorfforol |
| Ymgynghoriad Strategaeth Anabledd Dysgu Bae'r Gorllewin 2014 | Ansoddol yn unig | Ni cheir cyfeiriad uniongyrchol ato | Bae'r Gorllewin | Gweithdy | Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth |
| Adolygiad o Strategaeth Gomisiynu Anabledd Dysgu,<br>Proses Gydgynhyrchu 2015-16 (darparwyd 19 dogfen, ond heb drosolwg clir) | Ansoddol yn unig | Ni cheir cyfeiriad uniongyrchol ato | Abertawe | Gweithdy | Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth |
| Ymgynghoriad Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl i Oedolion; Diwrnod Dweud eich Dweud 2014 a 2015 | Ansoddol yn unig | Heb ei darparu | Bae'r Gorllewin | Gweithdy a holiadur i randdeiliaid | Iechyd Meddwl |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin Strategaeth Gomisiynu Camddefnyddio Sylweddau 2016-20 | Ansoddol yn unig | Heb ei nodi | Bae'r Gorllewin | Gweithdy | Iechyd Meddwl |
| Cynllun Comisiynu Abertawe ar gyfer y Gwasanaethau Iechyd Meddwl 2011-14 (3 dogfen) | Ansoddol yn unig | Ni cheir cyfeiriad uniongyrchol ato | Abertawe | Gweithdy i randdeiliaid | Iechyd Meddwl |
| Proses Gydgynhyrchu Adolygiad Comisiynu Iechyd Meddwl 2016 (2 ddogfen) | Ansoddol yn unig | Ni cheir cyfeiriad uniongyrchol ato | Abertawe | Gweithdy ac adolygiad gan randdeiliaid | Iechyd Meddwl |
| Triniaeth Deg i Fenywod Cymru - cyflwyniad | Ansoddol yn unig | 300 o aelodau ar draws Cymru - nid yw'n glir sawl person yn benodol y cysylltwyd ag ef o Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. | Bae'r Gorllewin | Holiadur ar-lein | Amryfal grwpiau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Adolygiad comisiynu gofal preswyl, gofal cartref a gofal dydd (gofal preswyl yn unig ar gael ar hyn o bryd). Pum dogfen | Ansoddol | Heb ei ddarparu | Abertawe | Gweithdy | Pobl hŷn |
| Prosiect gwrando'r bobl hŷn (yn cynnwys ardal Bwrdd Iechyd Cwm Taf ond mae'n darparu methodoleg ddefnyddiol). Cyhoeddwyd gan Interlink | Meintiol yn unig | dd/b | Cymru | Methodoleg bwrpasol | Pobl hŷn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Bae'r Gorllewin: Cyflwyno Gwasanaethau Cymunedol Gwell: Adroddiad Ymgynghori Heneiddio'n Dda ym Mhen-y-bont ar Ogwr (Arolwg Ansoddol); Castell-nedd Port Talbot: Lle gwych i fyw ynddo yn ddiweddarach mewn bywyd; Arolwg Heneiddio'n Dda (Abertawe) 4 dogfen | Ansoddol yn unig | Penybont: 294<br>Abertawe: 73 | Bae'r Gorllewin | Amrywiol | Pobl hŷn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn 2016 – 2025 oed | Ansoddol yn unig | Heb ei nodi | Bae'r Gorllewin | Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft: • Digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf ac a fynychwyd gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys yr awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd a staff o'r trydydd sector, darparwyr cartrefi gofal, cynghorau pobl hŷn a gofalwyr.<br>• E-arolwg a gyhoeddwyd ar-lein drwy amrywiaeth o fforymau.<br>• E-byst a galwadau ffôn uniongyrchol yn bwydo barn yn ôl | Pobl hŷn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwerthusiad o Ofal Canolraddol: Adroddiad Ffurfiannol 2016 | Ansoddol yn unig | 20 o ddefnyddwyr sylfaenol a 7 gofalwr | Bae’r Gorllewin | Cyfweliad 1:1 | Pobl hŷn |
| Accessing and Paying for Social Care in Wales: A People’s Perspective | Ansoddol a Meintiol | Ni cheir cyfeiriad uniongyrchol ato | Bae'r Gorllewin | Adolygiad o dystiolaeth ac ymchwil annibynnol ychwanegol | Pobl hŷn |